# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 02/02/2016

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Diweddariad ar Tata Steel
3. Statement: Update on Tata Steel

4. Y Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2016
4. The Smoke-free Premises etc. (Wales) (Amendment) Regulations 2016

Datganiad y Gweinidog ynghylch Cydsyniad y Frenhines Ei Mawrhydi a Dug Cernyw
Minister's Statement regarding Her Majesty the Queen's and the Duke of Cornwall's Consent

5. Dadl Cyfnod 4 ar Fil yr Amgylchedd (Cymru)
5. Stage 4 Debate on the Environment (Wales) Bill

7. Dadl Cyfnod 3 ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
7. Stage 3 Debate on the Historic Environment (Wales) Bill


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

# 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

# 1. Questions to the First Minister

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first item this afternoon is questions to the First Minister. Question 1, Lynne Neagle.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma. Cwestiwn 1, Lynne Neagle.

### Diwygiadau Lles

### Welfare Reform

13:31

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch effaith diwygiadau lles ar Gymru? OAQ(4)2698(FM)*

*1. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the impact of welfare reform on Wales? OAQ(4)2698(FM)*

13:31

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Welsh Ministers have regular contact with UK Ministers on the welfare reform agenda and the impacts for people in Wales. Welsh Government officials work closely with officials from the Department for Work and Pensions on the welfare benefit changes as they are implemented across Wales in order to protect Welsh people from them.

Mae Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â Gweinidogion y DU am yr agenda diwygio lles a'r effeithiau ar bobl yng Nghymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda swyddogion o'r Adran Gwaith a Phensiynau ar y newidiadau i fudd-daliadau lles wrth iddynt gael eu rhoi ar waith ledled Cymru er mwyn amddiffyn pobl Cymru rhagddynt.

13:31 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last week, the Court of Appeal ruled that the UK Government's bedroom tax amounted to unlawful discrimination following two cases, including one brought by a family from Wales with a disabled child. The UK Government now plans to take this matter to the Supreme Court—a decision that has been met with condemnation and disbelief. Will you raise this matter with the UK Government on behalf of all those affected in Wales by this spiteful policy, and would you agree with me that if this Tory Government had one shred of decency, they would abandon this appeal and stop persecuting disabled children and their families and all vulnerable people?

Yr wythnos diwethaf, dyfarnodd y Llys Apêl bod treth ystafell wely Llywodraeth y DU yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon yn dilyn dau achos, gan gynnwys un a ddygwyd gan deulu o Gymru â phlentyn anabl. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu mynd â'r mater hwn i'r Goruchaf Lys nawr—penderfyniad a gondemniwyd ac a dderbyniwyd ag anghrediniaeth. A wnewch chi godi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU ar ran pawb sy'n cael eu heffeithio yng Nghymru gan y polisi sbeitlyd hwn, ac a fyddech chi'n cytuno â mi, pe byddai gan y Llywodraeth Doriaidd hon unrhyw barch o gwbl, y byddai'n tynnu'r apêl hon yn ôl ac yn rhoi'r gorau i erlid plant anabl a'u teuluoedd a'r holl bobl sy'n agored i niwed?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. I can assure the Member that I have written today to the Secretary of State for Work and Pensions, calling on him to abandon any appeal and calling on him to ensure that there is no discrimination against those who were part of the court case last week, those who have been the victims of domestic violence, and those, in fact, caring for disabled children. Unfortunately, the UK Government has taken the view that it wants to appeal. It has admitted discrimination against disabled children and yet now it wants to appeal to the Supreme Court. I'm afraid it's a sign of a Government that is a bad loser with no conscience.

Yn sicr. A gaf i sicrhau'r Aelod fy mod i wedi ysgrifennu heddiw at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, yn galw arno i roi'r gorau i unrhyw apêl ac yn galw arno i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn y rhai a oedd yn rhan o'r achos llys yr wythnos diwethaf, y rhai sydd wedi dioddef trais yn y cartref, a'r rhai, a dweud y gwir, sy'n gofalu am blant anabl. Yn anffodus, mae Llywodraeth y DU wedi cymryd y safbwynt ei bod eisiau apelio. Mae wedi cyfaddef gwahaniaethu yn erbyn plant anabl ac eto mae eisiau apelio i'r Goruchaf Lys nawr. Rwy'n ofni ei fod yn arwydd o Lywodraeth sy'n gollwr gwael heb unrhyw gydwybod.

13:33 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Public Policy Institute for Wales report on the impact of welfare reforms on housing, as I'm sure you know, identifies a lack of appropriate homes for tenants to be able to downsize to. Why, given that Homes for All Cymru warned Welsh Government a decade before the removal of the spare-room subsidy of a housing crisis, and the UK Government announced guidance on removing the spare-room subsidy two years before it went, did Welsh Government cut the supply of new social housing by 70 per cent and fail to invest in smaller homes until after the changes had come into effect?

Mae adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ar effaith diwygiadau lles ar dai, fel yr wyf yn siŵr y gwyddoch, yn nodi'r diffyg o ran tai llai o faint priodol i denantiaid allu symud iddynt. Pam, o gofio bod Cartrefi i Bawb Cymru wedi rhybuddio Llywodraeth Cymru am argyfwng tai ddegawd cyn cael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr, a bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau ar gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr ddwy flynedd cyn iddo fynd, wnaeth Llywodraeth Cymru dorri'r cyflenwad o dai cymdeithasol newydd gan 70 y cant a methu â buddsoddi mewn cartrefi llai tan ar ôl i'r newidiadau ddod i rym?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

He stands there and defends discrimination against disabled children. He fails to condemn his own party for what it has done to the parents of a child who is disabled and others. He fails to explain why it is that those who are victims of domestic violence should be penalised financially by his party, and tries to shift the blame onto us as a Government. It was his party who introduced this policy in the first place, his party who launched their own little private war against disabled children, his party who discriminated against those who are the victims of domestic violence, and his party who must explain to the people of Wales, and the people of Britain, why it is that they now want to put those people through even more pain by appealing to the Supreme Court rather than accepting defeat, as any party with any conscience would do.

Mae'n sefyll yn y fan yna ac yn amddiffyn gwahaniaethu yn erbyn plant anabl. Mae'n methu â chondemnio ei blaid ei hun am yr hyn y mae wedi'i wneud i rieni plentyn sy'n anabl ac eraill. Mae'n methu ag esbonio pam y dylai'r rhai sy'n dioddef trais yn y cartref gael eu cosbi'n ariannol gan ei blaid, ac mae'n ceisio rhoi'r bai arnom ni fel Llywodraeth. Ei blaid ef gyflwynodd y polisi hwn yn y lle cyntaf, ei blaid ef lansiodd eu rhyfel bach preifat eu hunain yn erbyn plant anabl, ei blaid ef wahaniaethodd yn erbyn y rhai sy'n dioddef trais yn y cartref, a'i blaid ef sy'n gorfod esbonio i bobl Cymru, a phobl Prydain, pam mae eisiau rhoi'r bobl hynny trwy hyd yn oed mwy o boen nawr trwy apelio i'r Goruchaf Lys yn hytrach na derbyn eu bod wedi colli, fel y byddai unrhyw blaid â chydwybod yn ei wneud.

13:34 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Fel rhan o'r ymdrechion i warchod pobl Cymru, ydy Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymchwil i fesur effaith y newidiadau hyn ar y gyfundrefn les ac, os felly, a yw'r dadansoddiad a'r dystiolaeth ar gael ar lefel sirol

As part of the efforts to stand up for the people of Wales, has the Welsh Government done any research to measure the impact of these changes on the welfare system and, if so, is that analysis and evidence available at a county or constituency level?

13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, wrth gwrs, mae ystadegau yn cael eu cynnal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nid ydynt yn torri'r ffigurau i lawr er mwyn inni wybod, er enghraifft, beth yw'r sefyllfa leol a hefyd y sefyllfa ynglŷn â faint sy'n mynd i gael eu heffeithio ar ôl y dyfarniad yr wythnos diwethaf. Rydym ni yn gwybod bod yna 29,987 o bobl yng Nghymru sydd wedi cael eu heffeithio gan doriadau yn y budd-daliad, ac rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, fod hyn yn rhywbeth sydd wedi effeithio yn fawr arnyn nhw. Ac, felly, fe fydd yr Aelod yn gwybod ein bod ni'n anghytuno yn llwyr â'r ffaith eu bod nhw nawr eisiau apelio yn erbyn dyfarniad y llys yr wythnos diwethaf, ac, wrth gwrs, yn para ymlaen i redeg y frwydr hon yn erbyn pobl sydd yn edrych ar ôl plant anabl.

Of course, the statistics are held by the Department for Work and Pensions, and they don't actually break down the figures so that we would know what the local position would be or how many people will be impacted after last week's judgment. But we do know that there are 29,987 people affected in Wales by cuts to this benefit, and we know that this is something that has had a major impact on them. So, as the Member will know, we disagree completely with the fact that they now want to appeal the court judgment last week and that they are continuing to fight this battle against carers of disabled children.

13:36 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

My supplementary was going to be exactly along the lines of Lynne Neagle's, and I very much appreciate the robust response of our First Minister this afternoon.

Roedd fy nghwestiwn atodol yn mynd i fod ar union yr un pwnc â chwestiwn Lynne Neagle, ac rwy'n gwerthfawrogi'n fawr iawn ymateb cadarn ein Prif Weinidog y prynhawn yma.

13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I thank the Member for that. It's a great shame that, on this issue, once again, the Welsh Conservatives simply sit there and say nothing to defend disabled children and their carers and those who are the victims of domestic violence.

Wel, diolchaf i'r Aelod am hynna. Mae'n drueni mawr bod Ceidwadwyr Cymru, ar y mater hwn, unwaith eto, ddim ond yn eistedd yn y fan yna ac yn dweud dim i amddiffyn plant anabl a'u gofalwyr a'r rhai sy'n dioddef trais yn y cartref.

## Cefnogaeth Economaidd (Canol De Cymru)

## Economic Support (South Wales Central)

13:36 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth economaidd Llywodraeth Cymru i Ganol De Cymru? OAQ(4)2695(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on Welsh Government economic support for South Wales Central? OAQ(4)2695(FM)*

13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We are delivering a range of interventions that support jobs and growth across Wales, investing in infrastructure support for business and skills.

Gwnaf. Rydym ni'n darparu amrywiaeth o ymyriadau sy'n cefnogi swyddi a thwf ledled Cymru, gan fuddsoddi mewn cefnogaeth seilwaith ar gyfer busnes a sgiliau.

13:36 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, First Minister. One of the key planks, obviously, for South Wales Central is the city deal, for which submissions have been made from Welsh Government and the local authorities. The Chancellor, in his speech to the Cardiff Business Club, indicated that he'd like to see a deal concluded by the March budget. Are you able to update us as to the discussions that are ongoing around this issue, because I'm sure that not just I as an elected Member for South Wales Central, but all residents of South Wales Central would like to see this deal concluded by that deadline that the Chancellor has set?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Un o'r sylfeini allweddol, yn amlwg, i Ganol De Cymru yw'r cytundeb dinas, y mae cyflwyniadau wedi eu gwneud ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol. Nododd y Canghellor, yn ei araith i Glwb Busnes Caerdydd, yr hoffai weld cytundeb erbyn cyllideb mis Mawrth. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y trafodaethau sydd ar y gweill ar y mater hwn, gan fy mod i'n siŵr yr hoffai holl drigolion Canol De Cymru, yn ogystal â minnau fel Aelod etholedig dros Ganol De Cymru, weld y cytundeb hwn yn cael ei wneud erbyn y terfyn amser y mae'r Canghellor wedi ei bennu?

13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

There is no reason why a deal can't be concluded. We have put £580 million-worth of money—of new money—on the table. The local authorities have made their commitments as well. We now await the response of the UK Treasury so that we can seal the deal.

Nid oes unrhyw reswm pam na ellir dod i gytundeb. Rydym ni wedi rhoi gwerth £580 miliwn o arian—o arian newydd—ar gael. Mae'r awdurdodau lleol wedi gwneud eu hymrwymiadau hwythau hefyd. Rydym ni'n aros nawr am ymateb Trysorlys y DU fel y gallwn selio'r cytundeb.

13:37 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

This morning, First Minister, I chaired a seminar on apprenticeships in Wales, where attendees were reminded that half the apprenticeships in Wales were delivered with the support of European Social Fund money—it's critical to boosting the economy in Wales, and delivering on our skills agenda. First Minister, would you agree with me that ESF is currently vital to supporting the Welsh economy, that it's one of a number of indicators that demonstrate the importance of European Union membership to Wales, and that it can be used effectively to boost skill levels through programmes such as apprenticeships, and working with employers, further education and learners to boost the economy of Wales?

Y bore yma, Brif Weinidog, cadeiriais seminar ar brentisiaethau yng Nghymru, pryd yr atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol bod hanner y prentisiaethau yng Nghymru yn cael eu darparu gyda chymorth arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop—mae'n hanfodol i hybu'r economi yng Nghymru, ac i gyflawni ein hagenda sgiliau. Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi bod Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn hollbwysig ar hyn o bryd i gefnogi economi Cymru, ei bod yn un o nifer o ddangosyddion sy'n dangos pwysigrwydd aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i Gymru, ac y gellir ei defnyddio'n effeithiol i hybu lefelau sgiliau trwy raglenni fel prentisiaethau, a gweithio gyda chyflogwyr, addysg bellach a dysgwyr i hybu economi Cymru?

13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I very much agree with what the Member has said. He will know, of course, the fact that European money has been used, for example, in Jobs Growth Wales, and we know that it's made a substantial contribution to the opportunities for young people the length and breadth of this nation. Without that money, it's right to say that training would not be available and those people would not have the skills and hope that they have now.

Rwyf yn llwyr gytuno â'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud. Bydd yn gwybod, wrth gwrs, y ffaith fod arian Ewropeaidd wedi ei ddefnyddio, er enghraifft, yn Nhwf Swyddi Cymru, a gwyddom ei fod wedi gwneud cyfraniad sylweddol at y cyfleoedd i bobl ifanc ar hyd a lled y wlad hon. Heb yr arian hwnnw, mae'n iawn i ddweud na fyddai hyfforddiant ar gael ac na fyddai gan y bobl hynny y sgiliau a'r gobaith sydd ganddyn nhw erbyn hyn.

13:38 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, would you agree with me that one of the key things to ensure that the Welsh economy is secure in the future is to enable our small businesses to grow and become the medium-sized businesses of the future, and that there is, therefore, an opportunity in the redevelopment of the Welsh development bank to bring together both funding and support for small businesses into one place, where small businesses can make use of it?

Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi mai un o'r pethau allweddol i sicrhau bod economi Cymru yn ddiogel yn y dyfodol yw galluogi ein busnesau bach i dyfu a throi'n fusnesau canolig eu maint yn y dyfodol, a bod cyfle, felly, yn ailddatblygiad banc datblygu Cymru i ddod â chyllid a chymorth at ei gilydd ar gyfer busnesau bach i un lle, lle y gall busnesau bach wneud defnydd ohono?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I think there certainly is an attraction in the idea of making sure that there is a one-stop shop. I agree with her on that. And we have worked very closely with organisations supporting small businesses, to make sure that they are supported. We know, for example, that the small business rate relief scheme has had an enormous positive impact on many businesses, particularly, but not exclusively, on those with a rateable value of under £6,000 a year.

Byddwn, rwy'n credu bod y syniad o wneud yn siŵr bod siop un stop ar gael yn sicr yn atyniadol. Rwy'n cytuno â hi ar hynny. Ac rydym ni wedi gweithio'n agos iawn gyda sefydliadau sy'n cefnogi busnesau bach, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi. Rydym ni'n gwybod, er enghraifft, fod y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar lawer o fusnesau, yn enwedig, ond nid yn unig, ar y rhai â gwerth ardrethol o lai na £6,000 y flwyddyn.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party leaders, and, first this afternoon, the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, last November, I asked you about funding for child and adult mental health services. At that time, I wanted assurances from you that funding for mental health services had not been cut. I received information from the health boards that shows that some health boards have cut both budgets and staff numbers between 2011-12 and 2014-15. Can you tell us, please: was this done with the approval of your Government?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, fis Tachwedd diwethaf, gofynnais i chi am gyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion. Ar y pryd, roeddwn i eisiau sicrwydd gennych chi nad oedd cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi cael ei dorri. Derbyniais wybodaeth gan y byrddau iechyd sy'n dangos bod rhai byrddau iechyd wedi torri cyllidebau a niferoedd staff rhwng 2011-12 a 2014-15. A allwch chi ddweud wrthym, os gwelwch yn dda: a wnaed hyn gyda chymeradwyaeth eich Llywodraeth?

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. As I explained to the leader of Plaid Cymru in November, we ring-fenced money for mental health. We put extra money into child and adolescent mental health, as well, and we expect the local health boards to use that money for the purpose intended.

Naddo. Fel yr eglurais i arweinydd Plaid Cymru ym mis Tachwedd, neilltuwyd arian gennym ar gyfer iechyd meddwl. Rhoddwyd arian ychwanegol gennym i mewn i iechyd meddwl plant a'r glasoed, hefyd, ac rydym ni'n disgwyl i'r byrddau iechyd lleol ddefnyddio'r arian hwnnw at y diben a fwriadwyd.

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Well, First Minister, there have been cuts, and the Mental Health (Wales) Measure 2010, which was passed by this Assembly, supported by both of our parties, was meant to make sure that mental health services were not easy targets for cost cutting. We know that the audit office, back in 2011, expressed concern, and they said that the arrangements to ring-fence mental health funding have:

'lacked clarity, cannot be easily monitored and may not have been complied with'.

Are you concerned, First Minister, that you appear to be in charge of a Government that doesn't know what its health boards have been doing and whether or not they have been complying with the spirit of your Government's legislation?

Wel, Brif Weinidog, bu toriadau, ac roedd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a basiwyd gan y Cynulliad hwn, a gefnogwyd gan ein dwy blaid, i fod i wneud yn siŵr nad yw gwasanaethau iechyd meddwl yn dargedau hawdd ar gyfer torri costau. Rydym ni'n gwybod bod y swyddfa archwilio, yn ôl yn 2011, wedi mynegi pryder, a dywedodd y canlynol am y trefniadau i neilltuo cyllid iechyd meddwl:

ceir diffyg eglurder, ni ellir eu monitro'n hawdd ac efallai na chydymffurfiwyd â nhw.

A ydych chi'n pryderu, Brif Weinidog, ei bod yn ymddangos eich bod yn arwain Llywodraeth nad yw'n gwybod beth y mae ei byrddau iechyd wedi bod yn ei wneud a pha un a ydyn nhw wedi bod yn cydymffurfio ag ysbryd deddfwriaeth eich Llywodraeth?

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We know that the health boards have been complying with the spirit of the legislation and the funding. I've spoken myself to practitioners who work in CAMHS, and they have been at pains to tell me how much more money is now available to assist them. We know that demand has gone up, and their experience is that the finance is increasing and we see that across the whole of Wales.

Rydym ni'n gwybod bod y byrddau iechyd wedi bod yn cydymffurfio ag ysbryd y ddeddfwriaeth a'r cyllid. Rwyf wedi siarad fy hun ag ymarferwyr sy'n gweithio yn CAMHS, ac maen nhw wedi bod yn awyddus iawn i ddweud wrthyf faint yn fwy o arian sydd ar gael i'w cynorthwyo erbyn hyn. Rydym ni'n gwybod bod galw wedi cynyddu, a'u profiad nhw yw bod y cyllid yn cynyddu ac rydym ni'n gweld hynny ar draws Cymru gyfan.

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The investment that you've announced for mental health services is about reversing the cuts that you've previously made, rather than about investing in and expanding services. First Minister, you have failed to protect mental health services, which means that children are waiting longer for treatment. Just in the same way as there are too many people waiting for some basic diagnostic tests, just in the same way as you've missed targets for cancer and waiting times for treatment for some very serious diseases, they are way too long. Will you now accept, First Minister, and are you now prepared to admit that you've got it badly wrong on health?

Diben y buddsoddiad yr ydych chi wedi ei gyhoeddi ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yw gwrthdroi'r toriadau i chi eu gwneud yn y gorffennol, yn hytrach na buddsoddi mewn gwasanaethau a'u hehangu. Brif Weinidog, rydych chi wedi methu ag amddiffyn gwasanaethau iechyd meddwl, sy'n golygu bod plant yn aros yn hwy am driniaeth. Yn yr un modd ag y mae gormod o bobl yn aros am rai profion diagnostig sylfaenol, yn yr un ffordd ag yr ydych chi wedi methu targedau ar gyfer canser ac amseroedd aros am driniaeth ar gyfer rhai clefydau difrifol iawn, maen nhw'n llawer rhy hir. A wnewch chi dderbyn nawr, Brif Weinidog, ac a ydych chi'n barod i gyfaddef nawr, eich bod wedi cael pethau'n anghywir iawn o ran iechyd?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, we've protected mental health spending and we increased it for child and adolescent mental health services when the demand was there. So, we've made sure that it's properly funded. We see diagnostic waits coming down; we see ambulance response rates improving; we see waiting times dropping; we see delayed transfers of care dropping while they're going the other way in England. No, we have ensured that health receives more money per head in Wales than is the case in England; more money by far per head on health and social services combined than in England. We see, now, what's happening in England with social services, and the collapse of social services there, which gives me no particular pleasure to say. But we have done right by those, especially young people, who are suffering from mental health issues, and the extra funding for CAMHS shows that.

Yn gyntaf oll, rydym ni wedi diogelu gwariant ar iechyd meddwl ac wedi ei gynyddu ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed pan oedd y galw yno. Felly, rydym ni wedi gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ariannu'n briodol. Rydym ni'n gweld amseroedd aros diagnostig yn lleihau; rydym ni'n gweld cyfraddau ymateb ambiwlansys yn gwella; rydym ni'n gweld amseroedd aros yn lleihau; rydym ni'n gweld oedi wrth drosglwyddo gofal yn lleihau tra eu bod yn mynd y ffordd arall yn Lloegr. Na, rydym ni wedi sicrhau bod iechyd yn cael mwy o arian fesul pen yng Nghymru nag sy'n wir yn Lloegr; mwy o arian o bell ffordd fesul pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi'u cyfuno nag yn Lloegr. Rydym yn gweld, nawr, yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr gyda gwasanaethau cymdeithasol, a chwalfa gwasanaethau cymdeithasol yno, nad yw'n rhoi unrhyw bleser arbennig i mi ei ddweud. Ond rydym ni wedi gwneud y peth iawn i'r rhai, yn enwedig pobl ifanc, sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, ac mae'r cyllid ychwanegol i CAMHS yn dangos hynny.

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, new figures from the National House Building Council show the number of new homes registered in Wales fell last year by 2 per cent, compared to a 7 per cent increase across the rest of the UK. Which makes you feel worse, First Minister —being outdone by Scottish nationalists or by English Tories?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, mae ffigurau newydd gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai yn dangos bod nifer y cartrefi newydd a gofrestrwyd yng Nghymru wedi gostwng 2 y cant y llynedd, o'i gymharu â chynnydd o 7 y cant ar draws gweddill y DU. Pa un sy'n gwneud i chi deimlo waethaf, Brif Weinidog—y ffaith fod cenedlaetholwyr yr Alban ynteu Torïaid Lloegr yn rhagori arnoch?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We know that house building has increased by 20 per cent in just about a year in Wales, so we know that house building has increased tremendously. We have Help to Buy—Wales, which has been hugely important in terms of allowing people to buy their first homes, and, of course, we are on target in terms of our house building for those who are renting in the public sector.

Gwyddom fod adeiladu tai wedi cynyddu 20 y cant mewn bron i flwyddyn yng Nghymru, felly gwyddom fod adeiladu tai wedi cynyddu'n aruthrol. Mae gennym ni Cymorth i Brynu—Cymru, sydd wedi bod yn hynod bwysig o ran galluogi pobl i brynu eu cartrefi cyntaf, ac, wrth gwrs, rydym ni ar y trywydd iawn o ran ein hadeiladu tai ar gyfer y rhai sy'n rhentu yn y sector cyhoeddus.

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the number of new homes registered last year fell in Wales, compared to increases—substantial increases—across the rest of the UK. We are used, in Wales, to sitting on NHS waiting lists, but could you tell me just how many thousands of Welsh people are on a waiting list for an affordable home?

Brif Weinidog, gostyngodd nifer y cartrefi newydd a gofrestrwyd y llynedd yng Nghymru, o'i gymharu â chynnydd—cynnydd sylweddol— ar draws gweddill y DU. Rydym ni wedi arfer, yng Nghymru, bod ar restrau aros y GIG, ond a allech chi ddweud wrthyf yn union faint o filoedd o bobl yng Nghymru sydd ar restr aros am dŷ fforddiadwy?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can tell the leader of the Liberal Democrats that there’s been a long-term positive trend in Welsh house building—20 per cent more houses started in 2014-15 than in the previous year. In addition, between July and September of 2015, a total of 1,736 new homes were completed, which is a 17 per cent increase on the same quarter of 2014. We know that Help to Buy—Wales is firmly established. We know that over 6,000 new homes will have been constructed by 2021, which has been widely welcomed by house builders. So, we are on track when it comes to making sure that people have a roof over their heads.

Gallaf ddweud wrth arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol y bu tuedd gadarnhaol hirdymor o ran adeiladu tai yng Nghymru—dechreuwyd 20 y cant yn fwy o dai yn 2014-15 nag yn y flwyddyn flaenorol. Hefyd, rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2015, cwblhawyd cyfanswm o 1,736 o gartrefi newydd, sy'n gynnydd o 17 y cant o’r un chwarter yn 2014. Rydym ni’n gwybod bod Cymorth i Brynu—Cymru wedi’i hen sefydlu. Rydym ni’n gwybod y bydd dros 6,000 o gartrefi newydd wedi eu hadeiladu erbyn 2021, a groesawyd yn eang gan adeiladwyr tai. Felly, rydym ni ar y trywydd iawn pan ddaw i wneud yn siŵr bod gan bobl do uwch eu pennau.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Really, I guess that will be news to the 90,000 Welsh citizens who are languishing on an affordable housing waiting list. We have a housing crisis, with people in Wales now having to borrow nearly four times their income if they want to buy a house, and many of our citizens can never aspire to that. My party has plans to double the number of affordable homes and introduce a rent-to-buy scheme that would allow people to make monthly payments equivalent to the rent to build up a share in their homes without requiring a deposit. Will you look at these plans and take urgent action to address the aspirations of those 90,000 people who need an affordable home?

Felly wir, rwy’n amau y bydd hynny’n newyddion i'r 90,000 o ddinasyddion yng Nghymru sy’n dioddef ar restr aros am dai fforddiadwy. Mae gennym ni argyfwng tai, gyda phobl yng Nghymru bellach yn gorfod benthyg bron i bedair gwaith eu hincwm os ydynt eisiau prynu tŷ, ac ni all llawer o'n dinasyddion fyth gyrraedd hynny. Mae gan fy mhlaid i gynlluniau i ddyblu nifer y tai fforddiadwy a chyflwyno cynllun rhentu i brynu a fyddai'n caniatáu i bobl wneud taliadau misol sy’n gyfwerth â'r rhent i adeiladu cyfran yn eu cartrefi heb fod angen blaendal. A wnewch chi edrych ar y cynlluniau hyn a chymryd camau brys i fynd i'r afael â dyheadau'r 90,000 hwnnw o bobl sydd angen cartref fforddiadwy?

13:45

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, what the Liberal Democrats have done is they've seen that we're on target to build 10,000 homes, so they've come up with a figure to double it, without explaining how they would pay for it—a laudable aim, I grant that, but let's see how that could be paid for. We have Help to Buy-Wales; it's not as if nothing has been done to help those in the private sector. We have been looking at schemes of shared equity, of community land trusts, which help to reduce the cost of houses. All of these models are appropriate for the future. What we have not done is to abandon the emphasis on building public housing, as England is doing, forcing people to become owner-occupiers whether they can afford it or not, and whether they like it or not. We appreciate there needs to be a mix in the Welsh housing market and we have seen, as I've said, a 20 per cent increase in new home starts in 2014-15, compared, of course, with the previous year.

Wel, yr hyn y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ei wneud yw eu bod wedi gweld ein bod ni ar y trywydd iawn i adeiladu 10,000 o gartrefi, felly maen nhw wedi meddwl am ffigur i'w ddyblu, heb esbonio sut y byddent yn talu amdano—nod canmoladwy, rwy'n cyfaddef hynny, ond gadewch i ni weld sut y gellid talu am hynny. Mae gennym ni Cymorth i Brynu—Cymru; nid yw fel pe byddai dim wedi ei wneud i helpu'r rhai yn y sector preifat. Rydym ni wedi bod yn edrych ar gynlluniau rhannu ecwiti, ymddiriedolaethau tir cymunedol, sy'n helpu i leihau cost tai. Mae'r holl fodelau hyn yn briodol ar gyfer y dyfodol. Yr hyn nad ydym wedi ei wneud yw tynnu'n ôl o'r pwyslais ar adeiladu tai cyhoeddus, fel y mae Lloegr yn ei wneud, gan orfodi pobl i fod yn berchen-feddianwyr pa un a ydynt yn gallu ei fforddio ai peidio, a pha un a ydynt yn ei hoffi ai peidio. Rydym ni'n sylweddoli bod angen cymysgedd ym marchnad dai Cymru ac rydym ni wedi gweld, fel y dywedais, cynnydd o 20 y cant i'r cartrefi newydd a ddechreuwyd yn 2014-15, o'i gymharu, wrth gwrs, â'r flwyddyn flaenorol.

13:46

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And finally, the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Ac yn olaf, arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:46

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, the Anglesey air link is an important investment that the Welsh Government have made over many years. Considerable sums of money—about £1.5 million a year—are put into that project by the Welsh Government. To say that the last seven or eight months have been chaotic is most probably an understatement, with safety certificates being withdrawn and airlines chartered on an emergency basis. I even heard yesterday how two seven-seater planes had to be chartered to fulfil the route, because there were more than seven people going up to Anglesey on that particular day. You've made that investment and, as I've said, the last seven months seem to have been chaotic at best. I understand the route is out for tender; can you update us as to exactly what the direction of travel is—excuse the pun—for the Welsh Government in the way you're managing this significant investment on behalf of the Welsh Government of £1.5 million?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae cyswllt awyr Ynys Môn yn fuddsoddiad pwysig y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud dros nifer o flynyddoedd. Caiff symiau sylweddol o arian—tua £1.5 miliwn y flwyddyn—eu cyfrannu at y prosiect hwnnw gan Lywodraeth Cymru. Mae'n debyg mai dim ond hanner y stori fyddai dweud bod y saith neu wyth mis diwethaf wedi bod yn anhrefnus, wrth i dystysgrifau diogelwch gael eu tynnu'n ôl a chwmnïau hedfan yn cael eu siarteru ar frys. Clywais ddoe, hyd yn oed, sut y bu'n rhaid siarteru dwy awyren saith sedd i hedfan y llwybr, gan fod mwy na saith o bobl yn mynd i fyny i Ynys Môn ar y diwrnod penodol hwnnw. Rydych chi wedi gwneud y buddsoddiad hwnnw ac, fel y dywedais, mae'n ymddangos bod y saith mis diwethaf wedi bod yn anhrefnus a dweud y lleiaf. Rwy'n deall bod y llwybr allan ar gyfer tendr; a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am beth yn union yw'r cyfeiriad teithio—esgusodwch y chwarae ar eiriau—i Lywodraeth Cymru yn y ffordd yr ydych chi'n rheoli'r buddsoddiad sylweddol hwn ar ran Llywodraeth Cymru o £1.5 miliwn?

13:46

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The airline that was running the service failed to obtain its safety certificate. As a result, the service has been taken over. There's been no disruption to passengers and, of course, the service will then be re-tendered. It was a matter that was outside of our control. Steps were taken to make sure that the service wasn't disrupted, and it is a service much appreciated by many, including, I know, himself, because I've seen him on the plane.

Methodd y cwmni hedfan a oedd yn rhedeg y gwasanaeth ag ennill ei dystysgrif diogelwch. O ganlyniad, cymerwyd y gwasanaeth drosodd. Ni fu unrhyw darfu ar deithwyr ac, wrth gwrs, bydd y gwasanaeth yn cael ei ail-dendro wedyn. Roedd yn fater a oedd y tu hwnt i'n rheolaeth. Cymerwyd camau i wneud yn siŵr na amharwyd ar y gwasanaeth, ac mae'n wasanaeth a werthfawrogir yn fawr gan lawer, gan gynnwys, rwy'n gwybod, ef ei hun, gan fy mod i wedi ei weld ar yr awyren.

13:47 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I commend the service. I live very close to the airport, and I can get to Anglesey in 40 minutes. The point I'm making to you is: it's an investment that you are putting in of £1.5 million, and to say the last seven or eight months has been chaotic, to say the least, is an understatement.

Rwy'n cymeradwyo'r gwasanaeth. Rwy'n byw yn agos iawn at y maes awyr, a gallaf gyrraedd Ynys Môn mewn 40 munud. Y pwynt yr wyf yn ei wneud i chi yw: mae'n fuddsoddiad yr ydych chi'n ei wneud o £ 1.5 miliwn, a dim ond hanner y stori, a dweud y lleiaf, fyddai dweud bod y saith neu wyth mis diwethaf wedi bod yn anhrefnus.

We'll move on to another project that the Welsh Government have invested in recently, the Rhondda Life project, which the Welsh Government put £1.6 million into, but the assets of Rhondda Life were recently sold for £220,000, costing a loss to the taxpayer of in excess of £1 million. Can you indicate what level of support the Welsh Government were putting into that project, which has left many people disillusioned, shall we say, over the regeneration aims of that project, because ultimately so much public money has been lost and there's a feeling within the Rhondda that the Welsh Government turned their back on the people who put themselves on the line for this particular project?

Symudwn ymlaen at brosiect arall y mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ynddo yn ddiweddar, prosiect Rhondda Life, y cyfrannodd Llywodraeth Cymru £1.6 miliwn ato, ond gwerthwyd asedau Rhondda Life am £220,000 yn ddiweddar, gan gostio colled i'r trethdalwr o dros £1 filiwn. A allwch chi nodi pa lefel o gymorth yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r prosiect hwnnw, sydd wedi gadael llawer o bobl wedi'u dadrithio, gadewch i ni ddweud, am nodau adfywio'r prosiect hwnnw, oherwydd yn y pen draw, collwyd cymaint o arian cyhoeddus a cheir teimlad yn y Rhondda bod Llywodraeth Cymru wedi troi ei chefn ar y bobl a roddodd eu hunain ar y lein ar gyfer y prosiect penodol hwn?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, the leader of the opposition says that there has been chaos with regard to the north-south service; there hasn't been chaos at all. That's a lazy statement. The service has operated as normal. As far as passengers are concerned, they have seen no difference whatsoever. It's far from chaos; things have been running smoothly, despite the difficulties that one airline had.

Wel, yn gyntaf oll, mae arweinydd yr wrthblaid yn dweud y bu anhrefn o ran y gwasanaeth o'r gogledd i'r de; ni fu anhrefn o gwbl. Mae hwnnw'n ddatganiad diog. Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu fel arfer. Cyn belled ag y mae teithwyr yn y cwestiwn, nid ydynt wedi gweld unrhyw wahaniaeth o gwbl. Mae ymhell o fod yn anhrefn; mae pethau wedi bod yn rhedeg yn ddidrafferth, er gwaethaf yr anawsterau i un cwmni hedfan eu cael.

When it comes to Rhondda Life—and the Member for the Rhondda was very agitated and asked the question as to whether the leader of the opposition had actually been there—. Nevertheless, Rhondda Life had to be managed carefully, and it is a project that nevertheless has had an impact on the people who live in that part of the Rhondda.

Pan ddaw i Rhondda Life—ac roedd yr Aelod dros y Rhondda yn gynhyrfus iawn a gofynnodd y cwestiwn a oedd arweinydd yr wrthblaid wedi bod yno mewn gwirionedd—. Serch hynny, bu'n rhaid rheoli Rhondda Life yn ofalus, ac mae'n brosiect sydd serch hynny wedi cael effaith ar y bobl sy'n byw yn y rhan honno o'r Rhondda.

13:48 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As usual, you've missed the complete tone and direction of travel, which is the loss to the Welsh taxpayer of significant sums of money. Just to reassure the current Member for the Rhondda, I've not only visited, I've also been engaged with the people who do feel they've been left high and dry, i.e. the people who put their heart and soul into this project. But I've just outlined two very specific projects that the Welsh Government have managed or invested in. In respect of the second project, you've lost a considerable sum of Welsh taxpayers' money; in respect of the first project, there has been chaos at the heart of this. Do you think it's sensible to charter two seven-seater planes? Do you think it's sensible the website says no future bookings are being taken? Ultimately, this goes to the competence of the Welsh Government. Last week, you made an apology because your Government had lost tens of millions of pounds in relation to the Regeneration Investment Fund for Wales land disposal. Now, we've had the apology, I've indicated at least two projects on which you've lost considerable sums of money. What are you going to be doing and what further action will you be taking as First Minister to hold the people to account who presided over the RIFW proposal? And, ultimately, what confidence can we have that this isn't just the final chapter, as your communities Minister indicated last week when she addressed this issue?

Fel arfer, rydych chi wedi camddeall y naws a'r cyfeiriad teithio yn llwyr, sef y golled o symiau sylweddol o arian i'r trethdalwr yng Nghymru. Dim ond i dawelu meddwl yr Aelod presennol dros y Rhondda, nid yn unig yr wyf i wedi ymweld, ond rwyf hefyd wedi ymgysylltu â'r bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu gadael ar y clwt, h.y. y bobl a roddodd eu calonnau a'u heneidiau i'r prosiect hwn. Ond rwyf newydd amlinellu dau brosiect penodol iawn y mae Llywodraeth Cymru wedi eu rheoli neu wedi buddsoddi ynddynt. O ran yr ail brosiect, rydych chi wedi colli swm sylweddol o arian trethdalwyr Cymru; o ran y prosiect cyntaf, bu anhrefn wrth wraidd hyn. A ydych chi'n credu ei bod yn synhwyrol siarteru dwy awyren saith sedd? A ydych chi'n meddwl ei bod yn synhwyrol bod y wefan yn dweud nad oes unrhyw archebion yn cael eu derbyn ar gyfer y dyfodol? Yn y pen draw, mae hyn yn ymwneud â chymhwysedd Llywodraeth Cymru. Yr wythnos diwethaf, gwnaethoch ymddiheuriad gan fod eich Llywodraeth wedi colli degau o filiynau o bunnoedd o ran gwarediad tir Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. Nawr, rydym ni wedi cael yr ymddiheuriad, rwyf wedi nodi o leiaf dau brosiect yr ydych chi wedi colli symiau sylweddol o arian arnynt. Beth ydych chi'n mynd i fod yn ei wneud a pha gamau eraill y byddwch chi'n eu cymryd fel Prif Weinidog i ddwyn pobl i gyfrif a oedd yn gyfrifol am gynnig CBCA? Ac, yn y pen draw, pa hyder allwn ni ei gael mai nad hon yw'r bennod olaf, fel y nododd eich Gweinidog cymunedau yr wythnos diwethaf wrth iddi roi sylw i'r mater hwn?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, let's examine what he wants to do. He wants to cut spending on the economy by 30 per cent. That's cutting spending on jobs, cutting spending on skills, and cutting spending on supporting projects that have created jobs the length and breadth of Wales. We took over the airport—an airport that his party wanted to abandon to closure. From 2007 to 2013, the airport lost half its passengers under private ownership. It is now bouncing back. If he'd have had his way, that airport would be shut now and British Airways Maintenance Cardiff would have gone with it. So, that's the limit of ambition we see from the Tories. He talks about competence; let's just examine what his party has done in London, shall we? NHS reorganisation—£3 billion down the tubes. You've wasted over £1 billion firing and rehiring NHS staff. You've lost £1 billion on the Royal Mail sale according to Westminster's Business, Innovation and Skills Committee. You lost £2.3 billion as a result of your sell-off of Eurostar. You lost £1 billion as a result of the sale of Royal Bank of Scotland shares. You've lost £100 million in one year on IT projects. Yes, there are issues of course that have to be dealt with regards to RIFW, and they will be dealt with by way of a full response. But when it comes to wasting money, the Tories are top of the class.

Yn gyntaf oll, gadewch i ni edrych ar yr hyn y mae ef eisiau ei wneud. Mae e eisiau torri gwariant ar yr economi gan 30 y cant. Mae hynny'n golygu torri gwariant ar swyddi, torri gwariant ar sgiliau, a thorri gwariant ar gefnogi prosiectau sydd wedi creu swyddi ar hyd a lled Cymru. Cymerwyd y maes awyr drosodd gennym—maes awyr yr oedd ei blaid ef eisiau gadael iddo gau. O 2007 i 2013, collodd y maes awyr hanner ei deithwyr o dan berchnogaeth breifat. Mae bellach yn cael adfywiad. Pe byddai ef wedi cael ei ffordd, byddai'r maes awyr hwnnw ar gau nawr a byddai British Airways Maintenance Cardiff wedi mynd gydag ef. Felly, dyna derfyn yr uchelgais a welwn gan y Torïaid. Mae'n siarad am gymhwysedd; gadewch i ni edrych ar yr hyn y mae ei blaid ef wedi ei wneud yn Llundain, ie? Ad-drefnu'r GIG—£3 biliwn wedi'i wastraffu. Rydych chi wedi gwastraffu dros £1 biliwn yn cyflogi ac ailgyflogi staff y GIG. Rydych chi wedi colli £1 biliwn ar werthiant y Post Brenhinol yn ôl Pwyllgor Busnes, Arloesedd a Sgiliau San Steffan. Collwyd £2.3 biliwn gennych o ganlyniad i werthu Eurostar. Collwyd £1 biliwn gennych o ganlyniad i werthu cyfranddaliadau Royal Bank of Scotland. Rydych chi wedi colli £100 miliwn mewn un flwyddyn ar brosiectau TG. Oes, mae problemau y mae'n rhaid eu datrys, wrth gwrs, o ran CBCA, a byddant yn cael eu datrys trwy gyfrwng ymateb llawn. Ond pan ddaw i wastraffu arian, mae'r Torïaid ar frig y dosbarth.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions—[Interruption.] Order. We now move back to the questions on the paper, and question 3 is from Mohammad Asghar.

Symudwn yn ôl at gwestiynau—[Torri ar draws.] Trefn. Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Mohammad Asghar.

## Canlyniadau Addysgol (Cydraddoldeb)

## Educational Outcomes (Equality)

13:51 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau mwy o gydraddoldeb o ran canlyniadau addysgol disgyblion? OAQ(4)2696(FM)*

*3. What is the Welsh Government doing to achieve greater equality in pupils' educational outcomes? OAQ(4)2696(FM)*

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are committed to ensuring that all children and young people in Wales, regardless of their background or personal circumstances, reach their full potential in education and achieve the best possible outcomes.

Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau personol, yn gwireddu eu potensial llawn mewn addysg ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

13:52 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Bullying in school is a particular risk for ethnic minority pupils and can seriously impact on their educational attainment levels. An Estyn report in 2014 said that many schools' awareness and understanding of bullying and their policies and procedures for dealing with it were often found to be weak. What action has the Welsh Government taken to tackle bullying in schools since the Estyn report to promote greater equality in educational attainment?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae bwlio yn yr ysgol yn risg benodol i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig a gall effeithio'n ddifrifol ar eu lefelau cyrhaeddiad addysgol. Dywedodd adroddiad Estyn yn 2014 y canfuwyd bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth llawer o ysgolion o fwlio a'u polisïau a'u gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag ef yn aml yn wan. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion ers yr adroddiad Estyn i hybu mwy o gydraddoldeb o ran cyrhaeddiad addysgol?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have, of course, move forward with what the Estyn report indicated in 2014. He has particularly mentioned minority ethnic learners. He will be aware that new grant arrangements were put in place in April of last year in order to assist minority ethnic learners, and the education improvement grant allows practitioners at a local level to decide best where and how to target funding to support those learners.

Rydym ni wedi, wrth gwrs, symud ymlaen gyda'r hyn a nododd adroddiad Estyn yn 2014. Mae wedi crybwyll yn benodol dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Bydd yn ymwybodol y rhoddwyd trefniadau grant newydd ar waith ym mis Ebrill y llynedd er mwyn cynorthwyo dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, ac mae'r grant gwella addysg yn caniatáu i ymarferwyr ar lefel leol benderfynu orau ble a sut i dargedu cyllid i gefnogi'r dysgwyr hynny.

13:53 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, un o'r pethau sydd wedi bod yn poeni nifer ohonom ni ers sefydlu y Cynulliad, mewn gwirionedd, ydy bod plant mewn gofal yn methu â chyrraedd y safonau y mae plant sydd y tu allan i'r system gofal yn eu cyrraedd. A ydych chi'n teimlo fod yna welliant wedi ei wneud o ran hynny yn ystod y ddwy flynedd ar bymtheg diwethaf?

First Minister, one of the things that's been a concern for a number of us since the inception of the Assembly, really, is that children in care can't reach the standards and outcomes achieved by those outwith the care system. Do you believe that progress has been made in that regard over the past 17 years?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ydw, ond mae yna fwy o ffordd i fynd; rwy'n deall hynny. Un o'r pethau y gwnes i sôn amdanynt yn ôl yn 2011 oedd y broblem a oedd yna er mwyn sicrhau bod potensial plant sydd mewn gofal yn cael ei gefnogi. Nawr, wrth gwrs, rydym ni wedi cynhyrchu strategaeth yr wythnos diwethaf, ar 29 Ionawr, ynglŷn â helpu plant mewn gofal a'u huchelgeisiau, a hefyd i sicrhau eu bod nhw'n gwneud yn well yn yr ysgol. Bydd y strategaeth hon yn gyrru gwelliannau ynglŷn â dyfodol y plant hyn.

I do, but there's more to be done; I understand that. One of the things that I alluded to back in 2011 was the problem that was there in order to ensure that the potential of looked-after children should be supported. Now, of course, we have produced a strategy, on 29 January, regarding helping looked-after children and their ambitions, and also to ensure that they do better at school. This strategy will drive improvements for the future of these children.

13:54 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno â fi bod y grant amddifadedd erbyn hyn yn dechrau dangos bod yna fodd inni gau'r bwlch o ran cyrhaeddiad o ran plant difreintiedig. Rydych chi wedi cyfeirio at y datganiad yr wythnos diwethaf ynglŷn â phlant mewn gofal, ond un o'r ffigurau sydd yn achosi pryder ar hyn o bryd ydy'r ffigur ynghylch cyrhaeddiad plant o deuluoedd Teithwyr a Sipsiwn. A oes gennych chi fel Llywodraeth, felly, unrhyw fwriad i edrych ar y broblem barhaol o ran cyrhaeddiad y plant yna, o gofio, wrth gwrs, fod y grant unigol ar gyfer y grŵp yna wedi cael ei gyflwyno erbyn hyn o ran grant cyffredinol i ysgolion?

First Minister, I'm sure that you would agree with me that the pupil deprivation grant is now starting to demonstrate that we can close the attainment gap in terms of children from disadvantaged backgrounds. You have referred to last week's statement on looked-after children, but one of the figures that is a cause for concern at present is the figure on the attainment of children from Gypsy/Traveller families. Do you as a Government, therefore, have any intention to look at the continuing problem in terms of the attainment of those children, given, of course, that the individual grant for that group has now been introduced by now in terms of a general grant for schools?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r grant gwelliant y gwnes i sôn amdano funud yn ôl wrth gwrs yn rhywbeth sydd ar gael i blant o gefndir teithio. Hefyd, mae yna adnoddau ar gael i gefnogi'r rhai hynny sydd yn dod o'r cefndir yna yn yr ysgol. Mae hwnnw wedi bod ar gael ers mis Mawrth 2014. So, mae yna adnoddau ar gael i ysgolion ac mae arian ar gael hefyd, wrth gwrs, er mwyn eu helpu nhw i lwyddo yn y pen draw.

The improvement grant that I just alluded to is of course something that is available for children from Traveller backgrounds. Also, there are resources available to support pupils from that background in schools. That has been available since March 2014. So, resources are available to schools and there is funding available also, of course, to help them to succeed in the long run.

### Cyflymu Cymru

### Superfast Cymru

13:55 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun Cyflymu Cymru? OAQ(4)2700(FM)[W]*

*4. Will the First Minister provide an update on the Superfast Cymru scheme? OAQ(4)2700(FM)[W]*

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae £150 miliwn wedi cael ei fuddsoddi lan hyd nawr i sicrhau bod 0.5 miliwn o dai a busnesau ar draws Cymru wedi cael mynediad i fand eang, ac rŷm ni'n parhau i arwain y ffordd ynglŷn â band eang o wledydd Prydain.

Well, £150 million has been invested to date that ensures that 0.5 million homes and businesses across all parts of Wales have access to broadband, and we continue to lead the way on the availability of superfast broadband among the devolved nations.

13:56 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae yna lawer o rwystredigaeth yn fy etholaeth i, fel sydd rwy'n siŵr ym mhob etholaeth, gan y rheini sydd ddim eto wedi cael eu cysylltu gan y rhaglen Cyflymu Cymru, er, wrth gwrs, mae'n rhaid cydnabod bod yna dros flwyddyn ar ôl i redeg ar y rhaglen. Ar ddiwedd y rhaglen, wrth gwrs, rŷm ni'n disgwyl na fydd 4 y cant o bob tŷ, pob busnes, wedi cael eu cysylltu. Rŵan, mi ofynnais i i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ym mis Medi beth oedd y Llywodraeth am allu ei wneud i geisio adnabod y rheini sydd ddim yn mynd i gael eu cysylltu cyn diwedd y rhaglen er mwyn gallu dechrau chwilio am ffyrdd amgen o'u cysylltu nhw. Mi gefais i sicrwydd bod camau yn cael eu cymryd, ond a all y Prif Weinidog roi sicrwydd i ni ynglŷn â beth yn union sydd yn neu wedi bod yn digwydd i adnabod y llefydd hynny fel bod neb yn gorfod aros tan ddiwedd rhaglen Cyflymu Cymru cyn darganfod eu bod nhw wedi colli allan?

There's a great deal of frustration in my constituency, as I'm sure is the case in every constituency, from those who haven't yet been connected via the Superfast Cymru scheme, although, of course, we must acknowledge that there's over a year of that scheme to go. At the end of the programme, of course, we do expect that 4 per cent of all homes and businesses will still not have been connected. Now, I asked the Deputy Minister for Skills and Technology in September what the Government would be able to do to try to identify those who won't be connected by the end of the programme in order to try to find alternative ways of connecting them. I was given assurances that steps were being taken, but can the First Minister gives us some assurances as to what exactly is or has happened to identify those places so that nobody has to wait until the end of the Superfast Cymru scheme before realising that they've lost out?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, i'r bobl yna a'r busnesau yna bydd yn rhaid ystyried ffyrdd eraill o sicrhau band eang sydd ddim yn defnyddio ceblau'r teleffon ei hunan. Un modd o wneud hynny yw defnyddio lloeren ac efallai defnyddio—os yw, er enghraifft, y bedwaredd genhedlaeth ar gael yn yr ardal—ffyrdd o sicrhau bod band eang ar gael y ffordd hynny. Ond mae'n wir i ddweud na fydd y tai hyn a'r bobl hyn yn gallu cael eu cyrraedd gan system o linellau o geblau teleffon. Ond mae yna ffyrdd eraill rŷm ni'n ystyried ar hyn o bryd er mwyn eu helpu nhw.

Well, for those people and those businesses we will have to consider other methods of supplying broadband that don't use the telephone cables themselves. One means would be to use a satellite and perhaps use—if fourth generation, for example, is available in the area—ways to ensure that broadband is available to them in that manner. But it is true to say that these homes and these people won't be reached by a system of telephone cables. But there are alternative means that we are considering at present in order to assist them.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **William Graham** Bywgraffiad Biography

First Minister, I'm sure, like me, you'll welcome the advances made with the SuperConnected Cities scheme in both Newport and Cardiff—a key element, of course, is the connection vouchers providing financial support from the United Kingdom Government. But in terms of areas like rural Monmouthshire, which have poor connection and a village between here and Newport, not nine miles from this building, which also has very poor connection, what initiatives are you going to use to promote some independent companies, such as Spectrum Internet, for their innovative use of technology to connect what are presently notspots?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr, fel finnau, y byddwch chi'n croesawu'r datblygiadau a wnaed gyda'r cynllun SuperConnected Cities yng Nghasnewydd a Chaerdydd—elfen allweddol, wrth gwrs, yw'r talebau cysylltu sy'n cynnig cymorth ariannol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Ond o ran ardaloedd fel Sir Fynwy wledig, sydd â chysylltiad gwael a phentref rhwng y fan hon a Chasnewydd, nid naw milltir o'r adeilad hwn, sydd hefyd â chysylltiad gwael iawn, pa fentrau ydych chi'n mynd i'w defnyddio i hyrwyddo rhai cwmnïau annibynnol, fel Spectrum Internet, am eu defnydd arloesol o dechnoleg i gysylltu mannau sy'n wan ar hyn o bryd?

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I would expect that the vast majority of settlements and indeed houses and businesses will be connected as a result of Superfast Cymru and that is of course a scheme, as the Member will know, that we're rolling out towards the middle of next year. Without that scheme, it's right to say the market would not deliver broadband to large swathes of Wales outside of the M4 corridor and across the A55. So, what I would say to people who are not able to access superfast broadband at this moment in time is that we expect them to be able to do so by the completion of the Superfast Cymru programme.

Wel, byddwn yn disgwyl y bydd y mwyafrif llethol o aneddiadau, a thai a busnesau yn wir, yn cael eu cysylltu o ganlyniad i Gyflymu Cymru ac mae hwnnw, wrth gwrs, yn gynllun, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, yr ydym ni'n ei gyflwyno tua chanol y flwyddyn nesaf. Heb y cynllun hwnnw, mae'n iawn i ddweud na fyddai'r farchnad yn darparu band eang i rannau mawr o Gymru y tu allan i goridor yr M4 ac ar draws yr A55. Felly, yr hyn y byddwn i'n ei ddweud wrth bobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at fand eang cyflym iawn ar hyn o bryd yw ein bod yn disgwyl iddyn nhw allu gwneud hynny erbyn diwedd rhaglen Cyflymu Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, can I draw your attention to a particular problem in my region, in the village of Jersey Marine. They were promised fast broadband by March 2015. They were then promised it again by July 2015. The latest update is the cabinet has been installed for six months but they still have not got it because there appears to be a problem getting the cables across a railway line, which has been there since 1890. This doesn't auger well for the planning process of BT or their contractors. One constituent who contacted me says he's a home-based worker, seriously disadvantaged by poor broadband at only 1 MB and cannot take part in video-conferences nor share virtual desktops. What solution would you propose for people in Jersey Marine who require this superfast broadband and are not able to access is?

Brif Weinidog, a gaf i dynnu eich sylw at broblem benodol yn fy rhanbarth i, ym mhentref Jersey Marine. Addawyd band eang cyflym iawn iddynt erbyn mis Mawrth 2015. Yna, fe'i haddawyd iddynt eto erbyn mis Gorffennaf 2015. Y wybodaeth ddiweddaraf yw bod y cabinet wedi cael ei osod ers chwe mis ond nid ydynt wedi ei gael o hyd gan ei bod yn ymddangos bod problem i gael y ceblau ar draws rheilffordd, sydd wedi bod yno ers 1890. Nid yw hyn yn argoeli'n dda ar gyfer proses gynllunio BT na'u contractwyr. Dywed un etholwr a gysylltodd â mi ei fod yn gweithio o'i gartref, sydd o dan anfantais ddifrifol oherwydd band eang gwael sydd ddim ond yn 1MB ac ni all gymryd rhan mewn fideo-gynadleddau na rhannu rhith-fyrddau gwaith. Pa ateb fyddech chi'n ei gynnig i bobl yn Jersey Marine sydd angen y band eang cyflym iawn hwn ac na allant gael mynediad ato?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Clearly, it is planned for them to be able to access superfast broadband, but if I could write to the Member with further details, perhaps then we could investigate what the problem has been and also to provide a more secure date in the future for those who have contacted him.

Yn amlwg, bwriedir iddyn nhw allu cael mynediad at fand eang cyflym iawn, ond pe gallwn i ysgrifennu at yr Aelod gyda rhagor o fanylion, efallai wedyn y gallem ni ymchwilio i beth fu'r broblem, a hefyd i ddarparu dyddiad mwy pendant yn y dyfodol ar gyfer y rhai sydd wedi cysylltu ag ef.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, fast and reliable broadband is crucial to the economy of Brecon and Radnorshire, as is certainty from Openreach as to when those businesses will have the services. Now, in cases like Llanwrthwl, they've been dropped down the programme by literally a year. Currently, at the moment, confirmed by Openreach, their website is sending messages saying that the cabinet isn't currently in the plan to be upgraded as part of the programme, when actually it is in the programme to be upgraded. Surely we could have expected better from the significant amount of taxpayers' money that has been invested in this scheme on behalf of the Welsh Government. A better service should be expected.

Brif Weinidog, mae band eang cyflym a dibynadwy yn hanfodol i economi Brycheiniog a Sir Faesyfed, ac felly hefyd sicrwydd gan Openreach ynghylch pryd y bydd y busnesau hynny'n cael y gwasanaethau. Nawr, mewn achosion fel Llanwrthwl, maen nhw wedi cael eu gollwng i lawr y rhaglen o flwyddyn yn llythrennol. Ar hyn o bryd, ar y funud, wedi'i gadarnhau gan Openreach, mae eu gwefan yn anfon negeseuon yn dweud nad yw'r cabinet yn y cynllun ar hyn o bryd i gael ei uwchraddio yn rhan o'r rhaglen, pan ei fod yn y rhaglen i gael ei uwchraddio mewn gwirionedd. Siawns y gallem ni fod wedi disgwyl gwell o'r swm sylweddol o arian trethdalwyr a fuddsoddwyd yn y cynllun hwn ar ran Llywodraeth Cymru. Dylid disgwyl gwasanaeth gwell.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Again, if I could write to the Member with regard to the particular issue in Llanwrthwl. I will make sure that's investigated and a full answer provided.

Unwaith eto, pe caf i ysgrifennu at yr Aelod o ran y mater penodol yn Llanwrthwl. Byddaf yn gwneud yn siŵr bod hynny'n cael ei ymchwilio a bod ateb llawn yn cael ei ddarparu.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 6, Lindsay Whittle. [Interruption.] I'm sorry, I beg your pardon. I'm in front of myself. Question 5, Jenny Rathbone.

Cwestiwn 6, Lindsay Whittle. [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gen i, esgusodwch fi. Rwyf ar y blaen arnaf fy hun. Cwestiwn 5, Jenny Rathbone.

Senedd.tv Fideo Video

## Cynllun Benthyca i Fyfyrwyr Ôl-raddedig

## Postgraduate Loan Scheme

14:00 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

*5. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i weithredu cynllun benthyca i fyfyrwyr ôl-raddedig yn y flwyddyn academaidd nesaf? OAQ(4)2701(FM)*

*5. What discussions has the First Minister had with the UK Government about the Welsh Government's ability to implement a postgraduate loan scheme for the next academic year? OAQ(4)2701(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Minister for Education and Skills wrote to the Minister of State for Universities and Science to express his concern that the Student Loans Company cannot implement the scheme for Wales for 2016-17 because England is being prioritised. That is wholly unacceptable.

Ysgrifennodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau at y Gweinidog Gwladol dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth i fynegi ei bryder na all y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr weithredu'r cynllun ar gyfer Cymru yn 2016-17 gan fod Lloegr yn cael blaenoriaeth. Mae hynny'n gwbl annerbyniol.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I agree, First Minister, and I've had many correspondents very concerned that this is discriminating both against Welsh students and Welsh universities who rely on postgraduate schemes to help us fuel the economy. What discussions has your Government had with the Student Loans Company, which allows them to discriminate so blatantly in favour of one part of the UK over another?

Wel, rwy'n cytuno, Brif Weinidog, ac rwyf wedi cael llawer o ohebwyr yn bryderus iawn fod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn myfyrwyr o Gymru a phrifysgolion yng Nghymru sy'n dibynnu ar gynlluniau ôl-raddedig i'n helpu ni i danio'r economi. Pa drafodaethau y mae eich Llywodraeth wedi eu cael gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, sy'n eu galluogi i wahaniaethu mor amlwg o blaid un rhan o'r DU dros un arall?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, they're doing it despite the fact that Ministers are there to keep control over them. The Student Loans Company is there to serve four nations and four Governments, but it seems that the UK Government on this occasion thinks it's acting as an English Government and is discriminating, as the Member has rightly said, against those in Scotland, Wales and Northern Ireland. We are exploring how we might be able to move this forward ourselves. This is another example where, bluntly, those in Whitehall don't know exactly who they're meant to be serving.

Wel, maen nhw'n ei wneud er gwaethaf y ffaith bod Gweinidogion yno i gadw rheolaeth drostynt. Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yno i wasanaethu pedair gwlad a phedair Llywodraeth, ond mae'n ymddangos bod Llywodraeth y DU yn meddwl ei bod yn gweithredu fel Llywodraeth Lloegr ar yr achlysur hwn ac yn gwahaniaethu, fel y mae'r Aelod wedi ei ddweud yn gwbl briodol, yn erbyn y rhai yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Rydym ni'n ystyried sut y gallem ni fwrw ymlaen â hyn ein hunain. Mae hon yn enghraifft arall lle, yn blwmp ac yn blaen, nad yw'r rhai yn Whitehall yn gwybod yn union pwy maen nhw i fod i'w gwasanaethu.

14:02 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure, First Minister, you will understand the importance of postgraduate study and how crucial it is that a support system is in place to help those students. However, I was shocked last week to hear the Minister for education's wholesale dismissal of the higher education sector's funding concerns—referring to these concerns as 'special pleadings'. First Minister, would you agree with your education Minister on that one?

Rwy'n siŵr, Brif Weinidog, y byddwch chi'n deall pwysigrwydd astudiaethau ôl-raddedig a pha mor hanfodol yw hi bod system gymorth ar waith i helpu'r myfyrwyr hynny. Fodd bynnag, cefais fy synnu yr wythnos diwethaf o glywed y Gweinidog addysg yn gwrthod pryderon y sector addysg uwch am gyllid yn llwyr—gan gyfeirio at y pryderon hyn fel 'pledio arbennig'. Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â'ch Gweinidog addysg ar hynny?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This question is about postgraduate loans, so let me return to that. I notice that the Conservative Member does nothing to protest against her own Government's deliberate decision to discriminate against students from Scotland, Wales and Northern Ireland. It is appalling that the Student Loans Company sees itself as prioritising only England and not the four nations of the UK. It is to the Conservative Party's shame that, once again, they've failed to stand up for Wales.

Mae'r cwestiwn hwn am fenthyciadau ôl-raddedig, felly gadewch i mi ddychwelyd at hynny. Sylwaf nad yw'r Aelod Ceidwadol yn gwneud dim i brotestio yn erbyn penderfyniad bwriadol ei Llywodraeth ei hun i wahaniaethu yn erbyn myfyrwyr o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n warthus bod y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn gweld ei hun fel bod yn blaenoriaethu Lloegr yn unig ac nid pedair gwlad y DU. Mae'n gywilydd i'r Blaid Geidwadol ei bod, unwaith eto, wedi methu â sefyll dros Gymru.

14:03 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel canlyniad hwn, wrth gwrs, yw y bydd prifysgolion Lloegr yn fwy deniadol i raddedigion i astudio ymchwil na phrifysgolion yng Nghymru. Gall hynny gosti cymaint â £10 miliwn i brifysgolion yng Nghymru, ar ben y toriadau rŷch chi eisoes wedi'u rhoi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Rŷch chi'n 'keen' iawn i feio Llywodraeth San Steffan am hyn ac rwy'n rhannu'r feirniadaeth yna—dylai hwn fod ar gael i bawb—ond beth ydych chi'n ei wneud fel Llywodraeth i sicrhau bod cynllun benthyg ar gyfer astudio ôl-radd ar gael yng Nghymru mor fuan ag sy'n bosibl?

Well, the outcome of this, of course, is that universities in England will be more attractive to graduates who want to undertake research than universities in Wales. That could cost as much as £10 million to Welsh universities, on top of the cuts that you've already imposed on HEFCW. You're very keen to blame the Westminster Government for this and I do share that criticism—this should be available to all—but what are you doing as a Government to ensure that a loans scheme for postgraduate study is available in Wales as soon as possible?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ddweud wrth yr Aelod nad yw hyn yn effeithio prifysgolion Cymru? Mae'n effeithio myfyrwyr o Gymru achos bydd myfyrwyr o Loegr yn gallu cael y gefnogaeth i ddod i Gymru i astudio. Felly, dyna beth yw'r broblem; nid rhywbeth i'r prifysgolion yw hi, ond problem ar gyfer y myfyrwyr. Rwy'n cytuno'n hollol nad yw hwn yn rhywbeth sy'n dderbyniol. Rŷm ni wedi ysgrifennu yn barod a byddwn yn parhau I bwyso a dweud nad yw'n dderbyniol lle mae gennych chi gorff sydd I fod I weithredu dros y Deyrnas Unedig yn gyfan gwbl ond nid yw'r corff hwnnw yn gweithredu dros bobl yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Problem yw hon nid yn unig i'r cwmni; problem yw hon I Weinidogion San Steffan sydd ddim yn derbyn bod hwn yn rhywbeth sy'n effeithio'r gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig ac sy'n blaenoriaethu Lloegr.

May I say to the Member that this does not affect universities in Wales? It impacts students from Wales because students from England will be able to receive the support to come here to Wales to study. So, that is the problem; it is not a matter for universities, but a problem for students. I agree completely that this is not something that is acceptable. We've already written and we will continue to protest and say that when you have a body that is supposed to be representing the whole of the United Kingdom, it's not acceptable if that body is not acting on behalf of the people of Scotland, Wales and Northern Ireland. This problem is not for the company; this is a problem for Ministers in Westminster who do not accept that this is something that impacts the other nations of the United Kingdom and they are prioritising England.

14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's now question 6, Lindsay Whittle.

Cwestiwn 6 yn awr, Lindsay Whittle.

**Maes Awyr Caerdydd**

**Cardiff Airport**

14:04 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. You certainly keep me on my toes.

Diolch, Lywydd. Rydych chi'n sicr yn fy nghadw i'n effro.

*6. Beth yw strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)2691(FM)*

*6. What is the Welsh Government's 10-year strategy for Cardiff Airport? OAQ(4)2691(FM)*

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Our focus on Cardiff Airport is that it should become the airport of choice for Wales, commercially successful, and an even more powerful driver of jobs and growth in the wider economy.

Ein canolbwynt ar Faes Awyr Caerdydd yw y dylai fod y maes awyr o ddewis i Gymru, yn fasnachol lwyddiannus, ac yn sbardun hyd yn oed mwy pwerus o swyddi a thwf yn yr economi ehangach.

14:05 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, thank you for your answer. As a former Mid Glamorgan county councillor from 1977, I'm pleased that the airport, in fact, is back in public ownership. But, last month, a report from the Public Policy Institute for Wales on the airport said that insufficient resources have been committed to marketing, and Visit Wales, recently, have been criticised for spending less than the equivalent bodies in the UK. So, what can the Welsh Government do to attract increased use to Cardiff Airport by visitors from outside of the UK and from within the UK?

Brif Weinidog, diolch i chi am eich ateb. Fel cyn-gynghorydd sir Morgannwg Ganol o 1977, rwy'n falch bod y maes awyr, mewn gwirionedd, yn ôl mewn perchnogaeth gyhoeddus. Ond, y mis diwethaf, dywedodd adroddiad gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ar y maes awyr nad oes adnoddau digonol wedi'u hymrwymo i farchnata, ac mae Croeso Cymru, yn ddiweddar, wedi ei feirniadu am wario llai na'r cyrff cyfatebol yn y DU. Felly, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i ddenu defnydd cynyddol i Faes Awyr Caerdydd ymhlith ymwelwyr o'r tu allan i'r DU ac o fewn y DU?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, 'Look at the figures' is what I'd say. We know that, for example, compared to January last year, the figures are 42 per cent up. For last month, it was 56 per cent up. The airport is recovering from the six years of neglect it had under its previous private owners. We expect to see more airlines coming to the airport in the future. It shows that, with the commitment that is shown by Government, it is possible to turn an airport around, just as Scotland has done with Prestwick, and, indeed, just as local government does in England, because local government owns Manchester airport and Stanstead airport as well, for that matter. We're pleased to see that the airport is moving in the right direction; we're pleased to see that more and more passengers are using the airport and it shows that the decision that we took to buy the airport was, indeed, the right one.

Wel, 'Edrychwch ar y ffigurau' yw'r hyn y byddwn i'n ei ddweud. Gwyddom, er enghraifft, o'u cymharu â mis Ionawr y llynedd, bod y ffigurau 42 cant yn uwch. Ar gyfer y mis diwethaf, roedd 56 y cant yn uwch. Mae'r maes awyr yn gwella ar ôl y chwe blynedd o esgeulustod iddo ei ddioddef o dan ei berchnogion preifat blaenorol. Rydym ni'n disgwyl gweld mwy o gwmnïau awyrennau yn dod i'r maes awyr yn y dyfodol. Mae'n dangos, gyda'r ymrwymiad a ddangosir gan y Llywodraeth, ei bod yn bosibl gweddnewid maes awyr, yn union fel y mae'r Alban wedi ei wneud gyda Prestwick, ac, yn wir, yn union fel y mae llywodraeth leol yn ei wneud yn Lloegr, gan mai llywodraeth leol sy'n berchen ar faes awyr Manceinion a maes awyr Stanstead hefyd, o ran hynny. Rydym ni'n falch o weld bod y maes awyr yn symud i'r cyfeiriad iawn; rydym ni'n falch o weld bod mwy a mwy o deithwyr yn defnyddio'r maes awyr ac mae'n dangos bod y penderfyniad a wnaed gennym i brynu'r maes awyr, yn wir, yr un cywir.

14:06 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the steps taken by the Welsh Government to take on the airport, to save the airport, have not only been a success: it's seen a massive rise in passenger numbers. Do you not agree with me that it is absolutely shameful that the Welsh Conservative party are doing everything they can to undermine the airport? Had they been in Government, do you agree with me they would've abandoned the airport and, by now, the airport would be shut and if that was the consequence, how many jobs would the Tories have thrown away because of their failure to stand up for a Welsh economic lever and institution?

Brif Weinidog, mae'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gymryd y maes awyr drosodd, i achub y maes awyr, nid yn unig wedi bod yn llwyddiant: mae wedi arwain at gynnydd aruthrol i nifer y teithwyr. Onid ydych chi'n cytuno â mi ei bod yn gwbl gywilyddus bod plaid Geidwadol Cymru yn gwneud popeth a allant i danseilio'r maes awyr? Pe bydden nhw wedi bod mewn Llywodraeth, a ydych chi'n cytuno â mi y byddent wedi troi eu cefnau ar y maes awyr ac, erbyn hyn, y byddai'r maes awyr wedi cau ac os mai dyna'r canlyniad, faint o swyddi fyddai'r Torïaid wedi eu taflu i ffwrdd oherwydd eu methiant i sefyll dros sbardun economaidd a sefydliad yng Nghymru?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

They would've thrown away 1,700 jobs. That's what they would've done. As I've said to them before, when we spoke—[Interruption.]. It hurts, I know, and you like to cry out a lot.

Byddent wedi taflu 1,700 o swyddi i ffwrdd. Dyna beth y bydden nhw wedi ei wneud. Fel yr wyf i wedi dweud wrthyn nhw o'r blaen, pan fuom yn siarad—[Torri ar draws.]. Mae'n brifo, rwy'n gwybod, ac rydych chi'n hoff iawn o weiddi.

14:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order.

Trefn, trefn.

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The reality of the situation is this: the company that owned the airport in a meeting with me said quite frankly to me that they expected the airport to decline and close. They were not interested in selling it to another private buyer; they were interested in selling it to us as a Government. They were not interested in working with us on route development; they made that clear. We took the airport over, we saved those jobs, the airport is growing, there are more people using the airport. The Welsh Conservatives would've seen that runway turned to grass, the airport closed and British Airways Maintenance closed, all because of a narrow, ideological problem that they had with public ownership. We take the view that the airport's an economic driver, we're seeing more passengers, more people employed there, and it is right that that airport is in public ownership and prospering—not the disaster it would've been if the Tories had been in charge.

Y gwir am y sefyllfa yw hyn: dywedodd y cwmni a oedd yn berchen ar y maes awyr mewn cyfarfod gyda mi yn blwmp ac yn blaen wrthyf eu bod yn disgwyl i'r maes awyr ddirywio a chau. Nid oedd ganddyn nhw ddiddordeb mewn gwerthu i brynwr preifat arall; roedd ganddyn nhw ddiddordeb mewn ei werthu i ni fel Llywodraeth. Nid oedd ganddyn nhw ddiddordeb mewn gweithio gyda ni ar ddatblygu llwybrau; gwnaethant hynny'n eglur. Cymerwyd y maes awyr drosodd gennym, achubwyd y swyddi hynny gennym, mae'r maes awyr yn tyfu, mae mwy o bobl yn defnyddio'r maes awyr. Byddai Ceidwadwyr Cymru wedi gadael i'r rhedfa honno droi'n laswellt, i'r maes awyr gau ac i British Airways Maintenance gau, y cwbl oherwydd problem ideolegol, gul yr oedd ganddynt gyda pherchnogaeth gyhoeddus. Rydym ni o'r farn bod y maes awyr yn sbardun economaidd, rydym ni'n gweld mwy o deithwyr, mwy o bobl yn cael eu cyflogi yno, ac mae'n iawn fod y maes awyr mewn perchnogaeth gyhoeddus ac yn ffynnu—nid y trychineb y byddai wedi bod pe byddai'r Torïaid wedi bod wrth y llyw.

14:08 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I quote from the auditor general's report, First Minister, that the Welsh Government did not prepare a formal benefits rationalisation plan as part of its business case for purchasing the airport. Can this be one of the reasons why you managed to pay twice the market value? Could you go on to identify these potential benefits from the acquisition and how you will manage them after purchase to ensure that they will be delivered?

Dyfynnaf o adroddiad yr archwilydd cyffredinol, Brif Weinidog, na pharatowyd cynllun rhesymoli budd-daliadau ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'i achos busnes ar gyfer prynu'r maes awyr. A allai hwn fod yn un o'r rhesymau pam y gwnaethoch chi lwyddo i dalu ddwywaith gwerth y farchnad? A allech chi fynd ymlaen i nodi'r manteision posibl hyn o'r caffaeliad a sut y byddwch chi'n eu rheoli ar ôl eu prynu er mwyn sicrhau y byddant yn cael eu cyflawni?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Four-hundred-and-seventy-two million pounds is the contribution to the economy. It's odd, isn't is, because when the airport was bought, one Conservative Member, Mohammad Asghar, welcomed it. He welcomed it on Twitter. Then, he was forced to take it down. Apparently, he was being ironic. [Laughter.] But there we are, it shows he follows orders, just like the rest of them.

Pedwar cant saith deg a dau o filiynau o bunnoedd yw'r cyfraniad i'r economi. Mae'n rhyfedd, onid yw, oherwydd pan brynwyd y maes awyr, fe'i croesawyd gan un Aelod Ceidwadol, Mohammad Asghar. Fe'i croesawodd ar Twitter. Yna, fe'i gorfodwyd i'w ddileu. Roedd yn bod yn eironig, mae'n debyg. [Chwerthin.] Ond dyna ni, mae'n dangos ei fod yn dilyn gorchmynion, yn union fel y gweddill ohonyn nhw.

The reality is that the original owners wanted £200 million for the airport—£200 million. We paid £52 million after an independent valuation and we got the airport. That's why it is prospering; it's why it's having investment put into it. It had nothing for years. The infrastructure was crumbling, there were windows cracked and there were airlines that were leaving the airport. In 2007, it had 2.1 million passengers, by 2013, 1.07 million passengers. That was the success of the company that ran the airport under private ownership. Now, we're seeing huge increases in passengers, because the Welsh Government ensured that the people who worked there and the people who use it would not be let down.

Y gwir amdani yw bod y perchnogion gwreiddiol eisiau £200 miliwn am y maes awyr—£200 miliwn. Talwyd £52 miliwn gennym ni ar ôl prisiad annibynnol a chawsom y maes awyr. Dyna pam mae'n ffynnu; dyna pam mae buddsoddiad yn cael ei wneud ynddo. Ni chafodd unrhyw beth am flynyddoedd. Roedd y seilwaith yn dadfeilio, roedd ffenestri wedi cracio ac roedd cwmnïau awyrennau a oedd yn gadael y maes awyr. Yn 2007, roedd ganddo 2.1 miliwn o deithwyr, erbyn 2013, 1.07 miliwn o deithwyr. Dyna oedd llwyddiant y cwmni a redodd y maes awyr o dan berchnogaeth breifat. Nawr, rydym ni'n gweld cynnydd enfawr i nifer y teithwyr, gan fod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau na fyddai'r bobl a oedd yn gweithio yno a'r bobl sy'n ei ddefnyddio yn cael eu siomi.

14:09 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, do you agree with me that the progress made at Cardiff Airport so far has been excellent? And, is it not better for Wales and the Welsh economy to have a successful airport, rather than what the alternative would be—to have lots of new houses being built in Rhoose?

Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi bod y cynnydd a wnaed ym Maes Awyr Caerdydd hyd yn hyn wedi bod yn ardderchog? Ac, onid yw'n well i Gymru ac economi Cymru gael maes awyr llwyddiannus, yn hytrach na'r hyn fyddai'r dewis arall—cael llawer o dai newydd yn cael eu hadeiladu yn y Rhŵs?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. Well, the Conservatives wouldn't care about that. As long as there's no chance of there being any element of public ownership, they'd rather have seen the airport close, which is exactly what would have happened. A major employer in the Vale of Glamorgan would have been lost to the people of the Vale of Glamorgan and to Wales. We know that, when it comes to the Tories, they are best at destroying jobs, not at creating them.

Yn sicr. Wel, ni fyddai ots gan y Ceidwadwyr am hynny. Cyn belled nad oes unrhyw siawns o unrhyw elfen o berchnogaeth gyhoeddus, byddai wedi bod yn well ganddynt weld y maes awyr yn cau, sef yn union beth fyddai wedi digwydd. Byddai cyflogwr mawr ym Mro Morgannwg wedi cael ei golli i bobl Bro Morgannwg ac i Gymru. Rydym ni'n gwybod, pan ddaw i'r Torïaid, mai dinistrio swyddi y maen nhw'n ei wneud orau, nid eu creu.

### Rheoli Traffig yn Sir Drefaldwyn

### Traffic Management in Montgomeryshire

14:10 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am faterion rheoli traffig yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)2692(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on traffic management issues in Montgomeryshire? OAQ(4)2692(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are progressing a number of schemes to address different traffic management issues. For example, the A483 and A489 Newtown bypass will help immensely to alleviate traffic issues in the Member's constituency.

Rydym ni'n symud ymlaen â nifer o gynlluniau i fynd i'r afael â gwahanol faterion rheoli traffig. Er enghraifft, bydd ffordd osgoi ar yr A483 a'r A489 yn y Drenewydd yn helpu'n aruthrol i leddfu problemau traffig yn etholaeth yr Aelod.

14:10 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I do have concerns about the traffic management implications surrounding the movement of turbine components for the Tirgwynt and Garreg Lwyd windfarms. I'm concerned that the general travelling public, including tourists, should not be disadvantaged more than is necessary. You have mentioned the Newtown bypass, which, of course, is very welcome, but will not be in place during the construction of these windfarms. Therefore, can I ask you to compel officials to ensure that the movement of these turbine components is not allowed to take place during peak times in connection with the windfarms I've mentioned?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae gennyf bryderon am y goblygiadau rheoli traffig ynghylch symud cydrannau tyrbinau ar gyfer ffermydd gwynt Tirgwynt a Garreg Lwyd. Rwy'n pryderu na ddylai'r cyhoedd sy'n teithio, gan gynnwys twristiaid, fod o dan anfantais fwy nag sy'n angenrheidiol. Rydych chi wedi sôn am ffordd osgoi'r Drenewydd, sydd, wrth gwrs, i'w chroesawu'n fawr, ond ni fydd ar agor yn ystod y gwaith o adeiladu'r ffermydd gwynt hyn. Felly, a gaf i ofyn i chi orfodi swyddogion i sicrhau na chaniateir i'r cydrannau tyrbinau hyn gael eu symud yn ystod cyfnodau brig o ran y ffermydd gwynt yr wyf i wedi eu crybwyll?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I assure the Member that officials are doing just that, working with the developers to ensure that the movement of large components takes place outside of peak traffic, obviously, to minimise any disruption on the roads.

Gallaf sicrhau'r Aelod bod swyddogion yn gwneud yn union hynny, gan weithio gyda'r datblygwyr i sicrhau bod cydrannau mawr yn cael eu symud ar adeg wahanol i draffig oriau brig, yn amlwg, i sicrhau cyn lleied â phosibl o unrhyw darfu ar y ffyrdd.

14:11 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as you know, the Dyfi bridge is an absolutely crucial element of traffic management in north-west Montgomeryshire and also forms a key arterial route. In the context of its importance, it's particularly a matter of pride for us within the Welsh Liberal Democrats that we were able to secure from the Welsh Government a firm commitment to creating a second Dyfi crossing in the next couple of years. In the context of the recent problems, First Minister, that there've been with flooding and damage to the existing road, will you join your colleague the Minister for transport in reassuring the local community in Machynlleth and the surrounding area that this project will be expedited, given the many benefits that will flow from its delivery?

Brif Weinidog, fel y gwyddoch, mae pont Dyfi yn elfen gwbl hanfodol o reoli traffig yng ngogledd-orllewin Sir Drefaldwyn ac mae hefyd yn brif lwybr allweddol. Yng nghyd-destun ei phwysigrwydd, mae'n fater o falchder arbennig i ni yn Nemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ein bod yn gallu sicrhau gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad cadarn i greu ail bont Dyfi yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf. Yng nghyd-destun y problemau diweddar, Brif Weinidog, a fu gyda llifogydd a difrod i'r ffordd bresennol, a wnewch chi ymuno â'ch cydweithiwr, y Gweinidog trafnidiaeth i dawelu meddyliau'r gymuned leol ym Machynlleth a'r cyffiniau y bydd y prosiect hwn yn cael ei hwyluso, o ystyried y manteision lu a fydd yn llifo o'i gyflwyno?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can assure the Member that the project will be moved forward as quickly as possible. There are many of us who are familiar with the Dyfi bridge—a crucial connection between Powys and Gwynedd and a crucial part of our road network. We know the bridge itself is quite low over the river and it is prone to flooding, and we are moving ahead with the project as quickly as possible.

Gallaf sicrhau'r Aelod y bydd y prosiect yn cael ei symud ymlaen cyn gynted â phosibl. Ceir llawer ohonom ni sy'n gyfarwydd â phont Dyfi—cysylltiad hanfodol rhwng Powys a Gwynedd a rhan hanfodol o'n rhwydwaith ffyrdd. Gwyddom fod y bont ei hun yn eithaf isel dros yr afon a'i bod yn dueddol o ddioddef llifogydd, ac rydym ni'n symud ymlaen â'r prosiect cyn gynted â phosibl.

### Deuoli'r A465

### The Dualling of the A465

14:12 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith deuoli ar yr A465, sef ffordd Blaenau'r Cymoedd? OAQ(4)2693(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on the dualling of the A465 Heads of the Valleys road? OAQ(4)2693(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We've already completed the dualling of sections 1, 3 and 4. Section 2 between Gilwern and Brynmawr is on site; that will be completed by 2018. The final two—section 5, Dowlais to the A470, and section 6, the A470 to Hirwaun—are scheduled for completion by 2020.

Rydym ni eisoes wedi cwblhau deuoli rhannau 1, 3 a 4. Mae Rhan 2 rhwng Gilwern a Brynmawr ar y safle; bydd honno'n cael ei chwblhau erbyn 2018. Disgwylir i'r ddwy olaf—rhan 5, Dowlais i'r A470, a Rhan 6, yr A470 i Hirwaun—gael eu cwblhau erbyn 2020.

14:13 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I was very pleased to get that response to my letter from the economy Minister, confirming the overall dualling project being completed in 2020. Obviously, this has very much been welcomed by my constituents. I do want to press you further today, though, about the proposed junction locations, particularly as they affect Hirwaun and access to the Cynon valley. There was some concern at a public exhibition that the plans on display don't take account of recent property developments. What guarantees can you give that any plans will take these comments on board, so that the needs of local communities are met and the dualled road seamlessly connects with wider transport networks?

Brif Weinidog, roeddwn i'n falch iawn o gael yr ymateb hwnnw i'm llythyr gan Weinidog yr economi, yn cadarnhau y byddai'r prosiect deuoli cyffredinol yn cael ei gwblhau yn 2020. Yn amlwg, croesawyd hyn yn fawr iawn gan fy etholwyr. Hoffwn bwyso arnoch ymhellach heddiw, fodd bynnag, am leoliadau arfaethedig cyffyrdd, yn enwedig gan eu bod yn effeithio ar Hirwaun a mynediad at gwm Cynon. Roedd cryn bryder mewn arddangosfa gyhoeddus nad yw'r cynlluniau a arddangoswyd yn cymryd datblygiadau eiddo diweddar i ystyriaeth. Pa sicrwydd allwch chi ei roi y bydd unrhyw gynlluniau'n cymryd y sylwadau hyn i ystyriaeth, fel bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu diwallu a bod y ffordd wedi'i deuoli yn cysylltu'n ddi-dor â rhwydweithiau trafnidiaeth ehangach?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can give assurance to my friend the Member for Cynon Valley that there will be full engagement with the public and the stakeholders throughout the design phase of the road itself. It's important that we are able to inform the design of the road as it moves forward. There will be an opportunity to comment formally on the draft statutory Orders and the environmental proposals when the draft Orders are published. We do anticipate that a public local inquiry will be required in spring of 2017, in front of an independent inspector. I can confirm to her that the location and nature of the junctions along the route are key elements of the design review that's currently being undertaken.

Gallaf roi sicrwydd i'm cyfaill yr Aelod dros Gwm Cynon y bydd ymgysylltiad llawn â'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid trwy gydol cyfnod dylunio'r ffordd ei hun. Mae'n bwysig ein bod yn gallu llywio dyluniad y ffordd wrth i hynny symud ymlaen. Bydd cyfle i wneud sylwadau ffurfiol ar y Gorchmynion statudol drafft a'r cynigion amgylcheddol pan gaiff y Gorchmynion drafft eu cyhoeddi. Rydym ni'n rhagweld y bydd angen ymchwiliad cyhoeddus lleol yn ystod gwanwyn 2017, gerbron arolygydd annibynnol. Gallaf gadarnhau iddi fod lleoliad a natur y cyffyrdd ar hyd y llwybr yn elfennau allweddol o'r adolygiad dylunio sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

14:14 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, it's good to see work progressing on the dualling of the Clydach gorge section of the A465 between Gilwern and Brynmawr, the section 2 of the road that you referred to. But there have been some issues of concern. I've been contacted by a number of constituents with properties along the route that have not been compulsorily purchased, but, nonetheless, have been devalued by the project. What discussions has the Welsh Government had with people finding themselves in this position, and how are you ensuring that all those adversely affected by construction are adequately compensated?

Brif Weinidog, mae'n dda gweld gwaith yn mynd rhagddo ar ddeuoli rhan ceunant Clydach yr A465 rhwng Gilwern a Brynmawr, rhan 2 y ffordd y cyfeiriasoch ati. Ond bu rhai materion o bryder. Mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi, sydd ag adeiladau ar hyd y llwybr nad ydynt wedi cael eu prynu'n orfodol, ond, serch hynny, wedi cael eu dibrisio gan y prosiect. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael gyda phobl sy'n canfod eu hunain yn y sefyllfa hon, a sut ydych chi'n sicrhau bod pawb sy'n cael eu heffeithio'n andwyol gan waith adeiladu yn cael eu digolledu'n briodol?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we take the view that those who are affected will be adequately compensated. It's right to say, of course, that there may be some people who find themselves a little closer to the road than was previously the case. That's unavoidable, but it is right that they should be compensated for that loss of amenity, and we believe that that is happening on a fair basis.

Wel, rydym ni o'r farn y bydd y rhai sy'n cael eu heffeithio yn cael iawndal priodol. Mae'n iawn i ddweud, wrth gwrs, efallai y bydd rhai pobl yn canfod eu bod ychydig yn agosach at y ffordd nag o'r blaen. Mae hynny'n anochel, ond mae'n iawn y dylen nhw gael eu digolledu am y golled amwynder honno, a chredwn fod hynny'n digwydd ar sail deg.

### Dechrau'n Deg

### Flying Start

14:15 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth Dechrau'n Deg? OAQ(4)2687(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on Flying Start provision? OAQ(4)2687(FM)*

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Flying Start is one of our top commitments. It improves outcomes for children and their families, and we exceeded our target to double the number of children benefiting from Flying Start a year early, supporting more than 37,000 children across Wales.

Gwnaf. Dechrau'n Deg yw un o'n prif ymrwymiadau. Mae'n gwella canlyniadau i blant a'u teuluoedd, a rhagorwyd ar ein targed i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar Ddechrau'n Deg flwyddyn yn gynnar, gan gefnogi dros 37,000 o blant ledled Cymru.

14:15 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the success of it in Swansea was highlighted by the education Minister last week when he visited two schools in my constituency, where the headteachers were very keen to point out how very helpful Flying Start was for children pre-nursery, and how the transition into nursery education was so much easier when children had gone through Flying Start. Will the First Minister commit to the continuation of Flying Start—and is that just another example of the Tories for the rich, Labour for the rest?

Wel, amlygwyd ei lwyddiant yn Abertawe gan y Gweinidog addysg yr wythnos diwethaf pan ymwelodd â dwy ysgol yn fy etholaeth i, lle'r oedd y penaethiaid yn awyddus iawn i nodi pa mor ddefnyddiol oedd Dechrau'n Deg i blant cyn-meithrin, a sut yr oedd y cyfnod pontio addysg feithrin gymaint yn haws pan fo plant wedi bod trwy Ddechrau'n Deg. A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo i barhau Dechrau'n Deg—a yw honno'n enghraifft arall eto o'r Toriaid i'r cyfoethog, a Llafur i'r gweddill?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely right. Absolutely right. Well, we only saw that earlier on today and with the court judgment last week. It just goes to prove exactly where the Tories lie in terms of those they want to support. [Interruption.] It is socialism; yes, you're right. I'm quite happy for him to bring that up; it is. Looking after those who need help most is part of what we stand for as a party. If that's socialism, we all believe in that. So, tough luck if the leader of the opposition doesn't actually believe in it. We will continue with Flying Start. As the Member rightly says, it has helped many, many thousands of people, and we as a Government are proud of what it's achieved.

Cwbl gywir. Cwbl gywir. Wel, gwelsom hynny ddim ond yn gynharach heddiw a chyda'r dyfarniad llys yr wythnos diwethaf. Mae'n profi'n union beth yw safbwynt y Toriaid o ran y rheini y maen nhw eisiau eu cefnogi. [Torri ar draws.] Sosialaeth yw e; ie, rydych chi'n iawn. Rwy'n eithaf hapus iddo grybwyll hynny; dyna yw e. Mae gofalu am y rhai sydd angen cymorth fwyaf yn rhan o'r hyn yr ydym yn sefyll drosto fel plaid. Os mai sosialaeth yw hynny, rydym ni i gyd yn credu yn hynny. Felly, mae'n bechod os nad yw arweinydd yr wrthblaid yn credu ynddo. Byddwn yn parhau â Dechrau'n Deg. Fel y mae'r Aelod yn ei ddweud yn gywir, mae wedi helpu miloedd lawer o bobl, ac rydym ni fel Llywodraeth yn falch o'r hyn y mae wedi ei gyflawni.

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Janet Finch-Saunders.

Janet Finch-Saunders.

14:16 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer, and, to the First Minister, the Welsh Conservatives do fully support the principle of Flying Start. However, the recent Wave 1 report highlighted that the level of awareness for families—awareness of the entitlements—was very much dependent on the information provided to them by their health visitor and, clearly, the relationship between a health visitor and these families is very key here, and it's very dependent on that. Where there isn't a health visitor available, many are now missing out on this scheme. How are you working as a Welsh Government to address the failings that have been highlighted in the Wave 1 report?

Diolch i chi, Lywydd, ac, i'r Prif Weinidog, mae Ceidwadwyr Cymru'n cefnogi egwyddor Dechrau'n Deg yn llwyr. Fodd bynnag, amlygodd yr adroddiad Cam 1 diweddar fod lefel yr ymwybyddiaeth i deuluoedd—ymwybyddiaeth o hawliau—yn dibynnu'n fawr iawn ar y wybodaeth a roddir iddynt gan eu hymwelydd iechyd ac, yn amlwg, mae'r berthynas rhwng ymwelydd iechyd a'r teuluoedd hyn yn allweddol iawn yn hyn o beth, ac mae'n dibynnu'n fawr ar hynny. Pan nad oes ymwelydd iechyd ar gael, mae llawer nad ydynt yn gallu manteisio ar y cynllun hwn nawr. Sut ydych chi'n gweithio fel Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r methiannau a amlygwyd yn yr adroddiad Cam 1?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I'm glad to hear what the Member has said about supporting Flying Start, even though this is an area that's due for a 20 per cent cut, according to her own party. So, there we are. That is something that they will have to resolve themselves, although, as the leader of the opposition put it, they haven't crunched the numbers yet, which is what he said in the leaders' debate we had on 'Sunday Politics Wales', when I challenged him on where his figures were coming from. There we are.

Wel, rwy'n falch o glywed yr hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud am gefnogi Dechrau'n Deg, er bod hwn yn faes a fydd yn dioddef toriad o 20 y cant, yn ôl ei phlaid ei hun. Felly, dyna ni. Mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid iddyn nhw ei ddatrys eu hunain, er, fel y dywedodd arweinydd yr wrthblaid, nid ydynt wedi dadansoddi'r rhifau eto, sef yr hyn a ddywedodd yn y ddadl arweinwyr a gawsom ar 'Sunday Politics Wales', pan ofynnais iddo o ble'r oedd ei ffigurau'n dod. Dyna ni.

Each local authority's able to apply a degree of flexibility within the Flying Start programme by offering support through outreach. We know that outreach enables families living outside Flying Start areas to access the support that they need, and, using local knowledge and a robust assessment of priority, local authorities can ensure that those most in need receive this service.

Gall pob awdurdod lleol arfer rhywfaint o hyblygrwydd o fewn rhaglen Dechrau'n Deg trwy gynnig cymorth drwy allgymorth. Rydym ni'n gwybod bod allgymorth yn galluogi teuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt, a, chan ddefnyddio gwybodaeth leol ac asesiad cadarn o flaenoriaeth, gall awdurdodau lleol sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn angen yn derbyn y gwasanaeth hwn.

14:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And finally, Leanne Wood.

Ac yn olaf, Leanne Wood.

14:18

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer then on flexibility, First Minister, because I've got a constituent in the Rhondda who has to pay £20 a week for her child to attend the local Flying Start scheme because she lives across the road from the catchment area. Now, she fears that the lack of money will force her to stop sending her daughter to that scheme, which would be a real shame because her daughter's doing very well there. What flexibility is within the scheme to allow my constituent to access a free place for her child?

Diolch i chi am eich ateb yn y fan yna am hyblygrwydd, Brif Weinidog, oherwydd mae gen i etholwr yn y Rhondda sy'n gorfod talu £20 yr wythnos i'w phlentyn fynychu'r cynllun Dechrau'n Deg lleol gan ei bod yn byw ar draws y ffordd o'r dalgylch. Nawr, mae hi'n ofni y bydd y diffyg arian yn ei gorfodi i roi'r gorau i anfon ei merch i'r cynllun hwnnw, a fyddai'n drueni mawr gan fod ei merch yn gwneud yn dda iawn yno. Pa hyblygrwydd sydd yn y cynllun i ganiatáu i'm hetholwr gael lle am ddim i'w phlentyn?

14:18

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, at the moment, of course, the scheme is geographically targeted. Nevertheless, one of the issues that we will deal with over the course of the next few months is whether it should continue to be geographically targeted or targeted in another way. Those are matters, no doubt, that will come out over the course of the next few months between now and May.

Wel, ar hyn o bryd, wrth gwrs, mae'r cynllun wedi'i dargedu'n ddaearyddol. Serch hynny, un o'r materion y byddwn yn ymdrin ag ef yn ystod y misoedd nesaf yw a ddylai barhau i gael ei dargedu'n ddaearyddol ynteu cael ei dargedu mewn ffordd arall. Mae'r rheini'n faterion, yn ddiau, a fydd yn dod i'r amlwg yn ystod y misoedd nesaf rhwng nawr a mis Mai.

14:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:19

# 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes, a galwaf ar Jane Hutt y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

14:19

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Thank you, Llywydd. There's been one change to the business statement for this week's business. The Minister for Economy, Science and Transport will be making an oral statement to provide an update on Tata Steel. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, and found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch i chi, Lywydd. Bu un newid i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad llafar i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Tata Steel. Mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, a welir ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:19 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm sure you would agree with me that the importance of consistent and inspirational leadership cannot be underestimated, given that, at the moment, a good school has a good head, and a good head can make such a difference not only to the teachers within the school, but also to the pupils who attend that school. At present, there are over 100—more than 100—vacancies for headships throughout the whole of Wales. That is a shocking number that we are short, and I wondered if you would ask the Minister for Education and Skills to bring forward an urgent statement on this issue, so that we can discuss it and see what we may all do to in fact improve this situation, as it affects the life chances of so many of the young people of Wales.

Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi na ellir gorbwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth gyson ac ysbrydoledig, o gofio, ar hyn o bryd, bod gan ysgol dda bennaeth da, a gall pennaeth da wneud cymaint o wahaniaeth nid yn unig i'r athrawon yn yr ysgol, ond hefyd i'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol honno. Ar hyn o bryd, ceir dros 100—mwy na 100—o swyddi pennaeth gwag ledled Cymru gyfan. Mae hynny'n ddiffyg syfrdanol, ac roeddwn i'n meddwl tybed a wnewch chi ofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau gyflwyno datganiad brys ar y mater hwn, fel y gallwn ei drafod a gweld beth allwn ni i gyd ei wneud mewn gwirionedd i wella'r sefyllfa hon, gan ei bod yn effeithio ar gyfleoedd bywyd cynifer o bobl ifanc Cymru.

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, clearly, leadership is critical, but we monitor the recruitment of headteacher vacancies very closely and, indeed, in fact, in terms of vacancies, in some areas they occur for many manageable and planned reasons. The issue is important, but, clearly, also, there is a great appetite for leadership in the teaching profession.

Wel, yn amlwg, mae arweinyddiaeth yn hollbwysig, ond rydym ni'n monitro recriwtio i swyddi pennaeth yn agos iawn ac, yn wir, a dweud y gwir, o ran swyddi gwag, maen nhw'n bodoli am lawer o resymau y gellir eu rheoli ac sydd wedi'u cynllunio mewn rhai ardaloedd. Mae'r mater hwn yn bwysig, ond, yn amlwg, hefyd, ceir awydd mawr am arweinyddiaeth yn y proffesiwn addysgu.

14:20 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I was wondering if we could have a statement on a report that was in 'The Lancet Oncology' relatively recently about the benefits of proton beam therapy treatment. It said that there were fewer side-effects and that it had good treatment purposes for young people. I ask in relation to the fact that, as you will know, Freya Bevan, a young two-year-old from my constituency in Neath, had to seek treatment in America because of the lack of treatment here. I understand that the health Minister did speak to the family earlier on today and committed to a meeting with them, so I wondered if we could have a statement from the health Minister to that effect, so that other young children may have the possibility of having such treatment in the future.

Weinidog, roeddwn i'n meddwl tybed a allem ni gael datganiad ar adroddiad a oedd yn 'The Lancet Oncology' yn gymharol ddiweddar am fanteision triniaeth therapi pelydr proton. Roedd yn dweud bod llai o sgil-effeithiau a bod ganddi ddibenion triniaeth da i bobl ifanc. Rwy'n gofyn yng nghyswllt y ffaith, fel y gwyddoch, y bu'n rhaid i Freya Bevan, plentyn ifanc dwyflwydd oed o'm hetholaeth i yng Nghastell-nedd geisio triniaeth yn America oherwydd y diffyg triniaeth yma. Rwy'n deall fod y Gweinidog iechyd wedi siarad â'r teulu yn gynharach heddiw gan ymrwymo i gyfarfod â nhw, felly roeddwn i'n meddwl tybed a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog iechyd i'r perwyl hwnnw, fel y gall plant ifanc eraill gael y posibilrwydd o dderbyn triniaeth o'r fath yn y dyfodol.

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, I understand that this is an issue of great public interest. I would say that I also attended a very important event today in terms of raising awareness about advances and opportunities in terms of cancer treatment, and, of course, the Minister will be responding in due course.

Yn amlwg, rwy'n deall bod hwn yn fater o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd. Rwyf am ddweud fy mod innau hefyd yn bresennol mewn digwyddiad pwysig iawn heddiw o ran codi ymwybyddiaeth o ddatblygiadau a chyfleoedd o ran triniaeth canser, ac, wrth gwrs, bydd y Gweinidog yn ymateb maes o law.

14:22 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, on 17 December, during the busiest dispensing week of the year for pharmacies, the Department of Health in England wrote confirming significant cuts in the funding formula for community pharmacy. You'll be aware that that funding formula affects both England and Wales. Now, I have been warned by people working in the profession that these cuts could lead to up to a quarter of the community pharmacies in Wales closing. Could you arrange for a statement from the Welsh health Minister confirming the Welsh Government's commitment to the role of community pharmacy and the impact the decision on the funding formula may have on Welsh community pharmacies, and what steps we may be able to take here in Wales to support that very, very important part of the primary healthcare team?

Weinidog, ar 17 Rhagfyr, yn ystod wythnos dosbarthu meddyginiaethau brysuraf y flwyddyn i fferyllfeydd, ysgrifennodd yr Adran Iechyd yn Lloegr i gadarnhau toriadau sylweddol i'r fformiwla ariannu ar gyfer fferylliaeth gymunedol. Byddwch yn ymwybodol bod y fformiwla cyllido yn effeithio ar Gymru a Lloegr. Nawr, rwyf wedi cael fy rhybuddio gan bobl sy'n gweithio yn y proffesiwn y gallai'r toriadau hyn arwain at gau hyd at chwarter y fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru. A allech chi drefnu datganiad gan Weinidog iechyd Cymru yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i swyddogaeth fferylliaeth gymunedol a'r effaith y gallai'r penderfyniad ar y fformiwla ariannu ei chael ar fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru, a pha gamau y gallem ni eu cymryd yma yng Nghymru i gefnogi'r rhan bwysig dros ben honno o'r tîm gofal iechyd sylfaenol?

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think the support for community pharmacy, particularly led by our Minister for Health and Social Services, is very clear and is renowned. Of course, when we have a funding formula that applies to England and Wales, we do what we can within our powers and opportunities to protect and promote community pharmacy, which we know is an important part of our move to a primary care-led preventative health service.

Wel, rwy'n meddwl bod y gefnogaeth i fferylliaeth gymunedol, dan arweiniad penodol ein Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn eglur iawn ac yn adnabyddus. Wrth gwrs, pan fydd gennym ni fformiwla ariannu sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, rydym ni'n gwneud yr hyn a allwn o fewn ein pwerau a'n cyfleoedd i ddiogelu a hybu fferylliaeth gymunedol, yr ydym ni'n gwybod sy'n rhan bwysig o'n symudiad i wasanaeth iechyd ataliol dan arweiniad gofal sylfaenol.

14:23 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I request a statement from the Deputy Minister for Farming and Food on the ongoing delays to single farm payments? I've received a significant amount of correspondence regarding the effects of late payments. Now, the Deputy Minister has previously stated that the Welsh Government would be writing to any farmers unlikely to be paid by the end of January, to provide them with an outline of when they can expect to be paid. The end of January, of course, has now passed. So, I would ask for a statement clarifying, of those farmers who have not been paid, when they are likely to be paid, and confirmation that the Government has now written to those farmers. Can the statement also confirm if letters to farmers will give specific details of the reasons why farmers have not been paid?

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar yr oedi parhaus i daliadau sengl i ffermydd? Rwyf wedi derbyn llawer iawn o ohebiaeth am effeithiau taliadau hwyr. Nawr, mae'r Dirprwy Weinidog wedi datgan yn flaenorol y byddai Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at unrhyw ffermwyr a oedd yn annhebygol o gael eu talu erbyn diwedd mis Ionawr, i roi amlinelliad iddyn nhw o bryd y gallant ddisgwyl cael eu talu. Mae diwedd mis Ionawr, wrth gwrs, wedi mynd heibio nawr. Felly, byddwn yn gofyn am ddatganiad yn egluro, oran y ffermwyr hynny nad ydynt wedi cael eu talu, pryd y maen nhw'n debygol o gael eu talu, a chadarnhad bod y Llywodraeth wedi ysgrifennu at y ffermwyr hynny erbyn hyn. A all y datganiad gadarnhau hefyd pa un a fydd y llythyrau i ffermwyr yn rhoi manylion penodol y rhesymau pam nad yw ffermwyr wedi cael eu talu?

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, more than half of Welsh farm businesses eligible under the new basic payment scheme received their payment during the first week of the seven-month payment window. More than two thirds were paid by the end of December. We've paid 77 per cent of businesses to date, promptly processing the remaining claims. This outperforms the rest of the UK—I hope that you would recognise that; I'm sure you would, Russell George—during the first year of a complex new scheme. And farmers who hadn't been paid by the end of January will have received a letter updating them on progress and when they should expect payment.

Wel, derbyniodd mwy na hanner y busnesau fferm yng Nghymru sy'n gymwys o dan y cynllun taliad sylfaenol newydd eu taliad yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod talu saith mis. Talwyd mwy na dwy ran o dair erbyn diwedd mis Rhagfyr. Rydym ni wedi talu 77 y cant o fusnesau hyd yn hyn, gan brosesu'r hawliadau sy'n weddill yn brydlon. Mae hyn yn berfformiad gwell na gweddill y DU—rwy'n gobeithio y byddech chi'n cydnabod hynny; rwy'n siŵr y byddech chi, Russell George—yn ystod blwyddyn gyntaf cynllun newydd cymhleth. A bydd ffermwyr nad ydynt wedi cael eu talu erbyn diwedd mis Ionawr wedi derbyn llythyr yn eu diweddaru ar gynnydd a phryd y dylent ddisgwyl cael eu talu.

14:24 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar gynnig i greu chwech o ardaloedd morol gwarchodedig newydd. Yn ôl y bwriad yma, neu’r cynllun yma, bydd y rhan fwyaf o foroedd Cymru yn ardaloedd gwarchodedig os bydd y cynigion yn cael eu derbyn. Bydd llawer ohonom ni’n cofio bod yna lanast llwyr wedi digwydd y tro diwethaf y bu cynigion o’r fath gan y Llywodraeth oherwydd diffyg trafod, a dweud y gwir, rhwng rhanddeiliaid, y Llywodraeth a Chyfoeth Naturiol Cymru. Felly, a gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog i egluro pwrpas a natur y cynigion yma, er eglurder ac am fod pryderon a gwrthwynebiadau eisoes yn cael eu lleisio, ac mi fyddai fo o gymorth mawr i ninnau hefyd gael deall yn union beth ydy goblygiadau’r dynodiad hwn?

Natural Resources Wales is consulting on proposals to create six new marine protected areas. According to this scheme, most of Wales’s seas will be protected areas if the proposals are accepted. Many of us will recall that there was a complete mess the last time that such proposals were put forward by the Government because of a lack of discussion and negotiation between stakeholders, the Government and NRW. So, could we have a statement from the Minister explaining the purpose and nature of these proposals, for clarity and because there are concerns and opposition already being voiced and it would be of great assistance to us to understand exactly what the implications of these designations will be?

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, that is the whole point why there is a consultation. The consultation will be thorough, and is very clear, and of course we would expect and hope there would be a full response in terms of consideration of these proposals for six new protected areas.

Wel, wrth gwrs, dyna'r holl bwynt o gynnal ymgynghoriad. Bydd yr ymgynghoriad yn drwyadl, ac yn eglur iawn, a byddem yn disgwyl ac yn gobeithio wrth gwrs y byddai ymateb llawn o ran ystyried y cynigion hyn ar gyfer chwe ardal warchodedig newydd.

14:26 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wonder if I might request two statements today from the Minister for Health and Social Services. Firstly, on the provision of care for vulnerable adults with autistic spectrum disorders, I’ve received a number of letters from constituents who haven’t been able to access the respite care that they need in order to continue supporting their loved ones, and it seems that provision isn’t growing at the same pace as demand at present. Secondly, I know that that Minister attended the Independent Cancer Patients’ Voice event earlier today, and will be struck by many of the stories that we have heard. But I was particularly struck by a group representing bladder cancer, which is the ninth most common cancer in Britain at the moment, and yet Wales has higher incidence than the UK average, and they don’t know the reasons why. I wonder if we could have a statement looking at whether or not we can instigate some research into why Wales seems to be disproportionately represented by this particular cancer.

Tybed a gaf i ofyn am ddau ddatganiad heddiw gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gyntaf, ar y ddarpariaeth o ofal i oedolion agored i niwed sydd ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, rwyf wedi derbyn nifer o lythyrau gan etholwyr nad ydynt wedi gallu cael mynediad at y gofal seibiant sydd ei angen arnynt er mwyn parhau i gefnogi eu hanwyliaid, ac ymddengys nad yw'r ddarpariaeth yn tyfu ar yr un cyflymder â galw ar hyn o bryd. Yn ail, gwn fod y Gweinidog yn bresennol mewn digwyddiad Independent Cancer Patients’ Voice yn gynharach heddiw, ac y bydd llawer o'r straeon a glywsom wedi cael effaith arno. Ond cefais fy nharo’n arbennig gan grŵp yn cynrychioli canser y bledren, sef y nawfed canser mwyaf cyffredin ym Mhrydain ar hyn o bryd, ac eto mae gan Gymru fwy o achosion na chyfartaledd y DU, ac nid ydynt yn gwybod y rhesymau pam. Tybed a allem ni gael datganiad yn ystyried pa un a allwn ni gychwyn gwaith ymchwil i'r rheswm pam mae’n ymddangos bod Cymru wedi’i chynrychioli’n anghymesur gan y canser penodol hwn.

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Eluned Parrott, for your questions. The first question, of course, is about the delivery of the very pioneering, of course, in terms of Welsh Government leadership, autistic spectrum disorder strategy. It is to be delivered with support and with financial support from the Welsh Government over a number of years at a local level, and of course that has to also be a collaborative partnership, not just by local authorities, but by health boards and, indeed, with third sector engagement, and crucially, of course, those who are recipients and users of those services, and their families. Of course, the event today enabled us as Members to learn a great deal about not only the research and work that is going on, but also the campaigns, and the engagement of people at all levels in terms of cancer services. The Ministers, I’m sure, will be responding to many of the issues that were raised at the event.

Diolch i chi, Eluned Parrott, am eich cwestiynau. Mae’r cwestiwn cyntaf, wrth gwrs, yn ymwneud â darpariaeth y strategaeth anhwylder ar y sbectrwm awtistig hynod arloesol, wrth gwrs, o ran arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru,. Bydd yn cael ei chyflawni gyda chefnogaeth a chyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd ar lefel leol, ac wrth gwrs mae’n rhaid hefyd i honno fod yn bartneriaeth gydweithredol, nid gan awdurdodau lleol yn unig, ond gan fyrddau iechyd ac, yn wir, gydag ymgysylltiad y trydydd sector, ac yn hollbwysig, wrth gwrs, y rhai sy'n derbyn ac yn defnyddio’r gwasanaethau hynny, a'u teuluoedd. Wrth gwrs, galluogodd y digwyddiad heddiw i ni fel Aelodau ddysgu llawer am, nid yn unig yr ymchwil a'r gwaith sy'n cael ei wneud, ond hefyd yr ymgyrchoedd, a’r ymgysylltiad â phobl ar bob lefel o ran gwasanaethau canser. Bydd y Gweinidogion, rwy'n siŵr, yn ymateb i lawer o'r materion a godwyd yn y digwyddiad.

14:28 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Firstly, I endorse the call by my colleague Eluned over autistic spectrum disorder. We know that the refreshed strategy is likely to be published just before we go into dissolution, which will prevent proper scrutiny, and there's already concern that it will be very weak on duties, and concern that the independent evaluation may not be published in full, and may only be referred to in the appendix. This Assembly needs to know what the Welsh Government will include in that refresh strategy before it goes into dissolution.

Yn gyntaf, ategaf yr alwad gan fy nghyd-Aelod Eluned o ran anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Rydym ni'n gwybod bod y strategaeth ar ei newydd wedd yn debygol o gael ei chyhoeddi ychydig cyn i ni fynd i'r cyfnod o ddiddymiad, a fydd yn atal craffu priodol, a cheir pryder eisoes y bydd yn wan iawn o ran dyletswyddau, a phryder efallai na fydd y gwerthusiad annibynnol yn cael ei gyhoeddi'n llawn, ac efallai mai dim ond yn yr atodiad y bydd cyfeiriad ato. Mae angen i'r Cynulliad hwn wybod beth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gynnwys yn y strategaeth wedi'i diweddaru honno cyn iddo ddiddymu.

Secondly, and finally, I call for a statement on funding for child contact centres in Wales. As Relate Cymru state, poorer relationship quality is associated with a wide range of negative outcomes for adults and children, leading to poorer physical and mental health, poorer employment outcomes, and higher levels of negative health behaviours, such as smoking and substance misuse. The Minister for Health and Social Services has recognised the impact of proposed funding cuts by CAFCASS Cymru and the impact they'd have on child contact services because of the reduction in CAFCASS Cymru referrals, and there is transition funding for those organisations in receipt of funding previously, who will be provided with an additional one-off transitional sum of £2,000. However, the National Association of Child Contact Centres say, 'the response misses the fundamental point that we've been trying to make, which is the need for contact centres to be funded for the work they do, and will continue to do, for non-CAFCASS referrals'.

Yn ail, ac yn olaf, galwaf am ddatganiad ar gyllid ar gyfer canolfannau cyswllt plant yng Nghymru. Fel y dywed Relate Cymru, mae perthnasoedd o ansawdd gwaeth yn gysylltiedig ag amrywiaeth eang o ganlyniadau negyddol i oedolion a phlant, gan arwain at iechyd corfforol a meddyliol gwaeth, canlyniadau cyflogaeth gwaeth, a lefelau uwch o ymddygiadau iechyd negyddol, fel ysmygu a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cydnabod effaith y toriadau arfaethedig i gyllid gan CAFCASS Cymru a'r effaith y byddent yn ei chael ar wasanaethau cyswllt plant oherwydd y gostyngiad i atgyfeiriadau CAFCASS Cymru, a cheir cyllid pontio ar gyfer y sefydliadau hynny a oedd yn derbyn cyllid o'r blaen, a fydd yn cael eu darparu gyda swm trosiannol unto ychwanegol o £2,000. Fodd bynnag, dywed Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant fod 'yr ymateb yn methu'r pwynt sylfaenol yr ydym ni wedi bod yn ceisio ei wneud, sef yr angen i ganolfannau cyswllt gael eu hariannu ar gyfer y gwaith y maen nhw'n ei wneud, ac y byddant yn parhau i'w wneud, ar gyfer atgyfeiriadau nad ydynt yn rhai CAFCASS'.

Finally, Relate themselves say that, despite fewer families having the opportunity to be supported by CAFCASS, the rate of family breakdown in general has not reduced, and the associated problems remain. Again, this calls for a statement to this Assembly, so that this Assembly may consider this matter before it dissolves.

Yn olaf, mae Relate eu hunain yn dweud, er bod gan lai o deuluoedd gyfle i gael eu cefnogi gan CAFCASS, nad yw'r gyfradd chwalfeydd teuluol wedi lleihau'n gyffredinol, ac mae'r problemau cysylltiedig yn parhau. Unwaith eto, mae hyn yn galw am ddatganiad i'r Cynulliad hwn, fel y gall y Cynulliad hwn ystyried y mater hwn cyn ei ddiddymu.

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have already commented on the importance of the autistic spectrum disorder strategy, which, of course, was a result of extensive engagement—and I know you will have played your part in that, Mark Isherwood—to enable us to move forward, again, with the Welsh Government not only providing the leadership, but also the funding support as well. Clearly, the child contact centres are important, and they're not just important within our powers within this Welsh Government or this Assembly. The UK Government has responsibilities as well in terms of the funding. But, it's not only just the specifics in terms of powers and responsibilities, but also, a recognition that when they cut our budget, as they have continued to do over the last five years and into the next year, then it becomes very difficult for vulnerable people, and children in particular, in terms of these services.

Rwyf eisoes wedi gwneud sylwadau ar bwysigrwydd y strategaeth anhwylder ar y sbectrwm awtistig, a ddaeth, wrth gwrs, o ganlyniad i ymgysylltiad helaeth—a gwn y byddwch wedi chwarae eich rhan yn hynny, Mark Isherwood—i'n galluogi i symud ymlaen, unwaith eto, gyda Llywodraeth Cymru nid yn unig yn darparu'r arweinyddiaeth, ond y cymorth ariannol hefyd. Yn amlwg, mae'r canolfannau cyswllt plant yn bwysig, ac nid ydynt yn bwysig yn unig o fewn ein pwerau ni yn y Llywodraeth hon yng Nghymru neu'r Cynulliad hwn. Mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldebau hefyd o ran y cyllid. Ond, nid yw'n ymwneud â'r manylion o ran pwerau a chyfrifoldebau yn unig, ond hefyd, cydnabyddiaeth pan fyddant yn torri ein cyllideb, fel y maen nhw wedi parhau i'w wneud dros y pum mlynedd diwethaf ac i mewn i'r flwyddyn nesaf, yna mae'n dod yn anodd iawn i bobl agored i niwed, a phlant yn arbennig, o ran y gwasanaethau hyn.

14:31 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, you may well have heard of the consternation in the community of St Clears, and also the adjacent communities of Laugharne, Trelech and Llansteffan, at the proposals from Conservative police commissioner Christopher Salmon to close St Clears police station. Coming as it does after the closure, just a few months ago, of two high-street banks in St Clears, there's real concern in that community that this may lead to a rise in opportunistic burglary. And, also, given recent trends in terms of rural crime, particularly around all-terrain vehicles and sheep rustling, will the Minister consider clearing space for a statement, either by her colleague the Minister for Public Services or the Minister for communities, in terms of looking at the cumulative impact, particularly on rural communities, of this kind of withdrawal of services from our rural heartlands?

Arweinydd y tŷ, efallai'n wir y byddwch chi wedi clywed am y pryder yng nghymuned Sanclêr, a hefyd cymunedau cyfagos Talacharn, Trelech a Llansteffan, oherwydd y cynigion gan y comisiynydd heddlu Ceidwadol Christopher Salmon i gau gorsaf heddlu Sanclêr. Yn dilyn, fel y mae, cau, dim ond ychydig fisoedd yn ôl, ddau fanc stryd fawr yn Sanclêr, ceir pryder gwirioneddol yn y gymuned y gallai hyn arwain at gynnydd mewn bwrgleriaeth manteisgar. A, hefyd, o ystyried tueddiadau diweddar o ran troseddau gwledig, yn enwedig o ran cerbydau pob tir a dwyn defaid, a wnaiff y Gweinidog ystyried gwneud lle ar gyfer datganiad, naill ai drwy ei chyd-Weinidog y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus neu'r Gweinidog cymunedau, o ran edrych ar effaith gronnol, yn enwedig ar gymunedau gwledig, y math hwn o ddileu gwasanaethau o'n cadarnleoedd gwledig?

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that question and observation, again, following on from my response to the earlier question, on the cuts that are being made by the UK Government, not just in terms of our block grant, but also on the services that they are directly responsible for as well, and then delivered via this particular police and crime commissioner. But, I'm also very pleased that there is an individual Members' debate next week, I believe, that I've just announced in the business statement, in terms of the adverse impact of the closure of banks, and I know that's particularly affecting rural communities.

Diolchaf i chi am y cwestiwn a'r sylw yna, unwaith eto, yn dilyn fy ymateb i'r cwestiwn cynharach, ar y toriadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU, nid yn unig o ran ein grant bloc, ond hefyd ar y gwasanaethau y maen nhw'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol , ac a ddarparwyd ganddynt wedyn drwy'r comisiynydd heddlu a throsedd penodol hwn. Ond, rwy'n falch iawn y bydd dadl Aelodau unigol yr wythnos nesaf, rwy'n credu, yr wyf i newydd ei gyhoeddi yn y datganiad busnes, o ran effaith andwyol cau banciau, a gwn fod hynny'n effeithio ar gymunedau gwledig yn arbennig.

14:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And finally, Andrew R.T. Davies.

Ac yn olaf, Andrew R.T. Davies.

14:33 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, I had the privilege and pleasure to sponsor the Independent Cancer Patients' Voice event over the lunchtime, and I'm hugely grateful to all Members from all political parties who attended that. In particular, I pay tribute to Annie Mulholland, and the people who helped and supported her in pulling such a magnificent event together in the Pierhead building.

The one issue that did come across when I was talking to people around the event was some of the inconsistencies in the different health boards, and in particular, a sharing of best practice amongst the health boards. I'd be grateful if the Minister could give a statement to the Assembly in relation to what he expects of health boards, when sharing best practice, when identifying problem areas, so that some of these issues that appear in one health board are not replicated in other areas—if they are poor practice—but where they're good practice, they are adopted, and that, ultimately, cancer patients, wherever they live in Wales, can have the best possible service at their disposal, in the hope for progression through into remission.

Arweinydd y tŷ, cefais y fraint a'r pleser o noddi'r digwyddiad Independent Cancer Patients' Voice yn ystod amser cinio, ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r holl Aelodau o bob plaid wleidyddol a oedd yn bresennol. Yn benodol, rwy'n talu teyrnged i Annie Mulholland, a'r bobl a wnaeth ei helpu a'i chefnogi i drefnu digwyddiad mor wych yn adeilad y Pierhead.

Yr un mater a ddaeth i'm sylw pan roeddwn i'n siarad â phobl o amgylch y digwyddiad oedd rhai o'r anghysondebau yn y gwahanol fyrddau iechyd, ac yn benodol, rhannu arferion gorau ymhlith y byrddau iechyd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi datganiad i'r Cynulliad ar yr hyn y mae'n ei ddisgwyl gan fyrddau iechyd, wrth rannu arfer gorau, wrth nodi meysydd sy'n achosi problemau, fel nad yw rhai o'r materion hyn sy'n ymddangos mewn un bwrdd iechyd yn cael eu hailadrodd mewn ardaloedd eraill—os ydynt yn arfer gwael—ond pan eu bod nhw'n arfer da, eu bod yn cael eu mabwysiadu, ac, yn y pen draw, y gall cleifion canser, lle bynnag y maen nhw'n byw yng Nghymru, gael y gwasanaeth gorau posibl ar gael iddynt, yn y gobaith o wneud cynnydd hyd at wellhad.

14:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I've said before, I would also like to thank all of those who were engaged and who organised the cancer voice event today. I was very pleased also to meet Baroness Delyth Morgan, chief executive of Breast Cancer Now, and indeed local constituents who are fully engaged—and support groups, as well—in campaigning issues. I think it's very important, and I know this message was given by our Ministers, that more people are surviving cancer than ever before in Wales, despite an 11.5 per cent increase in the number of people diagnosed compared to 10 years ago. Cancer survival rates in Wales are at an all-time high, and we also know the overwhelming majority of people have a positive experience of cancer care here. We do have a proud record of making sure people in Wales have access to clinically effective and evidence-based treatments for all conditions, not just cancer, across the whole of Wales. And that, of course, addresses your point about consistency.

Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, hoffwn ddiolch hefyd i bawb a gymerodd ran ac a drefnodd y digwyddiad llais canser heddiw. Roeddwn i'n falch iawn hefyd o gwrdd â'r Farwnes Delyth Morgan, prif weithredwr Breast Cancer Now, ac, yn wir, etholwyr lleol sydd wedi'u hymgysylltu'n llawn—a grwpiau cymorth hefyd—â materion ymgyrchu. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, a gwn fod y neges hon wedi ei chyfleu gan ein Gweinidogion, bod mwy o bobl yn goroesi canser nag erioed o'r blaen yng Nghymru, er gwaethaf cynnydd o 11.5 y cant i nifer y bobl sy'n cael diagnosis o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl. Mae cyfraddau goroesi canser yng Nghymru ar eu huchaf erioed, ac rydym ni hefyd yn gwybod bod y mwyafrif llethol o bobl yn cael profiad cadarnhaol o ofal canser yma. Mae gennym ni hanes balch o sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael mynediad at driniaethau clinigol effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pob cyflwr, nid dim ond canser, ledled Cymru gyfan. Ac mae hynny, wrth gwrs, yn ateb eich pwynt ynghylch cysondeb.

14:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:35

## 3. Datganiad: Diweddariad ar Tata Steel

## 3. Statement: Update on Tata Steel

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement from the Minister for Economy, Science and Transport, and it's an update on Tata Steel. Edwina Hart.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i roi'r newyddion diweddaraf am Tata Steel. Edwina Hart.

14:35 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Presiding Officer. I wrote to Members on 25 January with an update following the first meeting of the Tata Steel taskforce. I outlined the discussions held, and the actions agreed, in relation to establishing four work streams. I also provided more detail during the debate on steel last week. The purpose of my statement today is to provide Members with an update following the second meeting of the taskforce, which took place yesterday afternoon.

Diolch, Lywydd. Ysgrifennais at yr Aelodau ar 25 Ionawr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl cyfarfod cyntaf tasglu Tata Steel. Amlinellais y trafodaethau a gynhaliwyd, a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt, ar gyfer sefydlu pedair ffrwd waith. Gwnes hefyd ddarparu mwy o fanylion yn ystod y ddadl am ddur yr wythnos diwethaf. Diben fy natganiad heddiw yw rhoi diweddariad i'r Aelodau ar ôl ail gyfarfod y tasglu, a gynhaliwyd brynhawn ddoe.

Once again, there was a strong attendance from Tata, Unite and Community unions, as well as organisations able to provide support for individuals, and the business community. I was pleased to welcome Lord Bourne, Parliamentary Under-Secretary of State for Climate Change and Parliamentary Under-Secretary of State for Wales, to the taskforce, who confirmed his commitment to working closely with us to address the issues as quickly as possible. The vice-chancellor of Swansea University also joined the taskforce, to ensure that higher education considerations are factored into the planning. The taskforce received an oral update from both Tata and the trade unions, who were quick to acknowledge the positive and open working relationship between them. They also commended the speedy response of the work steams and the comprehensive approach being adopted.

Unwaith eto, roedd presenoldeb cryf gan Tata, undebau Unite a Chymuned, yn ogystal â sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth i unigolion, a'r gymuned fusnes. Roeddwn yn falch o groesawu'r Arglwydd Bourne, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Newid yn yr Hinsawdd ac Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, i'r tasglu, a chadarnhaodd ef ei ymrwymiad i gydweithio'n agos â ni i ymdrin â'r materion cyn gynted â phosibl. Hefyd, ymunodd is-ganghellor Prifysgol Abertawe â'r tasglu, i sicrhau bod ystyriaethau addysg uwch yn cael eu cynnwys yn y cynllunio. Cafodd y tasglu y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan Tata a gan yr undebau llafur, a oedd yn barod iawn i gydnabod y berthynas waith gadarnhaol ac agored rhyngddynt. Roeddent hefyd yn canmol ymateb cyflym y ffrydiau gwaith a'r ymagwedd gynhwysfawr sy'n cael ei mabwysiadu.

All four of the work streams have been quick to respond and have developed a clear view on their focus and priorities. They have defined the key initial actions that need to be taken forward. The skills and training work stream has focused on the support that will be provided to the employees of Tata directly impacted by the announcement. Of central importance is how to maintain as much of the workforce as possible in the area. Timing is a key consideration, as the formal consultation is under way, but the work stream has planned to work closely with Tata on a number of key actions. These include the provision of a one-stop shop for support and advice to employees and the development of a single co-ordinated route for vacancies to be communicated to interested employees. The work stream has also confirmed that its work will encompass all sites affected by the announcement, and will include agency staff. There will be close working with the business and supply chain work stream on the support needed for employees of affected supply chain companies.

Mae'r pedair ffrwd waith wedi ymateb yn gyflym ac wedi datblygu barn glir am eu pwyslais a'u blaenoriaethau. Maent wedi diffinio'r camau cychwynnol allweddol y mae angen bwrw ymlaen â nhw. Mae'r ffrwd waith sgiliau a hyfforddiant wedi canolbwyntio ar y gefnogaeth a ddarperir i weithwyr Tata y mae'r cyhoeddiad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Un o'r pethau pwysicaf yw sut i gadw cymaint â phosib o'r gweithlu yn yr ardal. Mae amseru'n ystyriaeth allweddol, gan fod yr ymgynghoriad ffurfiol wedi dechrau, ond mae'r ffrwd waith wedi cynllunio i weithio'n agos gyda Tata ar nifer o gamau gweithredu allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys darparu siop un stop ar gyfer cymorth a chyngor i weithwyr a datblygu llwybr cydlynol sengl i hysbysu gweithwyr sydd â diddordeb am swyddi gwag. Mae'r ffrwd waith hefyd wedi cadarnhau y bydd ei gwaith yn cwmpasu'r holl safleoedd yr oedd y cyhoeddiad yn effeithio arnynt, ac y bydd yn cynnwys staff asiantaeth. Byddant yn cydweithio'n agos â'r ffrwd waith busnes a chadwyn gyflenwi ar y cymorth sydd ei angen ar weithwyr cwmnïau cadwyn gyflenwi yr effeithiwyd arnynt.

The business and supply chain work stream has quickly established a small team to begin the work of contacting the supply chain and offering support. This team comprises members of Industry Wales, Neath Port Talbot County Borough Council and Welsh Government officials. As this is a live commercial situation, I am limited in what I can say about the supply chain companies, but I can assure Members that this work is commencing on a confidential basis. Contact is being made with other local authorities, across south Wales, given the breadth of the supply chain.

Mae'r ffrwd waith busnes a chadwyn gyflenwi wedi sefydlu tîm bach yn gyflym i ddechrau ar y gwaith o gysylltu â'r gadwyn gyflenwi a chynnig cymorth. Mae'r tîm yn cynnwys aelodau Diwydiant Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a swyddogion Llywodraeth Cymru. Gan fod hon yn sefyllfa fasnachol fyw, mae'r hyn y gallaf ei ddweud am y cwmnïau cadwyn gyflenwi yn gyfyngedig, ond gallaf sicrhau Aelodau bod y gwaith hwn yn dechrau ar sail gyfrinachol. Mae cyswllt yn cael ei wneud ag awdurdodau lleol eraill, ledled de Cymru, o gofio ehangder y gadwyn gyflenwi.

The work stream has completed the first draft of an enterprise zone submission, and my officials will be working with them to develop the detail of this. I have received a reply from the Chancellor with regard to the potential for enhanced capital allowances. He has indicated that his officials stand ready to work closely with us, to establish whether the offer of ECAs has a part to play in stimulating investment. Officials have already established contact, to explore the options. It was agreed that the Welsh European Funding Office should attend future meetings of the taskforce, to ensure that we are making the best use of European structural funds to support employees and businesses impacted by the Tata announcement. I also intend to establish a high-profile group to examine investment opportunities and consider options and ideas for regionally focussed economic development for the area.

Mae'r ffrwd waith wedi cwblhau drafft cyntaf cyflwyniad ardal fenter, a bydd fy swyddogion yn gweithio gyda nhw i ddatblygu manylion hyn. Rwyf wedi cael ateb gan y Canghellor ynglŷn â'r potensial am lwfansau cyfalaf uwch. Mae wedi nodi bod ei swyddogion yn barod i gydweithio'n agos â ni, i sefydlu pa un a oes gan y cynnig lwfansau cyfalaf uwch ran i'w chwarae o ran ysgogi buddsoddiad. Mae swyddogion eisoes wedi sefydlu cysylltiad i edrych ar y dewisiadau. Cytunwyd y dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y tasglu yn y dyfodol, i sicrhau ein bod yn defnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn y modd gorau posibl i gefnogi gweithwyr a busnesau y mae cyhoeddiad Tata wedi effeithio arnynt. Rwyf hefyd yn bwriadu sefydlu grŵp uchel ei broffil i archwilio cyfleoedd i fuddsoddi ac ystyried dewisiadau a syniadau ar gyfer datblygu economaidd â phwyslais rhanbarthol yn yr ardal.

Turning to the health work stream, the group has started to consider the potential impact there may be on individuals in terms of their physical and mental health, in both the short and the longer term. They will be looking at how the support needs to be aligned so that it is easily accessible and meets people's needs. This will involve working with a number of local health boards, to ensure a joined-up delivery.

I droi at y ffrwd waith iechyd, mae'r grŵp wedi dechrau ystyried yr effaith bosibl ar unigolion o ran eu hiechyd corfforol a meddyliol, yn y tymor byr a'r tymor hwy. Byddant yn edrych ar sut y mae angen cydochri'r cymorth fel ei fod yn hygyrch ac yn diwallu anghenion pobl. Bydd hyn yn golygu gweithio gyda nifer o fyrddau iechyd lleol, er mwyn sicrhau darpariaeth gydgysylltiedig.

The final work stream is procurement, where action is needed urgently for the long-term sustainability of the steel industry in Wales. The procurement work stream has begun to consider the Welsh steel market capability and capacity, and how this aligns with known future project demand. This will include identifying priority projects to most effectively direct efforts to inform specifications and explore wider levers. The taskforce was clear that the UK Government needed to commit to tangible actions on major infrastructure projects, such as the Swansea bay tidal lagoon.

Y ffrwd waith olaf yw caffael, lle mae angen gweithredu ar frys ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y diwydiant dur yng Nghymru. Mae'r ffrwd waith caffael wedi dechrau ystyried gallu a chapasiti marchnad ddur Cymru, a sut y mae hyn yn cyd-fynd â'r galw hysbys am brosiectau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys canfod prosiectau â blaenoriaeth i gyfeirio ymdrechion mor effeithiol â phosibl i roi sail i fanylebau ac archwilio dulliau ehangach. Roedd y tasglu'n glir bod angen i Lywodraeth y DU ymrwymo i gamau gweithredu pendant ar brosiectau seilwaith mawr, fel y morlyn llanw ym mae Abertawe.

The Minister of State, Anna Soubry MP, was unable to attend the taskforce, but asked a senior official to attend, and wrote ahead of the meeting to provide an update, as requested, on the actions that the UK Government has taken on procurement, and the timetable for compensation for energy-intensive industries. She also highlighted the forthcoming stakeholder conference being organised by the European Commission later this month on the challenges facing the steel industry, which it is hoped will cover trade defence mechanisms and subsidies and overcapacity issues in producer countries.

Nid oedd y Gweinidog Gwladol, Anna Soubry AS, yn gallu dod i'r tasglu, ond gofynnodd i uwch swyddog fod yn bresennol, ac ysgrifennodd cyn y cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, fel y gofynnwyd, am y camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd ar gaffael, a'r amserlen i dalu iawndal i ddiwydiannau ynni-ddwys. Tynnodd sylw hefyd at y gynhadledd rhanddeiliaid a drefnir gan y Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddarach y mis hwn ar yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant dur; gobeithir y bydd yn ymdrin â mecanweithiau amddiffyn masnach a chymorthdaliadau a materion gormod o gapasiti mewn gwledydd sy'n cynhyrchu.

Lord Bourne, at the taskforce, offered to organise a seminar in Wales to discuss dumping issues and to hear first-hand from steel companies about the impact that this is having. This offer was widely welcomed by members of the taskforce.

Cynigiodd yr Arglwydd Bourne, yn y tasglu, drefnu seminar yng Nghymru i drafod materion dympio ac i glywed o lygad y ffynnon gan gwmnïau dur am yr effaith y mae hyn yn ei chael. Croesawyd y cynnig hwn yn eang gan aelodau'r tasglu.

On access to the European globalisation adjustment fund, the Minister of State has indicated her view that funding through this route would not be deployable in a swift enough manner and that existing provisions are already effective and in place. However, given the potential scale of possible redundancies, I will be writing again to the UK Government to press the case for accessing this funding from the European Union. This point was made very strongly by the council for economic renewal yesterday morning, which called for the UK Government to make an urgent application to the European globalisation fund. The council also called for immediate and visible action from the UK Government on critical issues, such as a commitment to action on all major infrastructure projects and the introduction of anti-dumping measures, not only to address the volume and price of imports but lower quality or substandard steel products.

O ran mynediad at gronfa addasiad globaleiddio Ewrop, mae'r Gweinidog Gwladol wedi nodi ei barn na fyddai modd defnyddio cyllid drwy'r llwybr hwn yn ddigon cyflym a bod y darpariaethau presennol eisoes yn effeithiol ac ar waith. Fodd bynnag, o ystyried niferoedd y diswyddiadau posibl, byddaf yn ysgrifennu eto at Lywodraeth y DU i bwyso'r achos o blaid cael yr arian hwn gan yr Undeb Ewropeaidd. Gwnaeth y cyngor ar gyfer adnewyddu'r economi y pwynt hwn yn gryf iawn bore ddoe, gan alw ar Lywodraeth y DU i wneud cais brys i'r gronfa globaleiddio Ewropeaidd. Galwodd y cyngor hefyd am weithredu gweladwy ar unwaith gan Lywodraeth y DU ar faterion hollbwysig, fel ymrwymiad i weithredu ar bob prosiect seilwaith mawr a chyflwyno mesurau gwrth-ddympio, nid yn unig i ymdrin â niferoedd a phrisiau mewnforion ond â chynnyrch dur sydd o ansawdd is neu'n is na'r safon.

As a Government, we are continuing to examine all avenues open to us to support the long-term sustainability of steelmaking in Wales. We will continue to champion the cause of Welsh steel at the highest levels of Government both in the UK and Europe. I will chair the next meeting of the taskforce in two weeks' time to receive the next update from the work streams, and I will keep Members informed of developments going forward.

Fel Llywodraeth, rydym yn parhau i archwilio pob llwybr sydd ar agor inni i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor cynhyrchu dur yng Nghymru. Byddwn yn parhau i hyrwyddo achos dur Cymru ar y lefelau Llywodraeth uchaf yn y DU ac yn Ewrop. Byddaf yn cadeirio cyfarfod nesaf y tasglu ymhen pythefnos i gael y diweddariad nesaf o'r ffrydiau gwaith, a byddaf yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y datblygiadau wrth fynd ymlaen.

14:41 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm most grateful to the Minister for her update on the taskforce today. It gives rise to certain questions, if I may. I understand, clearly, that the Minister cannot give much more information about the supply-chain companies, but that, no doubt, will come as time goes on. In terms of the first draft of the enterprise zone submission, we're grateful for the work done on that, and I note that the Chancellor has indicated that he will also work with you to bring whatever capital allowances can be made.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y tasglu heddiw. Mae'n codi cwestiynau penodol, os caf. Rwy'n deall, yn amlwg, na all y Gweinidog roi llawer mwy o wybodaeth am y cwmnïau cadwyn gyflenwi, ond, yn ddiau, daw hynny wrth i amser fynd heibio. O ran drafft cyntaf y cyflwyniad ardal fenter, rydym yn ddiolchgar am y gwaith a wnaethpwyd ar hynny, a nodaf fod y Canghellor wedi dweud y bydd yntau'n gweithio gyda chi i gyflwyno unrhyw lwfansau cyfalaf y gellir eu gwneud.

Could I ask, also—? Minister, you talk about the European funding office and European structural funds. The Minister will be well aware that in recent weeks, and even months, since this impending crisis was known about, many commentators say that investment in new technology is the way to safeguard our steel industry, not just in Wales but in Europe, and that the method presently of consuming vast quantities of raw materials may not be sustainable, and that the greater use of scrap materials, as made by some of the more modern plants in China and in America—.

A gaf i ofyn, hefyd—? Weinidog, rydych yn sôn am y swyddfa cyllid Ewropeaidd a chronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn, yn yr wythnosau diwethaf, a'r misoedd hyd yn oed, ers inni wybod am yr argyfwng oedd ar ddod, bod llawer o sylwebwyr yn dweud mai buddsoddi mewn technoleg newydd yw'r ffordd i ddiogelu ein diwydiant dur, nid yn unig yng Nghymru ond yn Ewrop, ac nad yw'r dull presennol o ddefnyddio symiau enfawr o ddefnyddiau crai o reidrwydd yn gynaliadwy, a bod defnyddio mwy o ddefnyddiau sgrap, fel rhai o'r gweithfeydd mwy modern yn Tsieina ac yn America—.

Minister, I'm grateful to hear what you said about Lord Bourne and that the taskforce will organise a seminar to discuss dumping issues. Might I press you slightly more strongly on that? I note the quotation from the manufacturers' organisation that they feel that the levy of up to 13 per cent on China's cheap export of the metal used to reinforce concrete is almost meaningless. They point out:

Weinidog, rwy'n ddiolchgar i glywed yr hyn a ddywedasoch am yr Arglwydd Bourne ac y bydd y tasglu yn trefnu seminar i drafod materion dympio. A gaf i eich pwyso ychydig yn gryfach ar hynny? Nodaf y dyfyniad gan sefydliad y gweithgynhyrchwyr eu bod yn teimlo bod yr ardoll o hyd at 13 y cant ar allforio'r metel yn rhad o Tsieina i'w ddefnyddio i atgyfnerthu concrid bron yn ddiystyr. Maent yn nodi:

'unless these provisional duties are increased, then we will see further job losses in the…sector in the future'.

oni bai bod yr ardollau dros dro hyn yn cael eu cynyddu, byddwn yn colli mwy o swyddi yn y …sector yn y dyfodol.

The Minister will know that there has already, in the last week, been the mothballing of a steel plant in Spain. The pressure on European steel has intensified in recent months, as we all know, particularly from Chinese exports. So, could you press, also, the European Commission? They must look again; they've been studying the possibility of the imposition of tariffs for some time. They must look at it again and make them truly significant, in terms of export from China and other places.

Bydd y Gweinidog yn gwybod bod un gwaith dur yn Sbaen eisoes, yn yr wythnos ddiwethaf, wedi ei gau dros dro. Mae'r pwysau ar ddur Ewropeaidd wedi dwysáu dros y misoedd diwethaf, fel y gwyddom i gyd, yn enwedig oherwydd allforion o Tsieina. Felly, a allech chi bwyso, hefyd, ar y Comisiwn Ewropeaidd? Mae'n rhaid iddynt edrych eto; maent wedi bod yn astudio'r posibilrwydd o osod tariffau ers cryn amser. Mae'n rhaid iddynt edrych ar hynny eto a'u gwneud yn wirioneddol arwyddocaol, o ran allforio o Tsieina a mannau eraill.

My last question, if I may, arises from the statement by Tata Steel on rail infrastructure and company strategy. They say that the strip products hub—they have not changed the planned output for the foreseeable future, which is, obviously, good news all round. However, the opportunity is being taken to identify areas for improved competitiveness—fine. We sense that no area is excluded for development under the aegis of the Welsh Government's steel industry taskforce. Could I ask the Minister to confirm that?

Mae fy nghwestiwn olaf, os caf, yn codi o'r datganiad gan Tata Steel ar seilwaith rheilffyrdd a strategaeth y cwmni. Maent yn dweud bod y ganolfan cynhyrchion stribed—nid ydynt wedi newid yr allbwn a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, sydd, yn amlwg, yn newyddion da i bawb. Fodd bynnag, maent yn achub ar y cyfle i nodi meysydd ar gyfer gwell cystadleurwydd—iawn. Rydym yn synhwyro nad oes unrhyw faes wedi'i eithrio rhag datblygu dan nawdd tasglu diwydiant dur Llywodraeth Cymru. A gaf i ofyn i'r Gweinidog gadarnhau hynny?

Could I also ask her to confirm that she will include attention to the transport infrastructure and how it serves the industry? They point out that, currently, they load 60 tonnes of material per typical rail wagon, and that a normal train consists of 25 wagons. However, in mainland Europe and elsewhere, the rail infrastructure has a greater capacity, improving efficiency, reducing costs and delivering environmental benefits. They're asking whether a study could be commissioned to assess the cost benefit of increasing the capacity of United Kingdom and Welsh rail infrastructure for high-volume freight, which would have a great impact upon the future of our steelworks at Port Talbot.

A gaf i hefyd ofyn iddi gadarnhau y bydd yn cynnwys sylw i'r seilwaith trafnidiaeth a sut y mae'n gwasanaethu'r diwydiant? Maent yn nodi, ar hyn o bryd, eu bod yn llwytho 60 tunnell o ddefnydd ar bob wagen reilffordd nodweddiadol, a bod trên arferol yn cynnwys 25 o wagenni. Fodd bynnag, ar dir mawr Ewrop ac mewn mannau eraill, mae gan y seilwaith rheilffyrdd fwy o gapasiti, sy'n gwella effeithlonrwydd, yn lleihau costau ac yn sicrhau manteision amgylcheddol. Maent yn gofyn a ellid comisiynu astudiaeth i asesu cost a budd cynyddu capasiti seilwaith rheilffyrdd y Deyrnas Unedig a Chymru ar gyfer cludo cyfeintiau mawr o nwyddau, a fyddai'n cael effaith fawr ar ddyfodol ein gwaith dur ym Mhort Talbot.

14:45

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Member for his broad support for the actions that are being taken on the taskforce? You are quite right—we don't want to identify companies in the supply chain, but we are aware of jobs already going from the supply chain in a number of key areas. The issue for us is what we can do to replace those jobs in the supply chain, how we can strengthen them in other industries, and we are doing that work with the help of industry itself.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei gefnogaeth eang i'r camau y mae'r tasglu'n eu cymryd? Rydych yn llygad eich lle—nid ydym am enwi cwmnïau yn y gadwyn gyflenwi, ond rydym yn ymwybodol o swyddi sydd eisoes yn mynd o'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd allweddol. Y mater i ni yw beth y gallwn ei wneud i gymryd lle'r swyddi hynny yn y gadwyn gyflenwi, sut y gallwn eu cryfhau mewn diwydiannau eraill, ac rydym yn gwneud y gwaith hwnnw gyda chymorth y diwydiant ei hun.

In terms of the enterprise zone, it was a very pleasing letter from the Chancellor, indicating to do further work in this area, which I think is quite important, because I think we do identify it as key for the development of the long-term economy within Port Talbot—an enterprise zone that can draw other business in, and look at the diversification of business as well, so it would be a general enterprise zone as opposed to a specialist enterprise zone. But, the vice-chancellor indicated in one of his contributions yesterday that we must recognise the strength of the area that we live in in terms of how we deal with metal and all other works, and we must really hone in on the fact that we've got major expertise in that area and must make it attractive for other companies to come into.

O ran y parth menter, roedd yn llythyr derbyniol iawn gan y Canghellor, yn nodi y bydd yn gwneud rhagor o waith yn y maes hwn, sy'n eithaf pwysig yn fy nhyb i, oherwydd rwy'n meddwl ein bod yn gweld hynny'n allweddol i ddatblygu'r economi hirdymor o fewn Port Talbot—ardal fenter a all ddenu busnesau eraill, ac edrych ar arallgyfeirio busnes yn ogystal, fel y byddai'n ardal fenter gyffredinol yn hytrach nag ardal fenter arbenigol. Ond, nododd yr is-ganghellor yn un o'i gyfraniadau ddoe bod yn rhaid inni gydnabod cryfder yr ardal lle'r ydym yn byw o ran sut yr ydym yn ymdrin â metel a'r holl weithfeydd eraill, a bod yn rhaid inni wir fanteisio ar y ffaith bod gennym gryn arbenigedd yn y maes hwnnw, a bod yn rhaid inni ei gwneud yn ddeniadol i gwmnïau eraill ddod i mewn.

In terms of European funding, we haven't had anybody from WEFO on the taskforce, but we have been working with the European funding office to explore all opportunities in terms of what money can be available. And you are right—it's research and development and things like that that we've really got to start to concentrate on. It's important that we keep R&D and new technology advances, and work very closely with Tata and other steel makers on this particular agenda.

O ran cyllid Ewropeaidd, nid oes neb o WEFO wedi bod ar ein tasglu, ond rydym wedi bod yn gweithio gyda'r swyddfa cyllid Ewropeaidd i archwilio pob cyfle o ran pa arian allai fod ar gael. Ac rydych yn iawn—ymchwil a datblygu a phethau felly yw'r hyn y mae'n rhaid inni wir ddechrau canolbwyntio arnynt. Mae'n bwysig ein bod yn cadw ymchwil a datblygu a datblygiadau technoleg newydd, a gweithio'n agos iawn gyda Tata a gwneuthurwyr dur eraill ar yr agenda benodol hon.

In terms of the dumping issues, of course, Russia has now entered the equation regarding dumping as well, and there are issues about Chinese and Russian steel. The unions raised yesterday the fact that they have done some work to look at the quality of the steel. We did discuss in the group that, if we had to do further work in that area ourselves through the auspices of the university in Swansea, we could actually do some analysis. The UK Government, under Lord Bourne, welcomed the fact that if there was any further work done, they'd like to see that type of work that was being done by academia, because it would actually strengthen the case. The issue, of course, on dumping is a member state issue. Even though we can lobby within Europe and our MEPs can lobby, it is actually an issue for the member state to be driving that agenda in terms of discussion. It's rather like the rail debate. I do not have control over the rail network; it is the UK Government.

O ran y materion dympio, wrth gwrs, mae Rwsia nawr wedi dod i mewn i'r sefyllfa o ran dympio hefyd, a cheir problemau ynglŷn â dur o Tsieina ac o Rwsia. Ddoe, cododd yr undebau y ffaith eu bod wedi gwneud rhywfaint o waith i edrych ar ansawdd y dur. Buom yn trafod yn y grŵp, pe byddai'n rhaid inni wneud mwy o waith yn y maes hwnnw ein hunain dan nawdd y brifysgol yn Abertawe, y gallem mewn gwirionedd wneud rhywfaint o ddadansoddi. Croesawodd Llywodraeth y DU, dan yr Arglwydd Bourne, y ffaith, pe byddai unrhyw waith pellach yn cael ei wneud, y byddent yn hoffi gweld y math hwnnw o waith a wneir yn y byd academaidd, oherwydd byddai'n cryfhau'r achos. Mae mater dympio, wrth gwrs, yn fater i'r aelod-wladwriaethau. Er y gallwn lobïo o fewn Ewrop a gall ein ASEau lobïo, mater i'r aelod-wladwriaeth yw gyrru'r agenda honno o ran y drafodaeth. Mae'n debyg i'r ddadl am reilffyrdd. Nid fi sy'n rheoli'r rhwydwaith rheilffyrdd; Llywodraeth y DU sydd yn gwneud hynny.

I feel very strongly on the points that you outlined that there are opportunities for us to look very carefully, when we have got these major infrastructure projects, at who is going to produce the steel. Sometimes, we don't produce some steel that is required for projects, so we've got to look at diversification within the industry to see what different types of steel, with help and assistance, they could start to produce for the UK market. I think transport infrastructure is key, because we've made it clear in a Welsh context that we've got responsibility for transport infrastructure, particularly in terms of our road-building programme, et cetera, and we do abide by what they want us to do in terms of the steel charter.

Rwy'n teimlo'n gryf iawn am y pwyntiau y gwnaethoch eu hamlinellu bod cyfleoedd inni i edrych yn ofalus iawn, pan fyddwn wedi cael y prosiectau seilwaith mawr hyn, ar bwy sy'n mynd i gynhyrchu'r dur. Weithiau, nid ydym yn cynhyrchu rhan o'r dur sydd ei angen ar gyfer prosiectau, felly mae'n rhaid inni edrych ar arallgyfeirio o fewn y diwydiant i weld pa wahanol fathau o ddur, gyda help a chymorth, y gallent ddechrau ei gynhyrchu ar gyfer marchnad y DU. Rwy'n meddwl bod seilwaith trafnidiaeth yn allweddol, oherwydd rydym wedi ei gwneud yn glir yng nghyd-destun Cymru ein bod yn gyfrifol am seilwaith trafnidiaeth, yn enwedig o ran ein rhaglen adeiladu ffyrdd, ac ati, a'n bod yn cadw at yr hyn y maent am inni ei wneud o ran y siarter dur.

I think it's also very useful to say that my freight group is looking at the issues around freight, and I'd be more than happy for those points to be taken into account, but it's important to recognise that some of the levers are definitely with Westminster, and it's important, therefore, we keep up the dialogue, with the Westminster Government being present on the taskforce. I have to say I have been invited to be a member of a UK taskforce body that's being brought together, again. So, I will hopefully be able to attend those meetings to give the Welsh perspective.

Rwy'n meddwl ei bod hefyd yn ddefnyddiol iawn dweud bod fy ngrŵp cludo nwyddau yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â chludo nwyddau, a byddwn yn berffaith hapus i'r pwyntiau hynny gael eu hystyried, ond mae'n bwysig cydnabod bod rhai o'r ysgogiadau yn bendant yn San Steffan, ac mae'n bwysig, felly, ein bod yn cadw'r ddeialog, gyda Llywodraeth San Steffan yn bresennol ar y tasglu. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod wedi cael gwahoddiad i fod yn aelod o gorff tasglu'r DU sy'n cael ei ddwyn ynghyd, eto. Felly, byddaf, gobeithio, yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny i roi safbwynt Cymru.

14:48

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for her statement this afternoon? My constituents and the workers at the steel plant very much appreciate being kept up to date with the progress of the taskforce. Can I start off on the point that you finished on, on the levers available? I agree with you that some of those levers are with the UK, and I was disappointed in her statement that Anna Soubry didn't actually discuss the actions they would be looking to take on energy-intensive support and reducing energy costs, and the actions in Europe to look at the anti-dumping measures. She just indicated that it's being discussed and she didn't say what the UK Government were doing on it. So, I hope that you will continue to pursue that with the UK Government.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma? Mae fy etholwyr a'r gweithwyr yn y gwaith dur yn sicr yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y tasglu. A gaf i ddechrau ar y pwynt y gwnaethoch orffen arno, sef yr ysgogiadau sydd ar gael? Rwy'n cytuno â chi bod rhai o'r ysgogiadau hynny gan y DU, ac roeddwn yn siomedig yn ei datganiad na wnaeth Anna Soubry wir drafod y camau y byddent yn bwriadu eu cymryd i gymryd cyfrifoldeb am gymorth i gwmnïau ynni-ddwys a lleihau costau ynni, a'r camau yn Ewrop i edrych ar y mesurau gwrth-ddympio. Dywedodd yn syml bod hyn yn cael ei drafod, heb ddweud beth yr oedd Llywodraeth y DU yn ei wneud am y peth. Felly, rwy'n gobeithio y byddwch yn parhau i fynd ar drywydd hynny gyda Llywodraeth y DU.

I've a couple of points, Minister. You talked about the supply chain, but you focused on the supply chain to the steel sector. Can I also remind you that there are many local businesses that are not directly in the supply chain for the steel industry, but benefit from the economies of the workers within those industries as a consequence? Can I seek reassurances that the whole picture of the economy is being looked at by the taskforce, and it's not just the direct supply-chain inputs into the steelworks?

Mae gen i un neu ddau o bwyntiau, Weinidog. Soniasoch am y gadwyn gyflenwi, ond roeddech yn canolbwyntio ar y gadwyn gyflenwi i'r sector dur. A gaf i eich atgoffa hefyd bod llawer o fusnesau lleol nad ydynt yn rhan uniongyrchol o'r gadwyn gyflenwi i'r diwydiant dur, ond sy'n elwa ar arbedion y gweithwyr yn y diwydiannau hynny o ganlyniad? A gaf i ofyn am sicrwydd bod y tasglu'n edrych ar ddarlun cyfan yr economi, ac nid dim ond ar y mewnbynnau cadwyn gyflenwi uniongyrchol i mewn i'r gweithfeydd dur?

Also, on the work stream on the training aspect, we've seen a lot of companies now putting forward their ability to help with that, but I think it's important that we have a single point of contact for workers so that they are co-ordinated to ensure that there's no unnecessary duplication and that there is a clear place to which workers can go and seek advice—those who are unfortunately told that they will be losing their jobs. So, they will know where to go, they will know who to speak to, and that's a clear point.

Hefyd, o ran y ffrwd waith ar yr agwedd hyfforddiant, rydym wedi gweld llawer o gwmnïau bellach yn cyflwyno eu gallu i helpu gyda hynny, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod gennym un pwynt cyswllt i weithwyr fel eu bod wedi'u cydlynu i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen a bod lle clir y gall gweithwyr fynd iddo i ofyn am gyngor—y rhai sydd yn anffodus yn cael gwybod y byddant yn colli eu swyddi. Felly, byddant yn gwybod i ble i fynd, byddant yn gwybod pwy i siarad â hwy, ac mae hynny'n bwynt clir.

Could you also tell me what discussions you've had with Tata in relation to any joint initiatives that the Welsh Government may want to have, such as funding of projects that make the steelworks viable, efficient and functional? It's often been mentioned about the power plant, but there are other projects as well. And the European globalisation fund; will you please make sure that the UK Government pushes on this, because it seems to me that they're more fearful of losing a bit of their remit than actually putting benefit to the steelworkers on that point?

A allech chi hefyd ddweud wrthyf pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Tata ynglŷn ag unrhyw fentrau ar y cyd y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno eu cael, fel ariannu prosiectau sy'n gwneud y gwaith dur yn hyfyw, yn effeithlon ac yn swyddogaethol? Mae wedi cael ei grybwyll yn aml ynglŷn â'r ffatri drydan, ond ceir prosiectau eraill hefyd. A'r gronfa globaleiddio Ewropeaidd; a wnewch chi wneud yn siŵr, os gwelwch yn dda, bod Llywodraeth y DU yn gwthio ar hyn, oherwydd mae'n ymddangos i mi eu bod yn poeni mwy am golli ychydig o'u cylch gwaith nag am greu budd gwirioneddol i'r gweithwyr dur ar y pwynt hwnnw?

And finally, could we have any indication of timing from the Chancellor as to when he might be looking to actually approve an enterprise zone aspect to this? He's given an indication that he'll work with you, but any indications of timing?

Ac yn olaf, a allem ni gael unrhyw syniad o amseriad gan y Canghellor ynglŷn â phryd y gallai fod yn gobeithio rhoi cymeradwyaeth wirioneddol i agwedd ardal fenter i hyn? Mae wedi awgrymu y gwnaiff weithio gyda chi, ond a oes unrhyw syniad am yr amseru?

14:50

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we have to recognise that, in terms of the enterprise zone, there has to be substantial work undertaken with my officials and Treasury officials to set the way forward. I think the Chancellor is aware of the urgency on this, because we do want to give out hope, when all these matters have been dealt with, and I'm confident that our working will hopefully get to a solution that suits both Governments in terms of the enterprise zone.

Rwy'n meddwl bod yn rhaid inni gydnabod, o ran yr ardal fenter, bod yn rhaid gwneud gwaith sylweddol gyda fy swyddogion a swyddogion y Trysorlys i bennu'r ffordd ymlaen. Rwy'n meddwl bod y Canghellor yn ymwybodol o'r brys ar hyn, oherwydd rydym eisiau lledaenu gobaith, pan fyddwn wedi ymdrin â'r holl faterion hyn, ac rwy'n hyderus y bydd ein gwaith, gobeithio, yn cyrraedd ateb sy'n bodloni'r ddwy Lywodraeth o ran yr ardal fenter.

We're obviously having very detailed discussions with Tata about help and assistance on projects. Some of them are quite confidential in terms of the discussion we're having, and we're not the only people that are having discussions with them; we've also got academia involved in some discussions, particularly on the research and development end. And obviously, in terms of the power plant, which is in the public domain, that is a discussion UK Government is definitely going to have to have with Tata, and those discussions are coming forward. Once I have anything to report, obviously with the agreement of the company and others, on these issues, I will report it to you, but I don't want to jeopardise any discussions that may be ongoing.

Rydym yn amlwg yn cael trafodaethau manwl iawn gyda Tata am help a chymorth ar brosiectau. Mae rhai ohonynt yn eithaf cyfrinachol o ran y drafodaeth yr ydym yn ei chael, ac nid ni yw'r unig bobl sy'n cael trafodaethau â nhw; mae'r byd academaidd hefyd yn ymwneud â rhai trafodaethau, yn enwedig o ran ymchwil a datblygu. Ac yn amlwg, o ran y ffatri drydan, sydd yn y parth cyhoeddus, mae honno'n drafodaeth y bydd Llywodraeth y DU yn bendant yn ei chael gyda Tata, ac mae'r trafodaethau hynny'n dod ymlaen. Cyn gynted ag y bydd gennyf unrhyw beth i'w adrodd, yn amlwg gyda chytundeb y cwmni ac eraill, ar y materion hyn, byddaf yn rhoi gwybod ichi, ond nid wyf am beryglu unrhyw drafodaethau a all fod yn dal i ddigwydd.

In terms of the issues around Tata, you're absolutely right about individuals; there has to be a one-stop shop, as I indicated. We cannot have people going in and trying to make money on the backs of people either, when we've got a proper system in place that uses Government, the company and the unions to look at how we deal with workers. The important thing is that, sometimes, others get involved and others want contracts with it, but we think that we can deal with it in this way, and Tata is absolutely determined that the way we deal with it will be the tripartite way with the unions, Government—whether it's us or the UK Government—and themselves. So, you can have an absolute assurance on that.

O ran y materion sy'n ymwneud â Tata, rydych yn hollol gywir am unigolion; mae'n rhaid cael siop un stop, fel y nodais. Ni allwn gael sefyllfa lle mae pobl yn mynd i mewn ac yn ceisio gwneud arian ar draul pobl ychwaith, pan fo gennym system briodol ar waith sy'n defnyddio'r Llywodraeth, y cwmni a'r undebau i edrych ar sut yr ydym yn ymdrin â gweithwyr. Y peth pwysig yw, weithiau, bod eraill yn ymuno a bod eraill yn chwilio am gontractau ag ef, ond rydym yn meddwl y gallwn ymdrin ag ef fel hyn, ac mae Tata yn gwbl benderfynol y byddwn yn ymdrin ag ef yn y ffordd dridarn gyda'r undebau, y Llywodraeth—ni neu Lywodraeth y DU—a hwy eu hunain. Felly, gallwch gael sicrwydd pendant ynglŷn â hynny.

In terms of the supply chain, it's not only the supply chain directly into Tata that we're looking at. There are bigger issues in terms of the supply chain, and, of course, we do have involvement with others. And as part of this, groups like the Federation of Small Businesses and others will be involved in those detailed discussions at another level, because we've got to look at everybody else that's going to be impacted as part of the wider supply chain.

O ran y gadwyn gyflenwi, nid dim ond y gadwyn gyflenwi yn uniongyrchol i mewn i Tata yr ydym yn edrych arni. Ceir materion mwy o ran y gadwyn gyflenwi, ac, wrth gwrs, rydym yn ymwneud ag eraill. Ac yn rhan o hyn, caiff grwpiau fel y Ffederasiwn Busnesau Bach ac eraill eu cynnwys yn y trafodaethau manwl hynny ar lefel arall, oherwydd mae'n rhaid inni edrych ar bawb arall y bydd hyn yn effeithio arnynt gan eu bod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi ehangach.

In terms of globalisation, we are pressing again. It was very interesting; the economic renewal council, which, of course, consists of business leaders as well as trade unions and others, were very keen that the UK Government should be pressed again on this particular issue, as was the taskforce, and we will be pushing on it.

O ran globaleiddio, rydym yn pwyso eto. Roedd yn ddiddorol iawn; roedd y cyngor adnewyddu'r economi, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys arweinwyr busnes yn ogystal ag undebau llafur ac eraill, yn awyddus iawn y dylid pwyso ar Lywodraeth y DU unwaith eto ar y mater penodol hwn, fel yr oedd y tasglu, a byddwn yn gwthio ar hyn.

In terms of energy, Anna Soubry in her more detailed letter to me did say that they'd produced the guidance in terms of how they were going to deal with it, and, also as well, that once the applications came in, they get the payments out as soon as possible in terms of what they are doing on the energy policy agenda now. But I recognise that there's a lot more to do when you look at what's going on in terms of continental Europe and the support that they're having, because I think the industry is fighting for its life in the UK in very real terms, and if the steel industry doesn't survive, what happens with manufacturing?

O ran ynni, dywedodd Anna Soubry yn ei llythyr manylach ataf eu bod wedi creu'r canllawiau o ran sut yr oeddent yn mynd i ymdrin ag ef, a, hefyd, yn ogystal, cyn gynted ag y bydd y ceisiadau'n dod i mewn, eu bod yn cael y taliadau allan cyn gynted ag y bo modd o ran yr hyn y maent yn ei wneud ar yr agenda polisi ynni nawr. Ond rwy'n cydnabod bod llawer mwy i'w wneud pan edrychwch ar yr hyn sy'n mynd ymlaen ar gyfandir Ewrop a'r cymorth y maent yn ei gael, oherwydd rwy'n meddwl bod y diwydiant yn ymladd am ei fywyd yn y DU mewn termau real iawn, ac os na fydd y diwydiant dur yn goroesi, beth fydd yn digwydd i weithgynhyrchu?

14:53

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the update, Minister. In addition to the questions that have already been asked, I'll ask maybe five or so questions, or points of clarification. On procurement, which is obviously a vital area, the Minister quite rightly mentions the need for a commitment on the part of UK Government on the use of Welsh or British steel in the Swansea bay tidal lagoon, which was given as an example. Has an audit been commissioned of current or future Welsh Government spending commitments and the extent of planned and potential use of UK steel in those projects?

Diolch am y diweddariad, Weinidog. Yn ychwanegol at y cwestiynau a ofynnwyd eisoes, byddaf yn gofyn efallai tua phum cwestiwn, neu bwyntiau o eglurhad. O ran caffael, sy'n amlwg yn faes hollbwysig, mae'r Gweinidog yn gwbl briodol yn sôn am y ffaith bod angen ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i ddefnyddio dur o Gymru neu o Brydain yn y morlyn llanw ym mae Abertawe, a roddwyd fel enghraifft. A oes archwiliad wedi'i gomisiynu o ymrwymiadau gwario Llywodraeth Cymru yn y presennol neu'r dyfodol ac i ba raddau y bwriedir ac y gellir defnyddio dur o'r DU yn y prosiectau hynny?

Secondly, the Minister speaks of the high-profile group that she's setting up to examine investment opportunities and to consider options and ideas for regionally focused economic development. Perhaps we could get more detail on that, and I wonder whether this is an exploration of the kind of joint venture options that I and others have been advocating.

Yn ail, mae'r Gweinidog yn sôn am y grŵp uchel ei broffil y mae hi'n ei sefydlu i archwilio cyfleoedd i fuddsoddi ac i ystyried dewisiadau a syniadau ar gyfer datblygiad economaidd â phwyslais rhanbarthol. Efallai y gallem gael mwy o fanylion am hynny, ac rwy'n meddwl tybed a yw hyn yn archwiliad o'r math o ddewisiadau menter ar y cyd yr wyf i ac eraill wedi bod yn dadlau o'u plaid.

I appreciate, certainly, the offer from Lord Bourne of that seminar on dumping issues, but other than UK Government offering to facilitate a discussion, has the Minister received any assurances, much as David Rees was asking, about steps actually being taken to address the issue of dumping of cheap, and substandard, we must remember, steel in our markets?

Rwy'n gwerthfawrogi, yn sicr, y ffaith bod yr Arglwydd Bourne wedi cynnig y seminar honno ar faterion dympio, ond ar wahân i Lywodraeth y DU yn cynnig hwyluso trafodaeth, a yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw sicrwydd, fel y gofynnodd David Rees, am y camau sy'n cael eu cymryd mewn gwirionedd i ymdrin â mater dympio dur rhad, ac is-safonol, rhaid inni gofio, yn ein marchnadoedd?

On the European globalisation adjustment fund, the Minister is quite right to have written again to the UK Government after they seemingly dismissed this option. Has the Minister received an analysis of the potential scale of funding that could come as a result of a successful application to this fund?

O ran y gronfa addasiad globaleiddio Ewropeaidd, roedd y Gweinidog yn llygad ei lle i ysgrifennu eto at Lywodraeth y DU ar ôl iddynt ymddangos i ddiystyru'r dewis hwn. A yw'r Gweinidog wedi cael dadansoddiad o faint o gyllid a allai ddod yn sgil cais llwyddiannus i'r gronfa hon?

And finally, I was perhaps disappointed that the Minister did not mention the issue of business rates which, of course, has been rightly identified as one of the major barriers to success for the steel industry currently in Wales and the UK. We would like to see the possibility of a rate relief programme being introduced. Introduction of such schemes would undoubtedly be easier if UK Government were to do so in England also, triggering a Barnett consequential for Wales. But the Welsh Government, I think, should act regardless and we must remember there will be no business rates from steel companies or businesses that feed off them if we lose the steel industry. So, the choice is clear: taking a relatively small hit now or a much larger hit in future.

Ac yn olaf, roeddwn yn siomedig efallai na wnaeth y Gweinidog sôn am fater ardrethi busnes sydd, wrth gwrs, wedi'i nodi'n gywir fel un o'r prif rwystrau i lwyddiant i'r diwydiant dur ar hyn o bryd yng Nghymru a'r DU. Hoffem weld y posibilrwydd o gyflwyno rhaglen rhyddhad ardrethi. Byddai cyflwyno cynlluniau o'r fath yn sicr yn haws pe byddai Llywodraeth y DU yn gwneud hynny yn Lloegr hefyd, ac yn sbarduno swm canlyniadol Barnett i Gymru. Ond dylai Llywodraeth Cymru, rwy'n meddwl, weithredu beth bynnag ac mae'n rhaid inni gofio na fydd unrhyw ardrethi busnes gan gwmnïau dur na busnesau sy'n bwydo oddi arnynt os collwn ni'r diwydiant dur. Felly, mae'r dewis yn glir: cymryd ergyd gymharol fach nawr neu ergyd lawer mwy yn y dyfodol.

14:56

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for those comments. I absolutely concur that we have to put more pressure on the UK Government regarding the globalisation fund. Obviously, this is of particular interest to my colleague Julie James in terms of the training agenda and the work that they're taking forward. They've been looking at the detail of this and how we could benefit.

Diolch i chi am y sylwadau yna. Rwy'n cytuno'n llwyr bod yn rhaid inni roi mwy o bwysau ar Lywodraeth y DU ynghylch y gronfa globaleiddio. Yn amlwg, mae hyn o ddiddordeb arbennig i fy nghydweithiwr Julie James o ran yr agenda hyfforddiant a'r gwaith y maent yn ei wneud. Maent wedi bod yn edrych ar fanylion hyn a sut y gallem elwa.

The UK regards the fact that they have a broad range of personalised support for redundant workers through various other schemes that they've got, and they wouldn't want anything to be duplicated or substituted. That's the area they're looking at. We don't believe that that is necessarily the case, and we'll be doing further work on that agenda because I think it's an opportunity. If there is European money available, then we should be taking the European money in this regard, because then we can use our money in another area then, perhaps, to support the industry if we're having some additional money and resources out from Europe. I think that that is very important.

Mae'r DU yn ystyried y ffaith bod ganddynt ystod eang o gymorth personol i weithwyr di-waith drwy amrywiol gynlluniau eraill sydd ganddynt, ac ni fyddent am i unrhyw beth gael ei ddyblygu na'i amnewid. Dyna'r maes y maent yn edrych arno. Nid ydym yn credu bod hynny o reidrwydd yn wir, a byddwn yn gwneud gwaith pellach ar yr agenda honno oherwydd rwy'n meddwl ei bod yn gyfle. Os oes arian Ewropeaidd ar gael, dylem fod yn cymryd yr arian Ewropeaidd yn hyn o beth, oherwydd yna gallwn ddefnyddio ein harian ni mewn maes arall wedyn, efallai, i gefnogi'r diwydiant os ydym yn cael arian ac adnoddau ychwanegol gan Ewrop. Rwy'n meddwl bod hynny'n bwysig iawn.

In terms of business rates, this is forming a far broader discussion now in terms of our discussions with the steel industry and what we can do, but I do hope in the next few weeks to have reached a conclusion that will be satisfactory in terms of my discussion with the companies.

O ran ardrethi busnes, mae hyn yn ffurfio trafodaeth lawer ehangach erbyn hyn o ran ein trafodaethau â'r diwydiant dur a'r hyn y gallwn ei wneud, ond rwy'n gobeithio yn yr wythnosau nesaf y byddwn wedi dod i gasgliad a fydd yn foddhaol o ran fy nhrafodaeth â'r cwmnïau.

I say as well that Lord Bourne was obviously discussing the dumping issues, whereas I indicated to you I think Community had done some work on the standard of steel, and what I was suggesting was if we could up the ante by doing further work on the standard of steel, both Chinese and Russian and perhaps other steel—it might even be coming in from European competitors at this time—let's have a look at the steel, because I'm happy that we should fund that work with Swansea University, and the group were quite keen.

Rwy'n dweud hefyd bod yr Arglwydd Bourne yn amlwg yn trafod y materion dympio, a dywedais wrthych, rwy'n meddwl, bod Cymuned wedi gwneud rhywfaint o waith ar safon dur, a'r hyn yr oeddwn yn ei awgrymu oedd, pe gallem osod mwy o her drwy wneud gwaith pellach ar safon dur, dur Tsieina a Rwsia ac efallai dur arall—gallai hyd yn oed fod yn dod i mewn oddi wrth gystadleuwyr Ewropeaidd nawr—gadewch inni gael golwg ar y dur, oherwydd rwy'n hapus inni ariannu'r gwaith hwnnw gyda Phrifysgol Abertawe, ac roedd y grŵp yn eithaf awyddus.

We spoke about the high-profile group, and it is obviously Sir Terry Matthews—I had a discussion about steel with him last week from the city-region perspective, because he is concerned about the impact it's going to have on the region. But I have to also say to you that Lord Davies of Abersoch has also agreed to do some work in this area about discussing across the piece the type of investment that could be made, the type of partners we might require in the future. He will be bringing a high-level group together, with his international experience, to help us with this particular agenda. I'm very grateful for him being able to undertake this.

Buom yn siarad am y grŵp uchel ei broffil, ac mae'n amlwg bod Syr Terry Matthews—cefais drafodaeth am ddur gydag ef yr wythnos diwethaf o safbwynt y ddinas-ranbarth, oherwydd mae ef yn pryderu am yr effaith a gaiff hyn ar y rhanbarth. Ond mae'n rhaid imi hefyd ddweud wrthych bod yr Arglwydd Davies o Abersoch hefyd wedi cytuno i wneud rhywfaint o waith yn y maes hwn am drafod yn gyffredinol y math o fuddsoddiad y gellid ei wneud, y math o bartneriaid y gallai fod eu hangen arnom yn y dyfodol. Bydd ef yn dod â grŵp lefel uchel at ei gilydd, gyda'i brofiad rhyngwladol, i'n helpu â'r agenda benodol hon. Rwy'n ddiolchgar iawn iddo am allu ymgymryd â hyn.

In terms of the other things, I think we've got to recognise that it is difficult. I would like a firmer commitment in my letter from the Chancellor about the enterprise zone, but I recognise you've got to do some work forward on it, and it's important to recognise that I will deal in good faith—because my job is to ensure the future of the industry and do the best for the workers. When the day comes when I'm not dealing in good faith and I'm unhappy, I will certainly make the Chamber know. But I work on the basis that, through dialogue, we might be able to achieve what we require, and, if we don't, I shall certainly not be backward in coming forward to address these issues again in the Chamber.

O ran y pethau eraill, rwy'n meddwl bod yn rhaid inni gydnabod ei bod yn anodd. Hoffwn ymrwymiad cadarnach yn fy llythyr gan y Canghellor am yr ardal fenter, ond rwy'n cydnabod bod yn rhaid ichi wneud rhywfaint o waith ymlaen llaw arni, ac mae'n bwysig cydnabod y byddaf yn gweithredu'n ddiffuant—oherwydd fy ngwaith i yw sicrhau dyfodol y diwydiant a gwneud y gorau dros y gweithwyr. Pan ddaw'r dydd pan nad wyf yn gweithredu'n ddiffuant a fy mod yn anhapus, byddaf yn sicr yn rhoi gwybod i'r Siambr. Ond rwy'n gweithio ar y sail y gallwn, drwy ddeialog, efallai gyflawni'r hyn sydd ei angen arnom, ac, os nad ydym yn gwneud hynny, yn sicr ni fyddaf yn amharod i ddod ymlaen i ymdrin â'r materion hyn eto yn y Siambr.

14:59

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I also welcome the Minister's statement and the commitment to continued updates to the Chamber? These job losses are going to hit the area very hard indeed, and I'm pleased that the Welsh Government is committed to trying to mitigate the impact and to trying to find solutions that will help get as many as possible back into work.

A gaf i hefyd groesawu datganiad y Gweinidog a'r ymrwymiad i roi diweddariadau parhaus i'r Siambr? Mae colli'r swyddi hyn yn mynd i daro'r ardal yn galed iawn yn wir, ac rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i geisio lliniaru'r effaith ac i geisio dod o hyd i atebion a fydd yn helpu cynifer â phosibl o bobl i ailddechrau gweithio.

Minister, just a couple of questions. In addition to the business rates issue, which I think does need to be addressed quite urgently, I notice your statement didn't address the issue I raised last time about an urban regeneration company for the Port Talbot area, which I think would go very well with an enterprise zone in terms of taking advantage of the tax benefits that an enterprise zone might offer, and also additional capital expenditure to attract businesses in there. Does the Welsh Government have any resources it can commit to an urban regeneration company to bring additional work and businesses into the Port Talbot area and, if so, will you pursue this particular issue quite vigorously?

Weinidog, dim ond un neu ddau o gwestiynau. Yn ogystal â mater ardrethi busnes, sy'n rhywbeth yr wyf yn meddwl bod angen rhoi sylw iddo â chryn dipyn o frys, rwy'n sylwi nad oedd eich datganiad yn sôn am y mater a godais y tro diwethaf am gwmni adfywio trefol ar gyfer ardal Port Talbot; rwy'n meddwl y byddai hynny'n mynd yn dda iawn gydag ardal fenter o ran manteisio ar y buddion treth y gallai ardal fenter eu cynnig, a hefyd gwariant cyfalaf ychwanegol i ddenu busnesau yno. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw adnoddau y gallant eu hymrwymo i gwmni adfywio trefol i ddod â gwaith a busnesau ychwanegol i ardal Port Talbot ac, os oes, a wnewch chi fynd ar drywydd y mater penodol hwn yn eithaf egnïol?

The other issue that I wanted to raise was in terms of the supply chain and procurement. I notice that you've mentioned the Swansea bay tidal lagoon, as indeed previous speakers have done before. I'm just interested in what discussions have taken place with the tidal bay lagoon company, because obviously they will be overseeing this project. Have they committed to making use of steel produced in Wales, or do they have other plans? Given that most of the steel in the lagoon is going to be in the turbines, which I think will be imported anyway, how are we going to make use of this particular project, to use that steel that is produced in Port Talbot? What other infrastructure projects are you looking at as part of this procurement process?

Mae'r mater arall yr oeddwn eisiau ei godi yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a chaffael. Rwy'n sylwi eich bod wedi sôn am y morlyn llanw ym mae Abertawe, fel yn wir y mae siaradwyr blaenorol wedi'i wneud o'r blaen. Mae gennyf ddiddordeb yn y trafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda chwmni morlyn llanw'r bae, oherwydd yn amlwg byddant yn goruchwylio'r prosiect hwn. A ydynt wedi ymrwymo i ddefnyddio dur a gynhyrchwyd yng Nghymru, ynteu a oes ganddynt gynlluniau eraill? Ac ystyried mai yn y tyrbinau fydd y rhan fwyaf o'r dur yn y lagŵn, ac y bydd yn cael ei fewnforio beth bynnag, rwy'n meddwl, sut yr ydym yn mynd i ddefnyddio'r prosiect penodol hwn, i ddefnyddio'r dur sy'n cael ei gynhyrchu ym Mhort Talbot? Pa brosiectau seilwaith eraill yr ydych yn edrych arnynt yn rhan o'r broses gaffael hon?

15:00

## Edwina Hart [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Well, obviously, in terms of infrastructure projects, we can deal easily with the transport agenda within the Welsh context, because we have to take control of our destiny in terms of what we can utilise there, and we are the major project people, I think, in the Assembly Government—the transport department.

Wel, yn amlwg, o ran prosiectau seilwaith, gallwn ymdrin yn hawdd â'r agenda drafnidiaeth o fewn cyd-destun Cymru, oherwydd mae'n rhaid inni reoli ein tynged ein hunain o ran yr hyn y gallwn ei ddefnyddio yno, a ni yw'r bobl prosiectau mawr, rwy'n credu, yn Llywodraeth y Cynulliad—yr adran drafnidiaeth.

In terms of the tidal lagoon we've got good synergy because we've got people involved with the tidal lagoon, helping us with our work streams, so that is an issue that will be developed over time. I think it's important for us to be able to do so, so I think that's an excellent point to make.

O ran y morlyn llanw, mae gennym synergedd da oherwydd mae gennym bobl yn ymwneud â'r morlyn llanw, yn ein helpu gyda'n ffrydiau gwaith, felly mae hwnnw'n fater a gaiff ei ddatblygu dros amser. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni allu gwneud hynny, felly rwy'n meddwl bod hwnnw'n bwynt ardderchog i'w wneud.

In terms of the urban regeneration company, that work stream is just developing in terms of looking at what they want in terms of the enterprise zone and further work. It's something that I'm sure that that work stream will develop, but they're at the very early stages now. In terms of budgets, we'd have to look at budgets, if that was a suggestion from the work stream, obviously, to it. People have applauded what happened with Newport Unlimited, but I would remind people, of course, that Newport Unlimited had significant help from a group I had to set up, chaired by Simon Gibson, to actually kick-start some of the developments there. So, there are pros and cons on this. So, I think I'll wait to see what advice I have, but it's certainly not something that's slipped off the agenda, and, in terms of business rates, I hope to come back to Members in due course on that.

O ran y cwmni adfywio trefol, mae'r ffrwd waith honno'n dal i ddatblygu o ran edrych ar yr hyn sydd ei eisiau arnynt o ran yr ardal fenter a gwaith pellach. Mae'n rhywbeth yr wyf yn siŵr y bydd y ffrwd waith honno'n ei ddatblygu, ond mae'n gynnar iawn yn y broses ar hyn o bryd. O ran cyllidebau, byddai'n rhaid inni edrych ar gyllidebau, pe byddai hynny'n awgrym gan y ffrwd waith, yn amlwg, ar ei gyfer. Mae pobl wedi canmol yr hyn a ddigwyddodd gyda Newport Unlimited, ond byddwn yn atgoffa pobl, wrth gwrs, bod Newport Unlimited wedi cael cymorth sylweddol gan grŵp y bu'n rhaid i mi ei sefydlu, dan gadeiryddiaeth Simon Gibson, i roi cychwyn i rai o'r datblygiadau yno. Felly, ceir manteision ac anfanteision i hyn. Felly, rwy'n meddwl y gwnaf aros i weld pa gyngor a gaf, ond yn sicr nid yw'n rhywbeth sydd wedi llithro oddi ar yr agenda, ac, o ran ardrethi busnes, rwy'n gobeithio dod yn ôl at yr Aelodau maes o law ar hynny.

I think the important thing is, in terms of infrastructure projects, we've also got to look at wider things: we've got to look at rail, we've got to lobby the UK Government about what we use in terms of steel on every major infrastructure project they've got. And that's why it's so important that we look at the standards of some of the imported steel: is it suitable, and would people be happy with certain steel being used in projects? I also think there is an issue about what steel is going to be used in the nuclear industry, and that is something I will be pursuing.

Rwy'n credu mai'r peth pwysig yw, o ran prosiectau seilwaith, bod yn rhaid inni hefyd edrych ar bethau ehangach: mae'n rhaid inni edrych ar y rheilffyrdd, mae'n rhaid inni lobïo Llywodraeth y DU ynghylch yr hyn yr ydym yn ei ddefnyddio o ran dur ar bob prosiect seilwaith mawr sydd ganddynt. A dyna pam mae hi mor bwysig ein bod yn edrych ar safonau rhywfaint o'r dur a fewnforiwyd: a yw'n addas, ac a fyddai pobl yn hapus i ddur penodol gael ei ddefnyddio mewn prosiectau? Rwyf hefyd yn meddwl bod problem ynghylch pa ddur a gaiff ei ddefnyddio yn y diwydiant niwclear, ac mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn mynd ar ei drywydd.

15:02 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think it is very useful that these regular meetings of the taskforce continue to take place and, indeed, that regular updates are given to the Assembly, because I do believe it demonstrates the necessary focus, attention and commitment, and I just wonder whether you might be able to say a little bit about Llanwern's place in the overall picture because, obviously as far as I'm concerned, given that Llanwern is in the Newport East constituency, it is very important that there is also focus and attention on Llanwern within that overall picture. I do receive many inquiries from workers at Llanwern in terms of what their future position might be. I wonder within that whether you might say a little bit about the Llanwern site itself in terms of attracting investment, and indeed its importance in terms of developing the regional economy, within which Newport has a prime place.

Weinidog, rwy'n meddwl ei bod yn ddefnyddiol iawn bod y cyfarfodydd tasglu rheolaidd hyn yn parhau i gael eu cynnal ac, yn wir, bod y Cynulliad yn cael diweddariadau rheolaidd, oherwydd rwy'n credu bod hynny'n dangos y pwyslais, y sylw a'r ymrwymiad sydd eu hangen, ac rwy'n meddwl tybed a allech chi efallai ddweud ychydig am le Llanwern yn y darlun cyffredinol oherwydd, yn amlwg cyn belled ag yr wyf fi yn y cwestiwn, o ystyried bod Llanwern yn etholaeth Dwyrain Casnewydd, mae'n bwysig iawn ein bod yn canolbwyntio ar Lanwern hefyd a rhoi sylw iddo o fewn y darlun cyffredinol hwnnw. Rwy'n cael llawer o ymholiadau gan weithwyr yn Llanwern o ran beth allai eu sefyllfa fod yn y dyfodol. Tybed o fewn hynny a allech chi ddweud ychydig am safle Llanwern ei hun o ran denu buddsoddiad, ac yn wir ei bwysigrwydd o ran datblygu'r economi ranbarthol, y mae Casnewydd yn rhan bwysig ohoni.

15:03 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say that, obviously, everybody talks about Port Talbot, but we've got to recognise that there's an impact on Llanwern and an impact on Trostre as well, resulting from the decisions that have been made by Tata? At the end of the consultation period, we'll obviously have a clearer picture of what jobs might be going where, or whether some jobs can be saved.

A gaf i ddweud, yn amlwg, bod pawb yn siarad am Bort Talbot, ond mae'n rhaid inni gydnabod bod y penderfyniadau sydd wedi eu gwneud gan Tata yn effeithio ar Lanwern ac ar Drostre hefyd? Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, yn amlwg bydd gennym ddarlun cliriach o ba swyddi a allai fod yn mynd i ble, neu ba un a ellir achub rhai swyddi.

In terms of Llanwern, representatives of the workforce across the piece have been involved in terms of the taskforce, but I think that there is an opportunity in Llanwern to look at the development of what is an excellent site in Llanwern. I am aware that we will be having these discussions with the company about what more we can do in terms of the development of that particular site. It is effectively an automobile site in parts. So, we need to have detailed discussions with Tata about how they take things forward in their dialogue with us, to make us able to help and assist them in the way that they structure their business, and that will be the case, I think, in terms of Llanwern.

O ran Llanwern, mae cynrychiolwyr y gweithlu o bob maes wedi ymwneud â hyn o ran y tasglu, ond rwy'n meddwl bod cyfle yn Llanwern i edrych ar ddatblygu'r safle ardderchog hwnnw yn Llanwern. Rwy'n gwybod y byddwn yn cael y trafodaethau hyn gyda'r cwmni ynglŷn â sut y gallwn wneud mwy i ddatblygu'r safle penodol hwnnw. I bob diben, mae'n safle moduron mewn rhannau. Felly, mae angen inni gael trafodaethau manwl gyda Tata am sut y maent yn bwrw ymlaen â phethau wrth iddynt drafod gyda ni, er mwyn i ni allu eu helpu a'u cynorthwyo gyda'r modd y maent yn strwythuro eu busnes, a bydd hynny'n digwydd, rwy'n credu, o ran Llanwern.

When I mentioned earlier having this high-level group, and that Lord Davies of Abersoch was looking at the establishment of a high-profile group to examine investment opportunities and to consider options and ideas for regionally focused economic development for the area, we were looking particularly at Port Talbot. But I don't think that there would be any harm if we were to look at the issues around the site in Llanwern as well, if that group gets established.

Pan soniais yn gynharach am sefydlu'r grŵp lefel uchel hwn, a bod yr Arglwydd Davies o Abersoch yn edrych ar sefydlu grŵp uchel ei broffil i archwilio cyfleoedd buddsoddi ac i ystyried dewisiadau a syniadau ar gyfer datblygu economaidd â phwyslais rhanbarthol yn yr ardal, roeddem yn edrych yn arbennig ar Bort Talbot. Ond nid wyf yn meddwl y byddai'n gwneud unrhyw ddrwg inni edrych ar y materion o amgylch y safle yn Llanwern hefyd, os caiff y grŵp hwnnw ei sefydlu.

15:05 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for the statement. Just to carry on from where you finished, in terms of the regionally focused economic development, can you just assure me that this will be long term, so it'll be looking at potential new industries for the area leading on, potentially, if job losses do come upon us in this area?

Diolch, Weinidog, am y datganiad. Dim ond i barhau o ble y gwnaethoch orffen, o ran y datblygiad economaidd â phwyslais rhanbarthol, a allwch chi fy sicrhau y bydd hyn yn hirdymor, felly y bydd yn edrych ar ddiwydiannau newydd posibl i'r ardal yn y dyfodol, o bosibl, os cawn golledion swyddi yn yr ardal hon?

The second point I wanted to make was that I do really agree with the issues that you talk about with regard to mental health. I was on the train from Port Talbot to Cardiff a few days ago, and one of the workers there said to me that people are currently in denial and it will be a massive change to their life structures in terms of the shift patterns that they work now, compared to potentially other jobs that they will find outside of the plant. So, I see that you're saying that you're working with a number of local health boards, but we do know that budgets in mental health are tight, so I just want to be assured that you've fully investigated that, and that if there are more men, especially, because it's mostly men who I know work there, although there are women there too—I wouldn't want to be sexist—that they have the support that they need.

Yr ail bwynt yr oeddwn eisiau ei wneud oedd fy mod yn cytuno'n gryf â'r materion yr ydych yn sôn amdanynt o ran iechyd meddwl. Roeddwn ar y trên o Bort Talbot i Gaerdydd rai dyddiau'n ôl, a dywedodd un o'r gweithwyr yno wrthyf fod pobl yn gwadu pethau ar hyn o bryd ac y bydd yn newid enfawr i'w strwythurau bywyd o ran y patrymau shifft y maent yn eu gweithio yn awr, o gymharu â swyddi eraill o bosibl y byddant yn dod o hyd iddynt y tu allan i'r gwaith dur. Felly, rwy'n gweld eich bod yn dweud eich bod yn gweithio gyda nifer o fyrddau iechyd lleol, ond rydym yn gwybod bod cyllidebau iechyd meddwl yn dynn, felly hoffwn fod yn sicr eich bod wedi ymchwilio i hynny'n llawn, ac os bydd mwy o ddynion, yn enwedig, oherwydd dynion yw'r rhan fwyaf o'r bobl yr wyf yn eu hadnabod sy'n gweithio yno, er bod menywod yno hefyd—ni fyddwn yn dymuno bod yn rhywiaethol—y byddant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

The other thing that I've heard—I don't know if you've heard, Minister; granted, you talk to them all the time—but I've been told that some people have already been laid off, that they've been on personal contracts with Tata, so that means that they won't become part of the number that's being put in the press at the moment. So, I'd just like to know more about that and whether you've heard that, because it may skew the numbers or it may not.

Y peth arall yr wyf wedi'i glywed—nid wyf yn gwybod a ydych chi wedi clywed, Weinidog; mae'n wir eich bod chi'n siarad â nhw drwy'r amser—ond rwyf wedi cael gwybod bod rhai pobl eisoes wedi cael eu rhyddhau, eu bod wedi bod ar gontractau personol gyda Tata, felly mae hynny'n golygu na fyddant yn dod yn rhan o'r nifer sy'n cael ei roi yn y wasg ar hyn o bryd. Felly, hoffwn wybod mwy am hynny ac a ydych chi wedi clywed hynny, oherwydd efallai ei fod yn gogwyddo'r rhifau neu efallai nad yw.

The other thing that I've had from constituents as well is whether you could release the minutes or more of a paper on what's been discussed. We appreciate the statements, but I think some people, especially those who work there, want to have more detail as to what's happening on some of these work streams. So, if you could be minded to do that, if it doesn't breach confidentiality, then I'm sure people would be happy with that.

Y peth arall yr wyf wedi'i gael gan etholwyr hefyd yw pa un a allech ryddhau cofnodion, neu fwy o bapur ar yr hyn sydd wedi'i drafod. Rydym yn ddiolchgar am y datganiadau, ond rwy'n meddwl yr hoffai rhai pobl, yn enwedig y rhai sy'n gweithio yno, gael mwy o fanylion ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd ar rai o'r ffrydiau gwaith hyn. Felly, pe gallech ddewis gwneud hynny, heb dorri cyfrinachedd, rwy'n siŵr y byddai pobl yn hapus â hynny.

15:06 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, all economic stuff is long term, because we have to look at the restructuring, probably, of the economy within that area, and even in terms of steel making, it'll become more mechanised and there'll be fewer and fewer people working there. So, it is a long-term perspective that we've got to take on this in terms of how we change the economy across Wales, not just as a result of what's happened with the steel closure.

Yn amlwg, mae popeth economaidd yn hirdymor, oherwydd mae'n rhaid inni edrych ar ailstrwythuro, yn ôl pob tebyg, yr economi yn yr ardal honno, a hyd yn oed o ran gwneud dur, bydd yn dod yn fwy mecanyddol a bydd llai a llai o bobl yn gweithio yno. Felly, mae'n rhaid inni gymryd safbwynt hirdymor ar hyn o ran sut yr ydym yn newid yr economi ledled Cymru, nid dim ond o ganlyniad i'r hyn sydd wedi digwydd wrth gau'r gweithfeydd dur.

I have to say that I think there are going to be a lot of mental health issues, but also a lot of physical issues, because if you've done night shifts all your life, or shift patterns, and you move to a different type of job, the physical issues around that and the way your body clock and everything works is going to have a very difficult effect. But I am confident in terms of budgets, because as a Government we've been very keen to ring-fence mental health budgets; we've been very good in terms of the resource that we've put in.

Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn meddwl y bydd llawer o faterion iechyd meddwl, ond hefyd llawer o faterion corfforol, oherwydd os ydych wedi gwneud shifftiau nos drwy gydol eich bywyd, neu batrymau shifftiau, a'ch bod yn symud i fath gwahanol o swydd, mae'r materion corfforol sy'n gysylltiedig â hynny a'r modd y mae cloc eich corff a phopeth yn gweithio yn mynd i gael effaith anodd iawn. Ond rwy'n hyderus o ran cyllidebau, oherwydd fel Llywodraeth rydym wedi bod yn awyddus iawn i neilltuo cyllidebau iechyd meddwl; rydym wedi bod yn dda iawn o ran yr adnoddau yr ydym wedi eu darparu.

Andrew Davies is representing the health boards on that group and he seems very confident in terms of his dialogue that they will be able to deal particularly with these issues. The important thing is that this is the first time any task group has had health on it, and I think that's a recognition of the health issues that you tend to forget about, sometimes. You just think, 'Oh, we're going to get on getting you back into jobs. You've had your redundancy and we're going to do that', but actually we don't think about their wider welfare. So, I think it's very important that they're involved.

Mae Andrew Davies yn cynrychioli'r byrddau iechyd ar y grŵp hwnnw ac mae'n ymddangos yn hyderus iawn o ran ei ddeialog y byddant yn gallu ymdrin yn benodol â'r materion hyn. Y peth pwysig yw mai dyma'r tro cyntaf y mae unrhyw dasglu wedi cynnwys iechyd, ac rwy'n meddwl bod hynny'n gydnabyddiaeth o'r materion iechyd yr ydych yn tueddu i anghofio amdanynt, weithiau. Rydych yn meddwl yn syml, 'O, rydym yn mynd i fynd ati i gael swyddi eraill i chi. Rydych wedi cael eich diswyddo ac rydym yn mynd i wneud hynny', ond mewn gwirionedd nid ydym yn meddwl am eu lles ehangach. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn eu cynnwys nhw.

The trade unions have not raised any issues with me about personal contracts, and there's a big trade union representation on there. They might know about it, but, of course, they might actually be dealing with some of the issues during this consultation period about things that are happening in that particular area. They haven't raised that.

Nid yw'r undebau llafur wedi codi unrhyw faterion gyda mi am gontractau personol, a cheir cynrychiolaeth fawr gan undebau llafur yno. Efallai y byddant yn gwybod am y peth, ond, wrth gwrs, efallai eu bod mewn gwirionedd yn ymdrin â rhai o'r materion yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn am bethau sy'n digwydd yn yr ardal benodol honno. Nid ydynt wedi codi hynny.

In terms of the minutes, I think you'll probably find that my statement is broader than anything that's contained in the minutes. But, obviously, the trade unions have access to the minutes, and I'm sure if their members wish to see them, they are part and parcel of the taskforce, so they could release them.

O ran y cofnodion, rwy'n meddwl y gwelwch, yn ôl pob tebyg, bod fy natganiad yn ehangach nag unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y cofnodion. Ond, yn amlwg, mae'r cofnodion ar gael i'r undebau llafur, ac rwy'n siŵr os hoffai eu haelodau eu gweld, maent yn rhan annatod o'r tasglu, felly gallent eu rhyddhau.

15:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:08

# 4. Y Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2016

# 4. The Smoke-free Premises etc. (Wales) (Amendment) Regulations 2016

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is the Smoke-free Premises etc. (Wales) (Amendment) Regulations 2016, and I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2016, a galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5941 Jane Hutt

Motion NDM5941 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2016.

Approves that the draft The Smoke-free Premises etc. (Wales) (Amendment) Regulations 2016 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 11 January 2016.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:08

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Lywydd. Cynigiaf y cynnig. Rwy'n falch o gyflwyno'r rheoliadau hyn, sy'n caniatáu ysmygu mewn celloedd carchar penodol am gyfnod penodol.

Thank you very much, Presiding Officer. I move the motion. I am pleased to introduce these regulations, which allow smoking in particular prison cells for a specific period of time.

Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr wedi ymrwymo i gyflwyno carchardai di-fwg. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r polisi hwn, ond rwyf i hefyd yn deall ei fod yn bolisi sydd yn rhaid ei gyflwyno'n ofalus a bod yn rhaid parhau i adolygu'r amserlenni yn ofalus hefyd. Mae gwaith wedi dechrau i 'implement-eiddio' y polisi hwn yn barod.

The National Offender Management Service has committed to introduce smoke-free prisons. I agree entirely with this policy, but I also understand that it is a policy that has to be put in place carefully and that we must continue to review the timetables very carefully also. Work has commenced to implement this policy already.

Cigarettes were withdrawn from sale two days ago at HMP Usk and at HMP Parc's vulnerable persons unit, and it is intended that the whole prison estate in Wales will become smoke-free by the summer, subject to a series of assessments to test operational stability and health readiness in each prison.

Rhoddwyd y gorau i werthu sigaréts ddau ddiwrnod yn ôl yng Ngharchar Brynbuga ac yn uned pobl agored i niwed Carchar y Parc, a'r bwriad yw y bydd holl ystâd carchardai Cymru yn ddi-fwg erbyn yr haf, yn amodol ar gyfres o asesiadau i brofi sefydlogrwydd gweithredol a pharodrwydd ar gyfer iechyd ym mhob carchar.

The regulations before the Assembly this afternoon will support NOMS to implement smoke-free prisons in a safe and secure way. Government has a duty to protect those who live and work in our prisons from second-hand smoke exposure, but it also has a duty to ensure that this change to a smoke-free estate is managed safely and securely. Evidence from successful implementation of smoke-free policies in prisons in other countries suggests that sufficient lead-in time is needed to allow prisoners and staff to prepare for the change. In the event of slippage or safety issues, a time-limited exemption will allow this work to continue in a safe and controlled timescale, and that is what these regulations provide. A clear majority of respondents to our public consultation agreed with this approach.

Bydd y rheoliadau sydd gerbron y Cynulliad y prynhawn yma yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i gynnal carchardai di-fwg mewn modd saff a diogel. Mae gan y Llywodraeth ddyletswydd i ddiogelu'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn ein carchardai rhag dod i gysylltiad â mwg ail-law, ond mae ganddynt ddyletswydd hefyd i sicrhau bod y newid hwn i ystâd ddi-fwg yn cael ei reoli'n ddiogel. Mae tystiolaeth o weithredu polisïau di-fwg yn llwyddiannus mewn carchardai mewn gwledydd eraill yn awgrymu bod angen digon o amser cyflwyno i ganiatáu i garcharorion a staff baratoi am y newid. Pe byddai llithriad neu faterion diogelwch, bydd eithriad cyfyngedig o ran amser yn caniatáu i'r gwaith hwn barhau mewn amserlen ddiogel a rheoledig, a dyna'r hyn y mae'r rheoliadau hyn yn ei ddarparu. Roedd mwyafrif clir o'r rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad cyhoeddus yn cytuno â'r dull hwn.

The exemption, if it's approved today, will come into force on Thursday, it will be time limited until 5 April 2017, and all prisons will be required to be smoke free by 6 April 2017 at the latest. The exemption does not extend to establishments holding young offenders under the age of 18, as these are already smoke free and will be required to continue to have an entirely smoke-free environment. These regulations will support prisons to become smoke free more generally, and I, therefore, recommend them to the Assembly.

Bydd yr eithriad, os caiff ei gymeradwyo heddiw, yn dod i rym ddydd Iau, bydd yn gyfyngedig o ran amser tan 5 Ebrill 2017, a bydd yn rhaid i bob carchar fod yn ddi-fwg erbyn 6 Ebrill, 2017 fan bellaf. Nid yw'r eithriad yn ymestyn i sefydliadau sy'n dal troseddwyr ifanc o dan 18 oed, gan fod y rhain eisoes yn ddi-fwg a bydd yn ofynnol iddynt barhau i gynnal amgylchedd hollol ddi-fwg. Bydd y rheoliadau hyn yn cynorthwyo carchardai i ddod yn ddi-fwg yn fwy cyffredinol, ac rwyf, felly, yn eu hargymell i'r Cynulliad.

15:11

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have no speakers. So, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:11

# Datganiad y Gweinidog ynghylch Cydsyniad y Frenhines Ei Mawrhydi a Dug Cernyw

# Minister's Statement regarding Her Majesty the Queen's and the Duke of Cornwall's Consent

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

We have a statement now by the Minister for the environment, Carl Sargeant.

Nawr mae gennym ddatganiad gan Weinidog yr amgylchedd, Carl Sargeant.

15:11 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I have it in command from Her Majesty the Queen to acquaint the Assembly that Her Majesty, having been informed of the report of the Environment (Wales) Bill, has given consent to this Bill.

Diolch, Lywydd. Mae gen i orchymyn gan Ei Mawrhydi'r Frenhines i roi gwybod i'r Cynulliad bod Ei Mawrhydi, ar ôl cael gwybod am adroddiad Bil yr Amgylchedd (Cymru), wedi rhoi cydsyniad i'r Bil hwn.

15:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:12

## 5. Dadl Cyfnod 4 ar Fil yr Amgylchedd (Cymru)

## 5. Stage 4 Debate on the Environment (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 5, which is a Stage 4 debate on the Environment (Wales) Bill. I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef dadl Cyfnod 4 am Fil yr Amgylchedd (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5946 Carl Sargeant

Motion NDM5946 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:

Yn cymeradwyo Bil yr Amgylchedd (Cymru).

Approves the Environment (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:12 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, again, Presiding Officer. Today, I have the pleasure of presenting the Environment (Wales) Bill for your approval. As Members are aware, I previously sought Minister of the Crown consents for the biodiversity and resilience of ecosystems duty in section 6 of the Bill, and I am pleased to say that on 14 December the Secretary of State gave consent for the section 6 duty to apply to Ministers of the Crown. On that basis, I can confirm that the Bill is within legislative competence.

Diolch, unwaith eto, Lywydd. Heddiw, mae'n bleser gennyf gyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru) i chi i'w gymeradwyo. Fel y gŵyr yr Aelodau, rwyf yn flaenorol wedi ceisio cydsyniad Gweinidogion y Goron i'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn adran 6 y Bil, ac rwy'n falch o ddweud, ar 14 Rhagfyr, bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cydsyniad i'r ddyletswydd adran 6 fod yn berthnasol i Weinidogion y Goron. Ar y sail honno, gallaf gadarnhau bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.

The Bill delivers on a specific programme for government commitment that enables Wales's resources to be managed in a more sustainable, joined-up way, whilst establishing the legislative framework necessary to tackle climate change. This is a critical piece of legislation. Passing the Bill today will mean that Wales will be one of the first regions or state administrations to establish a statutory framework for sustainable natural resources and one of the first to put in place carbon budgeting to meet our emission-reduction targets and to take full advantage of the opportunities that will flow from Wales's transition to a low-carbon economy.

Mae'r Bil yn darparu rhaglen benodol ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth sy'n ein galluogi i reoli adnoddau Cymru mewn ffordd fwy cynaliadwy, gydgysylltiedig, gan sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Mae hwn yn ddarn hollbwysig o ddeddfwriaeth. Bydd pasio'r Bil heddiw yn golygu y bydd Cymru yn un o'r rhanbarthau neu weinyddiaethau gwladwriaeth cyntaf i sefydlu fframwaith statudol ar gyfer adnoddau naturiol cynaliadwy ac yn un o'r cyntaf i sefydlu cyllidebu carbon i gyrraedd ein targedau lleihau allyriadau ac i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw o drosglwyddo Cymru i fod yn economi carbon isel.

The Bill sets out a target of at least 80 per cent reduction in emissions by 2050, and includes a power to increase this target to keep pace with science and international commitments. This legislation also responds directly to the Paris agreement on aspirations on taking strong, early action in limiting increases in average global temperatures.

Mae'r Bil yn nodi targed o ostwng gollyngiadau o leiaf 80 y cant erbyn 2050, ac mae'n cynnwys pŵer i gynyddu'r targed hwn i gyd-fynd â gwyddoniaeth ac ymrwymiadau rhyngwladol. Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn ymateb yn uniongyrchol i gytundeb Paris ar ddyheadau i gymryd camau cryf, cynnar i gyfyngu ar y cynnydd yn y tymheredd byd-eang cyfartalog.

The Bill also establishes a world-leading framework for embedding the best practice ecosystem approach. This recognises the vital role natural resources and their services provide to Wales's economy, communities and environment. It provides a very clear and positive mandate for Natural Resources Wales, Wales's single environmental regulator, to join up, deliver and act on the priorities of key risks and opportunities. It also ensures that sustainably managing our natural resources is the core consideration in decision making.

Mae'r Bil hefyd yn sefydlu fframwaith sy'n arwain y byd ar gyfer ymgorffori'r dull ecosystem arfer gorau. Mae hyn yn cydnabod swyddogaeth hanfodol adnoddau naturiol a'u gwasanaethau yn economi, cymunedau ac amgylchedd Cymru. Mae'n darparu mandad clir a chadarnhaol iawn i Gyfoeth Naturiol Cymru, rheolydd amgylcheddol sengl Cymru, i uno, cyflawni a gweithredu ar flaenoriaethau risgiau a chyfleoedd allweddol. Mae hefyd yn sicrhau mai rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yw'r ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau.

I'm proud to say that this is a first for UK legislation in this area and, as far as we're aware, in the European Union. The fact the Bill has been recognised as cutting edge by a number of UK and international institutions, including the UK Environmental Law Association and the EU Commission —. Taken as a whole, the Bill provides one of the most progressive pieces of legislation in the world to tackle climate change and manage natural resources in a more sustainable way, helping to drive progress towards our wellbeing goals.

Rwy'n falch o ddweud bod hwn yn dro cyntaf i ddeddfwriaeth yn y DU yn y maes hwn a, chyn belled ag yr ydym yn gwybod, yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r ffaith bod y Bil wedi cael ei gydnabod fel bod ar flaen y gad gan nifer o sefydliadau yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU a Chomisiwn yr UE—. Yn ei gyfanrwydd, mae'r Bil yn darparu un o'r darnau o ddeddfwriaeth mwyaf blaengar yn y byd i ymdrin â newid yn yr hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol mewn modd mwy cynaliadwy, gan helpu i sbarduno cynnydd tuag at ein nodau lles.

The Bill has benefited from full public consultation and an extensive input from stakeholders over the last four years. I'm very grateful for all those contributions, which have informed, developed and refined its passage through this Assembly.

Mae'r Bil wedi elwa ar ymgynghoriad cyhoeddus llawn a mewnbwn eang gan randdeiliaid dros y pedair blynedd diwethaf. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl gyfraniadau hynny, sydd wedi rhoi sail iddo, ei ddatblygu a mireinio ei daith drwy'r Cynulliad hwn.

Since its introduction into the Assembly last May, the Bill has been considered by the Environment and Sustainability Committee, the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and the Finance Committee. I'm grateful for all those committees, the robust scrutiny and Members that contributed to this at each stage.

Ers ei gyflwyno i'r Cynulliad fis Mai diwethaf, mae'r Bil wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'r Pwyllgor Cyllid. Rwy'n ddiolchgar i bob un o'r pwyllgorau hynny, am y craffu cadarn ac i'r Aelodau a gyfrannodd at hyn ar bob cam.

The Bill complements the wellbeing of future generations and planning Acts. Together they put in place the legislation needed to secure the long-term wellbeing of Wales, and ensure that current and future generations benefit from a prosperous economy, a healthy and resilient environment, and vibrant, cohesive communities.

Mae'r Bil yn ategu'r Deddfau llesiant cenedlaethau'r dyfodol a chynllunio. Gyda'i gilydd maent yn sefydlu'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sicrhau lles hirdymor Cymru, ac yn sicrhau bod cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn elwa ar economi ffyniannus, amgylchedd iach a chydnerth, a chymunedau bywiog, cydlynol.

Presiding Officer, I'd like to thank you, the Deputy Presiding Officer, all Members of this Chamber, and particularly those who sat on the Environment and Sustainability Committee. As well as Cabinet colleagues, I'd also like to say a big 'thank you' to Assembly Commission staff for the work that they have committed to, and indeed, my own staff who have worked extremely hard to bring this Bill forward. I commend this Environment (Wales) Bill to you today.

Lywydd, hoffwn ddiolch i chi, y Dirprwy Lywydd, holl Aelodau'r Siambr hon, ac yn enwedig y rhai a oedd yn eistedd ar Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Yn ogystal â chydweithwyr yn y Cabinet, hoffwn hefyd ddweud 'diolch yn fawr' wrth staff Comisiwn y Cynulliad am y gwaith y maent hwy wedi ymrwymo iddo, ac yn wir, i fy staff fy hun sydd wedi gweithio'n eithriadol o galed i gyflwyno'r Bil hwn. Cymeradwyaf y Bil yr Amgylchedd (Cymru) hwn ichi heddiw.

15:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. Janet Haworth.

Diolch, Weinidog. Janet Haworth.

15:16 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you, Presiding Officer. Minister we will be voting in support of the Bill at Stage 4, but I wish to put on record the Welsh Conservatives' disappointment at the worrying lack of consensus, especially over the following issues: the failure to align Natural Resources Wales with similar agencies in England and Scotland where they have greater powers and independence from Government. We also remain concerned about their capacity to fulfil their duties following this new body's creation. We share the disappointment expressed also by the two other opposition parties in your failure to embrace the United Nations' definitions of biodiversity and ecosystems.

Diolch, Lywydd. Weinidog, byddwn yn pleidleisio o blaid y Bil yng Nghyfnod 4, ond hoffwn gofnodi siom a phryder Ceidwadwyr Cymru ynghylch y diffyg consenswS, yn enwedig dros y materion canlynol: y methiant i gyfochri Cyfoeth Naturiol Cymru ag asiantaethau tebyg yn Lloegr a'r Alban lle mae ganddynt fwy o bwerau ac annibyniaeth gan y Llywodraeth. Rydym hefyd yn dal i bryderu am eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau ar ôl creu'r corff newydd hwn. Rydym yn rhannu'r siom a fynegwyd hefyd gan y ddwy wrthblaid arall o ran eich methiant i gofleidio diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig o fioamrywiaeth ac ecosystemau.

With regard to landscapes—and we feel particularly disappointed here because of our wonderful and unique landscape here in Wales—we felt that the addition of landscapes would have added value and would have ensured that landscapes were considered as material considerations in the natural resource management process. Finally, for me as a representative of North Wales—and most worryingly—is the missed opportunity to recognise Dŵr Cymru as a statutory consultee in planning matters, given the recent and—I have to say, Minister—continuing flooding events, involving the river systems in North Wales and the failure of their urban drainage system.

O ran tirweddau—ac rydym yn teimlo'n arbennig o siomedig yn hynny o beth oherwydd ein tirwedd wych ac unigryw yma yng Nghymru—rydym yn teimlo y byddai ychwanegu tirweddau wedi ychwanegu gwerth ac wedi sicrhau bod tirweddau'n cael eu hystyried fel ystyriaethau sylweddol yn y broses o reoli adnoddau naturiol. Yn olaf, i mi fel cynrychiolydd o'r gogledd—ac yn destun y pryder mwyaf—y cyfle a gollwyd i gydnabod Dŵr Cymru fel ymgynghorai statudol mewn materion cynllunio, o ystyried y digwyddiadau llifogydd diweddar ac—mae'n rhaid imi ddweud, Weinidog—parhaus, gan gynnwys systemau afonydd y gogledd a methiant eu system draenio trefol.

15:17 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Mi fydd Plaid Cymru yn cefnogi'r Bil yma y prynhawn yma, ac mae hynny am ei fod yn mynd â ni i'r cyfeiriad iawn. Buasem ni yn dweud bod yna lawer mwy y buasem ni wedi hoffi'i weld yn digwydd o fewn y Bil, ond yn sicr rŷm ni'n symud i'r cyfeiriad y byddem ni am symud iddo fe.

Plaid Cymru will support this Bill this afternoon and that is because it takes us in the right direction. I would say that there is a lot more that we would have liked to have seen included in the Bill, but we are certainly moving in the right direction.

Mi dreuliais i fy nhair blynedd cyntaf fel Aelod Cynulliad yn dadlau dros gael targedau statudol dros newid hinsawdd yma yng Nghymru ac, am dair blynedd, roedd yn rhaid i mi wrando ar Lywodraeth Cymru yn dweud nad oedden nhw'n cytuno ac yn dweud nad oedd angen y fath dargedau. Felly, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Bil yn golygu y bydd targedau o'r fath yn dod i fodolaeth. Mi fyddai rhai ohonom ni yn dymuno mynd yn bellach, ond, yn sicr, rydym ni'n croesawu hwn fel man cychwyn.

I spent my first three years as an Assembly Member arguing in favour of statutory targets on climate change here in Wales, and for three years, I had to listen to the Welsh Government telling me that they didn't agree and that no such targets were required. So, I do welcome the fact that the Bill does mean that such targets will be brought into existence. Some of us would like to have gone further, but certainly, we welcome this as a starting point.

Ond mae'n dal i fod, wrth gwrs, ambell i gonsýrn ynglŷn â'r mater yma, ac mi fyddwn ni yn symud yn ôl o fod mewn sefyllfa lle mae yna adrodd blynyddol ar weithredu ar newid yn yr hinsawdd. Yn fy marn i a barn nifer o'r rhanddeiliaid sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor, nid yw Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn mynd i roi fframwaith digonol i ni, gyda'r ffocws angenrheidiol, penodol ar newid hinsawdd i allu cymryd lle'r drefn bresennol. Yn wir, mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynd i fod ag adroddiadau penodol ar newid hinsawdd bob blwyddyn—nid felly Cymru o hyn ymlaen. Ac mae yna gwestiwn yn fanna yn fy marn i ynglŷn ag atebolrwydd Llywodraeth Cymru o safbwynt yr agenda hwnnw.

However, there are still a few concerns about this issue, and we will be moving backwards from a situation where there is an annual report on action on climate change. In my view, and in the view of a number of the stakeholders that provided evidence to the committee, the wellbeing of future generations Act will not give us a sufficiently robust framework with the specific focus that is needed on climate change to replace the current regime. Indeed, the Scottish and UK Governments will have specific reports on climate change on an annual basis. The same will not be true of Wales from here on in. There is a question there, in my view, in terms of the accountability of the Welsh Government on that particular agenda.

Rwy’n cytuno hefyd â barn Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ynglŷn â diffyg cyfeiriad yn y Bil o safbwynt addasiad—‘adaptation’—ac mae hynny’n gonsýrn. Mae’n wahanol iawn i’r ‘approach’ rydym ni’n ei weld gan Lywodraethau’r Deyrnas Unedig, Gogledd Iwerddon a’r Alban. Nid oedd y pwyllgor yn glir o’r cychwyn sut oedd pob agwedd yn cael eu delio â nhw trwy ddarpariaethau Deddf llesiant cenedlaethau’r dyfodol a Deddf Newid yn yr Hinsawdd y Deyrnas Unedig, er enghraifft ‘adaptation’ o fewn y sector ynni a seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, megis dŵr a rheilffyrdd ac yn y blaen, ac nid wyf yn teimlo bod y mater yna wedi cael ei wyntyllu’n ddigonol yn y Bil yma.

I also concur with the view of the Climate Change Commission for Wales in terms of the lack of direction within the Bill in terms of adaptation. That is a concern. It’s very different to the approach that we have seen from the Governments of the UK, Northern Ireland and Scotland. The committee wasn’t clear from the outset how each aspect was to be dealt with through the provisions of the wellbeing of future generations Act and the UK Climate Change Act, for example, adaptation within the energy sector and nationally important infrastructure, such as water, rail and so forth. I do not feel that that issue has been sufficiently aired in this Bill.

Plaid Cymru also welcomes the 2020 target, of course, but considering that the Welsh Government has an existing target of a 40 per cent reduction on gross emissions, I would ask the Minister, in his response to this debate today, to explain why he has decided not to set this target on the face of the Bill, or at least the principle of this emission-reduction target when setting budgets and targets. And I would implore you, Minister, to try and answer that question, because, so far, you've avoided speaking about it. You certainly didn't respond to questions from your own party during Stage 2 on this particular issue, and it wasn't covered at Stage 3. Now, I'm not suggesting that you're avoiding the subject, but, to avoid any doubt, I think a clear statement, or a clear explanation as to why you don't feel the 40 per cent reduction on gross emissions is required on the face of the Bill, despite agreeing that maybe we need a 2020 interim target, would be useful, I think, for us just to be clear on that.

Mae Plaid Cymru hefyd yn croesawu'r targed 2020, wrth gwrs, ond o ystyried bod gan Lywodraeth Cymru darged presennol o ostyngiad 40 y cant ar allyriadau gros, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog, yn ei ymateb i'r ddadl hon heddiw, egluro pam mae wedi penderfynu peidio â rhoi’r targed hwn ar wyneb y Bil, neu o leiaf egwyddor y targed lleihau allyriadau hwn wrth bennu cyllidebau a thargedau. A byddwn yn erfyn arnoch, Weinidog, i geisio ateb y cwestiwn hwnnw, oherwydd, hyd yn hyn, rydych wedi osgoi siarad am y peth. Yn sicr, ni wnaethoch ymateb i gwestiynau gan eich plaid eich hun yn ystod Cyfnod 2 ar y mater penodol hwn, ac ni chafodd sylw yng Nghyfnod 3. Nawr, nid wyf yn awgrymu eich bod yn osgoi'r pwnc, ond, i osgoi unrhyw amheuaeth, rwy’n meddwl y byddai datganiad clir, neu esboniad clir ynghylch pam nad ydych yn teimlo bod angen y gostyngiad 40 y cant ar allyriadau gros ar wyneb y Bil, er i chi gytuno efallai fod angen targed interim 2020 arnom, yn ddefnyddiol, rwy’n meddwl, dim ond inni fod yn glir ynghylch hynny.

I still have reservations about Natural Resources Wales’s remit and the need for it to be a champion of the environment here in Wales, and I would concur with the issues around its capacity to deliver its new duties and responsibilities whilst, of course, continuing to provide existing services. The Minister admitted for the first time in the environment committee about two weeks ago that NRW were raising capacity issues with you for the first time, or at least that they were robustly challenging you on this for the first time. And there is a potential double whammy, of course, of increased duties on the one hand and reduced budgets on the other, and that is unsustainable going forward, and that is something that we all need to be very mindful of.

Mae gennyf amheuon o hyd ynghylch cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru a'r angen iddo fod yn hyrwyddwr yr amgylchedd yma yng Nghymru, a byddwn yn cytuno â’r materion sy'n ymwneud â’i allu i gyflawni ei ddyletswyddau a’i gyfrifoldebau newydd gan, wrth gwrs, barhau i ddarparu gwasanaethau presennol. Cyfaddefodd y Gweinidog am y tro cyntaf ym mhwyllgor yr amgylchedd tua phythefnos yn ôl fod CNC yn codi materion capasiti gyda chi am y tro cyntaf, neu o leiaf eu bod yn eich herio’n gadarn ar hyn am y tro cyntaf. A cheir ergyd ddwbl bosibl, wrth gwrs, o fwy o ddyletswyddau ar y naill law a llai o gyllidebau ar y llall, ac mae hynny'n anghynaladwy wrth symud ymlaen, ac mae hynny'n rhywbeth y mae angen i bob un ohonom fod yn ystyriol iawn ohono.

Wrth gloi, felly, a gaf innau hefyd ddiolch i’r holl unigolion a’r holl randdeiliaid sydd wedi cyfrannu ar wahanol gyfnodau i ddatblygiad y Bil yma, yn arbennig i glerc y pwyllgor amgylchedd a’i dîm, a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn arbennig, hefyd, ymchwilwyr y pleidiau gwleidyddol a’r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y Bil yma? Mae’r Bil yma, ynghyd â Deddf llesiant cenedlaethau’r dyfodol a’r Ddeddf cynllunio, fel y mae’r Gweinidog wedi ei ddweud, gyda’i gilydd, yn rhoi fframwaith inni sydd, yn fy marn i, yn golygu na all hi fod yn fusnes fel arfer—fe fydd yn rhaid i bethau newid o hyn ymlaen os ydy’r tri darn yna o ddeddfwriaeth am olygu unrhyw beth i ni fan hyn yng Nghymru.

In conclusion, therefore, may I also thank all the individuals and stakeholders who have contributed at various stages to the development of this Bill, particularly the clerk of the environment committee and his team, and the Members’ Research Service also, along with the researchers of the political parties and all the Members who have contributed to the development of this Bill? The Bill, along with the wellbeing of future generations Act and the planning Act, as the Minister has said, will, together, give us a framework that, in my view, does mean that it cannot be business as usual—things will have to change from here on in if those three pieces of legislation are to mean anything for us here in Wales.

Ond, wrth gwrs, mi orffennaf i drwy ein hatgoffa ni i gyd fod deddfu yn un peth; mae’n rhaid i’r pwyslais nawr fod ar y gweithredu.

But, of course, I will conclude by reminding us all that legislating is one thing; the emphasis must now be on action.

15:22 **William Powell** Bywgraffiad Biography

This Bill has indeed come a very long way since it was first published in May of last year, and whilst I would like to put on record the fact that there are a number of areas in which we would have liked to have seen this Bill go further, echoing some of the comments that we've already heard, I think that, on balance, the Bill will be putting Wales in a much better position to make progress against climate change, and in the halting of our biodiversity loss, with this piece of legislation in place. For that reason, it will have our support in this Chamber today.

Mae'n wir bod y Bil wedi dod yn bell iawn ers iddo gael ei gyhoeddi gyntaf ym mis Mai y llynedd, ac er yr hoffwn gofnodi'r ffaith y byddem wedi hoffi gweld y Bil hwn yn mynd ymhellach mewn nifer o feysydd, i adleisio rhai o'r sylwadau yr ydym wedi'u clywed eisoes, rwy'n meddwl y bydd y Bil, ar y cyfan, yn rhoi Cymru mewn llawer gwell sefyllfa i wneud cynnydd yn erbyn newid yn yr hinsawdd, ac i atal colli ein bioamrywiaeth, gyda'r darn hwn o ddeddfwriaeth ar waith. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn ei gefnogi yn y Siambr hon heddiw.

There are a number of areas, as I've said, where we were pleased to make progress. Strengthening the biodiversity duty and the role of the section 7 list of priority species was an important priority for us, and our amendments, passed at Stage 3, should provide the delivery mechanisms that are needed to ensure real progress towards halting the loss of biodiversity here in Wales. The fact that consumption emissions from goods and services that are consumed in Wales will now be counted and reported upon is also very much to be welcomed. This means that a more accurate reflection of Wales's carbon footprint will be measured. There are also other measures to be welcomed, such as the inclusion of an additional 2020 interim target, as we've heard already, reference to international agreements on limiting the global temperature increases, and additional measures around transparency and engagement with relevant stakeholders. Similarly, the fact that proceeds from the new carrier bag arrangements will now be directed only towards environmental causes, with the exception of circumstances where there are established arrangements, ensures a clear link between waste reduction and environmental benefit, also promoting real, lasting climate change, while putting climate change deniers to the sword.

Ceir nifer o feysydd, fel yr wyf wedi'i ddweud, lle'r oeddem yn falch o wneud cynnydd. Roedd cryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth a swyddogaeth y rhestr adran 7 o rywogaethau â blaenoriaeth yn flaenoriaeth bwysig inni, a dylai ein gwelliannau, a basiwyd yng Nghyfnod 3, ddarparu'r mecanweithiau cyflenwi sydd eu hangen i sicrhau cynnydd gwirioneddol tuag at atal colli bioamrywiaeth yma yng Nghymru. Mae'r ffaith y bydd allyriadau defnyddio nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir yng Nghymru bellach yn cael eu cyfrif a'u hadrodd hefyd i'w groesawu'n fawr iawn. Mae hyn yn golygu y mesurir adlewyrchiad mwy cywir o ôl troed carbon Cymru. Mae mesurau eraill i'w croesawu hefyd, fel cynnwys targed interim ychwanegol 2020, fel yr ydym wedi'i glywed eisoes, cyfeirio at gytundebau rhyngwladol ar gyfyngu ar y cynnydd tymheredd byd-eang, a mesurau ychwanegol o gwmpas tryloywder ac ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol. Yn yr un modd, mae'r ffaith y bydd enillion o'r trefniadau bagiau siopa newydd bellach i gyd yn cael eu cyfeirio at achosion amgylcheddol, ac eithrio amgylchiadau lle ceir trefniadau sefydledig, yn sicrhau cyswllt clir rhwng lleihau gwastraff a budd amgylcheddol, a hefyd yn hyrwyddo newid yn yr hinsawdd gwirioneddol, parhaol, a rhoi cleddyf yng nghalon gwadwyr newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd.

And let us not forget that this Bill does introduce binding statutory targets on greenhouse gases, and this, in itself, is a positive thing. But, primarily, this is where we feel that the Bill should have set a higher level of ambition, and had our way prevailed, the 2050 target would have been set at 100 per cent, rather than the 80 per cent that we have before us. As part of the global community, we have an absolutely huge challenge on our hands to limit global temperature increases to well below 2 degrees Celsius, and to pursue efforts to limit to 1.5 degrees Celsius, as was specified in the Paris accords. My party believes that the only way of doing this is to aim for net zero emissions as early as possible. We will continue to make the case, in this place and elsewhere, for the sake of our planet, and for future generations, in order for Wales to blaze a trail for the rest of the world to follow.

A gadewch inni beidio ag anghofio bod y Bil hwn yn cyflwyno targedau statudol rhwymol ar nwyon tŷ gwydr, ac mae hyn, ynddo'i hun, yn rhywbeth cadarnhaol. Ond, yn bennaf, dyma lle'r ydym yn teimlo y dylai'r Bil fod wedi dangos mwy o uchelgais, a phe byddai ein ffordd ni wedi'i dewis, byddai targed 2050 wedi'i osod ar 100 y cant, yn hytrach na'r 80 y cant sydd gennym ger ein bron. Fel rhan o'r gymuned fyd-eang, mae gennym her enfawr iawn ar ein dwylo i gyfyngu ar gynnydd tymheredd byd-eang i lawer is na 2 radd Celsius, ac i geisio ymdrechu i'w gyfyngu i 1.5 gradd Celsius, fel y nodwyd yn y cytundebau Paris. Mae fy mhlaid yn credu mai'r unig ffordd o wneud hyn yw drwy gael nod o allyriadau sero net cyn gynted â phosibl. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos, yn y lle hwn ac mewn mannau eraill, er lles ein planed, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, er mwyn i Gymru arloesi'r ffordd i weddill y byd ein dilyn.

I would take this opportunity to pay tribute, as has already been done, to the clerk and the team of the Environment and Sustainability Committee, who've supported us throughout the scrutiny process; the Research Service; also the third sector groups who've brought scrutiny and clarity to some of the key issues; and also the co-operation that's been in place between the researchers of the various parties—I'd like to put on record my own particular thanks to Rosanna Raison in my own office, who's led on this for me. I'm very grateful to have had the opportunity to be standing here this afternoon and to endorse the fact that we are making progress, but there's a whole lot more to do. Diolch yn fawr.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i dalu teyrnged, fel sydd eisoes wedi ei wneud, i glerc a thîm Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, sydd wedi ein cefnogi drwy gydol y broses graffu; y Gwasanaeth Ymchwil; hefyd y grwpiau trydydd sector sydd wedi dod â gwaith craffu ac eglurder i rai o'r materion allweddol; a hefyd i'r cydweithio a fu rhwng ymchwilwyr y gwahanol bleidiau—hoffwn gofnodi fy niolch arbennig i Rosanna Raison yn fy swyddfa i, sydd wedi arwain ar hyn ar fy rhan. Rwy'n ddiolchgar iawn fy mod wedi cael y cyfle i sefyll yma y prynhawn yma ac i gymeradwyo'r ffaith ein bod yn gwneud cynnydd, ond mae llawer iawn mwy i'w wneud. Diolch yn fawr.

15:26

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I'd just like to point out to William Powell that we have many facilities here. Westminster have a facility for hanging up swords. I don't propose to introduce one here, so the idea of putting people to the sword is something quite new to us. Dafydd Elis-Thomas.

Hoffwn ddweud wrth William Powell bod gennym lawer o gyfleusterau yma. Mae gan San Steffan gyfleuster ar gyfer hongian cleddyfau. Nid wyf yn bwriadu cyflwyno un yma, felly mae'r syniad o roi cleddyf yng nghalon pobl yn rhywbeth eithaf newydd inni. Dafydd Elis-Thomas.

15:26

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

I'm grateful as always, Bonesig Lywydd, for you bringing this place to order, not least because I was a bit concerned by the sudden upsurge of—I assume it was medieval figurative violence that appeared from my friend on the right.

Rwy'n ddiolchgar fel bob amser, Fonesig Lywydd, ichi am ddod â threfn i'r lle hwn, yn enwedig gan fy mod yn pryderu ychydig am yr ymchwydd sydyn o—rwy'n cymryd mai trais ffigurol canoloesol a ymddangosodd gan fy ffrind ar y dde.

15:26

## William Powell Bywgraffiad Biography

Absolutely.

Yn bendant.

15:26

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

I would have much better use for climate change deniers than putting them to the sword. I would get them to clear up the mess created for those of us who live between mountains and 'ffriddoedd' and the river valley bottom as a result of the massive rainfall we've had in recent months. But that's just an advert, if anybody wants to come and repair the road outside my cottage.

Byddai gen i lawer gwell defnydd i wadwyr newid yn yr hinsawdd na rhoi cleddyf yn eu calonnau. Byddwn yn mynnu eu bod yn clirio'r llanast a grëwyd i'r rhai ohonom sy'n byw rhwng mynyddoedd a ffriddoedd a gwaelod dyffryn yr afon o ganlyniad i'r glaw enfawr yr ydym wedi'i gael yn y misoedd diwethaf. Ond dim ond hysbyseb yw hwnnw, os hoffai unrhyw un ddod i drwsio'r ffordd y tu allan i fy mwthyn.

Roeddwn i eisiau dweud gair fan hyn oherwydd ni fedraf I gredu mai dim ond cwta pum mlynedd yw hi, a llai na hynny, ers inni gychwyn fel pwyllgor amgylchedd yn ceisio craffu ar y Gorchmynion cynnar i sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru. Gorchmynion oedd y rheini a deddfwriaeth a oedd yn ddibynnol yn unig ar wneud gwelliannau mewn Deddfau blaenorol yn San Steffan. Os caf i ddweud rhywbeth mwy cyffredinol am ein proses ddeddfu ni yma, dyma ydy un o'n gwendidau ni: nad ydym yn creu deddfwriaeth o fewn fframwaith rhesymegol ein hunain.

I did want to say a few words here, because I can't believe that it's only been five years, indeed, less than five years, since we as an environment committee started the process of scrutinising the early Orders to establish Natural Resources Wales. Those were Orders and legislation that were reliant only on making amendments to previous Westminster legislation. If I can say something a little more general about our processes here, this is one of our weaknesses: we don't create legislation within a rational framework drawn up by ourselves.

Ond rydym wedi dod o le pell. Mae'n rhaid imi ddweud fel Cadeirydd y pwyllgor amgylchedd yn y cyfnod hwnnw, nid oeddwn yn credu y byddai'r Llywodraeth yma yn gorffen ei rhaglen amgylcheddol, oherwydd roedd yna gymaint i'w wneud. Fe ddylwn i jest ddatgan hyn wrth basio, wrth gwrs: rwyf bellach yn gweithio i'r Gweinidog yma yn gwbl ddi-dâl a gwirfoddol, ac yn gweithio yn galed iawn, ar greu partneriaeth i weithredu'r ddeddfwriaeth yma. Mae honno yn fraint cwbl arbennig.

But we have come a long way. I have to say, as the Chair of the environment committee at that time, that I didn't believe that this Government would actually complete its environmental programme, because there was so much to do. Here I should just declare in passing that I am working for this Minister, entirely voluntarily, without remuneration, and working very hard, on creating a partnership to implement this legislation. That is a very special privilege of mine.

Ond mae’r ddeddfwriaeth yr ydym wedi’i chynhyrchu yn dangos gallu’r Cynulliad yma i ddeddfu dros ystod eang o feysydd, a hynny gan gynnwys y ddeddfwriaeth amgylcheddol, y Bil cynllunio, sydd bellach yn Ddeddf cynllunio ers y llynedd, ac wrth gwrs y Ddeddf hollbwysig ynglŷn â lles cenedlaethau’r dyfodol. Nid wyf eisiau anghytuno gydag Aelodau fy mhlaid fy hun yn rhy aml, ond rwy’n anghytuno gyda Llyr mewn ysbryd o frawdgarwch, wrth reswm, oherwydd rŷm ni’n mynd yn ôl yn bell iawn, ond rwyf yn credu bod Deddf llesiant cenedlaethau’r dyfodol yn gosod fframwaith unigryw i ddeddfwriaeth amgylcheddol yng Nghymru a thu hwnt, a bod yna gyfle inni fan hyn—drwy ddod â’r nodau allweddol yma gyda’i gilydd, a’r holl adrannau o Lywodraeth yn cefnogi datblygiad cynaliadwy go iawn—fod yna gyfle inni weithredu yn effeithlon.

This legislation that we have produced does demonstrate the ability of this Assembly to legislate over a broad range of areas, including environmental legislation, the planning Bill, which is now the planning Act as of last year, and also the crucially important Act on the wellbeing of future generations. I don’t want to disagree with Members of my own party too often, but I do disagree with Llyr in a spirit of fraternity, of course, because we go back a very long way, but I do believe that the wellbeing of future generations Act does put in place a unique framework for environmental legislation in Wales and beyond, and that there is an opportunity for us here—by bringing these crucial goals together, and all departments of Government, supporting real sustainable development—for us to work effectively.

Rwyf eisiau talu teyrnged hefyd i staff Cyfoeth Naturiol Cymru. Eto, fel y gŵyr pawb, rwy’n byw yn eu canol nhw yn Eryri ac yn y canolbarth. Nid yw wedi bod yn hawdd bob amser i greu corff effeithlon allan o’r gwahanol elfennau, ond mae’r patrwm o reolaeth rydym ni wedi ei gael yn y corff yna, a’r modd y mae pobl sy’n gweithio ar y ddaear yn enwedig—heb enwi neb; maen nhw’n gwybod am bwy rwy’n sôn—. Pan oedd argyfyngau yn digwydd, yn enwedig gyda llifogydd, roedd y bobl yma wedi dangos eu parodrwydd i osod eu hunain ochr yn ochr efo cymunedau mewn anawsterau mewn ffordd effeithlon iawn, gan, ar yr un pryd, weld pwysigrwydd y dadleuon hirdymor ynglŷn â beth yw ymdopi â newid hinsawdd mewn gwirionedd. Felly, am y tro cyntaf, a’r tro olaf, efallai, yn y Cynulliad hwn, rwy’n sefyll ar fy nhraed I longyfarch Llywodraeth Cymru am gynhyrchu ystod o ddeddfwriaeth sy’n cymharu ag unrhyw beth y mae unrhyw Senedd yn unrhyw le arall yn y byd wedi’I gynhyrchu.

I want also to pay tribute to the staff of NRW. Again, as everyone knows, I live amongst them in Snowdonia and mid Wales, and it hasn’t always been easy to create an efficient body from all those different elements, but the pattern of management that we have seen develop in that body, and the way that people working on the ground particularly—without naming any names; they will know who they are—. When crises did occur, particularly in terms of flooding, these people demonstrated their willingness to put themselves alongside those communities facing difficulties in a very efficient and effective way, whilst, simultaneously, seeing the importance of the long-term debates on the implications of climate change. Therefore, for the first time, and possibly the last time, in this Assembly, I stand to congratulate the Welsh Government for producing a range of legislation that compares with anything that any Parliament anywhere else in the world has produced.

15:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

15:30

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Presiding Officer, and I thank Members for their contributions this afternoon. Can I pick up Lord Dafydd Elis-Thomas’s points first? I’m very grateful for his contribution this afternoon; I think they’re very welcome, his words in regard to the content of this department’s legislation profile—14 months ago, when I took over this department, we had the planning Act, the wellbeing of future generations Act, and the environment Bill coming through the process, and it’s been a very challenging task for my department and my staff, but we managed to get there: the three pieces of jigsaw that will make the big change to put Wales on the map about dealing with our environmental credentials—well placed in terms of a global vision.

Diolch, Lywydd, ac rwy’n diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau y prynhawn yma. A gaf i ymateb i bwyntiau’r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn gyntaf? Rwy'n ddiolchgar iawn am ei gyfraniad y prynhawn yma; rwy'n meddwl bod croeso mawr iddynt, ei eiriau ynglŷn â chynnwys proffil deddfwriaeth yr adran hon—14 mis yn ôl, pan gymerais awenau’r adran hon, roedd gennym y Ddeddf cynllunio, Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol, a Bil yr amgylchedd yn dod drwy'r broses, ac mae wedi bod yn dasg heriol iawn i fy adran i ac i fy staff, ond rydym wedi llwyddo i gyrraedd yno: y tri darn o jig-so a fydd yn gwneud y newid mawr i roi Cymru ar y map o ran ymdrin â’n cymwysterau amgylcheddol—mewn sefyllfa dda o ran gweledigaeth fyd-eang.

Can I pick up the points that Members have also raised in their contributions? Again, thank you for the contribution through committee, and, indeed, my own group was very helpful in terms of shaping the Bill to today's point. I wasn't expecting—. When Governments bring legislation forward and to the floor, we never expect environmental cartwheels over this type of legislation, supported by all parties, but we have got some general consensus, and I know there is still scope for improvement by Members, and what they think would be better fitting in the Bill. But we do believe we've got a Bill that is something fit for the future, and that we are much better placed for taking forward the protection that we need to have, and the management of our natural resources.

A gaf i godi'r pwyntiau y mae Aelodau hefyd wedi'u codi yn eu cyfraniadau? Unwaith eto, diolch ichi am y cyfraniad drwy bwyllgor, ac, yn wir, roedd fy ngrŵp fy hun yn ddefnyddiol iawn o ran siapio'r Bil at y pwynt hwn heddiw. Nid oeddwn yn disgwyl—. Pan fydd Llywodraethau'n dod â deddfwriaeth ymlaen ac i'r llawr, ni fyddwn byth yn disgwyl olwyndroi amgylcheddol dros y math hwn o ddeddfwriaeth, wedi'i gefnogi gan bob plaid, ond rydym wedi cael rhywfaint o gonsensws cyffredinol, ac rwy'n gwybod bod lle o hyd i wella gan Aelodau, a beth y maent yn ei gredu fyddai'n fwy priodol yn y Bil. Ond rydym yn credu bod gennym Fil sy'n rhywbeth addas i'r dyfodol, a'n bod mewn llawer gwell sefyllfa i fwrw ymlaen â'r warchodaeth sydd ei hangen arnom, a rheoli ein hadnoddau naturiol.

In regard to Bill Powell's point regarding the 100 per cent reduction, I know—the press release that he sent out last week I read with great interest—that there's nothing in the Bill that prevents us moving to a 100 per cent target; it says 'at least 80 per cent' and that's where there is flexibility and the ability to move those targets if we feel we should in regard to that. Llyr raised the issue around the 2020 interim target, which is in legislation. I've been very clear, I thought, through the process of this Bill, that the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 is the place and the framework for identifying what we should have in terms of interim targets, milestones and the long-term objectives of this Government and the other 44 public bodies that are affected by the WFG Act. I can't, and Government can't fix the climate on their own: we have to work collectively to achieve this, and I think the WFG Act is absolutely the right place to make sure that we know what we're aiming for and how we get there as a collective.

O ran pwynt Bill Powell ynghylch y gostyngiad 100 y cant, rwy'n gwybod—darllenais y datganiad i'r wasg a anfonodd allan yr wythnos diwethaf â diddordeb mawr—nad oes dim byd yn y Bil sy'n ein hatal rhag symud at darged 100 y cant; mae'n dweud 'o leiaf 80 y cant' a dyna lle ceir hyblygrwydd a'r gallu i symud y targedau hynny os ydym yn teimlo y dylem ynglŷn â hynny. Cododd Llyr y mater o gwmpas y targed interim 2020, sydd mewn deddfwriaeth. Rwyf wedi bod yn glir iawn, rwy'n meddwl, drwy gydol proses y Bil hwn, mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r lle a'r fframwaith ar gyfer nodi beth a ddylai fod gennym o ran targedau interim, cerrig milltir ac amcanion hirdymor y Llywodraeth hon a'r 44 o gyrff cyhoeddus eraill y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn effeithio arnynt. Ni allaf i, na'r Llywodraeth drwsio'r hinsawdd ar eu pennau eu hunain: mae'n rhaid inni gydweithio i gyflawni hyn, ac rwy'n meddwl mai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r union le i wneud yn siŵr ein bod yn gwybod beth yw ein nod a sut i gyrraedd yno ar y cyd.

Final point from Janet Howarth: Janet, you started with some criticism about Wales in particular not having a joined-up approach in terms of other agencies across the UK. I don't agree with you on that point. This Bill has been made in Wales by the people of Wales, which is something that is unique to you as a party with regards to the Wales Bill. But we have been very clear in the jigsaw, the suite, of legislation that this department has brought forward, to make sure that it's fit for purpose and developed and designed by the people of Wales, and I thank Members and contributors externally for the work that they've done on this. Today is a historic day, Presiding Officer; the Assembly and I—. I'd like to say again how proud I am to be presenting this cutting-edge Bill, which puts in place strong legislation that will provide multiple benefits for the economy and communities, as well as the environment across Wales and beyond. I move.

Y pwynt olaf gan Janet Howarth: Janet, gwnaethoch ddechrau â beirniadaeth, yn benodol am nad oes gan Gymru ddull gweithredu cydgysylltiedig o ran asiantaethau eraill ledled y DU. Nid wyf yn cytuno â chi ar y pwynt hwnnw. Mae'r Bil hwn wedi ei wneud yng Nghymru gan bobl Cymru, sy'n rhywbeth sy'n unigryw i chi fel plaid o ran y Bil Cymru. Ond rydym wedi bod yn glir iawn yn y jig-so, y gyfres, o ddeddfwriaeth y mae'r adran hon wedi'i chyflwyno, i wneud yn siŵr ei bod yn addas i'w diben ac wedi'i datblygu a'i chynllunio gan bobl Cymru, ac rwy'n diolch i'r Aelodau ac i gyfranwyr allanol am y gwaith y maent wedi'i wneud ar hyn. Mae heddiw'n ddiwrnod hanesyddol, Lywydd; mae'r Cynulliad a mi—. Hoffwn ddweud eto pa mor falch yr wyf o fod yn cyflwyno'r Bil arloesol hwn, sy'n sefydlu deddfwriaeth gref a fydd yn darparu buddion niferus i'r economi a chymunedau, yn ogystal â'r amgylchedd ledled Cymru a thu hwnt. Rwy'n cynnig.

15:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Thank you. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Now, before we move to Stage 3 proceedings for the Historic Environment (Wales) Bill, I will suspend proceedings for 15 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene. I would remind Members that there'll be just one bell, so I would encourage you to return to the Chamber promptly. Thank you very much.

Nawr, cyn inni symud i drafodion Cyfnod 3 ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), rwy'n mynd i ohirio'r trafodion am 15 munud. Caiff y gloch ei chanu bum munud cyn inni ailymgynnull. Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai dim ond un gloch fydd, felly byddwn yn eich annog i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon. Diolch yn fawr iawn.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:35.*

*Plenary was suspended at 15:35.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 15:49, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly reconvened at 15:49, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

## 7. Dadl Cyfnod 3 ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

*Mae gwelliannau a nodir ag [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.*

## 7. Stage 3 Debate on the Historic Environment (Wales) Bill

*Amendments marked [R] mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.*

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order, order. We now move to our Stage 3 debate on the historic environment Bill.

Order, order. Symudwn yn awr at ein dadl Cyfnod 3 ar y Bil amgylchedd hanesyddol.

### Grŵp 1: Henebion Cofrestredig: Canllawiau i Berchnogion (Gwelliannau 71, 72)

### Group 1: Scheduled Monuments: Guidance to Owners (Amendments 71, 72)

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The first group of amendments relates to guidance to owners of scheduled monuments. The lead amendment in this group is amendment 71. I call on Suzy Davies to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â chanllawiau i berchnogion henebion cofrestredig. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 71. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp a siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 71 (Suzy Davies).*

*Amendment 71 (Suzy Davies) moved.*

15:49 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Amendment 71, which I move, was previously raised and went to the casting vote at Stage 2. I've brought it back for further consideration as it does not reduce the powers of Welsh Ministers or alter the legislative intention of the Bill.

This amendment would introduce a duty on Welsh Ministers to provide guidance when a site is about to be included in the schedule of ancient monuments. It sets out the minimum content of such guidance, clarity about the legal obligations for the owner arising from scheduling, and clarity, specifically, about the criminal offences that flow from those. It's a proactive measure to help owners and occupiers of a site that is about to be listed as a scheduled monument, as it helps them to know and understand the obligations they are about to have towards that property. It's also a preventative measure, deterring future offences, as the owners and occupiers cannot claim that they did not know the seriousness of any obligations and their breach.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Codwyd gwelliant 71, yr wyf yn ei gynnig, o'r blaen ac aeth at y bleidlais fwrw yng Nghyfnod 2. Rwyf yn ei ailgyflwyno i'w ystyried eto gan nad yw'n lleihau pwerau Gweinidogion Cymru nac yn newid bwriad deddfwriaethol y Bil.

Byddai'r gwelliant hwn yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi arweiniad pan fo safle ar fin cael ei gynnwys ar y gofrestr o henebion. Mae'n nodi'r cynnwys gofynnol o arweiniad o'r fath, eglurder ynghylch y rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer y perchennog sy'n codi o gofrestru, ac eglurder, yn benodol, am y troseddau sy'n deillio o hynny. Mae'n fesur rhagweithiol i helpu perchnogion a meddianwyr safle sydd ar fin cael ei restru fel heneb gofrestredig, gan ei fod yn eu helpu i wybod a deall y rhwymedigaethau y maent ar fin eu cael o ran yr eiddo hwnnw. Mae hefyd yn fesur ataliol, gan atal troseddau yn y dyfodol, gan na all y perchnogion a meddianwyr honni nad oeddent yn gwybod am ddifrifoldeb unrhyw rwymedigaethau a'u torri.

At Stage 2, the Deputy Minister drew our attention to section 3 of this Bill, which introduces new section—here we go—1AA(4)(c)(i) into the relevant Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979. The effect of this is that any notice of interim protection must include a statement of the effect of new section 1AB. New section 1AB does not, in describing interim protection, give any indication of the effects of interim protection. There is nothing in section 3 of this Bill referring to legal obligations or criminal offences that are about to be of material interest to the owner or occupier of the property in question. So, there is no certainty that a statement within a notice under new section 1AA(4)(c)(i) will satisfy these concerns. And, when we're talking about criminal offences, Members, we must insist on certainty. Amendment 71 provides that certainty.

Yng Nghyfnod 2, tynnodd y Dirprwy Weinidog ein sylw at adran 3 o'r Bil hwn, sy'n cyflwyno adran newydd—dyma ni—1AA(4)(c)(i) i'r Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 berthnasol. Effaith hyn yw bod yn rhaid i unrhyw hysbysiad o amddiffyn dros dro gynnwys datganiad sy'n ymwneud â'r adran 1AB newydd. Nid yw'r adran 1AB newydd, wrth ddisgrifio amddiffyn dros dro, yn rhoi unrhyw arwydd o effeithiau amddiffyn dros dro. Nid oes unrhyw beth yn adran 3 y Bil hwn sy'n cyfeirio at rwymedigaethau cyfreithiol na throseddau sydd ar fin bod o ddiddordeb perthnasol i'r perchennog neu feddiannydd yr eiddo dan sylw. Nid oes unrhyw sicrwydd felly y bydd datganiad o fewn hysbysiad o dan yr adran 1AA(4)(c)(i) newydd yn bodloni'r pryderon hyn. A phan fyddwn yn sôn am droseddau, Aelodau, mae'n rhaid i fynnu pendantrwydd. Mae gwelliant 71 yn darparu'r pendantrwydd hwnnw.

Moreover, new section 1AA(4)(c)(i) means that a statement of the effect of interim protection is no more than that. It does not give information about the effect of final scheduling. While the Deputy Minister may be planning, as he said, a programme of publications to get more general information on the Bill's changes out to owners and occupiers of all scheduled monuments, this is not a statutory requirement, and therefore allows for a different Deputy Minister to conclude that such a campaign may be delayed or abandoned. While the publication of guidance may not always be a matter for particular Assembly attention, I think this guidance, which contains statutory requirements and refers to criminal offences, is appropriate to be brought before the Assembly for prior approval.

Hefyd, mae'r adran 1AA(4)(c)(i) newydd yn golygu nad yw datganiad o effaith gwarchod dros dro yn ddim mwy na hynny. Nid yw'n rhoi gwybodaeth am effaith cofrestru terfynol. Er y gall y Dirprwy Weinidog fod yn cynllunio, fel y dywedodd, rhaglen o gyhoeddiadau i roi rhagor o wybodaeth gyffredinol am newidiadau'r Bil i berchnogion a meddianwyr yr holl henebion cofrestredig, nid yw hyn yn ofyniad statudol, ac felly mae'n caniatáu i Ddirprwy Weinidog gwahanol ddod i'r casgliad y gall ymgyrch o'r fath gael ei ohirio neu ei adael. Er nad yw cyhoeddi canllawiau bob amser yn fater at sylw arbennig y Cynulliad, rwyf yn credu ei fod yn addas dwyn y canllawiau hyn, sy'n cynnwys gofynion statudol ac yn cyfeirio at droseddau, gerbron y Cynulliad i'w cymeradwyo ymlaen llaw.

Amendment 72 in this group is a minor drafting amendment consequential on amendment 71. Thank you.

Mae gwelliant 72 yn y grŵp hwn yn fân welliant drafftio ac yn ganlyniadol i welliant 71. Diolch.

15:52

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

I am very happy to be here today to address the proposed amendments to the Historic Environment (Wales) Bill. It's unquestionably important to make those who may be affected by scheduling fully aware of the implications of designation, not least with regard to the criminal offences that this Bill seeks to strengthen.

Rwyf yn falch iawn o fod yma heddiw i drafod y newidiadau arfaethedig i'r Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Mae'n bwysig yn ddiau i ni sicrhau bod y rhai a allai gael eu heffeithio gan gofrestru henebion yn gwbl ymwybodol o oblygiadau dynodi, yn enwedig o ran y troseddau y mae'r Bil hwn yn ceisio eu cryfhau.

The Bill intends to introduce landmark new provisions for formal consultation with owners and others prior to scheduling a monument of national importance. During the consultation period, a site under consideration will be given interim protection as if it is already scheduled. The Bill already specifies that a statement of the effect of interim protection must be provided, not just to owners of sites under consideration but also, Deputy Presiding Officer, to occupiers. Guidance will be provided at that stage to inform the owner and any occupier of the legal obligations arising from interim protection and scheduling and, indeed, the consequences of breaching those obligations, including criminal offences. To repeat all of this information, and just to the owner of the site, if the site is then formally scheduled, would be unnecessary. In short, there is no need to place this requirement in legislation as the effect is already embodied in the Bill and in the information that will support implementation. I would therefore urge Members to reject these two amendments.

Mae'r Bil yn bwriadu cyflwyno darpariaethau newydd pwysig ar gyfer ymgynghori'n ffurfiol â pherchnogion a phobl eraill cyn cofrestru heneb o bwys cenedlaethol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd safle dan ystyriaeth yn cael ei warchod dros dro fel petai eisoes wedi ei gofrestru. Mae'r Bil eisoes yn pennu bod yn rhaid darparu datganiad o effaith gwarchod dros dro, nid yn unig i berchnogion y safleoedd dan sylw, ond hefyd, Ddirprwy Lywydd, i feddianwyr. Darperir canllawiau bryd hynny i roi gwybod i'r perchennog ac unrhyw feddiannydd y rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n codi o warchod dros dro a chofrestru ac, yn wir, canlyniadau gweithredu'n groes i'r rhwymedigaethau hynny, gan gynnwys troseddau. Byddai ailadrodd yr holl wybodaeth hon, ac i berchennog y safle yn unig, os caiff y safle ei gofrestru yn ffurfiol wedyn, yn ddiangen. Yn gryno, nid oes angen rhoi'r gofyniad hwn yn y ddeddfwriaeth oherwydd bod ei effaith eisoes wedi ei chynnwys yn y Bil ac yn yr wybodaeth a fydd yn cefnogi ei gweithredu. Byddwn felly yn annog yr Aelodau i wrthod y ddau welliant hyn.

15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Suzy Davies to reply.

Suzy Davies i ateb.

15:53 **Suzy Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Thank you, Dirprwy Lywydd. Thank you for your response, Deputy Minister. Of course, under the Bill as it's currently drafted, the information that you're referring to will be included in a notice being served on owners or occupiers of land that is being considered for scheduling and is subject to interim protection. There's no indication as to how long that interim protection might last or what would happen should the land in question change ownership in the period while that interim protection is in existence. Accordingly, all I'm asking for in this amendment is, immediately prior to actual scheduling—whenever that might be—that some form of guidance is given to them. It's hardly an extra burden for Ministers, because, on the basis of what you've explained today in your response, you will be simply cutting and pasting into a document that is free standing and not dependent on the fact that it's included within a notice on a matter of interim protection, rather than the nature of scheduling itself. So, I do recommend to Members that they support this amendment, which calls for a separate and long-standing piece of guidance, as opposed to something that's involved in a notice relating to a very temporary, apparently, procedure. Thank you.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Diolch i chi am eich ymateb, Ddirprwy Weinidog. Wrth gwrs, o dan y Bil fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, bydd yr wybodaeth yr ydych chi'n cyfeirio ati yn cael ei chynnwys mewn hysbysiad i berchnogion neu feddianwyr tir sy'n cael ei ystyried ar gyfer cofrestru ac yn cael ei warchod dros dro. Nid oes arwydd yma o ba mor hir y gallai'r gwarchod dros dro hwnnw bara na beth fyddai'n digwydd pe byddai perchennog newydd ar y tir dan sylw yn ystod cyfnod y gwarchod dros dro. Yn unol â hynny, y cyfan rwy'n ei ofyn yn y gwelliant hwn yw, bod perchnogion, yn union cyn y cofrestru ei hun—pryd bynnag y byddai hynny—yn cael rhyw fath o arweiniad. Nid yw'n fawr o faich ychwanegol i Weinidogion, oherwydd, ar sail yr hyn yr ydych wedi ei egluro heddiw yn eich ymateb, byddwch ond yn torri a gludo i mewn i ddogfen sy'n sefyll yn annibynnol heb fod yn ddibynnol ar y ffaith ei bod wedi ei chynnwys mewn hysbysiad o fater o warchod dros dro, yn hytrach na natur y cofrestru ei hun. Rwyf yn argymell felly i Aelodau eu bod yn cefnogi'r gwelliant hwn, sy'n galw am ddarn o arweiniad hirsefydlog ar wahân, yn hytrach na rhywbeth sy'n gysylltiedig â hysbysiad sy'n ymwneud â, mae'n debyg, gweithdrefn wirioneddol dros dro. Diolch.

15:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

If amendment 71 is not agreed, amendment 72 falls. The question is that amendment 71 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. In accordance with the relevant Standing Order, I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Os na chaiff gwelliant 71 ei dderbyn, bydd gwelliant 72 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 71 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Yn unol â'r Rheol Sefydlog berthnasol, rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 71: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 71 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 71.]

[Result of the vote on amendment 71.]

*Methodd gwelliant 72.*

*Amendment 72 fell.*

## Grŵp 2: Baich Profi (Gwelliannau 73, 74, 75, 76, 77)

## Group 2: Burden of Proof (Amendments 73, 74, 75, 76, 77)

15:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

The next group of amendments relates to the burden of proof in respect of offences relating to scheduled monuments and listed buildings. The lead amendment in this group is amendment 73 and I call on Suzy Davies to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â baich profi o ran troseddau sy'n ymwneud â henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 73 a galwaf ar Suzy Davies i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 73 (Suzy Davies).*

*Amendment 73 (Suzy Davies) moved.*

15:55

## Suzy Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Amendment 73, which I move, is a significant amendment that went to casting vote at Stage 2. Section 3(2) of this Bill amends the relevant 1979 Act to strengthen the offence—a criminal offence—of damaging a monument subject to interim protection prior to scheduling, and in so doing it removes the requirement of the prosecution to prove criminal intent. Instead, it provides a defence that it was not reasonable for the defendant to have known about the interim protection. Amendment 73 restores the legal principle that the prosecution must prove its case, by showing that the defendant knew or that it was reasonable for him or her to know that the interim protection was in place. The Bill similarly moves the burden of proof to the defendant at section 15 for damage to monuments which are already scheduled, section 24 where there is interim protection for buildings being considered for listing and section 29 where the listed building is subject to a temporary stop notice. My other amendments in this group restore the burden of proof to the prosecution in all these cases.

Mae gwelliant 73, yr wyf yn ei gynnig, yn welliant sylweddol a aeth i bleidlais fwrw yng Nghyfnod 2. Mae adran 3(2) o'r Bil hwn yn diwygio Deddf berthnasol 1979 i gryfhau'r drosedd o ddifrodi heneb sy'n destun gwarchod dros dro cyn cofrestru, ac wrth wneud hynny mae'n cael gwared ar y gofyniad i'r erlyniad brofi bwriad troseddol. Yn hytrach, mae'n darparu amddiffyniad nad oedd yn rhesymol i'r diffynnydd wybod am y gwarchod dros dro. Mae gwelliant 73 yn adfer yr egwyddor gyfreithiol bod yn rhaid i'r erlyniad brofi ei achos, drwy ddangos bod y diffynnydd yn gwybod, neu ei bod yn rhesymol iddo neu iddi wybod bod y gwarchod dros dro ar waith. Mae'r Bil yn yr un modd yn rhoi'r baich profi ar y diffynnydd yn adran 15 am ddifrod i henebion sydd eisoes yn gofrestredig, adran 24 pan fo gwarchod dros dro ar gyfer adeiladau sy'n cael eu hystyried ar gyfer rhestru ac adran 29 pan fo'r adeilad rhestredig yn ddarostyngedig i hysbysiad atal dros dro . Mae fy ngwelliannau eraill yn y grŵp hwn yn adfer y baich profi ar yr erlyniad yn yr holl achosion hyn.

It is a fundamental principle of the law of England and Wales that it is for the prosecution to prove beyond reasonable doubt that the accused is guilty of an offence, and to do that they must show not just that the act itself has been committed, but the criminal intent behind it. It is, however, possible to reverse the burden of proof, as is being attempted in sections 3, 15, 24 and 29, so that the accused must prove their lack of blameworthiness rather than the prosecution prove blame. In such cases, all the prosecution needs to show is that the defendant has committed the act, but not the actual, or what might reasonably be expected to be, their knowledge or intention.

Mae'n egwyddor sylfaenol o gyfraith Cymru a Lloegr mai mater i'r erlyniad yw profi y tu hwnt i amheuaeth resymol bod y sawl a gyhuddir yn euog o drosedd, ac i wneud hynny mae'n rhaid iddynt ddangos nid yn unig bod y weithred ei hun wedi ei chyflawni, ond y bwriad troseddol y tu ôl iddo. Fodd bynnag, mae'n bosibl i wrthdroi'r baich profi, fel y mae adrannau 3, 15, 24 a 29 yn ceisio'i wneud, fel bod yn rhaid i'r rhai sydd wedi eu cyhuddo brofi eu diffyg bai yn hytrach nag i'r erlyniad brofi bai. Mewn achosion o'r fath, y cyfan y mae angen i'r erlyniad ei ddangos yw bod y diffynnydd wedi cyflawni'r weithred, ond nid yr wybodaeth na'r bwriad ei hun na'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol iddynt ei wybod neu ei fwriadu.

Most modern strict liability offences or reverse proof offences are statutory, and the vast majority are considered to be minor offences with minimum penalty; parking on double yellow lines would be a very good example. However, others which arise from the need to protect public health, such as selling meat unfit for human consumption or polluting rivers, attract very severe penalties, even when no obvious fault is attributed to the seller. It's a case where public policy trumps fundamental legal principle.

Mae'r rhan fwyaf o droseddau atebolrwydd caeth modern neu droseddau gwrthdroi prawf yn statudol, a chaiff y mwyafrif helaeth eu hystyried i fod yn fân droseddau gyda'r gosb leiaf; enghraifft dda iawn o hyn yw parcio ar linellau melyn dwbl. Fodd bynnag, mae troseddau eraill sy'n codi o'r angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd, megis gwerthu cig sy'n anaddas i bobl ei fwyta neu lygru afonydd, yn cario cosbau llym iawn, hyd yn oed pan nad oes bai amlwg yn cael ei briodoli i'r gwerthwr. Mae'n achos lle mae polisi cyhoeddus yn drech na'r egwyddor gyfreithiol sylfaenol.

Generally, however, the more serious the consequences of an offence, the higher the level of guilty intention or recklessness a prosecution would need to show. And under this Bill, where unlawful works are carried out on a scheduled monument in breach of an interim protection order—that would include for scheduled monuments or a listed building or in breach of a temporary stop order, too—then the penalties are severe and can include imprisonment. So, the question has to be for Members: is it justifiable to reverse the burden of proof?

Yn gyffredinol, fodd bynnag, po fwyaf yw difrifoldeb canlyniadau trosedd, yr uchaf y lefel o fwriad euog neu fyrbwylltra y byddai angen i erlyniad ei ddangos. Ac o dan y Bil hwn, pan wneir gwaith anghyfreithlon ar heneb gofrestredig sy'n torri gorchymyn gwarchod dros dro—a fyddai'n cynnwys henebion cofrestredig neu adeilad rhestredig neu dorri gorchymyn atal dros dro hefyd—yna mae'r cosbau yn ddifrifol ac yn gallu cynnwys carchar. Felly, y cwestiwn y mae'n rhaid i Aelodau ei ofyn yw: a ellir cyfiawnhau gwrthdroi'r baich profi?

This Bill rightly seeks stronger protection for scheduled and listed buildings, but does some unlawful work—and there is no indication of degree in this Bill—to a protected site sit in the same category as actions or omissions which could harm or even kill people? This Bill is certainly about protecting precious heritage, and anyone committing the above offences knowingly or recklessly as to the protected status of a site deserves all they get. It may not be a threat to life and limb, but damaging important heritage sites is pretty serious, and so I understand why the Deputy Minister has considered this the case, where the defendant had better come up with a good reason why he or she should be let off some justifiably serious consequences.

Mae'r Bil yn ceisio yn gywir gwarchodaeth gryfach ar gyfer adeiladau cofrestredig a rhestredig, ond a yw peth gwaith anghyfreithlon—ac nid oes unrhyw arwydd o raddfa yn y Bil hwn—i safle gwarchodedig yn yr un categori â gweithredoedd neu ddiffygion a allai niweidio neu ladd pobl hyd yn oed? Mae'r Bil hwn yn sicr yn ymwneud â diogelu treftadaeth werthfawr, ac mae unrhyw un sy'n cyflawni'r troseddau uchod yn fwriadol neu'n fyrbwyll o ran statws gwarchodedig safle yn haeddu popeth a ddaw i'w ran. Efallai nad yw'n fygythiad i fywyd neu gorff, ond mae difrodi safleoedd treftadaeth pwysig yn dra difrifol, ac felly yr wyf yn deall pam y mae'r Dirprwy Weinidog wedi ystyried bod hyn yn wir, pan fo angen i ddiffynnydd gael rheswm da pam y dylai gael ei esgusodi am rai canlyniadau difrifol y gellir eu cyfiawnhau.

The Bill provides a defence—it's not quite 'Go directly to jail; do not pass, go'. The Deputy Minister explained at Stage 2 that the Bill requires a person who damages a protected site to—and I quote—

Mae'r Bil yn darparu amddiffyniad—nid yw cymaint yn 'Ewch yn syth i'r carchar; peidiwch â phasio, ewch'. Esboniodd y Dirprwy Weinidog yng Nghyfnod 2 fod y Bil yn gofyn i berson sy'n difrodi safle gwarchodedig i—ac yr wyf yn dyfynnu—

'show that they took reasonable steps to find out if the site was protected, and that they did not know, and had no reason to believe, that the site had any such protection'

ddangos eu bod wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a yw'r safle yn warchodedig, ac nad oeddent yn gwybod, nac â rheswm i gredu, bod gwarchodaeth o'r fath yn bodoli

in order for that defence to be made out. Now, let's look at that again. The accused must prove, firstly, that they took reasonable steps to find out if a site was protected and, secondly, that they did not know or believe that the site was protected. There is a problem with the Deputy Minister's explanation as to why a reversal of the burden of proof is appropriate and that this defence is sufficient protection for the innocent, and it is this: the Bill extends protection to sites for which there will be no physical evidence—there will be no signs of a site at all. If the property is inherited or received by way of gift—not uncommon with farms and larger properties—no local authority searches would be conducted. Without actual knowledge or a visible prompt on the ground, why would a landowner conduct searches or take investigative steps of any kind?

er mwyn gallu cyfiawnhau yr amddiffyniad hwnnw. Nawr, gadewch i ni edrych ar hynny eto. Mae'n rhaid i'r rhai a gyhuddir brofi yn gyntaf, eu bod wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a oedd safle wedi'i warchod ac yn ail, nad oeddent yn gwybod nac yn credu bod y safle wedi'i warchod. Mae problem gydag esboniad y Dirprwy Weinidog o ran pam mae gwrthdroi'r baich profi yn briodol a bod yr amddiffyniad hwn yn ddiogelwch digonol i rai dieuog, sef: bod y Bil yn ymestyn gwarchodaeth i safleoedd lle na fydd unrhyw dystiolaeth ffisegol—ni fydd unrhyw arwydd o safle o gwbl. Os yw'r eiddo wedi ei etifeddu neu ei dderbyn trwy rodd—nad yw'n anghyffredin ar ffermydd ac eiddo mwy o faint—ni fyddai'r awdurdod lleol yn cynnal chwiliadau. Heb wybodaeth wirioneddol neu arwydd gweladwy ar y ddaear, pam byddai tirfeddiannwr yn cynnal chwiliadau neu'n cymryd camau ymchwilio o unrhyw fath?

The defence fails in its first particular, because the issue is not whether steps taken are reasonable but whether it is reasonable to take steps. And because it will not be in the situations I've mentioned, the Minister's defence is no protection. It is reasonable for a driver to take steps to find out where he or she may park. It is reasonable for a polluter to take steps to find out how not to endanger life. It is not reasonable for an owner or occupier without actual knowledge to take steps to find out if they have invisible protected heritage on their land. If it is reasonable, then we are all in trouble. Because of that, a universal reversal of the burden of proof, in my view, is unacceptable.

Mae'r amddiffyniad yn methu yn ei fanylyn cyntaf, gan nad pa un a yw'r camau a gymerwyd yn rhesymol yw'r cwestiwn, ond yn hytrach pa un a yw'n rhesymol i gymryd camau. Ac oherwydd na fydd hynny'n wir yn y sefyllfaoedd rwyf wedi eu crybwyll, nid yw amddiffyniad y Gweinidog yn ddiogelwch. Mae'n rhesymol i yrrwr gymryd camau i ddarganfod ble y caiff barcio. Mae'n rhesymol i lygrwr gymryd camau i ddarganfod sut i beidio â pheryglu bywyd. Nid yw'n rhesymol i berchennog neu feddiannydd heb wybodaeth wirioneddol gymryd camau i ddarganfod a oes ganddo dreftadaeth warchodedig anweladwy ar ei dir. Os yw hynny'n rhesymol, rydym i gyd mewn trafferth. Oherwydd hynny, mae gwrthdroi cyffredinol y baich profi, yn fy marn i, yn annerbyniol.

In fairness, if any investigative steps fail to reveal protection, the second part of the Deputy Minister's defence is a good defence, in those cases where it's reasonable to take investigative steps in the first place. But it must remain the job of the prosecution to clear that first hurdle of proving it was reasonable for the defendant to know or take those steps to find out whether it was a protected site.

A bod yn deg, os oes unrhyw gamau ymchwilio yn methu â datgelu gwarchodaeth, mae'r ail ran o amddiffyniad y Dirprwy Weinidog yn amddiffyniad da, yn yr achosion hynny pan fo'n rhesymol i gymryd camau ymchwilio yn y lle cyntaf. Ond mae'n hanfodol mai swydd yr erlyniad o hyd fydd cymryd y cam cyntaf hwnnw o brofi ei bod yn rhesymol i'r diffynnydd wybod neu gymryd y camau hynny i ddarganfod a oedd safle yn warchodedig.

In the majority of cases, it will be pretty straightforward for a prosecution to show that a defendant knew or ought reasonably to have known that they were damaging a protected site. Notices and orders will have been served in the case of interim protection; temporary stoppage on new listings or schedules. Existing scheduling or listing will be revealed in local authority searches when a person buys a property. A Cadw visit might have taken place; more often than not there will be a structure or an earthwork of some description which might reasonably prompt an owner or occupier to make some enquiries before getting out their spade. However, at Stage 2 the Deputy Minister said that my amendment would make it more difficult to achieve a successful prosecution, claiming it required proof of the defendant's knowledge or belief. This amendment does not do that. If the prosecution can prove actual knowledge, that's great. But the important part of the amendment states that it is sufficient for the prosecution to prove that the defendant ought reasonably to know about the protection. I've given examples of why that will be pretty straightforward in most cases.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn eithaf syml i erlyniad ddangos bod diffynnydd yn gwybod, neu y dylai yn rhesymol fod wedi gwybod ei fod yn difrodi safle gwarchodedig. Bydd hysbysiadau a gorchmynion wedi eu cyflwyno mewn achos o warchod dros dro; bydd ataliadau dros dro ar restru neu gofrestru newydd. Bydd cofrestru neu restru presennol yn cael eu datgelu mewn chwiliadau awdurdod lleol pan fydd person yn prynu eiddo. Gallai Cadw fod wedi cynnal ymweliad; yn amlach na pheidio bydd strwythur neu gloddwaith o ryw fath a allai ysgogi perchennog neu feddiannydd yn rhesymol i wneud ymholiadau cyn gafael yn ei raw. Fodd bynnag, yng Nghyfnod 2 dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai fy ngwelliant i yn ei gwneud yn anoddach i erlyn yn llwyddiannus, gan honni ei bod yn ofynnol i gael prawf o wybodaeth neu gred y diffynnydd. Nid yw'r gwelliant hwn yn gwneud hynny. Os gall yr erlyniad brofi gwybodaeth wirioneddol, mae hynny'n wych. Ond mae rhan bwysig y gwelliant yn datgan ei bod yn ddigonol i'r erlyniad brofi y dylai'r diffynnydd fod wedi gwybod yn rhesymol am y warchodaeth. Rwyf wedi rhoi enghreifftiau o pam y bydd hynny'n eithaf syml yn y rhan fwyaf o achosion.

So, we maintain that it should remain for the prosecution to prove that it was reasonable to expect the defendant to have known about the protected status of a site before interfering with it. Removing the prosecution's responsibility of proving reasonableness as a first step in this process would be at odds with the fundamental legal principle and a disproportionate step in achieving the aims of this Bill. The amendment does not undermine the aim of the Bill as a prosecution can still be secured. It simply preserves the principles of natural justice and presumption of innocence. Thank you.

Felly, rydym yn credu mai'r sefyllfa o hyd yw y dylai'r erlyniad brofi ei bod yn rhesymol i ddisgwyl i'r diffynnydd wybod am statws gwarchodedig safle cyn ymyrryd ag ef. Byddai dileu cyfrifoldeb yr erlyniad i brofi rhesymoldeb fel cam cyntaf yn y broses hon yn groes i'r egwyddor gyfreithiol sylfaenol ac yn gam anghymesur o ran cyflawni amcanion y Bil hwn. Nid yw'r gwelliant yn tanseilio nod y Bil gan y gellir sicrhau erlyniad o hyd. Y cwbl y mae'n ei wneud yw cadw egwyddorion cyfiawnder naturiol a rhagdybiaeth o fod yn ddieuog. Diolch.

16:03

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

I have listened very carefully to Suzy Davies's arguments against including reverse burdens of proof in the Bill both today and at Stage 2. I have also taken into account the consultation responses and listened carefully to the evidence given by witnesses as the Bill has progressed through the Assembly.

Rwyf wedi gwrando'n ofalus iawn ar ddadleuon Suzy Davies yn erbyn cynnwys gwrthdroi beichiau profi yn y Bil heddiw ac yng Nghyfnod 2. Rwyf hefyd wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gwrando'n ofalus ar y dystiolaeth gan dystion wrth i'r Bil fynd trwy'r Cynulliad.

With regard to scheduled monuments, the subject of amendments 73 to 75, there is widespread agreement within the sector that the offences and defences in the 1979 Act have undermined attempts to punish those who have caused sometimes dreadful damage to nationally important monuments. The consultation on our proposals to limit the so-called ignorance defence gained near-unanimous support. Indeed, many argued that it did not go far enough and called for a strict liability offence to bring the offences for monuments into line with those for listed buildings or sites in the natural environment, such as sites of special scientific interest. However, my view is that strict liability would be a step too far, given that the existence or extent of a monument may not always be clear. Suzy Davies is concerned that people could break the law because they have no reason to suspect that there is a monument on land on which they want to carry out works. All cases of damage or unauthorised works would be subject to a full investigation by Cadw and the police and, if such works are carried out in genuine error, no-one would wish to see a criminal prosecution. Under the Bill's proposals, the primary burden—the burden of proving that the accused caused damage to a protected site—will rest with the prosecution. Nothing more would be needed for a strict liability offence.

O ran henebion cofrestredig, sef testun gwelliannau 73 i 75, mae cytundeb cyffredinol yn y sector bod y troseddau a'r amddiffyniad yn Neddf 1979 wedi tanseilio ymdrechion i gosbi'r rhai sydd wedi achosi difrod ofnadwy weithiau i henebion o bwys cenedlaethol. Cafodd yr ymgynghoriad ar ein cynigion i gyfyngu ar yr hyn a elwir yn amddiffyniad o anwybodaeth gefnogaeth unfrydol bron. Yn wir, roedd llawer yn credu nad oedd yn mynd yn ddigon pell gan alw am drosedd atebolrwydd caeth i ddod â'r troseddau ar gyfer henebion yn unol â'r rhai ar gyfer adeiladau neu safleoedd rhestredig yn yr amgylchedd naturiol, megis safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Fodd bynnag, yn fy marn i, byddai'r atebolrwydd caeth yn gam yn rhy bell, o ystyried na fydd bodolaeth neu faint heneb yn glir bob tro. Mae Suzy Davies yn pryderu y gallai pobl dorri'r gyfraith oherwydd nad oes ganddynt unrhyw reswm dros amau bod heneb ar dir lle maent yn dymuno gwneud gwaith. Byddai pob achos o ddifrod neu waith heb awdurdod yn destun ymchwiliad llawn gan Cadw a'r heddlu ac, os bydd gwaith o'r fath yn cael ei wneud drwy gamgymeriad gwirioneddol, ni fyddai neb yn dymuno erlyniad troseddol. O dan gynigion y Bil, bydd y prif faich—y baich o brofi bod y rhai a gyhuddir yn achosi difrod i safle gwarchodedig—ar ysgwyddau'r erlyniad. Ni fyddai angen unrhyw beth arall ar gyfer trosedd atebolrwydd caeth.

However, the accused can still establish a defence by showing that reasonable steps were taken to find out if the site was protected, and that he or she did not know, and had no reason to believe, that the site had any such protection. The accused can easily discharge this burden, which will depend on information from his or her own personal or particular knowledge. A land charge is imposed at the time of scheduling, and Cadw carries out periodic inspections, so owners should be aware of protected sites. From March, information on all designated sites, including sites under interim protection, will be available to view through Cadw's website. We are also planning a programme of publication to alert owners and occupiers of scheduled monuments to the changes made by the Bill. Information will also be made available to everyone in receipt of agri-environmental funding. Similar arguments apply to amendments 76 and 77 relating to listed buildings, although it is important to note that unauthorised works, or damage to a listed building, is a strict liability offence.

Fodd bynnag, gall y sawl a gyhuddir sefydlu amddiffyniad o hyd drwy ddangos y cymerwyd camau rhesymol i ddarganfod a oedd safle wedi ei warchod, ac nad oedd ef neu hi yn gwybod, ac nad oedd rheswm dros gredu, bod gan y safle unrhyw warchodaeth o'r fath. Gall y sawl a gyhuddir yn hawdd gyflawni'r baich hwn, a fydd yn dibynnu ar ei wybodaeth bersonol neu benodol. Pennir pridiant tir ar adeg cofrestru, ac mae Cadw yn cynnal arolygiadau o bryd i'w gilydd, felly dylai perchnogion fod yn ymwybodol o safleoedd gwarchodedig. O fis Mawrth ymlaen, bydd gwybodaeth am yr holl safleoedd dynodedig, gan gynnwys safleoedd dan warchodaeth dros dro, ar gael i'w gweld ar wefan Cadw. Rydym hefyd yn cynllunio rhaglen gyhoeddi i rybuddio perchnogion a meddianwyr henebion cofrestredig am y newidiadau a wneir gan y Bil. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael i bawb sy'n cael arian amaeth-amgylcheddol. Mae dadleuon tebyg yn berthnasol i welliannau 76 a 77 sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, er ei bod yn bwysig nodi bod gwneud gwaith heb awdurdod, neu ddifrodi adeilad rhestredig, yn drosedd atebolrwydd caeth.

I firmly believe that this group of amendments would severely weaken the protection that needs to be afforded to some of our most important and cherished historic sites. They would require the prosecution to evidence the state of knowledge of the accused and compromise our ability to punish those who deliberately damage nationally important designated assets.

Credaf yn gryf y byddai'r grŵp hwn o welliannau yn gwanhau yn helaeth y warchodaeth y mae ei angen ar rai o'n safleoedd hanesyddol pwysicaf ac agosaf at ein calonnau. Byddent yn ei gwneud yn ofynnol i'r erlyniad ddangos tystiolaeth o wybodaeth y rhai a gyhuddir ac yn tarfu ar ein gallu i gosbi'r rhai sy'n difrodi asedau dynodedig o bwys cenedlaethol yn fwriadol.

In conclusion, I am confident that the reverse burden of proof in the provisions of the Bill has a legitimate aim and is justified and proportionate as a means of achieving that aim whilst not preventing a fair trial. Therefore, I urge Members to resist this group of amendments.

I gloi, rwyf yn hyderus bod nod cyfreithiol i wrthdroi'r baich profi yn narpariaethau'r Bil a bod cyfiawnhad iddo a'i fod yn gymesur fel modd o gyflawni'r nod hwnnw heb atal prawf teg. Felly, rwyf yn annog yr Aelodau i wrthod y grŵp hwn o welliannau.

16:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Suzy Davies to reply.

Suzy Davies i ateb.

16:07 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you very much, Deputy Minister. I appreciate the thought that you've given in responding to this. As you explained at Stage 2, you had received representations from the sector that the reverse proof offence was what they wanted and you concluded that the defence was sufficient protection, and I've spent some time this afternoon arguing that reversing proof is disproportionate to the aims and why your defence is not sufficient protection for a particular cohort of people. You didn't deal with that particular cohort in your response, I'm afraid.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Weinidog. Rwyf yn gwerthfawrogi'r ystyriaeth yr ydych wedi ei rhoi wrth ymateb i hyn. Fel y gwnaethoch chi egluro yng Nghyfnod 2, roeddech chi wedi derbyn sylwadau gan y sector mai'r drosedd gwrthdroi prawf oedd yr hyn yr oedd yn ei dymuno a'ch bod wedi dod i gasgliad bod yr amddiffyniad yn ddiogelwch digonol, ac rwyf i wedi treulio peth amser y prynhawn yma yn dadlau bod gwrthdroi prawf yn anghymesur â'r nodau a pham nad yw eich amddiffyniad yn ddigon o ddiogelwch ar gyfer carfan arbennig o bobl. Ni wnaethoch chi ymdrin â'r garfan benodol honno yn eich ymateb, mae arna i ofn.

I'm slightly nervous at the response that if the prosecution in its investigation prior to bringing forward a prosecution is satisfied that all is well, then they won't be bringing a prosecution forward at all. In which case, I have to ask why you think a defence is necessary at all, because either the prosecution is confident of its case or it isn't.

Rwyf braidd yn bryderus ynghylch yr ymateb, os yw'r erlyniad yn fodlon bod popeth yn iawn yn dilyn ei ymchwiliad cyn dwyn erlyniad ymlaen, yna ni fydd yn dwyn yr erlyniad ymlaen o gwbl. Os felly, mae'n rhaid i mi ofyn pam y credwch fod angen amddiffyniad o gwbl, oherwydd bod gan yr erlyniad ffydd yn ei achos neu nad oes ganddo.

I would say that the decision on these amendments did go to casting vote at Stage 2, and I think there's a question for this Assembly about whether we are prepared to overturn a fundamental legal principle here—innocent until proven guilty—on the basis of a casting vote, which, of course, may happen again at Stage 3. As Assembly Members, we don't necessarily just legislate for the people who gave consultation responses to the Deputy Minister; we legislate on behalf of the people of Wales. I, for one, am very uncomfortable at the prospect of a casting vote determining such a major legislative step. Thank you.

Byddwn i'n dweud bod y penderfyniad ar y diwygiadau wedi mynd i'r bleidlais fwrw yng Nghyfnod 2, ac yr wyf yn credu bod cwestiwn ar gyfer y Cynulliad hwn ynghylch pa un a ydym yn barod i wrthdroi yr egwyddor gyfreithiol sylfaenol hon—yn ddieuog hyd nes y profir yn euog—ar sail pleidlais fwrw, a all wrth gwrs ddigwydd eto yng Nghyfnod 3. Fel Aelodau o'r Cynulliad, nid ydym o reidrwydd yn deddfu ar gyfer y bobl a ymatebodd i ymgynghoriad y Dirprwy Weinidog yn unig; rydym yn deddfu ar ran pobl Cymru. Rwyf i, yn un, yn hynod anghyfforddus wrth feddwl bod pleidlais fwrw yn penderfynu cam deddfwriaethol mor bwysig. Diolch.

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 73 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 27, there was one abstention. Therefore, the amendment is lost.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 73 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn, gwnaeth un ymatal. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 73: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 1.*

*Amendment 73 not agreed: For 26, Against 27, Abstain 1.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 73.

Result of the vote on amendment 73.

16:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Suzy Davies, amendment 74.

Suzy Davies, gwelliant 74.

16:09 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

For moving, yes?

Ar gyfer cynnig, ie?

16:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Yes, just formally move.

Ie, dim ond cynnig yn ffurfiol.

16:09 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

If you bear with me a second, I think—is this a consequential?

Os byddwch yn amyneddgar â mi am eiliad, rwy'n meddwl—a yw hyn yn ganlyniadol?

16:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

You're just formally moving.

Cynnig yn ffurfiol yn unig yr ydych chi.

*Cynigiwyd gwelliant 74 (Suzy Davies).*

*Amendment 74 (Suzy Davies) moved.*

16:09 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Formally. Yes, please. Sorry.

Yn ffurfiol. Ydw, os gwelwch yn dda. Mae'n ddrwg gennyf.

16:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 74 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 74 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 74: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 74 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 74.

Result of the vote on amendment 74.

### Grŵp 3: Technegol a Drafftio (Gwelliannau 32, 21, 22, 23)

### Group 3: Technical and Drafting (Amendments 32, 21, 22, 23)

16:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The next group of amendments are technical and drafting amendments. The lead amendment in this group is amendment 32. I call on the Deputy Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn rhai technegol a drafftio. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 32. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 32 (Kenneth Skates).*

*Amendment 32 (Kenneth Skates) moved.*

16:10 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. This group of amendments relates only to technical and drafting matters.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r grŵp hwn o welliannau yn ymwneud â materion technegol a drafftio yn unig.

Amendment 32 updates new Schedule A2 to the 1979 Act to correctly reference a section that was amended at Stage 2. Amendments 21 and 22 specify that any compensation that is paid under interim protection or a temporary stop notice for an ecclesiastical property is paid to the relevant diocesan board of finance. This makes the approach taken in the Bill consistent with the remainder of the 1990 Act.

Mae gwelliant 32 yn diweddaru Atodlen A2 newydd Deddf 1979 i gyfeirio yn gywir at adran a ddiwygiwyd yng Nghyfnod 2. Mae gwelliannau 21 a 22 yn nodi bod unrhyw iawndal a delir o dan y drefn gwarchod dros dro neu hysbysiad atal dros dro ar gyfer eiddo eglwysig yn cael ei dalu i'r bwrdd cyllid esgobaethol perthnasol. Mae hyn yn gwneud yr ymagwedd yn y Bil yn gyson â gweddill Deddf 1990.

The purpose of amendment 23 is to prevent the operation of interim protection on any building that is, for the time being, included in the schedule of monuments under the 1979 Act.

Diben gwelliant 23 yw atal amddiffyn dros dro ar unrhyw adeilad sydd, am y tro, ar y gofrestr henebion o dan Ddeddf 1979.

16:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I don't have any speakers. The question is that amendment 32 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 32 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cwestiwn yw bod gwelliant 32 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 32 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 32 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 32 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Minister, amendment 21.

Weinidog, gwelliant 21.

*Cynigiwyd gwelliant 21 (Kenneth Skates).*

*Amendment 21 (Kenneth Skates) moved.*

16:11 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Move.

Cynnig.

16:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 21 be agreed. Does any Member object? Then amendment 21 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 21 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 21 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 21 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 21 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 4: Henebion Cofrestredig: Adrodd ar Newidiadau (Gwelliannau 60, 58)

## Group 4: Scheduled Monuments: Reporting on Changes (Amendments 60, 58)

16:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Group 4 are amendments relating to reports on changes to scheduled monuments. The lead amendment in this group is amendment 60. I call on Bethan Jenkins to move and to speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae gwelliannau grŵp 4 yn ymwneud ag adroddiadau ar newidiadau i henebion cofrestredig. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 60. Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp a siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 60 (Bethan Jenkins).*

*Amendment 60 (Bethan Jenkins) moved.*

16:11 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Diolch. The 1979 Act requires Welsh Ministers to maintain a schedule of ancient monuments in Wales. At present, 'monument' is defined largely by reference to physical evidence, usually a building or its remains, or a site that includes the remains of a vehicle or aircraft. If there is no physical evidence on the ground, there is not usually a monument.

Diolch. Mae Deddf 1979 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw cofrestr o henebion yng Nghymru. Ar hyn o bryd, caiff 'heneb' ei diffinio i raddau helaeth trwy gyfeirio at dystiolaeth ffisegol, fel arfer adeilad neu ei adfeilion, neu safle sy'n cynnwys olion cerbyd neu awyren. Os nad oes tystiolaeth ffisegol ar y ddaear, nid oes heneb fel arfer.

Because of the nature of monuments, most of them are known about, so the schedule is unlikely to change very often. The Bill is proposing to make it easier to prosecute in terms of various offences, including damaging a scheduled monument, by putting a greater onus on the accused to prove whether they knew of the presence of the monument. The Bill will also widen the definition of a monument so that it includes a site comprising anything that evidences previous human activity. There may be no evidence of the monument above ground, so this is quite a significant change to the public understanding of what constitutes a monument. Therefore, it is all the more important that as much information is available as possible to the public.

Oherwydd natur henebion, rydym yn gwybod am y rhan fwyaf ohonynt, felly nid yw'r gofrestr yn debygol o newid yn aml iawn. Mae'r Bil yn cynnig ei gwneud yn haws erlyn o ran troseddau amrywiol, gan gynnwys difrodi heneb gofrestredig, drwy roi mwy o gyfrifoldeb ar y rhai a gyhuddir i brofi pa un a oeddent yn gwybod am bresenoldeb yr heneb. Bydd y Bil hefyd yn ehangu'r diffiniad o heneb i gynnwys safle sy'n cynnwys unrhyw beth sy'n tystio i weithgarwch dynol blaenorol. Efallai nad oes unrhyw dystiolaeth o'r heneb uwchben y tir, felly mae hwn yn newid eithaf arwyddocaol i ddealltwriaeth y cyhoedd o beth yw heneb. Mae'n bwysicach fyth felly bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael i'r cyhoedd.

This amendment gives the Assembly a role in scrutinising the Welsh Government's maintenance of the list by requiring the Minister to report to the Assembly at least every five years on changes to the schedule. While the information may be available publicly, as we've heard in the previous Stage, the Minister indicated that the public would be able to proactively seek out the details on the Cadw website. I believe that this five-year requirement would allow the Assembly to identify trends over a period of time and will ensure greater transparency and availability of information. This would not stop AMs from asking questions in the interim, and this would provide a level of scrutiny that would provide sufficient levels of oversight for the National Assembly for Wales.

Mae'r gwelliant hwn yn gwneud y Cynulliad yn rhan o graffu ar waith Llywodraeth Cymru o gadw'r rhestr trwy fynnu bod y Gweinidog yn adrodd i'r Cynulliad o leiaf bob pum mlynedd ar y newidiadau i'r gofrestr. Er efallai fod yr wybodaeth ar gael yn gyhoeddus, fel yr ydym wedi clywed yn y Cyfnod blaenorol, dywedodd y Gweinidog y byddai'r cyhoedd yn gallu chwilio yn rhagweithiol am y manylion ar wefan Cadw. Credaf y byddai'r gofyniad pum mlynedd hwn yn galluogi'r Cynulliad i nodi tueddiadau dros gyfnod ac yn sicrhau bod yr wybodaeth yn fwy tryloyw ac ar gael yn haws. Ni fyddai hyn yn atal Aelodau'r Cynulliad rhag gofyn cwestiynau yn y cyfamser, a byddai hyn yn darparu lefel o graffu a fyddai'n darparu lefelau digonol o oruchwyliaeth ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

This is a non-contentious issue and it's just about bringing back accountability to this place, so that we can see for ourselves the schedule and see if there are any questions we would request of the Welsh Government.

Mae hwn yn fater annadleuol a dim ond yn ymwneud â rhoi atebolrwydd yn ôl i'r lle hwn, er mwyn i ni allu gweld y gofrestr ein hunain i weld a oes unrhyw gwestiynau y byddem yn dymuno eu gofyn i Lywodraeth Cymru.

16:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Minister.

Weinidog.

16:13

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. The Bill aims to extend the definition of what can be scheduled as a monument. This will allow us to provide protection for a small but important number of archaeological sites that are of national importance, but fall outside the current definition.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Nod y Bil yw ehangu diffiniad yr hyn y gellir ei gofrestru fel heneb. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu gwarchodaeth ar gyfer nifer bach ond pwysig o safleoedd archeolegol sydd o bwys cenedlaethol, ond sydd y tu allan i'r diffiniad presennol.

Scheduling decisions are at the discretion of the Welsh Ministers and the number of designations varies annually. There are now over 4,000 monuments of national importance on the schedule. Information on the schedule is publicly available and will be freely accessible on Cadw's website in the spring of this year. So, anyone wishing to obtain information on entries in the schedule will be able to do so at any time whatsoever.

Gwneir penderfyniadau cofrestru yn unol â disgresiwn Gweinidogion Cymru ac mae nifer y dynodiadau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Erbyn hyn mae dros 4,000 o henebion o bwys cenedlaethol ar y gofrestr. Mae gwybodaeth am y gofrestr ar gael i'r cyhoedd a bydd ar gael i'w gweld yn rhwydd ar wefan Cadw yn ystod gwanwyn eleni. Felly, bydd unrhyw un sy'n dymuno cael gwybodaeth am gofnodion ar y gofrestr yn gallu gwneud hynny ar unrhyw bryd o gwbl.

In addition, part of the remit of the advisory panel for the Welsh historic environment, which the Bill seeks to establish, is to provide expert advice on the effectiveness and operation of the legislation for the historic environment of Wales. This will, of course, include the effectiveness of any scheduling programme.

Yn ogystal, mae darparu cyngor arbenigol ar effeithiolrwydd a gweithrediad y ddeddfwriaeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru yn rhan o gylch gwaith y panel ymgynghori ar amgylchedd hanesyddol Cymru y mae'r Bil yn ceisio ei sefydlu. Bydd hyn, wrth gwrs, yn cynnwys effeithiolrwydd unrhyw raglen gofrestru.

Assembly Members will also be able to ask questions of Ministers through normal scrutiny procedures, such as Assembly questions and correspondence. I therefore do not think that amendments 60 and 58 are required and I urge that they are rejected.

Bydd Aelodau'r Cynulliad hefyd yn cael gofyn cwestiynau i Weinidogion drwy weithdrefnau craffu arferol, megis cwestiynau a gohebiaeth y Cynulliad. Nid wyf yn credu felly, bod angen gwelliannau 60 a 58 ac rwyf yn annog eu gwrthod.

16:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Bethan Jenkins to reply.

Bethan Jenkins i ateb.

16:14

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

I think we've rehearsed these arguments. I think it would be efficient in terms of open democracy to have a report to this place. Yes, we ask questions all the time in this Chamber, but we also have annual reports from various organisations, from commissioners to the audit office, and I don't see that it would be particularly onerous to bring a report every five years, which would be one term of the National Assembly. If I thought that this would be such an issue, then—. I can't understand why it is such an issue for the Welsh Government not to accept the principle of the Assembly Members scrutinising this particular aspect of the Bill.

Credaf ein bod wedi ymarfer y dadleuon hyn. Rwy'n credu y byddai'n effeithlon o ran democratiaeth agored i gael adroddiad i'r lle hwn. Ydym, rydym yn gofyn cwestiynau drwy'r amser yn y Siambr hon, ond rydym hefyd yn derbyn adroddiadau blynyddol gan sefydliadau amrywiol, gan gomisiynwyr y swyddfa archwilio, ac nid wyf yn gweld y byddai'n arbennig o feichus i lunio adroddiad bob pum mlynedd, sef un tymor y Cynulliad Cenedlaethol. Pe bawn i'n credu y byddai hyn yn gymaint o broblem, yna—. Ni allaf ddeall pam y mae'n gymaint o broblem i Lywodraeth Cymru beidio â derbyn yr egwyddor bod Aelodau'r Cynulliad yn craffu ar yr agwedd arbennig hon ar y Bil.

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

If amendment 60 is not agreed, amendment 58 falls. The question is that amendment 60 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Os na chaiff gwelliant 60 ei dderbyn, bydd gwelliant 58 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 60 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 60: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 60 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 60.

Result of the vote on amendment 60.

*Methodd gwelliant 58.*

*Amendment 58 fell.*

### Grŵp 5: Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth (Gwelliannau 33, 34, 35, 36, 37, 38, 4, 39, 40, 41, 42, 11)

### Group 5: Heritage Partnership Agreements (Amendments 33, 34, 35, 36, 37, 38, 4, 39, 40, 41, 42, 11)

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The next group of amendments relates to heritage partnership agreements. The lead amendment in this group is amendment 33. I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â chytundebau partneriaeth treftadaeth. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 33. Galwaf ar Peter Black i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp a siarad amdanynt.

*Cynigiwyd gwelliant 33 (Peter Black [R]).*

*Amendment 33 (Peter Black [R]) moved.*

16:15 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendment 33? First of all, these amendments have been tabled in relation to recommendation 2 of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, which required a duty for the Minister to consult before a heritage partnership is agreed or varied. Amendments 33 to 35 make changes to the language of the new section 9ZB(3) of the 1979 Act so that it can accommodate new paragraphs being inserted by amendment 36, which extends the range of matters relating to scheduled monuments and heritage partnership agreements upon which Welsh Ministers must make regulations. It specifies that regulations must be made on terms that must be included in a heritage partnership agreement, and arrangements for Welsh Ministers to terminate all or part of an agreement by Order.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i gynnig gwelliant 33? Yn gyntaf oll, mae'r gwelliannau hyn wedi eu cyflwyno mewn cysylltiad ag argymhelliad 2 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a oedd yn rhoi dyletswydd ar y Gweinidog i ymgynghori cyn cytuno i bartneriaeth treftadaeth neu ei hamrywio. Mae gwelliannau 33 i 35 yn newid iaith yr adran 9ZB(3) newydd o Ddeddf 1979 yn sgil y paragraffau newydd sy'n cael eu mewnosod gan welliant 36, sy'n ehangu'r ystod o faterion henebion cofrestredig a chytundebau partneriaeth treftadaeth y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau ar eu cyfer. Mae'n nodi bod yn rhaid llunio rheoliadau ar delerau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth treftadaeth, a threfniadau i Weinidogion Cymru derfynu'r cytundeb cyfan neu ran ohono drwy Orchymyn.

Amendment 37 specifies a list of consultees required—the owner, the occupier and any affected local authority for both scheduled monuments and land adjoining or in the vicinity of the scheduled monument—whilst amendment 38 sets out that regulations made by the Welsh Ministers regarding arrangements for the termination of heritage partnership agreements may specify the provision that can be included in a termination Order. This allows such Orders to contain supplementary, incidental, transitory, transitional or saving provisions. These amendments ensure that heritage partnership agreements are consulted upon appropriately, therefore I hope that the Assembly can support the amendments in this group for both listed buildings and ancient monuments.

Mae gwelliant 37 yn nodi rhestr o bobl y mae'n rhaid ymgyngori â nhw—y perchennog, y meddiannydd ac unrhyw awdurdod lleol yr effeithir arnynt o ran henebion cofrestredig a'r tir cyfagos neu dir gerllaw—tra bod gwelliant 38 yn nodi y gall rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ynghylch trefniadau terfynu cytundebau partneriaeth treftadaeth nodi'r ddarpariaeth y gellir ei chynnwys mewn Gorchymyn terfynu. Mae hyn yn galluogi Gorchmynion o'r fath i gynnwys darpariaethau atodol, achlysurol, darfodol, trosiannol neu arbed. Mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau ymgynghoriad priodol ar gytundebau partneriaeth treftadaeth, a gobeithiaf felly y gall y Cynulliad gefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn ar gyfer adeiladau rhestredig a henebion.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Minister.

Weinidog.

16:17 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am supporting Peter Black's amendments in this group.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn cefnogi gwelliannau Peter Black yn y grŵp hwn.

Heritage partnership agreements are intended to save time and resources for owners of historic sites and consenting authorities. The intention is to provide a flexible system so that the agreements can reflect individual circumstances.

Bwriad cytundebau partneriaeth treftadaeth yw arbed amser ac adnoddau ar gyfer perchnogion safleoedd hanesyddol ac awdurdodau cydsynio. Y bwriad yw darparu system hyblyg fel y gall y cytundebau adlewyrchu amgylchiadau unigol.

I am very conscious that we must not accept changes that would undermine the efficiencies that the agreements are intended to achieve, especially as the agreements are entirely voluntary. However, I have listened to Peter Black's rationale and I do see merit in setting out the minimum requirements for the terms and termination of a partnership agreement in regulations. I also understand his reasoning for requiring the regulations on the consultation requirements to include the owner and occupier and the appropriate local authority.

Rwyf yn ymwybodol iawn bod yn rhaid i ni beidio â derbyn newidiadau a fyddai'n tanseilio yr effeithlonrwydd y mae'r cytundebau yn bwriadu ei gyflawni, yn enwedig gan fod y cytundebau yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, rwyf wedi gwrando ar resymeg Peter Black ac rwyf yn gweld rhinwedd nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer telerau a therfynu cytundeb partneriaeth mewn rheoliadau. Rwyf hefyd yn deall ei resymeg dros ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau ar y gofynion ymgynghori gynnwys y perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod lleol priodol.

The Bill was amended at Stage 2 to require the Welsh Ministers to make regulations about the consultation and publicity that must take place before an agreement is made or varied. In the majority of instances the owner will be a key partner in these agreements, but if not, a requirement to consult the owner seems sensible. The same applies to any occupier of the monument. You would also expect them to be party to the agreement, but if not, then I agree that they should be consulted.

Cafodd y Bil ei ddiwygio yng Nghyfnod 2 gan ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau ynghylch yr ymgynghori a'r cyhoeddusrwydd angenrheidiol cyn gwneud cytundeb neu ei amrywio. Yn y mwyafrif o achosion, bydd y perchennog yn bartner allweddol yn y cytundebau hyn, ond os na fydd, mae gofyniad i ymgynghori â'r perchennog yn ymddangos yn synhwyrol. Mae'r un peth yn berthnasol i unrhyw feddiannydd yr heneb. Byddech yn disgwyl iddynt hwythau hefyd fod yn rhan o'r cytundeb, ond os nad ydynt, rwyf yn cytuno y dylid ymgynghori â hwy.

I am therefore supporting this group of amendments tabled by Peter Black.

Felly, rwyf yn cefnogi'r grŵp hwn o welliannau a gyflwynwyd gan Peter Black.

16:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Peter Black to reply.

Peter Black i ateb.

16:18 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

[Inaudible.]

[Anghlywadwy.]

16:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

If amendment 33 is not agreed, amendments 34 and 35 fall. The question is that amendment 33 be agreed. Does any Member object? Then amendment 33 is agreed.

Os na chaiff gwelliant 33 ei dderbyn, bydd gwelliannau 34 a 35 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 33 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 33 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 33 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 33 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Peter Black, amendment 34.

Peter Black, gwelliant 34.

*Cynigiwyd gwelliant 34 (Peter Black [R]).*

*Amendment 34 (Peter Black [R]) moved.*

16:19 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I move.

Rwyf yn cynnig.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 34 be agreed. Does any Member object? Then amendment 34 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 34 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 34 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 34 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 34 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Peter Black, amendment 35.

Peter Black, gwelliant 35.

*Cynigiwyd gwelliant 35 (Peter Black [R]).*

*Amendment 35 (Peter Black [R]) moved.*

16:19 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I move.

Rwyf yn cynnig.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 35 be agreed. Does any Member object? Then amendment 35 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 35 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 35 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 35 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 35 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Peter Black, amendment 36.

Peter Black, gwelliant 36.

*Cynigiwyd gwelliant 36 (Peter Black [R]).*

*Amendment 36 (Peter Black [R]) moved.*

16:19 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I move.

Rwyf yn cynnig.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

If amendment 36 is not agreed, amendment 38 falls. The question is that amendment 36 be agreed. Does any Member object? Then amendment 36 is agreed.

Os na chaiff gwelliant 36 ei dderbyn, bydd gwelliant 38 methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 36 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 36 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 36 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 36 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Peter Black, amendment 37.

Peter Black, gwelliant 37.

*Cynigiwyd gwelliant 37 (Peter Black [R]).*

*Amendment 37 (Peter Black [R]) moved.*

16:19 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I move.

Rwyf yn cynnig.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 37 be agreed. Does any Member object? Then amendment 37 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 37 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 37 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 37 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 37 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Peter Black, amendment 38.

Peter Black, gwelliant 38.

*Cynigiwyd gwelliant 38 (Peter Black [R]).*

*Amendment 38 (Peter Black [R]) moved.*

16:19 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I move.

Rwyf yn cynnig.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 38 be agreed. Does any Member object? Then amendment 38 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 38 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 38 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 38 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 38 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:19

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Peter Black, amendment 4.

Peter Black, gwelliant 4.

*Cynigiwyd gwelliant 4 (Peter Black [R]).*

*Amendment 4 (Peter Black [R]) moved.*

16:19

### Peter Black [Bywgraffiad] [Biography]

I move.

Rwyf yn cynnig.

16:19

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

The question is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? Then amendment 4 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 4 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:19

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Deputy Minister, amendment 22.

Ddirprwy Weinidog, gwelliant 22.

*Cynigiwyd gwelliant 22 (Kenneth Skates).*

*Amendment 22 (Kenneth Skates) moved.*

16:20

### Kenneth Skates [Bywgraffiad] [Biography]

I move.

Rwyf yn cynnig.

16:20

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

The question is that amendment 22 be agreed. Does any Member object? Then amendment 22 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 22 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 22 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 22 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:20

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Suzy Davies, amendment 75.

Suzy Davies, gwelliant 75.

16:20

### Suzy Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Not moved.

Nid wyf yn cynnig.

16:20

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Amendment 75 is not moved.

Nid yw gwelliant 75 wedi ei gynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 75 (Suzy Davies).*

*Amendment 75 (Suzy Davies) not moved.*

## Grŵp 6: Parciau a Gerddi Hanesyddol (Gwelliannau 61, 59)

## Group 6: Historic Parks and Gardens (Amendments 61, 59)

16:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The next group of amendments relates to historic parks and gardens. The lead amendment is amendment 61. I call on Bethan Jenkins to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â pharciau a gerddi hanesyddol. Y prif welliant yw gwelliant 61. Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 61 (Bethan Jenkins).*

*Amendment 61 (Bethan Jenkins) moved.*

16:20 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Clearly, the Bill introduces a statutory register of historic parks and gardens for the first time, and the register will be kept by the Welsh Government. While we as a group welcome this step, the Bill does not impose any statutory duty on the maintenance of parks and gardens. Committee heard evidence from the Welsh heritage group that inclusion on the register, and I quote,

'imposes no duty of care on the owner',

and that, I quote,

'the current level of protection afforded to parks and gardens through the planning regime was inadequate.'

Monmouthshire and Powys councils suggested it would be easier to determine what level of protection to give them when determining planning applications if statutory steps were put forward to protect them. I have read the assessment of options for protection for registered historic parks and gardens carried out by the Minister as a result of the committee report, yet, despite considering four options, the Minister decided that to extend protection would be costly and would provide only limited additional benefit, though I can't see why it would only include additional limited benefit from that particular analysis. So, again, we were told that there would be new guidance and consultation during 2016—but, of course, this would be after this particular Bill would be passed—that would support the management of historic parks and gardens through the existing framework. But, in my view, this doesn't go far enough in terms of the statutory protection that is needed to follow on from the statutory register, and this, clearly, will not appear on the face of the Bill, as my amendment would seek to do.

So, having read the options, I feel that my amendment is moderate and would not lead to the costly situation that the Minister is concerned about, as it would require the Welsh Ministers to take reasonable steps to protect those parks and gardens that are in public hands. It would be within their gift to decide what would be reasonable to carry out, and financial or burdensome concerns would surely be part of that decision-making process.

Yn amlwg, mae'r Bil yn cyflwyno cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol am y tro cyntaf, a bydd y gofrestr yn cael ei chadw gan Lywodraeth Cymru. Er ein bod fel grŵp yn croesawu'r cam hwn, nid yw'r Bil yn gosod unrhyw ddyletswydd statudol ar gynnal a chadw parciau a gerddi. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan grŵp treftadaeth Cymru y byddai cynnwys perchennog ar y gofrestr, a dyfynnaf,

'ddim yn rhoi unrhyw ddyletswydd gofalu arno',

a bod, dyfynnaf,

'y lefel bresennol o warchodaeth a roddir i barciau a gerddi drwy'r gyfundrefn gynllunio yn annigonol'.

Awgrymodd cynghorau Sir Fynwy a Phowys y byddai'n haws penderfynu ar y lefel o warchodaeth i'w rhoi iddynt wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio pe byddai camau statudol yn cael eu cyflwyno i'w gwarchod. Rwyf wedi darllen yr asesiad o opsiynau ar gyfer gwarchod parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a gynhaliwyd gan y Gweinidog yn dilyn adroddiad y pwyllgor. Eto i gyd, er gwaethaf ystyried pedwar opsiwn, penderfynodd y Gweinidog y byddai ymestyn gwarchodaeth yn gostus ac na fyddai'n cynnig llawer iawn o fudd ychwanegol, er na allaf weld pam na fyddai'n cynnig llawer iawn o fudd ychwanegol o'r dadansoddiad penodol hwnnw. Felly, unwaith eto, dywedwyd wrthym y byddai canllawiau newydd ac ymgynghori yn ystod 2016—ond, wrth gwrs, byddai hyn ar ôl pasio'r Bil penodol hwn—a fyddai'n cefnogi'r rheolaeth o barciau a gerddi hanesyddol trwy'r fframwaith presennol. Ond, yn fy marn i, nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell o ran y warchodaeth statudol sydd ei hangen i ddilyn ymlaen o'r gofrestr statudol, ac ni fydd hyn, yn amlwg, yn ymddangos ar wyneb y Bil, fel y byddai fy ngwelliant i yn ceisio ei wneud.

Felly, ar ôl darllen yr opsiynau, rwyf yn credu bod fy ngwelliant i yn gymedrol ac na fyddai'n arwain at y sefyllfa gostus y mae'r Gweinidog yn pryderu amdani, gan y byddai gofyn i Weinidogion Cymru gymryd camau rhesymol i warchod y parciau a gerddi hynny sydd yn nwylo'r cyhoedd. Byddai o fewn eu rhodd i benderfynu beth fyddai'n rhesymol i'w gyflawni, a byddai pryderon ariannol neu feichus yn sicr o fod yn rhan o'r broses benderfynu honno.

It would be useful to emphasise that there seemed to be an issue in the last stage with the word 'reasonable', although, the Minister himself has used it in his own amendments. It's a legal concept that is well understood and has been used in other pieces of Welsh law. It is used deliberately here so that the burden on local authorities is not too great and gives them some leeway. While none of us want to see this issue determined in court, the courts are well versed in interpreting 'reasonable' in particular circumstances.

Byddai'n ddefnyddiol pwysleisio yr ymddengys bod problem yn y cam olaf gyda'r gair 'rhesymol', er, mae'r Gweinidog ei hun wedi ei ddefnyddio yn ei welliannau ei hun. Mae'n gysyniad cyfreithiol y mae dealltwriaeth dda ohono ac a ddefnyddiwyd mewn darnau eraill o gyfraith Cymru. Fe'i defnyddir yn fwriadol yma fel nad yw'r baich ar awdurdodau lleol yn rhy drwm ac mae'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd iddynt. Er nad oes neb ohonom am weld y mater hwn yn cael ei bennu yn y llys, mae'r llysoedd yn gyfarwydd iawn â dehongli 'rhesymol' mewn amgylchiadau penodol.

I've amended from Stage 2 to take into account the Ministers concerns that there was no difference between a private and a public park. So, I've changed it so that those under the ownership of Welsh Ministers, a Welsh local authority or a local health board in Wales would come under this particular law, and then that would cover the issue that came up in the previous stage at committee.

Rwyf wedi gwneud gwelliannau o Gyfnod 2 er mwyn cymryd i ystyriaeth bryderon y Gweinidogion nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng parc preifat a chyhoeddus. Felly, rwyf wedi ei newid fel y byddai rhai dan berchnogaeth Gweinidogion Cymru, awdurdod lleol yng Nghymru neu fwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn dod o dan y gyfraith benodol hon, a byddai hynny wedyn yn cynnwys y mater a gododd yn y cyfnod blaenorol yn y pwyllgor.

16:23

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

The Bill seeks to make an important change to the status of the register of historic parks and gardens in Wales by putting it on a statutory footing. This changes widespread support and will mean that all historic parks and gardens that are considered to be of special historic interest will be registered. I appreciate Bethan Jenkins's concern that the significance of these historic parks and gardens is properly protected. However, I am unable to support the amendment. As drafted, the amendment would require the Welsh Ministers to take reasonable steps to protect grounds on the register, but it fails to define what is meant by 'reasonable steps'. The proposed duty would also only apply to certain historic parks and gardens in public sector ownership—only about 80 of the 386 currently registered.

Mae'r Bil yn ceisio gwneud newid pwysig i statws y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru drwy ei gosod ar sail statudol. Mae hyn yn newid cefnogaeth eang a bydd yn golygu y bydd yr holl barciau a gerddi hanesyddol sy'n cael eu hystyried i fod o ddiddordeb hanesyddol arbennig yn cael eu cofrestru. Rwyf yn gwerthfawrogi pryder Bethan Jenkins bod arwyddocâd y parciau a gerddi hanesyddol hyn yn cael ei warchod yn iawn. Fodd bynnag, ni allaf gefnogi'r gwelliant. Fel y'i drafftiwyd, byddai'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau rhesymol i warchod tiroedd ar y gofrestr, ond nid yw'n llwyddo i ddiffinio'r hyn a olygir gan 'camau rhesymol'. Byddai'r ddyletswydd arfaethedig hefyd yn berthnasol yn unig i barciau a gerddi hanesyddol penodol dan berchnogaeth y sector cyhoeddus—dim ond tua 80 o'r 386 sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd.

A far more appropriate way of conserving all of our registered gardens and parks is to build on the current management arrangements. For example, a historic environment chapter of 'Planning Policy Wales' sets out how they are considered in the planning system. These arrangements will be supported by new guidance under preparation by Welsh Ministers, which will promote good practice in the management of change that might impact on a registered park or garden. I'm not convinced that these amendments would give any meaningful additional protection to historic parks and gardens in Wales, and I therefore ask that they are rejected.

Ffordd llawer mwy priodol o warchod ein holl erddi a pharciau cofrestredig fyddai adeiladu ar y trefniadau rheoli presennol. Er enghraifft, mae pennod amgylchedd hanesyddol 'Polisi Cynllunio Cymru' yn nodi sut y cânt eu hystyried yn y system gynllunio. Caiff y trefniadau hyn eu cefnogi gan ganllawiau newydd a fydd yn cael eu paratoi gan Weinidogion Cymru, a fydd yn hyrwyddo arfer da wrth reoli newid a allai effeithio ar barc neu ardd gofrestredig. Nid wyf yn argyhoeddedig y byddai'r gwelliannau hyn yn darparu unrhyw warchodaeth ychwanegol ystyrlon i barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru, ac felly gofynnaf iddynt gael eu gwrthod.

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Bethan Jenkins to reply. No. If amendment 61 is not agreed, amendment 59 falls. The question is that amendment 61 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Bethan Jenkins i ateb. Na. Os nad yw gwelliant 61 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 59 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 61 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid, mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 61: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 61 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 61.

Result of the vote on amendment 61.

*Methodd gwelliant 59.*

*Amendment 59 fell.*

### Grŵp 7: Tiroedd o Ddiddordeb Lleol Arbennig (Gwelliannau 5, 5A, 49, 47, 45)

### Group 7: Grounds of Special Local Interest (Amendments 5, 5A, 49, 47, 45)

16:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to grounds of special local interest, and the lead amendment in this group is amendment 5. I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â thiroedd o ddiddordeb lleol arbennig, a phrif welliant y grŵp hwn yw gwelliant 5. Galwaf ar Peter Black i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 5 (Peter Black [R]).*

*Amendment 5 (Peter Black [R]) moved.*

16:25

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. The amendments in this group really follow on from the next group, buildings of special local interest, and come from the communities committee recommendation 11, which suggested that the Bill be amended to require local authorities to prepare and maintain lists of historic assets of special local interest. It is my view that it is important there is legislation put in place to ensure that any land with the potential to further the social wellbeing of a community is protected. These amendments ensure that this land can be protected by being registered 'of special interest'.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn wir yn dilyn ymlaen o'r grŵp nesaf, adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig, ac maent yn dod o argymhelliad 11 y pwyllgor cymunedau, a oedd yn awgrymu y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chynnal rhestrau o asedau hanesyddol sydd o ddiddordeb lleol arbennig. Fy marn i yw ei bod yn bwysig bod deddfwriaeth ar waith i sicrhau bod unrhyw dir sydd â'r potensial i hyrwyddo lles cymdeithasol cymuned ymhellach yn cael ei warchod. Mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau y gellir gwarchod y tir hwn drwy ei gofrestru yn dir sydd 'o ddiddordeb arbennig'.

As the Deputy Minister himself said at Stage 2,

Fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog ei hun yng Nghyfnod 2,

'open spaces, including parks, gardens and places of recreation, are undeniably important assets for all communities'.

'mae mannau agored, gan gynnwys parciau, gerddi a mannau hamdden, yn ddiau, yn asedau pwysig ar gyfer pob cymuned'.

I believe it is beneficial to register areas and grounds such as playing fields, sports grounds, village greens and common land and those noted in the amendment, which include parks, gardens, ornamental landscapes, places of recreation and other grounds as may be determined by the authority. The historic environment Bill is not just about listed buildings, it's about the environment as well, about the environment all around us, and includes parks and gardens. So, this amendment, by ensuring areas and grounds of local interest are registered, adds to its appropriateness.

Rwyf yn credu ei bod yn fuddiol cofrestru meysydd a thiroedd megis caeau chwarae, meysydd chwaraeon, meysydd pentrefi a thir comin a'r rhai a nodwyd yn y gwelliant, sy'n cynnwys parciau, gerddi, tirweddau addurniadol, mannau hamdden a thiroedd eraill y gellir eu pennu gan yr awdurdod. Nid yw'r Bil amgylchedd hanesyddol yn ymwneud ag adeiladau rhestredig yn unig, mae hefyd yn ymwneud â'r amgylchedd, yr holl amgylchedd o'n cwmpas, sy'n cynnwys parciau a gerddi. Felly, mae'r gwelliant hwn, drwy sicrhau bod meysydd a thiroedd o ddiddordeb lleol yn cael eu cofrestru, yn ychwanegu at ei briodoldeb.

This works well with the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which states that a community asset can be defined as any land or building which are or could potentially be of importance to a community's social well-being. As the Deputy Minister has said, this Bill does strengthen the law relating to the historic environment. I believe that part of that role is to ensure that all of the environment is covered by that law.

Mae hyn yn gweithio'n dda gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n datgan y gellir diffinio ased cymunedol fel unrhyw dir neu adeilad sydd, neu a allai fod, yn bwysig i les cymdeithasol cymuned. Fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, mae'r Bil hwn yn atgyfnerthu'r gyfraith sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Credaf mai rhan o'r swyddogaeth honno yw sicrhau bod yr holl amgylchedd yn dod o dan y gyfraith honno.

Suzy Davies raised a valid point at Stage 2, which has been addressed here in subsection (7) of this amendment: Welsh Ministers must issue statutory guidance on factors for local authority consideration when assessing whether applications should be accepted, to avoid inconsistency and remove the potential for public challenges. So, I'm happy to support Suzy Davies's amendment 5A, which helps and strengthens the amendment by ensuring that guidance is approved by the National Assembly.

Cododd Suzy Davies bwynt dilys yn ystod Cyfnod 2, a gafodd sylw yma yn is-adran (7) o'r gwelliant hwn: Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar ffactorau sydd i'w hystyried gan awdurdodau lleol wrth asesu a ddylid derbyn ceisiadau, er mwyn osgoi anghysondeb a chael gwared ar y potensial am heriau cyhoeddus. Felly, rwyf yn hapus i gefnogi gwelliant 5A Suzy Davies, sy'n helpu ac yn cryfhau'r gwelliant drwy sicrhau bod canllawiau'n cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

I know the Deputy Minister previously had concerns about the broadness of the definition of 'grounds of special interest', which I why I changed subsection (7) in the subsequent amendment to ensure that the definition is interpreted appropriately by the public and local authorities, following the guidance given by the Welsh Ministers. Also during Stage 2, the Deputy Minister voiced his concern that his amendment would add further complexity to the planning system. I don't believe that that will happen. This Bill, in fact, adds some complexity to the planning system and will place additional demands on the capacity and resources of local authorities. This small addition to a section of the Bill will have a relatively small impact on local authorities, but could have a huge impact for the people of Wales and the historic environment they live in.

Rwyf yn gwybod bod y Dirprwy Weinidog wedi bod yn bryderus ynghylch ehangder y diffiniad o 'diroedd o ddiddordeb arbennig', a dyna pam newidiais is-adran (7) yn y gwelliant dilynol er mwyn sicrhau bod y diffiniad yn cael ei ddehongli yn briodol gan y cyhoedd a'r awdurdodau lleol, yn dilyn y canllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru. Hefyd yn ystod Cyfnod 2, mynegodd y Dirprwy Weinidog ei bryder y byddai ei welliant yn ychwanegu mwy o gymhlethdod i'r system gynllunio. Nid wyf yn credu y bydd hynny'n digwydd. Mae'r Bil, mewn gwirionedd, yn ychwanegu rhywfaint o gymhlethdod i'r system gynllunio a bydd yn gosod gofynion ychwanegol ar y gallu ac adnoddau awdurdodau lleol. Bydd yr ychwanegiad bach hwn i adran o'r Bil yn cael effaith gymharol fach ar awdurdodau lleol, ond gallai gael effaith enfawr ar bobl Cymru a'r amgylchedd hanesyddol y maent yn byw ynddo.

The Deputy Minister also voiced his concerns that the nomination of grounds for inclusion on the local register could easily be used to frustrate legitimate development. I don't believe that nomination for inclusion on the local register will have any bearing on planning for future development. Only grounds actually included on the local register can have that impact on planning decisions. Clearly, it's the register itself that applies, not the nomination for it. This material consideration may lead planners to decide that what the developers may consider to be a legitimate development may in fact not be as legitimate as they thought.

Lleisiodd y Dirprwy Weinidog hefyd ei bryderon y gallai enwebu tiroedd i'w cynnwys ar y gofrestr leol gael ei ddefnyddio'n rhwydd i rwystro datblygiad dilys. Nid wyf yn credu y bydd enwebiad ar gyfer eu cynnwys ar y gofrestr leol yn cael unrhyw effaith ar gynllunio ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Dim ond tiroedd sydd wedi'u cynnwys mewn gwirionedd ar y gofrestr leol sy'n gallu cael yr effaith honno ar benderfyniadau cynllunio. Yn amlwg, y gofrestr ei hun sy'n gymwys, nid yr enwebiad ar ei chyfer. Gall yr ystyriaeth berthnasol hon arwain at ddatblygwyr yn penderfynu bod yr hyn y mae datblygwyr yn ei ystyried o fod yn ddatblygiad dilys mewn gwirionedd ddim mor ddilys ag yr oeddent yn meddwl.

I think these amendments have been improved and strengthened since Stage 2, and hopefully address the concerns that were raised at Stage 2. I hope therefore that the Assembly can support them.

Rwyf yn credu bod y gwelliannau hyn wedi eu gwella a'u cryfhau ers Cyfnod 2, a gobeithio eu bod yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yng Nghyfnod 2. Felly, rwyf yn gobeithio y gall y Cynulliad eu cefnogi.

16:29

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will be supporting the amendments in this group, and I simply offer amendment 5A as an amplification of amendment 5. Under new section 41B(7), Welsh Ministers would be under a duty to publish guidance to assist local authorities on what needs to be taken into account in deciding what land should be included on a register of grounds of special local interest.

Byddwn yn cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn, ac rwyf yn syml yn cynnig gwelliant 5A fel un sydd â mwy o fanylder na gwelliant 5. O dan adran 41B newydd (7), byddai'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i gynorthwyo awdurdodau lleol ynghylch yr hyn y mae angen ei ystyried wrth benderfynu pa dir y dylid ei gynnwys ar gofrestr o diroedd o ddiddordeb lleol arbennig.

My amendment asks for such guidance, perhaps slightly unusually, to be introduced via the affirmative procedure in the first instance, with any future changes being made via the negative procedure. I accept that Members might feel that this is a little heavy handed, but this guidance is necessary precisely because our constituents will look to this legislation to try and protect any patch of land that is special to them. I'm sure all Members have been in receipt of correspondence of that nature. So, the guidance will need to be able to accommodate land that may be of little intrinsic value, but is specifically locally significant, and more valuable land, where the competition will be between local amenity and local development. Because this will be of direct and particular interest to so many of our constituents, and it needs to be easily understandable to our constituents, I think this is one piece of guidance where it would be appropriate, in the first instance, for us to debate our constituents' concerns prior to the publication of that guidance. Thank you.

Mae fy ngwelliant i'n gofyn am weld canllawiau o'r fath, ychydig yn anarferol efallai, yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y weithdrefn gadarnhaol yn y lle cyntaf, gydag unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn negyddol. Rwyf yn derbyn efallai y bydd yr Aelodau yn teimlo bod hyn yn ychydig yn llawdrwm, ond mae'r canllawiau hyn yn angenrheidiol am y rheswm syml y bydd ein hetholwyr yn defnyddio'r ddeddfwriaeth hon er mwyn ceisio gwarchod unrhyw ddarn o dir sy'n arbennig iddyn nhw. Rwyf yn siŵr bod pob Aelod wedi derbyn gohebiaeth o'r natur honno. Felly, bydd angen i'r canllawiau allu darparu ar gyfer tir a allai fod o fawr o werth cynhenid, ond sydd o werth penodol yn lleol, a thir mwy gwerthfawr, lle bydd y gystadleuaeth rhwng amwynder lleol a datblygu lleol. Gan y bydd hyn o ddiddordeb uniongyrchol ac arbennig i gymaint o'n hetholwyr, ac mae angen iddo fod yn hawdd i'n hetholwyr ei ddeall, rwyf yn credu bod hwn yn un canllaw lle y byddai'n briodol, yn y lle cyntaf, inni drafod pryderon ein hetholwyr cyn cyhoeddi'r canllawiau hynny. Diolch.

16:30 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd just like to speak briefly in support of this amendment. Especially given that there's not as much protection in the Bill as I would like in terms of industrial and current heritage, I think the social and cultural element within this amendment may cover some of that.

Hoffwn siarad yn gryno o blaid y gwelliant hwn. Yn enwedig o ystyried nad oes cymaint o warchod yn y Bil ag y byddwn wedi hoffi ei weld o ran treftadaeth ddiwydiannol a chyfredol, rwyf yn meddwl efallai fod yr elfen gymdeithasol a diwylliannol yn y gwelliant hwn yn cwmpasu rhywfaint o hynny.

I did take issue with the Minister in the previous debate with regard to the way in which the debate was framed—i.e. if people did put in illegitimate applications. I think we should look more positively on the people of Wales and think, 'Well, actually, if they do have a piece of land that they see as important, whether it's because it used to host a miners' hall or it used to be host to something important to them in their local community, then look at it in a positive frame of mind', as opposed to potentially thinking that they will always want to protect something because they don't want development at their back door.

Anghytunais â'r Gweinidog yn y ddadl flaenorol o ran y ffordd yr oedd y ddadl wedi'i fframio—h.y. pe byddai pobl yn cyflwyno ceisiadau anghyfreithlon. Rwyf yn credu y dylem edrych yn fwy cadarnhaol ar bobl Cymru a meddwl, 'Wel, mewn gwirionedd, os oes darn o dir ganddynt y maent yn ei ystyried yn bwysig, boed hynny oherwydd ei fod yn arfer bod yn gartref i neuadd glowyr neu'n gartref i rywbeth sy'n bwysig iddynt yn eu cymuned leol, yna dylid edrych arno o safbwynt cadarnhaol', yn hytrach na meddwl o bosibl y byddant bob amser yn awyddus i warchod rhywbeth gan nad ydynt am weld datblygu ar garreg eu drws.

I think, in environmental terms, as well, we should be looking to protect as much of those spaces as we possibly can, and I think this amendment would afford that protection.

Rwyf yn credu, o ran yr amgylchedd, hefyd, y dylem geisio gwarchod cymaint o'r mannau hynny ag y gallwn, ac rwyf yn credu y byddai'r gwelliant hwn yn rhoi'r diogelwch hwnnw.

16:31 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open spaces, including parks, gardens and places of recreation, are undeniably important to communities. However, these amendments would have a significant impact on the way in which they are managed in Welsh communities. The definition of 'grounds' used in the amendments is extremely broad. It makes no mention of historic significance and only requires grounds to have cultural or social significance.

Mae mannau agored, gan gynnwys parciau, gerddi a mannau hamdden, yn ddiau yn bwysig i gymunedau. Fodd bynnag, byddai'r gwelliannau hyn yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y cânt eu rheoli yng nghymunedau Cymru. Mae'r diffiniad o 'diroedd' a ddefnyddir yn y gwelliannau yn eithriadol o eang. Nid oes sôn o gwbl am arwyddocâd hanesyddol ac mae'n ofynnol i diroedd gael arwyddocâd diwylliannol neu gymdeithasol yn unig.

The amendments specify that the register would be a material consideration in planning determinations. Such an explicit statement would sit awkwardly in planning legislation, let alone in a Bill that is concerned with the historic environment. Contrary to the aims of the recent Planning (Wales) Act 2015, these amendments would certainly increase complexity in the planning system. They would also place additional demands on the capacity and resources of local authorities. The amendments would permit the public to nominate grounds for inclusion on the local register, which could easily be used to frustrate legitimate development. I also fear that systems that are already in place to manage grounds of local importance—for example, town and village green and disposal of playing fields regulations—could be undermined by these amendments.

Mae'r gwelliannau yn nodi y byddai'r gofrestr yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio. Byddai datganiad eglur o'r fath yn sefyll yn lletchwith mewn deddfwriaeth gynllunio, heb sôn am fod mewn Bil sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Yn groes i amcanion y ddeddf ddiweddar, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, byddai'r gwelliannau hyn yn sicr yn golygu mwy o gymhlethdod yn y system gynllunio. Byddent hefyd yn gosod pwysau ychwanegol ar gapasiti ac adnoddau awdurdodau lleol. Byddai'r gwelliannau yn caniatáu i'r cyhoedd enwebu tiroedd i'w cynnwys ar y gofrestr leol, y gellid eu defnyddio yn hawdd i rwystro datblygiad cyfreithlon. Rwyf hefyd yn ofni y gallai'r systemau sydd eisoes ar waith i reoli tiroedd sydd o bwysigrwydd lleol —er enghraifft meysydd tref a phentref a chael gwared ar reoliadau caeau chwarae—gael eu tanseilio gan y gwelliannau hyn.

I do not feel that these amendments are the appropriate means to introduce such provisions. If additional controls are required in this area, then a well-thought-through proposal—

Nid wyf yn credu mai'r gwelliannau hyn yw'r modd priodol o gyflwyno darpariaethau o'r fath. Os oes angen rheolaethau ychwanegol yn y maes hwn, yna byddai cynnig sydd wedi'i ystyried yn fanwl—

*Suzy Davies a gododd—*

*Suzy Davies rose—*

16:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention, Minister?

A ydych chi'n cymryd ymyriad, Weinidog?

16:32

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

16:32

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for taking the intervention. Wouldn't you accept that the guidance that we've been talking about would resolve those concerns of yours?

Diolch yn fawr iawn am gymryd yr ymyriad. Oni fyddech yn derbyn y byddai'r canllawiau yr ydym wedi bod yn siarad amdanynt yn datrys y pryderon hynny sydd gennych?

16:33

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I don't accept that the guidance would allay those concerns. I do still fear that the frustration of systems would automatically follow, and I don't feel that these amendments are the appropriate means to introduce such provisions. I think if additional controls are required in this area, then a well-thought-through proposal based on evidence, based on research and on consultation, is required. For these reasons, I cannot support this amendment.

Na, nid wyf yn derbyn y bydd y canllawiau yn tawelu'r pryderon hynny. Rwyf yn dal i ofni y byddai systemau yn cael eu rhwystro yn syth ar ôl hynny, ac nid wyf yn credu mai'r gwelliannau hyn yw'r modd priodol o gyflwyno darpariaethau o'r fath. Rwyf yn credu os oes angen rheolaethau ychwanegol yn y maes hwn, yna cynnig sydd wedi'i ystyried yn fanwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n seiliedig ar ymchwil ac ar ymgynghori, yw'r hyn sydd ei angen. Am y rhesymau hyn, ni allaf gefnogi'r gwelliant hwn.

16:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply.

Peter Black i ateb.

16:33

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am disappointed by the Minister's response, as the objections that he raised in Stage 2 we did seek to meet in the phrasing of these particular amendments, in an attempt to try to allay his concerns.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn siomedig gan ymateb y Gweinidog, gan ein bod wedi ceisio goresgyn y gwrthwynebiadau a gododd yng Nghyfnod 2 wrth eirio'r gwelliannau penodol hyn, mewn ymgais i geisio tawelu ei bryderon.

I do want to take issue, though, with the concept that you can separate history from your social and cultural context. As I understand it, history has a very clear social and cultural context, and the social and cultural context of any community is a part of their history. I don't believe that just because you call something a historic environment, that means that it automatically excludes the social environment in which people live; it certainly does not exclude the cultural environment in which people exist either. I think all three are interrelated and intertwined, and I think you have to take that into account when you're looking at putting in place legislation that is going to protect that particular environment.

Hoffwn anghytuno, fodd bynnag, gyda'r cysyniad bod modd gwahanu hanes oddi wrth eich cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol. Hyd y gwelaf i, mae cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol clir iawn gan hanes, ac mae cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol unrhyw gymuned yn rhan o'i hanes. Nid wyf yn credu, drwy alw rhywbeth yn amgylchedd hanesyddol, bod hynny'n golygu ei fod yn eithrio'n awtomatig yr amgylchedd cymdeithasol y mae pobl yn byw ynddo; mae'n sicr nad yw'n eithrio'r amgylchedd diwylliannol y mae pobl yn byw ynddo ychwaith. Credaf fod y tri yn perthyn i'w gilydd ac yn cydblethu, ac rwyf yn credu bod yn rhaid i chi gymryd hynny i ystyriaeth pan fyddwch yn edrych ar weithredu deddfwriaeth sy'n mynd i warchod yr amgylchedd arbennig hwnnw.

I think the big mistake we've made in the past, in terms of the listing of buildings in particular, is we've looked at architectural merit, we've looked at historic merit, but we've failed to look at the social merit or the cultural merit of a particular building when determining whether that building is of value to a community. We're talking about buildings in the next section, so I'll go into that a bit more, but I think, certainly, when you look at a place like the Vulcan pub in Cardiff, for example, that has an historic context, but also it was very much part of that community and had a very strong social context as well. So, I do think that that has to be taken into account as part of this Bill and I'm very disappointed that we're now having definitions put in front of us that seek to separate out the historic from the social and the cultural. I do think the Minister needs to think deeply and clearly about how the Welsh Government is going to be approaching this particular issue in the future.

Rwyf yn credu mai'r camgymeriad mawr a wnaethom yn y gorffennol, o ran rhestru adeiladau yn arbennig, yw ein bod wedi edrych ar rinwedd pensaernïol, rydym wedi edrych ar deilyngdod hanesyddol, ond nid ydym wedi llwyddo i edrych ar deilyngdod cymdeithasol neu deilyngdod diwylliannol adeilad penodol wrth benderfynu a yw'r adeilad hwnnw o werth i'r gymuned. Byddwn yn siarad am adeiladau yn yr adran nesaf, felly byddaf yn ymhelaethu ychydig yn fwy. Ond rwyf yn credu, yn sicr, pan fyddwch yn edrych ar le fel tafarn y Vulcan yng Nghaerdydd, er enghraifft, sydd â chyd-destun hanesyddol, ond a oedd hefyd yn sicr yn rhan o'r gymuned honno a chanddi gyd-destun cymdeithasol cryf iawn hefyd. Felly, rwyf yn credu bod rhaid ystyried hynny fel rhan o'r Bil hwn ac rwy'n siomedig iawn ein bod bellach yn cael diffiniadau wedi'u cyflwyno ger ein bron sy'n ceisio gwahanu'r hanesyddol o'r cymdeithasol a'r diwylliannol. Rwyf yn credu bod angen i'r Gweinidog feddwl yn ddwys ac yn glir am sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i fynd i'r afael â'r mater penodol hwn yn y dyfodol.

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before disposing of amendment 5, we will dispose of the amendment to that amendment. Suzy Davies, amendment 5A.

Cyn cael gwared ar welliant 5, byddwn yn cael gwared ar y gwelliant i'r gwelliant hwnnw. Suzy Davies, gwelliant 5A.

*Cynigiwyd gwelliant 5A (Suzy Davies).*

*Amendment 5A (Suzy Davies) moved.*

16:35

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 5A be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 5A yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid, mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 5A: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 5A not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5A. | Result of the vote on amendment 5A.

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 5 is not agreed, amendments 49, 47 and 45 fall. The question is that amendment 5 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Os nad yw gwelliant 5 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 49, 47 a 45 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 5 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid, mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 5: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 5 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5. | Result of the vote on amendment 5.

*Methodd gwelliannau 45, 47, 49.*

*Amendments 45, 47, 49 fell.*

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies, amendment 76.

Suzy Davies, gwelliant 76.

16:36 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Not moved.

Heb ei gynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 76 (Suzy Davies).*

*Amendment 76 (Suzy Davies) not moved.*

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 76 is not moved. Deputy Minister, amendment 23.

Ni chynigir gwelliant 76. Ddirprwy Weinidog, gwelliant 23.

*Cynigiwyd gwelliant 23 (Kenneth Skates).*

*Amendment 23 (Kenneth Skates) moved.*

16:36 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 23 be agreed. Does any Member object? Then amendment 23 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 23 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 23 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 23 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 23 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 8: Adeiladau o Ddiddordeb Lleol Arbennig (Gwelliannau 8, 9, 12, 6, 50, 48, 46)

## Group 8: Buildings of Special Local Interest (Amendments 8, 9, 12, 6, 50, 48, 46)

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The next group of amendments relates to buildings of special local interest. The lead amendment in this group is amendment 8. I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud ag adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 8. Galwaf ar Peter Black i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 8 (Peter Black [R]).*

*Amendment 8 (Peter Black [R]) moved.*

16:36 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. This group of amendments stems from the communities committee's recommendation 11 that the Bill is to be amended to require local authorities to prepare and maintain lists of historic assets of special local interest, and very much fits in with the previous group of amendments that we've just discussed.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'r grŵp hwn o welliannau yn deillio o argymhelliad 11 y pwyllgor cymunedau sy'n datgan y dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chynnal rhestrau o asedau hanesyddol sydd o ddiddordeb lleol arbennig, ac mae hynny'n cyd-fynd yn dda iawn â'r grŵp blaenorol o welliannau yr ydym newydd eu trafod.

I believe it's essential that there is legislation put in place to ensure that any building with the potential to further the social wellbeing of a community is protected. Buildings that form part of our architectural heritage that help create civic pride and a sense of identity represent a huge amount in terms of our historic environment and should be protected. These buildings may not be deemed architecturally or historically significant enough to enjoy the protection afforded by a Cadw listing, but they are part of our communities' historic environment. Why should they not be afforded the protection they deserve from the Government in terms of other buildings?

Rwyf yn credu ei bod yn hanfodol bod ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod unrhyw adeilad sydd â'r potensial i hyrwyddo lles cymdeithasol y gymuned yn cael ei warchod. Mae adeiladau sy'n ffurfio rhan o'n treftadaeth bensaernïol sy'n helpu i greu balchder bro ac ymdeimlad o hunaniaeth yn cynrychioli llawer iawn o ran ein hamgylchedd hanesyddol a dylid eu gwarchod. Efallai na fydd yr adeiladau hyn yn cael eu hystyried yn ddigon arwyddocaol o ran eu pensaerniaeth neu hanes i fwynhau'r warchodaeth a roddir gan restr Cadw, ond maent yn rhan o amgylchedd hanesyddol ein cymunedau. Pam na ddylent gael y warchodaeth y maent yn ei haeddu gan y Llywodraeth o ran adeiladau eraill?

It is important that each case is considered on an individual basis, rather than being compared against a national model, as each community will hold certain buildings in higher esteem than a neighbouring community. Whilst holding the ultimate decision, local authorities should be provided with general guidance on how to assess the value of a potential asset. So, partly, these amendments are asking the Minister to issue this guidance, again to avoid inconsistencies and to remove the potential for public challenges.

Mae'n bwysig bod pob achos yn cael ei ystyried ar sail unigol, yn hytrach na chael ei gymharu â model cenedlaethol, gan y bydd pob cymuned yn parchu rhai adeiladau penodol yn fwy nag y byddai cymuned gyfagos yn eu parchu. Wrth wneud y penderfyniad terfynol, dylai awdurdodau lleol gael canllawiau cyffredinol ynghylch sut i asesu gwerth ased posibl. Felly, yn rhannol, mae'r gwelliannau hyn yn gofyn i'r Gweinidog gyhoeddi'r canllawiau hyn, unwaith eto er mwyn osgoi anghysondebau a chael gwared ar y potensial ar gyfer heriau cyhoeddus.

The local authority must publicise how a building can be added to the local list, as well as the criteria they use to decide what can go onto that local list. This would ensure that communities are aware of the options available to them, avoiding too-late applications for inclusion on the local register. None of us here wants local communities to be reactive to what they consider to be inappropriate development, as often seems to be the case, but instead to be proactive in protecting an asset as part of their historic, social and cultural environment. These buildings speak of the character of a community, and it is essential that they are protected and maintained in that community.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi sut y gellir ychwanegu adeilad at y rhestr leol, yn ogystal â'r meini prawf y maent yn eu defnyddio i benderfynu beth gaiff fynd ar y rhestr leol honno. Byddai hyn yn sicrhau bod cymunedau yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt, gan osgoi ceisiadau sy'n rhy hwyr er mwyn eu cynnwys ar y gofrestr leol. Nid oes yr un ohonom yma yn dymuno y bydd cymunedau lleol yn ymddwyn yn adweithiol i'r hyn y maent yn ei ystyried yn ddatblygiad amhriodol, fel sy'n digwydd yn aml, ond yn hytrach eu bod yn rhagweithiol wrth warchod ased fel rhan o'u hamgylchedd hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r adeiladau hyn yn dangos cymeriad y gymuned, ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu gwarchod a'u cynnal yn y gymuned honno.

To avoid the many problems our historic environment faces, some of which this Bill is trying to overcome—ultimately, demolition—I believe that local listing will allow for new uses to be found with the creative input of local people. However, amendment 9 gives local authorities the power to contribute to the repair and maintenance of buildings of special local interest via a grant or a loan, and so helping to ensure preservation if needed. The local authority can set a condition with a grant to ensure public access to all or part of the property at agreed times.

Er mwyn osgoi'r problemau niferus sy'n wynebu ein hamgylchedd hanesyddol, mae'r Bil hwn yn ceisio goresgyn rhai ohonynt—yn y pen draw, dymchwel—credaf y bydd rhestru lleol yn golygu y bydd modd dod o hyd i ddefnydd newydd gyda mewnbwn creadigol gan y bobl leol. Fodd bynnag, mae gwelliant 9 yn grymuso awdurdodau lleol i gyfrannu at y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig drwy grant neu fenthyciad, ac felly yn helpu i sicrhau cadwraeth os oes angen. Gall yr awdurdod lleol osod amod gyda grant i sicrhau mynediad cyhoeddus i'r adeilad cyfan neu ran ohono ar adegau y cytunir arnynt.

The final amendment in this group, amendment 12, has been drafted because the inclusion of buildings on the local list may be undermined by current permitted development rights. These shortcomings need to be avoided. This amendment means local authorities can remove permitted development rights from buildings of special interest via a special interest Order. This will allow the local authorities to remove the permitted development rights as they see appropriate to a particular building. It would allow the local authority to decide how far it wanted to go in restricting those rights, as few or as many as considered expedient, and gives the freedom to decide to which buildings it would apply.

Mae'r gwelliant olaf yn y grŵp hwn, gwelliant 12, wedi'i ddrafftio oherwydd gallai cynnwys adeiladau ar y rhestr leol gael ei danseilio gan hawliau datblygu a ganiateir ar hyn o bryd. Mae angen osgoi'r diffygion hyn. Mae'r diwygiad hwn yn golygu y gall awdurdodau lleol ddileu hawliau datblygu a ganiateir o adeiladau o ddiddordeb arbennig drwy gyfrwng Gorchymyn diddordeb arbennig. Bydd hyn yn caniatáu i'r awdurdodau lleol ddileu'r hawliau datblygu a ganiateir fel y gwelant yn briodol ar gyfer adeilad penodol. Byddai'n caniatáu i'r awdurdod lleol benderfynu pa mor bell y mae'n dymuno mynd i gyfyngu ar yr hawliau hynny, cyn lleied neu gymaint ag a fernir yn gyfleus, ac mae'n rhoi'r rhyddid i wneud penderfyniad ynghylch i ba adeiladau y byddai hynny'n berthnasol.

We've been calling for local listing for a long time in this Assembly. I've referred already to the Vulcan Hotel in Cardiff, and recently the Royal Buildings and Customs House in Port Talbot. The amendments today echo the conclusions of the Petitions Committee when they looked at the 'Save the Vulcan: Protection of historic buildings' petition back in February 2010. From our Stage 2 debate, I know this is a feeling shared across this Chamber. So, let's ensure that this Assembly makes the protection of buildings of special interest a reality. We have the opportunity here in this legislation to do so.

Rydym wedi bod yn galw am restru lleol am gyfnod hir yn y Cynulliad hwn. Cyfeiriais eisoes at Westy'r Vulcan yng Nghaerdydd, ac yn ddiweddar at yr Adeiladau Brenhinol a Customs House ym Mhort Talbot. Mae'r gwelliannau heddiw yn adleisio casgliadau'r Pwyllgor Deisebau pan edrychasant ar ddeiseb 'Achub y Vulcan: Gwarchod adeiladau hanesyddol' yn ôl ym mis Chwefror 2010. Yn dilyn ein dadl yng Nghyfnod 2, gwn fod hwn yn deimlad a rennir ar draws y Siambr hon. Felly, gadewch i ni sicrhau bod y Cynulliad hwn yn gwneud gwarchod adeiladau o ddiddordeb arbennig yn realiti. Mae gennym gyfle i wneud hynny yma yn y ddeddfwriaeth hon.

In May 2012, the then Minister for Housing, Regeneration and Heritage, Huw Lewis, responded to a written Assembly question on local listing stating that:

Ym mis Mai 2012, ymatebodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth bryd hynny, Huw Lewis, i gwestiwn ysgrifenedig gan y Cynulliad ar restru lleol yn datgan:

'As part of the development and implementation of the new Heritage Bill in 2014-15, the Welsh Government will produce guidance for local planning authorities on local listing, set out criteria against which buildings can be assessed and consider any further options available for safeguarding such buildings.'

'Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Bil Treftadaeth newydd yn 2014-15, bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol ar restru lleol, yn nodi meini prawf y gall adeiladau gael eu hasesu yn eu herbyn ac yn ystyried unrhyw opsiynau eraill sydd ar gael er mwyn gwarchod adeiladau o'r fath. '

This Bill is that Bill, and amendment 8 is providing much of the needed options to safeguard such buildings. I believe the amendments we have in front of us go to the spirit of that undertaking given by the previous Minister, and I hope that the Assembly can support them.

Y Bil hwn yw'r Bil hwnnw, ac mae gwelliant 8 yn darparu llawer o'r opsiynau y mae eu hangen i warchod adeiladau o'r fath. Credaf fod y gwelliannau sydd gennym o'n blaen yn mynd i ysbryd yr ymrwymiad a roddwyd gan y Gweinidog blaenorol, ac rwyf yn gobeithio y gall y Cynulliad eu cefnogi.

16:41 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I speak very much in support of what's just been said by Peter Black. I think, when Peter spoke of the character of a community, he said something very, very powerful. There was a consensus, I think it's fair to say, in the committee that we do need to look at how we list and how we not simply preserve, but build on our heritage rather than build over our heritage. And, all too often, I think we all see that listings are made of the very grand houses and the very grand places, but the history of our people—of working people—isn't taken as seriously and isn't something that is considered, all too often, worthy of preservation and of support.

Rwyf yn siarad yn gryf o blaid yr hyn y mae Peter Black newydd ei ddweud. Pan siaradodd Peter am gymeriad y gymuned, rwyf yn credu iddo ddweud rhywbeth hynod o bwerus. Roedd consensws, credaf ei fod yn deg i ddweud, yn y pwyllgor bod angen inni edrych ar sut yr ydym yn rhestru ac nid yn unig ar sut yr ydym yn cadw, ond hefyd yn adeiladu ar ein treftadaeth yn hytrach nag adeiladu ar ben ein treftadaeth.  Ac, yn rhy aml o lawer, rwyf yn credu bod pob un ohonom yn gweld rhestrau'n cael eu gwneud o'r tai crand iawn a'r lleoedd crand iawn, ond nid yw hanes ein pobl—y bobl sy'n gweithio—yn cael ei ystyried o ddifrif ac, ac nid yw'n cael ei ystyried, yn rhy aml o lawer, yn rhywbeth sy'n werth ei ddiogelu a'i gefnogi.

Let me say this: if you look at my own home town of Tredegar, you have something like the town clock or Bedwellty House, the home of the ironmaster, which is, of course, listed and preserved, as it should be. But what about No. 10 The Circle, which many people—visitors—would simply see as a small end-of-terrace house? It is in fact the headquarters of the Tredegar Medical Aid Society, where Nye Bevan led the Tredegar-isation of the United Kingdom and created the national health service. Now, surely, that small terrace is worthy of a local listing, if not a national listing, and a level of protection, because that speaks of our socialism, it speaks of our social history, it speaks of the history of the Labour movement, the Labour Party and one of our greatest gifts to the United Kingdom. And, at the same time, if you walk up the road—up Market Street from The Circle—you will see an Edwardian red-brick building on your left. To people visiting, it is simply another red-brick Edwardian building, but, opened in 1904, it is in fact the old cottage hospital, created by the medical aid society and the first hospital that can claim to be the model for the national health service. Hugely important, socially important, buildings and places, and I believe that the Government, and this Government, a Labour Government, should look towards how we can protect and enhance these buildings for the future.

Gadewch i mi ddweud hyn: os ydych yn edrych ar fy nhref enedigol i yn Nhredegar, yno fe welwch rywbeth fel y cloc y dref neu Dŷ Bedwellte, cartref y meistr haearn, sydd, wrth gwrs, wedi'i restru a'i gadw, fel y dylai fod. Ond beth am Rif 10, Y Cylch, y byddai llawer o bobl—ymwelwyr—ond yn ei ystyried yn dŷ bach ar ddiwedd teras? Yn wir, dyma bencadlys Cymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar, lle arweiniodd Aneurin Bevan y gwaith o 'Dredegar-eiddio' y Deyrnas Unedig gan greu'r gwasanaeth iechyd gwladol. Nawr, yn sicr, mae'r tŷ teras bach hwnnw yn deilwng i'w gynnwys ar y rhestr leol, os nad y rhestr genedlaethol, ac yn deilwng o lefel o warchodaeth, gan ei fod yn sôn am ein sosialaeth, yn sôn am ein hanes cymdeithasol, yn sôn am hanes y mudiad Llafur, y Blaid Lafur ac un o'n rhoddion mwyaf i'r Deyrnas Unedig. Ac, ar yr un pryd, os ydych yn cerdded i fyny'r stryd—i fyny Stryd y Farchnad o'r Cylch—fe welwch adeilad brics coch Edwardaidd ar y chwith. I ymwelwyr, dim ond adeilad Edwardaidd arall brics coch ydyw, ond, fe'i hagorwyd yn 1904 ac yn wir dyma'r hen ysbyty bwthyn, a grëwyd gan y gymdeithas cymorth meddygol, a'r ysbyty cyntaf sy'n gallu honni ei fod yn fodel ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol. Hynod bwysig, yn gymdeithasol bwysig, adeiladau a lleoedd, a chredaf y dylai'r Llywodraeth, y Llywodraeth hon, Llywodraeth Lafur, ystyried sut y gallwn warchod a gwella'r adeiladau hyn ar gyfer y dyfodol.

Because my fear, Deputy Presiding Officer, is this: that we will, by accident rather than design, ensure that we do have protection for the grand stately homes of the aristocracy and the gentry, but what we will not protect, and what we need to protect, are the monuments to the history of the working people and the struggle of working people for dignity and excellent conditions that are all across, particularly, Valleys communities. So, I would like to see the Government deal with these amendments in a generous way, and, when this legislation reaches the statute book, to look again at how we can ensure that these buildings—which create, as Peter said, the character and the history of a people—are not simply allowed to fall into dereliction and decay, because, by doing that, we don't simply turn our backs on individual buildings and places, but we turn our backs on our history as well.

Oherwydd fy mhryder i, Ddirprwy Lywydd, yw hyn: y byddwn, trwy ddamwain yn hytrach na thrwy gynllunio, yn sicrhau bod gennym warchodaeth yn ei lle ar gyfer plastai mawreddog y pendefigion a'r boneddigion, ond yr hyn na fyddwn yn ei warchod, a'r hyn sydd arnom angen ei warchod, yw'r cofebau i hanes y bobl hynny sy'n gweithio a'u brwydr i gael urddas ac amodau rhagorol ar draws yr holl gymunedau, yn arbennig yn y Cymoedd. Felly, hoffwn weld y Llywodraeth yn ymdrin â'r gwelliannau hyn mewn modd hael a, phan fydd y ddeddfwriaeth hon yn cyrraedd y llyfr statud, y bydd yn edrych eto ar sut y gallwn sicrhau na chaiff yr adeiladau hyn—sy'n creu, fel y dywedodd Peter, gymeriad a hanes pobl—eu gadael i ddadfeilio a dirywio, oherwydd, drwy wneud hynny, nid yn unig byddwn yn troi ein cefnau ar adeiladau a lleoedd unigryw, ond byddwn hefyd yn troi ein cefnau ar ein hanes.

16:44 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am mindful of the strong feelings within this Chamber that more could be done to protect community buildings of social value. However, a number of specific concerns have been raised about the introduction of statutory local lists as proposed in the amendments.

Rwyf yn ymwybodol o'r teimladau cryf yn y Siambr hon y gellid gwneud mwy i warchod adeiladau cymunedol o werth cymdeithasol. Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon penodol ynghylch cyflwyno rhestrau lleol statudol fel y'u cynigiwyd yn y gwelliannau.

An assessment based on best-practice suggested that the cost of compiling such lists across Wales would be some £3.4 million, and the lists would significantly increase the number of buildings, including places of worship, which are protected by some form of listing. A number of the Members have expressed an opinion that we already have too many listed buildings in Wales. Local authorities have warned that local lists would stretch their resources and hinder their ability to deal with existing listed buildings and conservation areas. They would also introduce another layer of complexity and lead to further delays in an already overstretched planning system.

Awgrymodd asesiad sy'n seiliedig ar arfer gorau y byddai'r gost o lunio rhestrau o'r fath ledled Cymru tua £3.4 miliwn, a byddai'r rhestrau yn cynyddu'r nifer o adeiladau yn sylweddol, gan gynnwys mannau addoli, sy'n cael eu gwarchod gan ryw fath o restru. Mae nifer o'r Aelodau eisoes wedi dadlau bod gennym ormod o adeiladau rhestredig yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol wedi rhybuddio y byddai adnoddau rhestrau lleol yn cael eu hymestyn a byddai rhwystrau i'w gallu i ymdrin ag ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig sydd eisoes yn bodoli. Byddent hefyd yn cyflwyno haen arall o gymhlethdod ac yn arwain at oedi pellach mewn system gynllunio sydd eisoes dan bwysau.

Other stakeholders have observed that statutory local lists could be misused by those wishing to frustrate reasonable development or interfere with legitimate attempts to adapt historic buildings, such as adapting churches into homes or into community function spaces. Deputy Presiding Officer, church groups are particularly concerned about the potential impact on non-listed historic chapels.

Mae rhanddeiliaid eraill wedi sylwi y gallai rhestrau lleol statudol gael eu camddefnyddio gan y rhai hynny sy'n dymuno rhwystro datblygiadau rhesymol neu ymyrryd ag ymdrechion dilys i addasu adeiladau hanesyddol, er enghraifft addasu eglwysi'n gartrefi neu'n fannau ar gyfer swyddogaethau cymunedol. Ddirprwy Lywydd, mae grwpiau eglwysi yn arbennig o bryderus ynghylch yr effaith bosibl ar gapeli hanesyddol nad ydynt wedi'u rhestru.

The other amendments in this group are related to the main amendment, requiring a list of buildings of special local interest. Of these, amendment 9 is unnecessary, because section 57 of the 1990 Act already allows local authorities to make grants to any building that appears to them to be of architectural or historic interest and on such terms and conditions as they consider to be appropriate. Importantly, such a building does not have to be listed.

Mae'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn yn ymwneud â'r prif welliant, sy'n gofyn am restr o adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig. O'r rhain, mae gwelliant 9 yn ddiangen, gan fod adran 57 o Ddeddf 1990 eisoes yn caniatáu i awdurdodau lleol gynnig grantiau i unrhyw adeilad sy'n ymddangos iddynt yn adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol ac ar y telerau ac amodau y maent o'r farn eu bod yn briodol. Yn bwysig iawn, nid oes rhaid i adeilad o'r fath gael ei restru.

Special interest orders, proposed in amendment 12, would place additional burdens on local authorities and conflict with existing planning controls. They would also go against the principles of the recently passed Planning (Wales) Act 2015. In rejecting these amendments, it's worth remembering that locally important historic buildings are not being ignored in the Bill. The Bill specifies that the historic environment records include details of any historic asset that the local authority considers to be of historic, archaeological or architectural interest. The historic environment records are used as an evidence base in local planning authorities' decision making. In addition, we are developing improved guidance on the creation and on the use of non-statutory local lists and revisiting planning policy for their use in the planning system.

Byddai gorchmynion diddordeb arbennig, a gynigir yng ngwelliant 12, yn gosod beichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol ac yn gwrthdaro â rheolaethau cynllunio presennol. Byddent hefyd yn mynd yn groes i egwyddorion y Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a basiwyd yn ddiweddar. Drwy wrthod y gwelliannau hyn, mae'n werth cofio nad yw adeiladau hanesyddol sydd o bwys lleol yn cael eu hanwybyddu yn y Bil. Mae'r Bil yn nodi bod y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cynnwys manylion unrhyw ased hanesyddol y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei fod o ddiddordeb hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol. Defnyddir y cofnodion amgylchedd hanesyddol fel sylfaen tystiolaeth pan fydd awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau. Hefyd, rydym yn datblygu canllawiau gwell ar greu ac ar y defnydd o restrau lleol anstatudol ac yn ailedrych ar y polisi cynllunio ar gyfer eu defnyddio yn y system gynllunio.

As stated by Alun Davies, community assets are tremendously important to the people of Wales and I am conscious that the discussion during Stage 2 scrutiny of the Bill centred on the social and community use of a building, rather than solely on the protection of its historic fabric.

Fel y nodwyd gan Alun Davies, mae asedau cymunedol yn eithriadol o bwysig i bobl Cymru ac rwyf yn ymwybodol bod y drafodaeth yn ystod Cyfnod 2 o graffu ar y Bil wedi canolbwyntio ar ddefnydd cymdeithasol a chymunedol adeilad, yn hytrach nag ar ddiogelu ei ffabrig hanesyddol yn unig.

I recently discussed these matters with the Minister for Communities and Tackling Poverty and with the Minister for Finance and Government Business, and, last December, the Minister for Communities and Tackling Poverty issued a written statement on the responses to the protecting community assets consultation. It referred to the provisions in the Localism Act 2011 that would enable community groups to nominate land or buildings if they are judged to enhance a community's social wellbeing or social interest. It also emphasised the importance of ensuring our approach is tailored to the Welsh context and the needs of our communities. The Minister is now running a pilot project in Gwent that seeks to collect additional evidence. This will run until March and will inform future action.

Yn ddiweddar, trafodais y materion hyn â'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ac â'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a, fis Rhagfyr diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ddatganiad ysgrifenedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar warchod asedau cymunedol. Cyfeiriodd at y darpariaethau yn Neddf Lleoliaeth 2011 a fyddai'n galluogi grwpiau cymunedol i enwebu tir neu adeiladau os ystyrir eu bod yn gwella lles cymdeithasol cymuned neu ddiddordeb cymdeithasol. Pwysleisiodd hefyd pa mor bwysig yw sicrhau y bydd ein dull ni o weithredu yn cael ei deilwra i gyd-destun Cymru ac anghenion ein cymunedau. Mae'r Gweinidog bellach yn cynnal prosiect peilot yng Ngwent gyda'r bwriad o gasglu tystiolaeth ychwanegol. Bydd hwn yn rhedeg tan fis Mawrth ac yn llywio'r camau gweithredu yn y dyfodol.

I'm of the view that this could be a more appropriate avenue to provide the kind of support for community assets that we have been discussing here today. Therefore, although I am aware of the well-meaning intention behind these groups of amendments, I am unable to support them. Instead, I believe that we need to consider more effective initiatives that will deal more directly with the sustainable use of much-loved local assets by communities, not just their physical fabric.

Rwyf o'r farn y gallai hwn fod yn llwybr mwy priodol i ddarparu'r math o gefnogaeth ar gyfer asedau cymunedol a drafodwyd gennym yma heddiw. Felly, er fy mod yn ymwybodol o'r bwriad da sydd y tu ôl i'r grwpiau hyn o welliannau, ni allaf eu cefnogi. Yn hytrach, credaf fod angen inni ystyried mentrau mwy effeithiol a fydd yn ymdrin yn fwy uniongyrchol â defnydd cynaliadwy o'r asedau lleol sy'n annwyl gan gymunedau, ac nid ei ffabrig ffisegol yn unig.

16:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black to reply.

Peter Black i ateb.

16:49

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am, of course, disappointed at the Minister's response, particularly in light of the previous commitment by a former Minister to actually include these sorts of provisions in this particular Bill. I would have hoped that, as the Minister recognises the merits of the case I put forward, and that put forward by Alun Davies, and also the very strong feeling across all parties about the value of local assets, local buildings, such as the Vulcan, or Custom House in Port Talbot, et cetera—I think that I would have felt that he might have brought something forward himself to reflect that commitment by his predecessor but also to deal with the views that have been expressed at all stages of this Bill by members of all parties and of none and, of course, by those who gave evidence to the committee.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf, wrth gwrs, yn siomedig gan ymateb y Gweinidog, yn enwedig yn sgìl yr ymrwymiad blaenorol gan gyn Weinidog i gynnwys y mathau hyn o ddarpariaethau yn y Bil penodol hwn. Byddwn i wedi gobeithio, gan fod y Gweinidog yn cydnabod rhinweddau'r achos yr wyf yn ei gyflwyno, a'r hyn a gyflwynwyd gan Alun Davies, a hefyd y teimlad cryf iawn ar draws pob plaid am werth asedau lleol, adeiladau lleol, megis y Vulcan, neu'r Custom House ym Mhort Talbot, ac yn y blaen—credaf y byddwn wedi teimlo y gallai fod wedi cyflwyno rhywbeth ei hun i adlewyrchu'r ymrwymiad hwnnw gan ei ragflaenydd, ond hefyd i ymdrin â'r safbwyntiau a fynegwyd ym mhob cyfnod o'r Bil hwn gan aelodau o bob plaid ac unrhyw un arall ac, wrth gwrs, gan y rhai a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor.

My concern, Deputy Presiding Officer, is that what is in this Bill and even what is in the consultation and the pilots that the Minister for communities is running, which was referred to, is not going to be strong enough to protect the sort of assets that many communities feel are important to their community. And, again, I can't see anything in either of those measures that would've kept the Vulcan where it was, which would've protected the Royal Buildings and Custom House or many other buildings—that might protect the buildings in Tredegar that Alun Davies has referred to—in the light of somebody wanting to develop that particular area. And I think really we do need to have something put in legislation to provide that protection, to give communities the power to look after their own social fabric and historic fabric and the cultural fabric in which they have grown up and in which they live. Therefore, I would hope that, if the Minister is not prepared to accept these amendments, we can, in some future legislation, have some measures that will deal with this particular issue.

Fy mhryder i, Ddirprwy Lywydd, yw na fydd yr hyn sydd yn y Bil hwn a hyd yn oed yr hyn sydd yn yr ymgynghoriad a'r cynlluniau peilot y mae'r Gweinidog cymunedau yn eu rhedeg, y cyfeiriwyd atynt, yn ddigon cryf i ddiogelu'r math o asedau y mae llawer o gymunedau yn eu hystyried yn bwysig i'w cymuned. Ac, unwaith eto, ni allaf weld unrhyw beth yn unrhyw un o'r mesurau hynny a fyddai wedi cadw'r Vulcan yn ei man gwreiddiol, a fyddai wedi diogelu'r Adeiladau Brenhinol a Custom House neu lawer o adeiladau eraill—a allai warchod yr adeiladau yn Nhredegar y cyfeiriodd Alun Davies atynt—yng nghyd-destun rhywun yn dymuno datblygu yn yr ardal benodol honno. Ac rwyf wir yn credu bod angen cael rhywbeth mewn deddfwriaeth i ddarparu'r warchodaeth honno, er mwyn rhoi'r pŵer i gymunedau i ofalu am eu ffabrig cymdeithasol eu hunain a'u hadeiladwaith hanesyddol a'r ffabrig diwylliannol y maent wedi eu magu ynddo a lle maent yn byw. Felly, byddwn yn gobeithio, os nad yw'r Gweinidog yn barod i dderbyn y gwelliannau hyn, y gallwn, mewn deddfwriaeth yn y dyfodol, gael rhai mesurau a fydd yn ymdrin â'r mater penodol hwn.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 8 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 8 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 27 wedi pleidleisio o blaid, mae 27 wedi pleidleisio yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 8: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 8 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8.

Result of the vote on amendment 8.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 9.

Peter Black, gwelliant 9.

16:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I'm not moving that one, no.

Nid wyf yn cynnig ar hwnnw, nac ydw.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Amendment 9 is not being moved.

Nid yw gwelliant 9 yn cael ei gynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 9 (Peter Black [R]).*

*Amendment 9 (Peter Black [R]) not moved.*

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 12.

Peter Black, gwelliant 12.

16:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Not moved.

Heb ei gynnig.

16:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If amendment 12 is not agreed, amendments 6, 50, 48 and 46 fall. The question is that amendment—. [Interruption.] I've just asked him. Peter Black.

Os na chaiff gwelliant 12 ei dderbyn, bydd gwelliannau 6, 50, 48 a 46 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant —. [Torri ar draws.] Rwyf newydd ofyn iddo. Peter Black.

16:52

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I said I'm not moving it.

Dywedais nad wyf yn dymuno ei gynnig.

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I beg your pardon. Sorry. I do apologise. Right. Amendment 12 has not been moved and, if amendment 12 is not moved, amendments 6, 50, 48 and 46 fall. I hope I'm right now; yes. Okay, it has not been moved and the other amendments fall.

Maddeuwch imi. Mae'n ddrwg gennyf. Rwyf yn ymddiheuro. Iawn. Ni chynigiwyd gwelliant 12, ac os nad yw gwelliant 12 yn cael ei gynnig, bydd gwelliannau 6, 50, 48 a 46 yn methu. Rwy'n gobeithio fy mod i'n iawn nawr; ydw. Iawn, nid yw wedi ei gynnig ac mae'r gwelliannau eraill yn methu.

*Ni chynigiwyd gwelliant 12 (Peter Black [R]).*

*Amendment 12 (Peter Black [R]) not moved.*

*Methodd gwelliannau 6, 50, 48 a 46.*

*Amendments 6, 50, 48 and 46 fell.*

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Peter Black, amendment 39.

Peter Black, gwelliant 39.

*Cynigiwyd gwelliant 39 (Peter Black [R]).*

*Amendment 39 (Peter Black [R]) moved.*

16:52

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move.

Rwy'n cynnig.

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If amendment 39 is not agreed, amendments 40 and 41 fall. The question is that amendment 39 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 39 is agreed.

Os na chaiff gwelliant 39 ei dderbyn, bydd gwelliannau 40 a 41 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 39 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 39, wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 39 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 39 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Peter Black, amendment 40.

Peter Black, gwelliant 40.

*Cynigiwyd gwelliant 40 (Peter Black [R]).*

*Amendment 40 (Peter Black [R]) moved.*

16:52

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move.

Rwyf yn cynnig.

16:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 40 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 40 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 40 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 40, wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 40 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 40 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 41. | Peter Black, gwelliant 41.

*Cynigiwyd gwelliant 41 (Peter Black [R]).* | *Amendment 41 (Peter Black [R]) moved.*

16:53 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move. | Rwy'n cynnig.

16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 41 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 41 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 41 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 41, wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 41 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 41 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 42. | Peter Black, gwelliant 42.

*Cynigiwyd gwelliant 42 (Peter Black [R]).* | *Amendment 42 (Peter Black [R]) moved.*

16:53 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move. | Rwy'n cynnig.

16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 42 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 42 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 42 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 42 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 42 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 42 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 11. | Peter Black, gwelliant 11.

*Cynigiwyd gwelliant 11 (Peter Black [R]).* | *Amendment 11 (Peter Black [R]) moved.*

16:53 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move. | Rwy'n cynnig.

16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 11 be agreed. Does any Member object? Then, amendment 11 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 11 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 11 wedi ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* | *Amendment 11 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies, amendment 77. | Suzy Davies, gwelliant 77.

16:53 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Not moved. | Heb ei gynnig.

16:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv Fideo Video

Right. Amendment 77 is not moved.

Iawn. Ni chynigir gwelliant 77.

*Ni chynigiwyd gwelliant 77 (Suzy Davies).*

*Amendment 77 (Suzy Davies) not moved.*

### Grŵp 9: Adeiladau Rhestredig: Gwaith Brys a Gwaith Argyfwng (Gwelliannau 78, 79, 80, 81, 82, 83)

### Group 9: Listed Buildings: Urgent and Emergency Works (Amendments 78, 79, 80, 81, 82, 83)

16:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to urgent and emergency works in respect of listed buildings. The lead amendment in this group is amendment 78 and I call on Suzy Davies to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â gwaith brys ac argyfwng mewn cysylltiad ag adeiladau rhestredig. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 78 a galwaf ar Suzy Davies i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 78 (Suzy Davies).*

*Amendment 78 (Suzy Davies) moved.*

16:53

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Amendment 78, which I move, is the main amendment in this group, all others being consequential upon it. As this Bill is not a consolidating Bill and is built on amendments to existing UK legislation, amendments 79 to 83 either ensure that amendment 78 does not apply in England or adjust the wording of the 1990 Act to incorporate this amendment where that Act relates to Wales.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Gwelliant 78, yr wyf yn ei gynnig, yw'r prif welliant yn y grŵp hwn, mae pob un arall yn ganlyniadol iddo. Gan nad yw’r Bil hwn yn Fil wedi’i gydgrynhoi ac mae wedi ei adeiladu ar welliannau i ddeddfwriaeth bresennol y DU, mae gwelliannau 79 i 83 naill ai’n sicrhau nad yw gwelliant 78 yn gymwys yn Lloegr neu’n addasu geiriad Deddf 1990 i gynnwys y gwelliant hwn lle mae’r Ddeddf honno yn gymwys i Gymru .

Section 30 of the Bill addresses the important issue of recovery of costs of urgent work, and we support the general principle of this section. Although amendment 78 looks long and detailed, it’s not really as radical as its length suggests. It does need, as well, I think, to be considered alongside the amendments in group 10, as the question of the recovery of costs is material as to why I consider it necessary to distinguish between emergency and urgent work.

Mae Adran 30 o'r Bil yn mynd i'r afael â'r mater pwysig o adennill costau gwaith brys, ac rydym yn cefnogi egwyddor gyffredinol yr adran hon. Er bod gwelliant 78 yn ymddangos yn hir a manwl, nid yw wir mor radical ag y mae ei hyd yn awgrymu. Hefyd, rwy’n meddwl bod angen iddo gael ei ystyried ochr yn ochr â'r gwelliannau yn grŵp 10, gan fod y cwestiwn o adennill costau yn berthnasol o ran pam yr ystyriaf ei bod yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng gwaith argyfwng a gwaith brys.

I’ll try and limit the duplication in the next debate, but, in short, a land charge is not a proportionate way of securing recovery of costs for stand-alone emergency work, whereas it can be for the recovery of more expensive urgent work, which may include an element of emergency work.

Byddaf yn ceisio cyfyngu ar y dyblygu yn y ddadl nesaf ond, yn fyr, nid yw pridiant tir yn ffordd gymesur o sicrhau yr adenillir costau ar gyfer gwaith argyfwng annibynnol, er y gall hynny fod yn wir ar gyfer adennill costau ar gyfer gwaith brys mwy drud, a all gynnwys elfen o waith argyfwng.

So, first of all, what are urgent works? I'm sure we all have our own ideas. The 1990 Act states that they can include temporary support or shelter, but it is up to the local authority to decide and the owner to argue about after the work is done. My view is this: some work can be counted as emergency work, immediately necessary to prevent injury to any person or property and, sometimes, that emergency step is all that is needed—the removal, perhaps, of dangerous masonry that has gone beyond saving, or some pointing work that needs no special heritage building skills, but prevents, say, a chimney pot falling on somebody. In those circumstances, I am with the Deputy Minister; a week's notice, and the work gets done, like it or not. Where I disagree with the Deputy Minister is that it is appropriate for work of that nature, comparatively modest in price, to be the cause of a land charge being attached to property whose value far exceeds the cost of the stand-alone emergency works. I'll expand a little bit more on that in the next debate.

Felly, yn gyntaf oll, beth yw gwaith brys? Rwy'n siŵr bod gennym i gyd ein syniadau ein hunain. Mae Deddf 1990 yn datgan y gall gynnwys cymorth neu gysgod dros dro, ond mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu ac i'r perchennog yw dadlau amdano ar ôl i'r gwaith gael ei wneud. Fy marn i yw hyn: gellir ystyried peth gwaith fel gwaith argyfwng, sef gwaith sydd ei angen ar unwaith er mwyn atal niwed i unrhyw berson neu eiddo ac, weithiau, y cam argyfwng hwnnw yw'r cyfan sydd ei angen—tynnu gwaith maen peryglus, o bosibl, sydd wedi mynd y tu hwnt i gael ei arbed, neu rywfaint o waith pwyntio nad yw'n gofyn am unrhyw sgiliau adeiladu treftadaeth arbennig, ond sy'n atal, dyweder, bot simnai rhag syrthio ar rywun. Yn yr amgylchiadau hynny, rwyf i'n cytuno â'r Dirprwy Weinidog; wythnos o rybudd, ac mae'r gwaith yn cael ei wneud, p'un a ydym yn hoffi hynny ai peidio. Ond nid wyf yn cytuno â'r Dirprwy Weinidog o ran ei bod yn briodol i waith o'r natur honno, sy'n gymharol gymedrol o ran pris, fod yn rheswm dros bridiant tir yn cael ei roi i eiddo y mae ei werth yn llawer mwy na chost y gwaith argyfwng annibynnol. Byddaf yn ehangu ychydig yn rhagor ar hynny yn y ddadl nesaf.

However, emergency work may be a temporary precursor to more permanent appropriate, but still urgent, work. Providing support and centre, for example, may be a stand-alone, long-term emergency solution in some cases and at a modest cost, and, so, an inappropriate candidate for a land charge. But it may also be the first step in a more ambitious and costly programme of urgent restoration or conservation work, and its cost is better reflected as part of the overall cost of what is likely to be much more expensive intervention. The cost of that more ambitious project is a more appropriate candidate for a secure debt in favour of the local authority.

Fodd bynnag, gall gwaith argyfwng fod yn waith sy'n cael ei wneud yn gyntaf dros dro cyn gwneud gwaith priodol, ond eto'n waith brys, mwy parhaol. Gall darparu cymorth a chefnogaeth, er enghraifft, fod yn atebion i argyfwng annibynnol a hirdymor mewn rhai achosion, ac ar gost gymedrol, ac, felly, yn gystadleuydd amhriodol ar gyfer pridiant tir. Ond gall hefyd fod yn gam cyntaf mewn rhaglen o waith adfer brys neu waith cadwraeth fwy uchelgeisiol a chostus, ac mae'r gost hon yn cael ei hadlewyrchu'n well fel rhan o gost gyffredinol o'r hyn sy'n debygol o fod yn ymyrraeth llawer mwy costus. Mae cost y prosiect mwy uchelgeisiol yn gystadleuydd mwy priodol ar gyfer dyled sicr o blaid yr awdurdod lleol.

Not everybody is a bad guy, and Peter Black has tabled some amendments to deal with that a little bit later. Sometimes, work, however, has become urgent through neglect by a previous owner and the new owner may be a responsible person, but juggling with a range of financial responsibilities. Amendment 78 recognises that owners need time to raise money, at the same time as accepting that the law is an appropriate way to, shall we say, prod an owner into recognising that this work should now be a financial priority. I'm no more able than the Deputy Minister to suggest a suitable time for an owner to raise money. What I am able to say is that, if the local authority's ultimate sanction is to sell your land from under you, then it has to give you more than seven days before it steps onto that property and the meter starts running.

Nid yw pob person yn berson drwg, ac mae Peter Black wedi cyflwyno rhai newidiadau i ymdrin â hynny ychydig yn nes ymlaen. Weithiau, fodd bynnag, mae gwaith wedi dod yn fater brys trwy esgeulustod gan berchennog blaenorol a gall y perchennog newydd fod yn berson cyfrifol, ond sy'n jyglo amrywiaeth o gyfrifoldebau ariannol. Mae gwelliant 78 yn cydnabod bod angen amser ar berchnogion i godi arian, gan dderbyn ar yr un pryd bod y gyfraith yn ffordd briodol i, ddywedwn ni, ysgogi perchennog i gydnabod y dylai'r gwaith hwn yn awr fod yn flaenoriaeth ariannol. Ni allaf innau, yn fwy na'r Dirprwy Weinidog, awgrymu amser addas i berchennog godi arian. Yr hyn allaf ei ddweud yw, os mai cosb eithaf yr awdurdod lleol yw cymryd eich tir oddi wrthoch chi a'i werthu, yna mae'n rhaid iddo roi mwy na saith diwrnod i chi cyn iddo gamu ar yr eiddo hwnnw a dechrau'r mesurydd i redeg.

I'm therefore suggesting that a notice period for urgent work, as opposed to emergency work, be introduced via regulation—a notice period that will not prevent a local authority intervening in a timely way, but that allows an owner time to raise the money to do the work themselves. I'm not suggesting an overgenerous period, as the work is urgent, but I would be reluctant to simply bring in regulations that offer an additional couple of days. For that reason, I've sought the affirmative procedure for the introduction of any such regulations so that the Assembly has the opportunity to approve a sensible compromise. Thank you.

Felly, rwyf yn awgrymu bod cyfnod rhybudd ar gyfer gwaith brys, yn hytrach na gwaith argyfwng, yn cael ei gyflwyno trwy reoleiddio—cyfnod rhybudd na fydd yn atal awdurdod lleol rhag ymyrryd mewn modd amserol, ond sy'n caniatáu amser i berchennog godi arian i wneud y gwaith eu hunain. Nid wyf yn awgrymu cyfnod rhy hael, gan fod brys ar y gwaith, ond byddwn yn amharod i gyflwyno rheoliadau sy'n cynnig cwpl o ddiwrnodau ychwanegol yn unig. Am y rheswm hwnnw, rwyf wedi ceisio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer cyflwyno unrhyw reoliadau o'r fath fel bod cyfle gan y Cynulliad i gymeradwyo cyfaddawd synhwyrol. Diolch.

16:58

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Deputy Minister is aware of situations where many local authorities are unable to maintain the safety of buildings that are in the condition that has been described by Suzy Davies. He's aware, particularly, of the old truck shop operated by the Tredegar Iron and Coal Company, where workers were forced to pay Homfray's prices in Homfray's coins. It's an absolutely essential part of our social history. It's now, of course, in the situation—[Interruption.] Yes, the Tories are bringing it back. It's now in a situation whereby an owner has no interest in either the building or what it represents—its history and heritage—and is allowing the building to fall to rack and ruin. The consequence is, of course, that the local authority then has to invest its money in maintaining the safety and security of that building.

Mae'r Dirprwy Weinidog yn ymwybodol o sefyllfaoedd lle mae llawer o awdurdodau lleol yn methu â chynnal diogelwch yr adeiladau sydd yn y cyflwr a ddisgrifiwyd gan Suzy Davies. Mae'n ymwybodol, yn enwedig, o'r hen siop drwco a weithredwyd gan Gwmni Haearn a Glo Tredegar, lle'r oedd gweithwyr yn cael eu gorfodi i dalu prisiau Homfray mewn darnau arian Homfray. Mae'n rhan gwbl hanfodol o'n hanes cymdeithasol. Mae nawr, wrth gwrs, yn y sefyllfa— [Torri ar draws.] Ydy, mae'r Torïaid yn dod â hi yn ei hôl. Mae bellach mewn sefyllfa lle nad oes gan berchennog unrhyw ddiddordeb naill ai yn yr adeilad nac yn yr hyn mae'n ei gynrychioli—ei hanes a'i dreftadaeth—ac mae'n caniatáu i'r adeilad fynd â'i ben iddo. Y canlyniad yw, wrth gwrs, bod yn rhaid i'r awdurdod lleol fuddsoddi ei arian mewn cynnal diogelwch a sicrwydd yr adeilad hwnnw.

This is something that happens on many occasions with many buildings in different parts of the country. I believe that we do need to ensure that there is a very real mechanism by which the owners of these properties are compelled to maintain these properties and compelled to ensure that they are kept in good order and safe, to ensure that the heritage isn't simply lost as a matter of fault, but is not actually destroyed by the actions or inactions of property owners who have alternative or other agendas. So, it's important, I believe, that we as a National Assembly not only pass this legislation this afternoon, but do so in such a way as to ensure that we take active steps to ensure that these buildings are actively managed and that the Government and local authorities have sufficient powers to ensure that we're not in a situation, as we are in Tredegar, where we see these buildings falling to pieces in front of our eyes as a result of deliberate neglect with the local authority struggling to maintain basic health and safety around it. So, I'd be grateful to the Minister if he could respond to these amendments.

Mae hyn yn rhywbeth sy'n digwydd ar sawl achlysur gyda nifer o adeiladau mewn gwahanol rannau o'r wlad. Rwyf yn credu bod angen inni sicrhau bod mecanwaith real iawn yn bodoli lle mae perchnogion yr eiddo yn cael eu gorfodi i gynnal a chadw'r eiddo a'u gorfodi i sicrhau eu bod yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac yn ddiogel, fel nad yw'r dreftadaeth yn cael ei cholli fel mater o fai, ond nid yw'n cael ei dinistrio mewn gwirionedd gan weithredu neu ddiffyg gweithredu perchnogion eiddo sydd ag agendâu amgen neu eraill. Felly, mae'n bwysig, yn fy marn i, ein bod ni fel Cynulliad Cenedlaethol, nid yn unig yn pasio'r ddeddfwriaeth hon y prynhawn yma, ond yn gwneud hynny mewn modd a fydd yn gwneud yn siŵr ein bod yn cymryd camau i sicrhau bod yr adeiladau hyn yn cael eu rheoli'n weithredol a bod gan y Llywodraeth ac awdurdodau lleol bwerau digonol i sicrhau nad ydym mewn sefyllfa debyg i un Tredegar. Yma rydym yn gweld yr adeiladau hyn yn syrthio'n ddarnau o flaen ein llygaid o ganlyniad i esgeulustod bwriadol gyda'r awdurdod lleol yn brwydro i gynnal iechyd a diogelwch sylfaenol ynddynt. Felly, byddwn yn ddiolchgar i'r Gweinidog pe gallai ymateb i'r gwelliannau hyn.

17:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister.

Weinidog.

17:00

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. The objective of section 30 of the Bill is to encourage local authorities to use their powers to undertake urgent works when they are needed to deal with neglected listed buildings. I am conscious that their use will continue to carry a significant financial risk for authorities.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Amcan adran 30 y Bil yw annog awdurdodau lleol i ddefnyddio eu pwerau i ymgymryd â gwaith brys pan mae ei angen i ymdrin ag adeiladau rhestredig sydd wedi'u hesgeuluso. Rwy'n ymwybodol y bydd eu defnydd yn parhau i fod â risg ariannol sylweddol i awdurdodau.

Urgent works will still only be used infrequently, and only when there is no other means of ensuring the preservation of an important listed building. However, these amendments, which attempt to restrict the use of the seven-day notice period prescribed for urgent works to what is defined as 'emergency works', would severely compromise the use of such powers. This seven-day notice period for urgent works has been in place since 1990, and I am not aware of any problems or cases of misuse.

Dim ond yn anaml y bydd gwaith brys yn cael ei ddefnyddio, a dim ond pan nad oes unrhyw ddull arall o sicrhau cadwraeth adeilad rhestredig pwysig. Fodd bynnag, byddai'r gwelliannau hyn, sy'n ceisio cyfyngu ar y defnydd o'r cyfnod rhybudd o saith diwrnod rhagnodedig ar gyfer gwaith brys i'r hyn gaiff ei ddiffinio fel 'gwaith argyfwng', yn peryglu defnyddio pwerau o'r fath yn ddifrifol. Mae'r cyfnod rhybudd o saith diwrnod ar gyfer gwaith brys wedi bod ar waith ers 1990, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw broblemau neu achosion o gamddefnyddio.

In any case, the proposed definition for 'emergency works' is seriously flawed. On the one hand, the Member defines them as works needed in order to prevent injury or death. Does this mean that an owner is to be given seven days' notice before works can be undertaken that are needed to prevent death? In any case, there is already legislation in place dealing with dangerous structures, such as section 78 of the Building Act 1984, which would conflict with this amendment.

Beth bynnag, mae'r diffiniad arfaethedig ar gyfer 'gwaith argyfwng' yn ddiffygiol iawn. Ar y naill law, mae'r Aelod yn ei ddiffinio fel gwaith sydd ei angen er mwyn atal anaf neu farwolaeth. A yw hyn yn golygu bod perchennog yn cael saith diwrnod o rybudd cyn y gellir cyflawni gwaith sydd ei angen i atal marwolaeth? Beth bynnag, mae deddfwriaeth ar waith eisoes sy'n ymdrin ag adeiladau peryglus, megis adran 78 Deddf Adeiladu 1984, a fyddai'n gwrthdaro â'r gwelliant hwn.

On the other hand, Deputy Presiding Officer, the Member's definition of 'emergency works' includes works to prevent damage. Now, this could be interpreted to include relatively minor works to stop small leaks or to halt disrepair. This was surely not the Member's intention.

Ar y llaw arall, Ddirprwy Lywydd, mae diffiniad yr Aelod o 'waith argyfwng' yn cynnwys gwaith i atal difrod. Nawr, gellid dehongli hyn i gynnwys gwaith cymharol fach i atal mân ddiferiadau neu atal unrhyw ddadfeilio. Go brin mai dyma oedd bwriad yr Aelod.

Also, the emergency works aspect of the amendment makes no provision for the costs to be recovered from the owner. Consequently, I very much doubt whether they would ever be used.

Hefyd, nid yw'r agwedd ar waith argyfwng yn y gwelliant yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer adennill costau oddi wrth y perchennog. O ganlyniad, rwy'n amau yn fawr iawn a fyddent byth yn cael eu defnyddio.

To conclude, my view is that the amendments are unnecessary. They would undermine what the Bill is attempting to achieve and, as drafted, might have unintended consequences. Instead, the guidance that is being prepared for local authorities on managing listed buildings at risk will emphasise the need for early and continued dialogue with owners and the need to provide suitable support and advice. It will stress that actions such as urgent works need to be reasonable and proportionate and should only be used when other approaches have failed and the building is at risk. I recommend that this group of amendments is rejected.

I gloi, fy marn i yw bod y gwelliannau yn ddiangen. Byddent yn tanseilio'r hyn y mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni ac, fel y'u drafftiwyd, gallent arwain at ganlyniadau anfwriadol. Yn lle hynny, bydd y canllawiau sy'n cael eu paratoi ar gyfer awdurdodau lleol ar reoli adeiladau rhestredig sydd mewn perygl yn pwysleisio'r angen am ddeialog gynnar a pharhaus gyda pherchnogion a'r angen i ddarparu cymorth a chyngor addas. Bydd yn pwysleisio bod angen i gamau gweithredu fel gwaith brys fod yn rhesymol ac yn gymesur a dim ond pan fo dulliau eraill wedi methu a phan fo'r adeilad mewn perygl y dylid eu defnyddio. Rwy'n argymell bod y grŵp hwn o welliannau yn cael ei wrthod.

17:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies to reply.

Suzy Davies i ateb.

17:03

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Firstly, to address Alun Davies's points, I think we would agree that where there is deliberate neglect, with a particular view to a pecuniary advantage, shall we say, which I think all of us will have experienced, then these amendments won't protect those at all. In fact, I think Peter Black is introducing amendments later on that do deal with that, and we will be supporting those amendments, because not only should owners who deliberately allow buildings to decay in that way be obliged to spend money on them, and spend money on them promptly, but they should be fined for doing it as well.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Yn gyntaf, i roi sylw i bwyntiau Alun Davies. Rwyf yn meddwl y byddem yn cytuno, yn achos esgeulustod bwriadol, gyda golwg benodol ar fantais ariannol, yr ydym i gyd, rwy'n meddwl, wedi cael profiad ohono, yna ni fyddai'r gwelliannau hyn yn diogelu'r rheini o gwbl. Yn wir, rwy'n meddwl bod Peter Black yn cyflwyno gwelliannau yn nes ymlaen sy'n ymdrin â hynny. Byddwn yn cefnogi'r gwelliannau hynny oherwydd dylai fod yn ofynnol i berchnogion sy'n fwriadol yn caniatáu i adeiladau ddirywio yn y ffordd honno wario arian arnynt, a gwario arian arnynt yn brydlon, ond dylent hefyd gael eu dirwyo am wneud hynny.

These amendments are aimed primarily at people who are responsible with their property but just haven't had an opportunity to get their cash together, if you like, in order to solve the problem. That's what's at the bottom of the distinction between tackling emergency works—and I am happy to take the Deputy Minister's point on the drafting of it; these are very recent amendments—but the distinction is an important one because emergency works need doing now and, invariably, they're not that costly; whereas if you're going to conduct urgent works over a period of time that are in keeping with the nature of the property, they will be expensive and you are going to have owners with all the goodwill in the world who need time to raise that money. So, that's the purpose of these amendments.

Mae'r gwelliannau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at bobl sy'n ymddwyn yn gyfrifol gyda'u heiddo ond sydd heb gael y cyfle i gasglu eu harian ynghyd, os hoffech, er mwyn datrys y broblem. Dyna beth sydd wrth wraidd y gwahaniaeth rhwng mynd i'r afael â gwaith argyfwng—ac rwy'n hapus i gymryd pwynt y Dirprwy Weinidog ar ei ddrafftio; mae'r rhain yn welliannau diweddar iawn—ond mae'r gwahaniaeth yn un pwysig oherwydd bod angen gwneud gwaith argyfwng yn awr ac, yn ddieithriad, dydyn nhw ddim mor gostus; ond os ydych chi'n mynd i gyflawni gwaith brys dros gyfnod o amser, sy'n briodol i natur yr eiddo, bydd yn ddrud, ac rydych yn mynd i gael perchnogion gyda'r holl ewyllys da yn y byd ond bydd angen amser arnynt i godi'r arian. Felly, dyna bwrpas y gwelliannau hyn.

I thought that the distinction was important because the actual purpose of the Bill isn't undermined simply by allowing some practical steps to an owner to find the money to pay the bill. So, I'm disappointed that the Deputy Minister has taken the route that he has. Thank you.

Roeddwn i'n meddwl bod y gwahaniaeth yn bwysig oherwydd nad yw diben gwirioneddol y Bil yn cael ei danseilio drwy ganiatáu rhai camau ymarferol i berchennog ddod o hyd i'r arian i dalu'r bil. Felly, rwy'n siomedig bod y Dirprwy Weinidog wedi cymryd y llwybr y mae wedi'i gymryd. Diolch.

17:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 78 is not agreed, amendment 83 falls. The question is that amendment 78 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27; there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Os na chaiff gwelliant 78 ei dderbyn, bydd gwelliant 83 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 78 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid; pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 78: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 78 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 78.

Result of the vote on amendment 78.

*Methodd gwelliant 83.*

*Amendment 83 fell.*

17:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies, amendment 79.

Suzy Davies, gwelliant 79.

17:05

## Suzy Davies

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will not be moving amendments 79 to 83 inclusive.

Ni fyddaf yn cynnig gwelliannau 79 i 83 yn gynhwysol.

17:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, we'll go through it individually. So, amendment 79 is not moved.

Na, byddwn yn mynd drwyddo yn unigol. Felly, nid yw gwelliant 79 yn cael ei gynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 79 (Suzy Davies).*

*Amendment 79 (Suzy Davies) not moved.*

17:05

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies, amendment 80.

Suzy Davies, gwelliant 80.

17:05 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Not moved.

Heb ei gynnig.

Senedd.tv Fideo Video

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Amendment 80 is not moved.

Nid yw gwelliant 80 yn cael ei gynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 80 (Suzy Davies).*

*Amendment 80 (Suzy Davies) not moved.*

Senedd.tv Fideo Video

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Suzy Davies, amendment 81.

Suzy Davies, gwelliant 81.

Senedd.tv Fideo Video

17:05 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Not moved.

Heb ei gynnig.

Senedd.tv Fideo Video

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Amendment 81 is not moved.

Nid yw gwelliant 81 yn cael ei gynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 81 (Suzy Davies).*

*Amendment 81 (Suzy Davies) not moved.*

Senedd.tv Fideo Video

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Suzy Davies, amendment 82.

Suzy Davies, gwelliant 82.

Senedd.tv Fideo Video

17:05 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Not moved.

Heb ei gynnig.

Senedd.tv Fideo Video

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Amendment 82 is not moved.

Nid yw gwelliant 82 yn cael ei gynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 82 (Suzy Davies).*

*Amendment 82 (Suzy Davies) not moved.*

Senedd.tv Fideo Video

## Grŵp 10: Adeiladau Rhestredig: Adennill Costau (Gwelliannau 84, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 29, 30)

## Group 10: Listed Buildings: Recovery of Costs (Amendments 84, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 29, 30)

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The next group of amendments relates to the recovery of costs for works to listed buildings. The lead amendment in this group is amendment 84. I call on Suzy Davies to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud ag adennill costau ar gyfer gwaith i adeiladau rhestredig. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 84. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 84 (Suzy Davies).*

*Amendment 84 (Suzy Davies) moved.*

Senedd.tv Fideo Video

17:06 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Amendment 84, which I now move, is a variation on a Stage 2 amendment. The Minister accepted our amendment that Welsh Government should set the interest rate on unpaid costs of urgent works, which include works that I characterised as 'emergency' in the last debate, and that's now set out in section 36 of the Bill. This amendment calls for the draft order setting out the interest rate to be laid before the Assembly in the first instance, but with any changes in the future to be left to the negative procedure. Now, ordinarily, I might not have pressed for the affirmative procedure in the first instance, but, as the current county court interest rate is so high, I'd be reluctant to see something similar imposed in the circumstances considered in this Bill. My reading of the Deputy Minister's amendments 29 and 30 allow for the order to be made by statutory instrument, but not with the benefit of the affirmative procedure, and I would be grateful if he would confirm that my understanding is correct.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae gwelliant 84, yr wyf yn awr yn ei gynnig, yn amrywiad ar welliant Cyfnod 2. Derbyniodd y Gweinidog ein gwelliant y dylai Llywodraeth Cymru osod y gyfradd llog ar gostau gwaith brys sydd heb eu talu, sy'n cynnwys gwaith a ddisgrifiwyd gennyf fel gwaith 'argyfwng' yn y ddadl ddiwethaf, ac sydd bellach yn cael ei nodi yn adran 36 o'r Bil. Mae'r gwelliant hwn yn galw am i'r gorchymyn drafft sy'n pennu'r gyfradd llog gael ei osod gerbron y Cynulliad yn y lle cyntaf, ond dylid gadael unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r weithdrefn negyddol. Nawr, fel arfer, efallai na fyddwn wedi pwyso am y weithdrefn gadarnhaol yn y lle cyntaf, ond, gan fod cyfradd llog presennol y llys sirol mor uchel, byddwn i'n gyndyn o weld rhywbeth tebyg yn cael ei osod dan yr amgylchiadau a ystyriwyd yn y Bil hwn. Mae fy nehongliad i o welliannau 29 a 30 y Dirprwy Weinidog yn caniatáu i'r gorchymyn gael ei wneud drwy offeryn statudol, ond nid gyda mantais y weithdrefn gadarnhaol, a byddwn yn ddiolchgar pe byddai'n cadarnhau bod fy nealltwriaeth yn gywir.

The other amendments in this group nuance the intention expressed in section 32 to secure debt owed to a local authority as the result of it undertaking urgent works, and, as indicated in the previous debate, we support that principle. However, the Bill permits the debt to be secured via a charge on the land on which the building stands, with powers of enforcement similar to those of a mortgagee. My difficulty is the extent of the land to which the charge attaches. The building repaired may occupy just a small piece of the land comprised within the title, and the value of that may far outstrip the cost of the work. Therefore, amendment 85 seeks to restrict the extent of the charge so that it attaches to the immediate land on which the building sits, rather than the whole land that may be comprised within a title.

Mae'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn yn rhoi arlliw o'r bwriad a fynegwyd yn adran 32 i sicrhau dyled sy'n ddyledus i'r awdurdod lleol o ganlyniad iddo ymgymryd â gwaith brys, ac, fel y nodwyd yn y ddadl flaenorol, rydym yn cefnogi'r egwyddor honno. Fodd bynnag, mae'r Bil yn caniatáu i'r ddyled gael ei sicrhau drwy bridiant ar y tir y mae'r adeilad yn sefyll arno, gyda phwerau gorfodi tebyg i rhai sydd gan y saw sy'n codi'r morgais. Fy anhawster i yw maint y tir y mae'r pridiant ynghlwm wrtho. Gallai'r adeilad sy'n cael ei drwsio o bosibl fod ar ddarn bach yn unig o'r tir a gynhwyswyd o fewn y teitl, a gall gwerth hynny fod yn llawer mwy na chost y gwaith. Felly, mae gwelliant 85 yn ceisio cyfyngu ar faint y pridiant fel ei fod ynghlwm wrth y tir cyfagos y mae'r adeilad yn sefyll arno, yn hytrach na'r holl dir a allai fod yn gynwysedig mewn teitl.

This Bill introduces the power for local authorities to enter and carry out urgent works on a building that may be wholly or partly in residential use, and this is new, as the existing UK legislation only deals with unoccupied buildings. A power of sale or appointing a receiver attaching to that property has serious consequences for any residents of such a property, especially when local authorities can activate the charge in a comparatively short period of time, as we'll see when I speak to amendment 87. In the case of work on a residential property, amendment 85 allows the charge to be secured upon alternative land of the owner, as long as the value is no less than that of the immediate land on which the residential property sits, and that has to be done with the mutual agreement of the parties there. This amendment also attempts to ensure that it does not take priority over earlier registered legal charges.

Mae'r Bil yn cyflwyno pŵer i awdurdodau lleol fynd i mewn i adeilad a allai fod yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn defnydd preswyl, a gwneud gwaith brys arno, ac mae hyn yn newydd, gan fod deddfwriaeth yn unig. Mae pŵer gwerthu neu benodi derbynnydd ynghlwm wrth yr eiddo yn golygu canlyniadau difrifol ar gyfer unrhyw drigolion eiddo o'r fath, yn enwedig pan all awdurdodau lleol ysgogi'r tâl mewn cyfnod cymharol fyr o amser, fel y byddwn yn gweld pan fyddaf yn siarad am welliant 87. Yn achos gwaith ar eiddo preswyl, mae gwelliant 85 yn caniatáu i'r pridiant gael ei sicrhau ar dir amgen y perchennog, cyhyd â bod y gwerth ddim llai nag un y tir cyfagos y mae'r eiddo preswyl yn sefyll arno, ac y mae'n cael ei wneud gyda chytundeb y partïon yno. Mae'r gwelliant hwn hefyd yn ceisio sicrhau nad yw'n cymryd blaenoriaeth dros bridiant cyfreithiol cofrestredig cynharach.

Where a charge under section 30 has been secured on the owner's land, amendment 87 restricts the local authority from exercising its power to recover its debt in haste. The local authority can act upon the charge one month after it takes effect, according to the Bill at the moment. And, once again, that is not long enough for an owner to pay up to prevent the appointment of a receiver. This amendment requires a local authority to try and negotiate an acceptable payment plan with the owner, not unlike a voluntary arrangement in bankruptcy proceedings. If a plan is agreed but not complied with by the owner, then the local authority is, of course, free to take it to recovery proceedings.

Pan fo pridiant o dan adran 30 wedi ei sicrhau ar dir y perchennog, mae gwelliant 87 yn cyfyngu ar yr awdurdod lleol rhag arfer ei bŵer i adennill ei ddyled ar frys. Gall yr awdurdod lleol weithredu ar y cyhuddiad un mis ar ôl iddo ddod i rym, yn ôl y Bil ar hyn o bryd. Ac, unwaith eto, nid yw hynny'n ddigon o amser i berchennog dalu i atal penodi derbynnydd. Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol geisio trafod cynllun talu derbyniol gyda'r perchennog, nid annhebyg i drefniant gwirfoddol mewn achos methdaliad. Os cytunir ar gynllun ond na chydymffurfir â'r cynllun gan y perchennog, yna mae'r awdurdod lleol, wrth gwrs, yn rhydd i fwrw ymlaen ag achos adennill costau.

Amendment 86 is consequential on amendment 87, so I will be moving that, but the other amendments are consequential on amendment 78 in group 2, and so I will not be moving them. Thank you.

Mae gwelliant 86 yn ganlyniadol ar welliant 87, felly byddaf yn cynnig hynny, ond mae'r gwelliannau eraill yn ganlyniadol i welliant 78 yng ngrŵp 2, ac felly ni fyddaf yn eu cynnig. Diolch.

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister.

Weinidog.

17:09 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, as I said moments ago, the objective of section 30 of the Bill is to encourage local authorities to use their powers to undertake works to save a building when action is urgently needed. All too often they are reluctant to undertake such urgent works because of the difficulty in recovering their costs. Consequently, we are losing much-loved historic buildings. These amendments would undermine this objective and make it much harder for a local authority to impose an effective land charge on such a building.

Ddirprwy Lywydd, fel y dywedais eiliadau yn ôl, amcan adran 30 y Bil yw annog awdurdodau lleol i ddefnyddio eu pwerau i ymgymryd â gwaith i achub adeilad pan mae angen gweithredu ar frys. Yn rhy aml o lawer, maent yn amharod i ymgymryd â gwaith brys o'r fath oherwydd anhawster i adennill eu costau. O ganlyniad, rydym yn colli adeiladau hanesyddol poblogaidd iawn. Byddai'r gwelliannau hyn yn tanseilio'r amcan hwn ac yn ei gwneud yn llawer anoddach i awdurdod lleol osod pridiant tir effeithiol ar adeilad o'r fath.

Under amendment 85, the local land charge for non-residential buildings would be limited to the footprint of the building. This would severely limit any cost recovery as the value of the building may be limited; indeed, a building may be impossible to sell if it is landlocked within a large estate. Similarly, recovery could be problematic if a site comprises a complex of buildings and structures in various states of preservation. Under the amendment, the local land charge for residential buildings would not be against the building itself or the whole property, but, instead, against land in the same ownership following an agreement between the parties. The only situation in which the local land charge would be against the building would be where no such alternative land exists or where the owner fails to act reasonably.

O dan welliant 85, byddai'r pridiant tir lleol ar gyfer adeiladau dibreswyl yn cael ei gyfyngu i ôl troed yr adeilad. Byddai hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar unrhyw gostau y gellid eu hadennill oherwydd gall gwerth yr adeilad fod yn gyfyngedig; yn wir, gall adeilad fod yn amhosibl ei werthu os yw'n dirgaeëdig o fewn ystâd fawr. Yn yr un modd, gallai adennill fod yn broblem os yw safle yn cynnwys nifer o adeiladau a strwythurau mewn gwahanol gyflwr o gadwraeth. O dan y gwelliant, ni fyddai'r pridiant tir lleol ar gyfer adeiladau preswyl yn erbyn yr adeilad ei hun neu'r eiddo cyfan, ond, yn hytrach, yn erbyn tir yn yr un berchnogaeth yn dilyn cytundeb rhwng y partïon. Yr unig sefyllfa lle byddai'r pridiant tir lleol yn erbyn yr adeilad fyddai lle nad oes tir arall o'r fath yn bodoli, neu lle bo'r perchennog yn methu â gweithredu'n rhesymol.

The amendment fails to define what is meant by land in the same ownership. For example, could it apply to land in a different local authority area or even, indeed, outside Wales? And what is meant by acting 'reasonably' in this instance? I really rather feel that this is a recipe for legal disputes. Local land charges are a well-established system and the relevant legislation has the procedural safeguards in place to ensure that it operates appropriately. Amendment 87 would prevent a receiver being appointed until the local authority has first taken reasonable steps to negotiate a payment arrangement. Again, there are well-established procedures in place, with appropriate safeguards, relating to the appointment of a receiver. As I said earlier, the new guidance, aimed at local authorities, that is being prepared on managing listed buildings at risk will emphasise the need for early and continued dialogue with owners along with suitable support and advice. It will make clear that urgent works should only be used as a last resort when other strategies have failed, and that local authorities must act in a reasonable and proportionate way when using these powers.

Mae'r gwelliant yn methu â diffinio'r hyn a olygir gan dir yn yr un berchnogaeth. Er enghraifft, a allai fod yn berthnasol i dir mewn ardal awdurdod lleol gwahanol neu hyd yn oed, yn wir, y tu allan i Gymru? A beth a olygir gan weithredu 'rhesymol' yn yr achos hwn? Rwy'n teimlo braidd bod hyn yn rysáit ar gyfer anghydfodau cyfreithiol. Mae pridiannau tir lleol yn system sydd wedi'i hen sefydlu ac mae gan y ddeddfwriaeth berthnasol y dulliau diogelu gweithdrefnol ar waith i sicrhau ei bod yn gweithredu'n briodol. Byddai gwelliant 87 yn atal penodi derbynnydd hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi cymryd camau rhesymol i drafod trefniant talu yn gyntaf. Unwaith eto, mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu, gyda dulliau diogelu priodol, yn ymwneud â phenodi derbynnydd. Fel y dywedais yn gynharach, bydd y canllawiau newydd, a anelwyd at awdurdodau lleol, sy'n cael eu paratoi ar reoli adeiladau rhestredig mewn perygl yn pwysleisio'r angen am ddeialog gynnar a pharhaus gyda pherchnogion, ynghyd â chefnogaeth a chyngor addas. Bydd y canllawiau'n egluro mai fel dewis olaf yn unig y dylid defnyddio gwaith brys, a hynny pan fo strategaethau eraill wedi methu, a bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithredu mewn ffordd resymol a chymesur wrth ddefnyddio'r pwerau hyn.

This group of amendments would undermine the ability of local authorities to recover their costs, and consequently further discourage them from using their urgent works powers. So, I would urge that this group of amendments is rejected. I would also ask you to reject amendment 84, which would require the regulations setting the interest rate for the recovery of costs to be subject to the affirmative procedure on the first occasion that they are made.

Byddai'r grŵp hwn o welliannau yn tanseilio gallu'r awdurdodau lleol i adennill eu costau, ac o ganlyniad yn eu hannog ymhellach rhag defnyddio eu pwerau gwaith brys. Felly, byddwn yn annog bod y grŵp hwn o welliannau yn cael ei wrthod. Byddwn hefyd yn gofyn i chi wrthod gwelliant 84, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau sy'n gosod y gyfradd llog ar gyfer adennill costau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol y tro cyntaf y cânt eu gwneud.

Now, I do appreciate Suzy Davies's concern that interest rates may be set too high, and for this reason I accepted her amendment at Stage 2, which will require the Welsh Ministers to set the rate rather than individual planning authorities. The methodology by which the rate is set will aim to strike the right balance between fairness to both the owner of the building and the local authority. However, I remain of the view that the negative procedure is more appropriate here, as the regulations concern fairly routine business, and I ask you to support amendments 29 and 30, which would achieve this.

Nawr, rwy'n gwerthfawrogi pryder Suzy Davies y gall cyfraddau llog gael eu gosod yn rhy uchel, ac am y rheswm hwn derbyniais ei gwelliant yng Nghyfnod 2, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod y gyfradd yn hytrach nag awdurdodau cynllunio unigol. Bydd y fethodoleg a ddefnyddir i osod y gyfradd yn anelu at gael y cydbwysedd cywir rhwng tegwch i berchennog yr adeilad a'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, rwy'n parhau i fod o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn fwy priodol yma, gan fod y rheoliadau yn ymwneud â busnes gweddol arferol, a gofynnaf ichi gefnogi gwelliannau 29 a 30, a fyddai'n cyflawni hyn.

17:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies to reply.

Davies Suzy i ateb.

17:13

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. Firstly, just to deal with the affirmative/negative conundrum, I hear what you say, and obviously we just have a simple difference of opinion on that. I am disappointed, though, Deputy Minister, that you haven't really understood what these amendments were trying to achieve. You may have your points on the specific drafting of that, and, again, we may have a difference of opinion, but this is about the practical effect of what happens to somebody when a local land charge is imposed upon your property, which may be far more valuable than the cost of the work that has been carried out by the local authority.

Diolch yn fawr iawn. Yn gyntaf, i ymdrin â'r benbleth gadarnhaol/negyddol, deallaf yr hyn a ddywedwch, ac yn amlwg mae gennym wahaniaeth barn syml ar hynny. Rwy'n siomedig, fodd bynnag, Ddirprwy Weinidog, nad ydych wedi deall mewn gwirionedd beth yr oedd y gwelliannau hyn yn ceisio ei gyflawni. Efallai bod gennych eich pwyntiau ar y drafftio penodol ar hynny, ac, unwaith eto, efallai y bydd gennym wahaniaeth barn, ond mae hyn yn ymwneud â'r effaith ymarferol o'r hyn sy'n digwydd i rywun pan fydd pridiant tir lleol yn cael ei osod ar eich eiddo, a all fod yn llawer mwy gwerthfawr na chost y gwaith sydd wedi ei wneud gan yr awdurdod lleol.

As I explained in my opening remarks, there is a possibility of people being evicted from their residential property simply because of work that's been done on that property when there are actually alternative security arrangements available. I hope that it would never come to that. I don't think it's asking too much of a local authority to wait a little while to recover its debt, and I don't think any of them are in quite such desperate straits. While you may be right on some of the comments that you've made about the specific drafting of this, I think the intention of this amendment is a serious and important intention, and I repeat something that Peter Black said a little bit earlier, in an earlier debate: if this amendment does not pass today, I really recommend that the next Government of this place considers bringing in amendments to this Bill in order to solve the problem that I've raised here. Thank you.

Fel yr esboniais yn fy sylwadau agoriadol, mae posibilrwydd o bobl yn cael eu troi allan o'u heiddo preswyl yn syml oherwydd gwaith sydd wedi cael ei wneud ar yr eiddo hwnnw pan fo trefniadau diogelwch eraill ar gael. Rwy'n gobeithio na fydd byth yn dod i hynny. Nid wyf yn credu ei bod yn gofyn gormod ar awdurdod lleol i aros ychydig i adennill ei ddyled, ac nid wyf yn meddwl bod unrhyw un ohonynt yn y fath sefyllfa enbyd. Er y gallech fod yn iawn ar rai o'r sylwadau yr ydych wedi eu gwneud am y drafftio penodol ar hyn, rwy'n meddwl bod bwriad y gwelliant hwn yn fwriad difrifol a phwysig, ac rwy'n ailadrodd rhywbeth a ddywedodd Peter Black ychydig yn gynharach, mewn dadl gynharach: os nad yw'r gwelliant hwn yn pasio heddiw, rwyf wir yn argymell bod Llywodraeth nesaf y lle hwn yn ystyried dod â gwelliannau i'r Bil hwn er mwyn datrys y broblem yr wyf wedi'i chodi yma. Diolch.

17:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If amendment 84 is agreed, amendments 29 and 30 fall. The question is that amendment 84 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Os derbynnir gwelliant 84, bydd gwelliannau 29 a 30 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 84 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 84: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 84 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 84.

Result of the vote on amendment 84.

17:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Suzy Davies, amendment 85.

Suzy Davies, gwelliant 85.

*Cynigiwyd gwelliant 85 (Suzy Davies).*

*Amendment 85 (Suzy Davies) moved.*

17:15

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Moved.

Wedi cynnig.

17:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 85 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 85 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 85: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 85 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 85.

Result of the vote on amendment 85.

17:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Suzy Davies, amendment 86.

Suzy Davies, gwelliant 86.

*Cynigiwyd gwelliant 86 (Suzy Davies).*

*Amendment 86 (Suzy Davies) moved.*

17:15

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Moved.

Wedi cynnig.

17:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 86 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 86 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 86: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 86 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 86.](#)

[Result of the vote on amendment 86.](#)

17:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Suzy Davies, amendment 87.

Suzy Davies, gwelliant 87.

*Cynigiwyd gwelliant 87 (Suzy Davies).*

*Amendment 87 (Suzy Davies) moved.*

17:16

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Moved.

Wedi cynnig.

17:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If amendment 87 is not agreed, amendment 88 falls. The question is that amendment 87 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Os na chaiff gwelliant 87 ei dderbyn, bydd gwelliant 88 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 87 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 87: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 87 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 87.](#)

[Result of the vote on amendment 87.](#)

*Methodd gwelliant 88.*

*Amendment 88 fell.*

17:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Suzy Davies, amendment 89.

Suzy Davies, gwelliant 89.

17:17 **Suzy Davies** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Not moved.

Heb ei gynnig.

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Amendment 89 is not moved.

Nid yw gwelliant 89 yn cael ei gynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 89 (Suzy Davies).*

*Amendment 89 (Suzy Davies) not moved.*

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Suzy Davies, amendment 90.

Suzy Davies, gwelliant 90.

17:17 **Suzy Davies** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Not moved.

Heb ei gynnig.

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Amendment 90 is not moved.

Nid yw gwelliant 90 yn cael ei gynnig.

*Ni chynigiwyd gwelliant 90 (Suzy Davies).*

*Amendment 90 (Suzy Davies) not moved.*

## Grŵp 11: Diogelu Adeiladau Rhestredig mewn Cyflwr Gwael (Gwelliannau 52, 51, 53, 54)

## Group 11: Preservation of Listed Buildings in Disrepair (Amendments 52, 51, 53, 54)

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The next group of amendments relates to the preservation of listed buildings in disrepair. The lead amendment in this group is amendment 52, and I call on Peter Black to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â chadwraeth adeiladau rhestredig mewn cyflwr gwael. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 52, a galwaf ar Peter Black i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 52 (Peter Black [R]).*

*Amendment 52 (Peter Black [R]) moved.*

17:17 **Peter Black** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move the lead amendment? These amendments stem from the Communities, Equality and Local Government Committee’s report recommendation 9, which suggests that the Deputy Minister should:

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i gynnig y prif welliant? Mae'r gwelliannau hyn yn deillio o argymhelliad 9 adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sy'n awgrymu y dylai'r Dirprwy Weinidog:

‘explore the feasibility of introducing financial penalties for owners who deliberately allow their listed buildings to fall into disrepair’.

ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno cosbau ariannol ar gyfer perchnogion sy'n gadael i'w hadeiladau rhestredig ddadfeilio yn fwriadol.

This is actually a cause very close to my heart, having seen many listed buildings fall into disrepair and then, effectively, be stripped and, in some cases, burnt down through mysterious fires—in one case hit by lighting, I think, and subsequently demolished after that.

Mae hyn mewn gwirionedd yn achos sy'n agos iawn at fy nghalon, ar ôl gweld llawer o adeiladau rhestredig yn dadfeilio ac yna, i bob pwrpas, yn cael eu gwagio ac, mewn rhai achosion, yn llosgi i lawr drwy danau anesboniadwy—mewn un achos wedi’i daro gan fellten, rwy’n meddwl, a’i ddymchwel ar ôl hynny.

We all have empty buildings in our region or constituency falling into disrepair. Because the community asset provision of the Localism Act 2011 has not been brought into effect, there are no avenues available to local communities and local councils to actually tackle this particular issue. These are viable community assets causing a blight on a local community. They are a problem for Cadw, but also for the future of that building. As I said, they can fall into complete disuse, fall down or catch fire. An incident I referred to recently is Libanus chapel on Cwmbwrla roundabout, which, although it's still listed, is actually no longer there; it's just a patch of land that is slowly becoming overgrown.

Mae gennym i gyd adeiladau gwag sy'n dadfeilio yn ein rhanbarth neu etholaeth. Gan nad yw'r ddarpariaeth asedau cymunedol o Ddeddf Lleoliaeth 2011 wedi cael ei dwyn i rym, nid oes unrhyw lwybrau ar gael i gymunedau lleol a chynghorau lleol fynd i'r afael mewn gwirionedd â'r mater penodol hwn. Mae'r rhain yn asedau cymunedol hyfyw sy'n difetha cymuned leol. Maent yn broblem i Cadw, ond hefyd i ddyfodol yr adeilad hwnnw. Fel y dywedais, gallant fynd yn hollol wag, syrthio i lawr neu fynd ar dân. Digwyddiad y cyfeiriais ato yn ddiweddar yw capel Libanus ar gylchfan Cwmbwrla, sydd, er ei fod yn dal i fod yn rhestredig, mewn gwirionedd ddim yno mwyach; nid yw'n ddim ond darn o dir sydd yn araf ddechrau tyfu'n wyllt.

These amendments have been redrafted following the questions raised and discussions I had at Stage 2, when I chose not to move the amendments pending further work and discussions with the Deputy Minister. Therefore, these amendments are suggesting preservation notices to preserve listed buildings in disrepair. They will enable notices to be given to owners to complete the work the building requires within a set timescale. They will also enable Ministers, through regulations, to make sure the owner pays a price, if necessary, for allowing their building to fall into disrepair in this way.

Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu hail-ddrafftio yn dilyn y cwestiynau a godwyd a'r trafodaethau a gefais yng Nghyfnod 2, pan ddewisais beidio â chynnig y gwelliannau nes cael gwaith pellach a thrafodaethau gyda'r Dirprwy Weinidog. Felly, mae'r gwelliannau hyn yn awgrymu hysbysiadau cadwraeth i ddiogelu adeiladau rhestredig mewn cyflwr gwael. Byddant yn galluogi rhoi hysbysiadau i berchnogion i gwblhau'r gwaith sy'n ofynnol ar yr adeilad o fewn amserlen benodol. Byddant hefyd yn galluogi Gweinidogion, drwy reoliadau, i wneud yn siŵr bod y perchennog yn talu pris, os oes angen, am ganiatáu i'w hadeilad ddadfeilio yn y modd hwn.

Further to the Stage 2 discussions and research into the feasibility of introducing financial penalties for owners who deliberately neglect their buildings, I accepted that that may not be the most practical or effective way forward. However, the proposed preservation notices will go some way to discouraging and, if necessary, rectifying the neglect that has occurred, and Welsh Ministers can, of course, issue regulations that will attach fines to those preservation notices if they're not actually followed. Hopefully, the Minister will clarify his intentions in that regard.

Yn dilyn trafodaethau Cyfnod 2 a'r ymchwil i ddichonoldeb cyflwyno cosbau ariannol ar gyfer perchnogion sy'n fwriadol esgeuluso eu hadeiladau, rwy'n derbyn nad honno o bosibl yw'r ffordd ymlaen fwyaf ymarferol neu effeithiol. Fodd bynnag, bydd yr hysbysiadau cadwraeth arfaethedig yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at beidio ag annog ac, os oes angen, unioni'r esgeulustod sydd wedi digwydd, a gall Gweinidogion Cymru, wrth gwrs, gyhoeddi rheoliadau fydd yn atodi dirwyon i'r hysbysiadau cadw hynny os nad ydynt yn cael eu dilyn. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn egluro ei fwriadau yn hynny o beth.

It is the local authority's responsibility to prove that owners have deliberately neglected their building. However, these amendments will now allow owners to appeal preservation notices to make the case that the disrepair to the building is not deliberate. So, I think it does actually have that common justice section to it. So, there's a right of appeal, and once that appeal has been determined, then at that stage, if the owner has been found to be deliberately neglecting the building, then at that stage, hopefully, some sort of financial penalty can be imposed on that particular owner.

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw profi bod perchnogion wedi esgeuluso eu hadeilad yn fwriadol. Fodd bynnag, bydd y gwelliannau hyn yn awr yn caniatáu i berchnogion apelio hysbysiadau cadwraeth i wneud yr achos nad oedd y dadfeilio i'r adeilad yn fwriadol. Felly, rwy'n credu yn wir bod ganddo yr adran cyfiawnder gyffredin honno. Felly, mae gennych hawl i apelio, ac unwaith y mae'r apêl honno wedi cael ei phenderfynu, yna ar y cam hwnnw, os bydd y perchennog wedi cael ei ganfod i fod yn fwriadol yn esgeuluso'r adeilad, yna ar y cam hwnnw, gobeithio, gellir gosod rhyw fath o gosb ariannol ar y perchennog penodol hwnnw.

I hope, Deputy Presiding Officer, that the amendments as now drafted are acceptable to the Government. They will, I think, significantly strengthen the Bill, enabling some sort of comeback where these buildings have been allowed to fall into neglect and an asset to the community has been lost as a result of that.

Rwy'n gobeithio, Ddirprwy Lywydd, fod y gwelliannau fel y'u drafftiwyd yn awr yn dderbyniol i'r Llywodraeth. Byddant, rwy'n meddwl, yn cryfhau'r Bil yn sylweddol, gan alluogi rhyw fath o ymateb pan gaiff yr adeiladau hyn eu hesgeuluso a bod ased i'r gymuned wedi'i golli o ganlyniad i hynny.

17:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister.

Weinidog.

17:20

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. As Peter Black stated, these amendments stem from recommendation 9 of the Communities, Equality and Local Government Committee's report at the end of Stage 1, which called upon me to explore the feasibility of introducing financial penalties for owners who deliberately allow their listed buildings to fall into disrepair. I accepted that recommendation and said that the issues raised were complex. Introducing a new system of penalties requires detailed research, evidence and analysis to inform an effective package of measures that will support the conservation of listed buildings into the future. I am supporting Peter Black's amendments, since they give us a framework within which we can develop appropriate measures. The provisions will also allow us to introduce civil sanctions should they be deemed the most effective deterrents in the future.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fel y nododd Peter Black, mae'r gwelliannau hyn yn deillio o argymhelliad 9 adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ddiwedd Cyfnod 1, a oedd yn galw arnaf i archwilio dichonoldeb cyflwyno cosbau ariannol ar gyfer perchnogion sy'n caniatáu yn fwriadol i'w hadeiladau rhestredig fynd yn adfail. Derbyniais yr argymhelliad a dywedais fod y materion a godwyd yn gymhleth. Mae cyflwyno system newydd o gosbau yn gofyn am ymchwil, tystiolaeth a dadansoddiad manwl i lywio pecyn effeithiol o fesurau a fydd yn cefnogi cadwraeth adeiladau rhestredig yn y dyfodol. Rwy'n cefnogi gwelliannau Peter Black, gan eu bod yn rhoi fframwaith i ni lle gallwn ddatblygu Biliau priodol. Bydd y darpariaethau hefyd yn ein galluogi i gyflwyno sancsiynau sifil os bernir eu bod yr arfau ataliol mwyaf effeithiol yn y dyfodol.

Deputy Presiding Officer, new powers are pointless if local authorities will not use them. I would like to see local authorities using the powers that they already have. For example, section 215 notices under the Town and Country Planning Act 1990 can require an owner to undertake a variety of works to tackle the condition of land or a building that is adversely affecting amenity. There is no reason why these cannot be used more widely on listed buildings, as they are in some parts of England. We are preparing guidance on managing listed buildings at risk, which will help local authorities to understand the powers that are available and make them more confident in their use. This will help them to support the sustainable maintenance and conservation of listed buildings and to take appropriate action when a building falls into disrepair through neglect. However, it's important, Deputy Presiding Officer, to acknowledge that the vast majority of listed building owners maintain and manage change to their buildings with care, pride and sensitivity. We need to foster, support and encourage all of those owners who are our greatest allies in caring for our treasured historic buildings.

Ddirprwy Lywydd, mae pwerau newydd yn ddibwrpas os na fydd awdurdodau lleol yn eu defnyddio. Hoffwn weld awdurdodau lleol yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt eisoes. Er enghraifft, gall hysbysiadau adran 215 dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ei gwneud yn ofynnol i berchennog ymgymryd ag amrywiaeth o waith i fynd i'r afael â chyflwr tir neu adeilad sy'n cael effaith andwyol ar amwynder. Nid oes unrhyw reswm pam na all y rhain gael eu defnyddio yn fwy eang ar adeiladau rhestredig, fel y maent mewn rhai rhannau o Loegr. Rydym yn paratoi canllawiau ar reoli adeiladau rhestredig mewn perygl, a fydd yn helpu awdurdodau lleol i ddeall y pwerau sydd ar gael a'u gwneud yn fwy hyderus yn eu defnydd. Bydd hyn yn eu helpu i gefnogi gwaith cynnal a chadwraeth adeiladau rhestredig mewn modd cynaliadwy ac i gymryd camau priodol pan fydd adeilad yn mynd i gyflwr gwael drwy esgeulustod. Fodd bynnag, mae'n bwysig, Ddirprwy Lywydd, cydnabod bod y mwyafrif helaeth o berchnogion adeiladau rhestredig yn cynnal ac yn rheoli newid i'w hadeiladau gyda gofal, balchder a sensitifrwydd. Mae angen i ni feithrin, cefnogi ac annog pob un o'r perchnogion hynny sy'n gynghreiriaid mawr i ni i ofalu am ein hadeiladau hanesyddol gwerthfawr.

The new advice and guidance, which we intend to send out for consultation during this year, will set out the best ways to protect and to enhance the special qualities of a listed building, whilst also providing the flexibility to keep the building in sustainable use. However, sometimes things do go wrong and I am sympathetic to the widespread concern voiced here in the Senedd about listed buildings that have fallen into disrepair. Through careful implementation, I believe Peter Black's amendments could provide the basis for another valuable avenue for local authorities and for that reason I support this group of amendments.

Mae'r cyngor a'r canllawiau newydd, yr ydym yn bwriadu eu hanfon allan ar gyfer ymgynghori yn ystod y flwyddyn hon, yn nodi'r ffyrdd gorau o ddiogelu a gwella nodweddion arbennig adeilad rhestredig, gan hefyd ddarparu'r hyblygrwydd i gadw'r adeilad mewn defnydd cynaliadwy. Fodd bynnag, weithiau mae pethau'n mynd o chwith ac rwy'n cydymdeimlo â'r pryder eang a leisiwyd yma yn y Senedd am adeiladau rhestredig sydd wedi mynd â'u pen iddynt. Trwy weithredu gofalus, rwy'n credu y gallai gwelliannau Peter Black ddarparu'r sail ar gyfer llwybr gwerthfawr arall i awdurdodau lleol ac am y rheswm hwnnw rwy'n cefnogi'r grŵp hwn o welliannau.

17:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you wish to add anything? No. If amendment 52 is not agreed, amendments 51, 53 and 54 fall. The question is that amendment 52 be agreed. Does any Member object? Then amendment 52 is agreed.

A ydych yn dymuno ychwanegu unrhyw beth? Na. Os nad yw gwelliant 52 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 51, 53 a 54 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 52 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 52 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 52 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 52 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 51.

Peter Black, gwelliant 51.

*Cynigiwyd gwelliant 51 (Peter Black[R]).*

*Amendment 51 (Peter Black[R]) moved.*

17:23 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Byddaf yn cynnig.

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 51 be agreed. Does any Member object? Then amendment 51 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 51 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Yna caiff gwelliant 51 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 51 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 51 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 12: Enwau Lleoedd Hanesyddol (Gwelliannau 62, 19, 17)

### Group 12: Historic Place Names (Amendments 62, 19, 17)

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to historic place names. The lead amendment in this group is amendment 62. I call on Bethan Jenkins to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud ag enwau lleoedd hanesyddol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 62. Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 62 (Bethan Jenkins).*

*Amendment 62 (Bethan Jenkins) moved.*

17:24 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is amendment 62, so it would amend section 33, page 44, line 5, and it would leave out 'historic place names' and insert

Hwn yw gwelliant 62, felly byddai'n diwygio adran 33, tudalen 44, llinell 5, a byddai'n hepgor 'enwau lleoedd hanesyddol' ac yn mewnosod

'the commonly used current and historic names of places, landmarks and buildings'.

'enwau cyfredol a hanesyddol lleoedd, tirnodau ac adeiladau a ddefnyddir yn gyffredin'.

At Stage 2, the Minister amended it to include place names in historic environment records, something that he hadn't included in the initial stages. Through lobbying from certain groups and from Assembly Members such as me calling for it, it was changed, and we do welcome that. However, the amendment only refers to 'historic place names' and my amendments—Plaid Cymru's amendments—are wider than those of the Minister and, as I said in the previous committee debate, I want to protect all place names, historic and living, as well as landmarks and buildings, reflecting the wishes of a petition by Mynyddoedd Pawb to the Petitions Committee and other such societies.

Yng Nghyfnod 2, diwygiodd y Gweinidog hyn i gynnwys enwau lleoedd mewn cofnodion amgylchedd hanesyddol, rhywbeth nad oedd wedi ei gynnwys yn y camau cychwynnol. Trwy lobïo gan grwpiau penodol ac Aelodau Cynulliad fel fi yn galw amdano, cafodd ei newid, ac rydym yn croesawu hynny. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant ond yn cyfeirio at 'enwau lleoedd hanesyddol' ac mae fy ngwelliannau i—gwelliannau Plaid Cymru—yn ehangach na rhai'r Gweinidog ac, fel y dywedais yn nadl y pwyllgor blaenorol, rwyf am ddiogelu pob enw lle, hanesyddol a byw, yn ogystal â thirnodau ac adeiladau, sy'n adlewyrchu dymuniadau deiseb gan Mynyddoedd Pawb at y Pwyllgor Deisebau a chymdeithasau eraill o'r fath.

I also want to ensure protection for names in any language where commonly used now or in the past. Many place names are in Welsh, many are in English and some are in other languages—Swansea is a Viking name—and it demonstrates the rich history of Wales. I'd like to think that instead of the Minister being appreciative of the words that I say here today, he may be minded to support this amendment, given the fact that we did receive evidence at committee—evidence that has been useful for other amendments—to give weight to the fact that we should extend the terms of what the historic environment records would encompass, and therefore protect more than that which you have put in your amendment. It's not seeking to undermine what you're doing in any way, shape or form; it's seeking to enhance on that, given that other words, other names and other landmarks that are not currently going to be included. If the Minister isn't minded to support it, then I'd want to understand what he thinks he potentially could do in future to make sure that these issues are not left to fall through the cracks, because we took evidence from the place name society and there isn't sufficient support for what they do. They collect lists, but it doesn't seem to afford any protection then moving forward. I put other amendments in at the previous stage that I didn't re-table in relation to the fact that people could potentially add or remove names; that seemed to be too arduous. So, this is a simpler amendment, Minister, to try and accommodate you and what your Government is doing, so that we can all be sufficiently happy with the legislation at the end of this process.

Rwyf hefyd am sicrhau bod enwau mewn unrhyw iaith a ddefnyddir yn gyffredin, yn awr neu yn y gorffennol, yn cael eu diogelu. Mae llawer o enwau lleoedd yn Gymraeg, lawer ohonynt yn Saesneg a rhai mewn ieithoedd eraill—mae Swansea yn enw Llychlynnaidd—ac mae'n dangos hanes cyfoethog Cymru. Hoffwn i feddwl yn lle bod y Gweinidog yn werthfawrogol o'r geiriau a ddywedaf yma heddiw, efallai y bydd o blaid cefnogi'r gwelliant hwn, o ystyried y ffaith ein bod wedi derbyn tystiolaeth yn y pwyllgor—tystiolaeth sydd wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer gwelliannau eraill—i bwysleisio'r ffaith y dylem ymestyn telerau'r hyn y byddai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn eu cwmpasu, ac felly yn diogelu mwy na'r hyn yr ydych wedi'i roi yn eich gwelliant. Nid yw hyn yn ceisio tanseilio'r hyn yr ydych yn ei wneud mewn unrhyw ffordd; mae'n ceisio gwella ar hynny, o gofio bod geiriau eraill, enwau eraill a thirnodau eraill nad ydynt ar hyn o bryd yn mynd i gael eu cynnwys. Os nad yw'r Gweinidog yn bwriadu ei gefnogi, yna byddwn yn awyddus i ddeall yr hyn y mae'n credu y gallai ei wneud yn y dyfodol i wneud yn siŵr na chaniateir i'r materion hyn syrthio drwy'r rhwyd, oherwydd clywsom dystiolaeth gan y gymdeithas enwau lleoedd ac nid oes digon o gefnogaeth i'r hyn y maent yn ei wneud. Maent yn casglu rhestrau, ond nid ymddengys bod unrhyw warchodaeth wedyn wrth symud ymlaen. Rhoddais welliannau eraill yn ystod y cam blaenorol, na wneuthum eu hail gyflwyno oherwydd y ffaith y gallai pobl o bosibl ychwanegu neu ddileu enwau; roedd hynny'n ymddangos i fod yn rhy flinderus. Felly, mae hwn yn welliant symlach, Weinidog, i geisio darparu ar eich cyfer chi a'r hyn y mae eich Llywodraeth yn ei wneud, er mwyn i ni i gyd fod yn ddigon hapus â'r ddeddfwriaeth ar ddiwedd y broses hon.

17:26

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcomed the amendments that the Minister made at Stage 2, in committee stage, to this legislation; I think it recognised that a very real debate has taken place across the country over recent years about the integrity of what we call ourselves and what we call where we live—the places we live and the places where we're born. I agree very much with the points that have been made by Bethan Jenkins this afternoon.

Rwy'n croesawu'n fawr y gwelliannau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud yng Nghyfnod 2, yn ystod cam y pwyllgor, i'r ddeddfwriaeth hon; rwy'n credu ei fod yn cydnabod bod dadl go iawn wedi digwydd ar draws y wlad dros y blynyddoedd diwethaf ynghylch uniondeb yr hyn yr ydym yn ein galw ein hunain a'r hyn yr ydym yn galw ble'r ydym yn byw—y lleoedd yr ydym yn byw ynddynt a'r mannau y cawsom ein geni. Cytunaf yn llwyr â'r pwyntiau a wnaed gan Bethan Jenkins y prynhawn yma.

I think the Government, in accepting the amendments at Stage 2, recognised that we do need to move in this area, but it might be useful if the Government were able to reflect on the amendments that it made at Stage 2 in order to reflect further, and to perhaps take a more generous view of how the very real hope, which I think the Deputy Minister described in committee, can actually be made real in terms of what is not only in this legislation, but also in other legislation.

Rwy'n meddwl bod y Llywodraeth, wrth dderbyn y gwelliannau yng Nghyfnod 2, wedi cydnabod bod angen inni symud yn y maes hwn, ond gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r Llywodraeth yn gallu ystyried y gwelliannau a wnaeth yng Nghyfnod 2 er mwyn ystyried ymhellach, ac efallai gymryd golwg mwy hael o sut y gellir gwneud y gobaith go iawn, y credaf fod y Dirprwy Weinidog wedi'i ddisgrifio yn y pwyllgor, yn real o ran yr hyn sydd nid yn unig yn y ddeddfwriaeth hon, ond hefyd mewn deddfwriaeth arall.

We're all very familiar with place names describing not only a village, a town, a place, a landscape or a landscape feature, but also, of course, these have been named by people who reflect their own experience back to us as well. There are many people who will know of Ogof Fawr, north of Tredegar in Trefil, not as 'Yr Ogof Fawr', but 'Chartists' cave', where the Chartists hid their weapons before the march on Newport—a very real example of something that speaks to us of our social history down the generations. And not far away from Chartists' cave, of course, you've got the Bryn Oer tramway, which no longer exists, but served the quarries in Trefil and served the ironworks in Sirhowy and Tredegar—again speaking to us of our industrial heritage. And then, less than a kilometre way from those two places, you've got Duke's Table. Now, Duke's Table, of course, refers to where the Duke of Beaufort used to take people for lunch during their hunting trips, and many of us believe that that's where the sandwich was invented, created and given its name. I thought the Tories would appreciate that. But what it does, of course—what Duke's Table does do, of course—is talk to us again about the social history that created the communities in which we live today, and that is something that is too important to lose, and something that I hope this Government will seek to protect.

Rydym i gyd yn gyfarwydd iawn ag enwau lleoedd yn disgrifio nid yn unig bentref, tref, lle, tirwedd neu nodwedd o dirwedd, ond hefyd, wrth gwrs, mae'r rhain wedi cael eu henwi gan bobl sy'n adlewyrchu eu profiad eu hunain yn ôl i ni hefyd . Mae llawer o bobl a fydd yn adnabod Ogof Fawr, i'r gogledd o Dredegar yn Nhrefil, nid fel 'Yr Ogof Fawr', ond fel 'Ogof y Siartwyr' , lle cuddiodd y Siartwyr eu harfau cyn yr orymdaith i Gasnewydd—enghraifft go iawn o rywbeth sy'n siarad â ni o'n hanes cymdeithasol i lawr y cenedlaethau. A heb fod ymhell i ffwrdd oddi wrth ogof y Siartwyr, wrth gwrs, mae gennych y dramffordd Bryn Oer, nad yw'n bodoli mwyach, ond a arferai wasanaethu chwareli yn Nhrefil ac a wasanaethai'r gwaith haearn yn Sirhywi a Thredegar—unwaith eto yn siarad â ni am ein treftadaeth ddiwydiannol. Ac yna, lai na chilometr o'r ddau le hynny, mae gennych chi Fwrdd y Dug. Nawr, mae Bwrdd y Dug, wrth gwrs, yn cyfeirio at y lle yr oedd Dug Beaufort yn arfer mynd â phobl i ginio yn ystod eu teithiau hela, ac mae llawer ohonom yn credu mai yno y cafodd y frechdan ei dyfeisio, ei chreu a chael ei henw. Roeddwn i'n meddwl y byddai'r Torïaid yn gwerthfawrogi hynny. Ond yr hyn y mae'n ei wneud, wrth gwrs—yr hyn y mae Bwrdd y Dug yn ei wneud, wrth gwrs—yw siarad â ni eto am yr hanes cymdeithasol a greodd y cymunedau yr ydym yn byw ynddynt heddiw, ac mae hynny'n rhywbeth sydd yn rhy bwysig i'w golli, ac yn rhywbeth rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth hon yn ceisio ei ddiogelu.

It's this rich history that I believe is important that we are able to protect, and ensure that we do so in the future. I think it breaks the heart of many of us when we hear of people who are, frankly, too lazy to be bothered to learn the proper names of places and inventing things like the 'happy donkey valley', or whatever it happens to be, rather than respecting the cultural and historical legacy of our country and our people. I believe that, as a Government and as a National Assembly, we should say that very, very clearly: that we will protect the history that we have inherited, the culture of our nation and that we will do so actively. So, I would ask the Minister this afternoon to reflect on the debate that we've had in Stage 2 and that we've had this afternoon, and to look for alternative means by which we can ensure that the place names that we've inherited today aren't lost for future generations.

Yr hanes cyfoethog hwn, yn fy marn i, sy'n bwysig fel y gallwn ei warchod, a sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn y dyfodol. Rwy'n credu ei fod yn torri calon llawer ohonom pan fyddwn yn clywed am bobl sydd, a dweud y gwir, yn rhy ddiog i drafferthu i ddysgu enwau priodol lleoedd ac yn dyfeisio pethau fel y 'happy donkey valley', neu beth bynnag ydyw, yn hytrach na pharchu etifeddiaeth ddiwylliannol a hanesyddol ein gwlad a'n pobl. Credaf y dylem fel Llywodraeth ac fel Cynulliad Cenedlaethol, ddweud hynny'n glir iawn, iawn: y byddwn yn diogelu'r hanes yr ydym wedi'i etifeddu, diwylliant ein cenedl ac y byddwn yn mynd ati i wneud hynny. Felly, byddwn yn gofyn y prynhawn yma i'r Gweinidog fyfyrio ar y ddadl a gawsom yng Nghyfnod 2 ac yr ydym wedi'i chael y prynhawn yma, ac i chwilio am ddulliau eraill i sicrhau nad yw'r enwau lleoedd yr ydym wedi'u hetifeddu heddiw yn cael eu colli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

17:30

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ategu'r hyn y mae Alun Davies newydd ei ddweud am bwysigrwydd yr enwau yma? Gyda llaw, y Faerdre Fach ger Llandysul yw 'Happy Donkey Hill', ac mae'n rhaid i fi ddweud rwy'n uniaethu llawer iawn yn fwy â'r Faerdre Fach nag ydw i gyda 'Happy Donkey Hill'. Ond y peth pwysig ydy bod yr enwau yma yn ymwneud â'n hanes ni a'n treftadaeth ni fel cenedl.

Could I endorse what Alun Davies has just said about the importance of these names? By the way, Faerdre Fach near Llandysul is 'Happy Donkey Hill', and I have to say that I identify a lot more with Faerdre Fach than I do with 'Happy Donkey Hill'. But the important thing is that these names are to do with our history and our heritage as a nation.

Gadewch i ni ofyn y cwestiwn yma i ni'n hunain y prynhawn yma: beth y mae pobl Cymru yn ei ddisgwyl oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru? Onid ŷn nhw'n disgwyl i ni ddiogelu y pethau hynny sydd yn greiddiol i'n hunaniaeth ni fel cenedl? Onid ŷn nhw'n credu pan maen nhw'n troi atom ni ac yn dweud, 'Rŷm ni mewn perygl o golli'r pethau yma a'u colli nhw am byth', y bydden nhw'n disgwyl i ni ymateb yn gadarnhaol i hynny?

Let's ask ourselves this question this afternoon: what do the people of Wales expect from the National Assembly for Wales and the Welsh Government? Don't they expect us to safeguard those things that are at the core of our identity as a nation? Don't they think that when they turn to us and say, 'We're in danger of losing these things and losing them forever', that they'd expect us to respond positively to that?

Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am y ffaith ei fod e wedi ymateb yn y pwyllgor yng Nghyfnod 2 i'r hyn yr oedd y pwyllgor ar y pryd yn unedig amdano fe: bod yn rhaid i ni gymryd camau ymarferol i ddiogelu yr enwau yma. Yr hyn y byddwn i'n ei ofyn i'r Gweinidog y prynhawn yma, ac i'r Llywodraeth, yw: a ydych chi, Weinidog, yn gallu rhoi eich llaw ar eich calon a dweud bod y gwelliannau rŷch chi wedi'u cyflwyno i'r Mesur yma yn ddigonol i sicrhau ein bod ni'n genedl sy'n cael ei chysylltu â'r Faerdre Fach yn hytrach na Happy Donkey Hill? A ydych chi'n credu eich bod chi wedi gwneud digon i ddiogelu ein hanes a'n treftadaeth ni?

I am grateful to the Minister for the fact that he responded in committee at Stage 2 to what the committee at the time was united on: the fact that we need to take practical steps to protect these names. What I'd like to ask the Minister this afternoon, and the Government, is: Minister, can you put your hand on your heart and say that the amendments that you've tabled to this Bill are sufficient to ensure that we are nation that is linked with Faerdre Fach rather than Happy Donkey Hill? Do you believe that you have done enough to safeguard our history and our heritage?

Ac os nac ŷch chi'n credu bod eich gwelliannau chi'n ddigonol—ac mae'n rhaid i fi ddweud wrthych chi, Weinidog, nid ydw i'n credu eu bod nhw—beth ŷch chi'n mynd i'w wneud, a beth y mae gweddill Gweinidogion y Llywodraeth yn mynd i'w wneud, i ddiogelu yr enwau yma sydd mor bwysig i'n hymwybyddiaeth ni o'r hyn yr ydym ni ac o ble rŷm ni wedi dod? Beth ŷch chi'n mynd i'w wneud i ddiogelu'r enwau yma, oherwydd mae hawl gan bobl Cymru i ddisgwyl hynny oddi wrthych chi ac oddi wrth Lywodraeth Cymru?

And if you don't believe that your amendments are sufficient—and I have to say, Minister, that I don't think that they are—what are you going to do, and what are the rest of the Ministers in the Government going to do, to safeguard these names that are so important to our awareness of who we are and where we've come from? What are you going to do to safeguard those names, because the people of Wales have a right to expect that from you and from the Welsh Government?

17:33 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I think, as has already been made clear by other speakers, what you call a particular place very much goes to your identity as an individual, as a community. I think it's important that that is preserved as best as possible and reflected in documentation and other communications, and of course, in the way that people refer to that particular place. That's why I think it was so important that the Minister brought these amendments at Stage 2, to create this record of historic place names.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n meddwl, fel yr eglurwyd eisoes gan siaradwyr eraill, mae'r hyn yr ydych yn ei alw yn lle arbennig iawn yn mynd at eich hunaniaeth fel unigolyn, fel cymuned. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod hynny'n cael ei gadw cystal ag y bo modd ac yn cael ei adlewyrchu mewn dogfennau a chyfathrebiadau eraill, ac wrth gwrs, yn y ffordd y mae pobl yn cyfeirio at y man penodol hwnnw. Dyna pam yr wyf yn meddwl ei bod mor bwysig bod y Gweinidog wedi dod â'r gwelliannau hyn yng Nghyfnod 2, er mwyn creu'r cofnod hwn o enwau lleoedd hanesyddol.

I think we need to be clear that that doesn't actually offer those place names any protection; what it does is it creates a record of those place names for posterity, so that people are able to refer back to that. Whatever we do, either in relation to that particular record or to this amendment, is not going to be able to force people to stop referring to something as 'Happy Donkey Hill' or the correct name for that place, or refer to any particular place, if they like, as Sweyn's Eye, Swansea, Abertawe or whatever, depending on their own use of that particular name.

Rwy'n credu bod angen i ni fod yn glir nad yw hynny'n cynnig unrhyw amddiffyniad mewn gwirionedd i'r enwau lleoedd hynny; yr hyn y mae'n ei wneud yw creu cofnod o'r enwau lleoedd hynny ar gyfer y dyfodol, fel bod pobl yn gallu cyfeirio yn ôl atynt. Ni fydd beth bynnag yr ydym yn ei wneud, naill ai mewn cysylltiad â'r cofnod penodol neu'r gwelliant hwn, yn mynd i allu gorfodi pobl i roi'r gorau i gyfeirio at rywbeth fel 'Happy Donkey Hill' neu'r enw cywir ar gyfer y lle hwnnw, neu gyfeirio at unrhyw le penodol, os ydynt yn dymuno, fel Sweyn's Eye, Swansea, Abertawe neu beth bynnag, yn dibynnu ar eu defnydd eu hunain o'r un enw penodol.

But I think it is important, if we are going to have this record, that it is as wide a record as possible, so that it does actually encompass the full range of potential names and terms, landmarks and buildings that have been associated with it. That's why I'm happy to support amendment 62, which has been tabled by Bethan Jenkins, so that that record is as full a record as possible, so that when people come to refer back to it as a point of reference or as an aide memoir in terms of what a particular place is called or has been called in the past, that they're able to use this record in that way. I think that that is the legacy that I hope this Bill is able to leave for the people of Wales, and I think that this amendment adds to that legacy by widening it and ensuring that it is as encompassing as possible, and as comprehensive as possible, in terms of the names it contains for a particular place or building, or even a landscape or landmark. Therefore, I think it is right that we should support amendment 62 for that reason.

Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig, os ydym yn mynd i gael y cofnod hwn, ei fod yn gofnod mor eang â phosibl, fel ei fod mewn gwirionedd yn cwmpasu'r ystod lawn o enwau a thermau, tirnodau ac adeiladau posibl sydd wedi bod yn gysylltiedig ag ef. Dyna pam fy mod yn hapus i gefnogi gwelliant 62, sydd wedi cael ei gyflwyno gan Bethan Jenkins, fel bod y cofnod yn gofnod mor llawn â phosib. Felly pan fydd pobl yn dod i gyfeirio'n ôl ato fel pwynt cyfeirio neu fel cymorth cof o'r hyn y mae lle penodol yn cael ei alw neu wedi cael ei alw yn y gorffennol, gallant ddefnyddio'r cofnod hwn yn y ffordd honno. Rwy'n meddwl mai dyna'r etifeddiaeth yr wyf yn gobeithio y bydd y Bil hwn yn gallu ei gadael i bobl Cymru, ac rwy'n meddwl fod y gwelliant hwn yn ychwanegu at yr etifeddiaeth drwy ei ehangu a sicrhau ei fod yn cynnwys cymaint ag y bo modd, a'i fod mor gynhwysfawr â phosibl, o ran yr enwau sydd ynddo am le neu adeilad penodol, neu hyd yn oed dirwedd neu dirnod. Felly, credaf ei bod yn iawn y dylem gefnogi gwelliant 62 am y rheswm hwnnw.

17:35

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf innau hefyd yn siarad dros y gwelliant yma fel modd, gobeithio, o ehangu sgôp i weithredu yn y dyfodol i warchod enwau hynafol, enwau byw. Ac rwy'n defnyddio'r cyfle i atgoffa'r Cynulliad o'r hyn rwyf i'n ei weld yn glir iawn fel dyletswydd i warchod ac amddiffyn ein treftadaeth ni. Mae'n diwylliant ni yn ein pobl ni yma yng Nghymru, ond mae'n diwylliant ni yn ein tir ac yn ein hadeiladau ni hefyd. Mae'r enwau rydym ni'n eu rhoi ar nodweddion yn ein tir ni, ac yn y môr o ran hynny, yr enwau rydym ni'n eu rhoi i drefi, i bentrefi, i adeiladau ac i gartrefi yn atsain ein hanes ni, ac yn arwydd hefyd o'n parhad ni fel cenedl. Mae rhai enwau, wrth gwrs—

I also speak in favour of this amendment as a means, hopefully, of expanding the scope to take action in the future in order to protect historic and living place names. I use this opportunity to remind the Assembly of something that I see very clearly as a duty to safeguard and protect our heritage. Our culture is in our people here in Wales, but it's also in our land and in our buildings as well. The names that we give to features of our landscape, and maritime features when it comes down to it, and the names that we give to towns, villages, buildings and homes are an echo of our history and signal our permanence as a nation. Some names, of course—

17:36

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A fyddech chi'n cadarnhau, hefyd, mai nid dim ond enwau yn y Gymraeg rŷm ni'n sôn amdanynt yn y fan hon? Mae yna enwau yn Saesneg sydd yn siarad cyfrolau am ein hanes ni fel pobl; mae yna enwau mewn ieithoedd Ewropeaidd sydd yn dynodi digwyddiadau o bwys yn ein hanes ni, ac sy'n rhan annatod o'n hunaniaeth ni.

Would you also confirm that it's not just Welsh names that we're talking about here? There are English names that speak volumes about our history as a people; there are names in European languages that denote very important events in our history, and which are an inalienable part of our identity.

17:36

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wrth gwrs, rwy'n cyd-fynd â hynny'n llwyr. Nid yn unig y mae enwau o ieithoedd eraill sydd wedi dod yn rhan o'n treftadaeth ni, mae yna enwau dwyieithog sy'n cael eu defnyddio ac sy'n nodweddion dwyieithog, neu dairieithog o bosib, yn nodweddion amlwg iawn o'n treftadaeth ni. Ac, mae yna werth, wrth gwrs, i bob un o'r enwau hynny.

Of course, I would agree entirely with that. Not only are there names from other languages that have become part of our heritage, but there are bilingual names that are commonly used and that are bilingual features, or trilingual features possibly, that are very apparent features of our heritage. There is a value to each and every one of those names.

Rwyf i wedi ymfalchïo, fel sawl un yma, rwy'n siŵr, yn y Cynulliad, drwy weld enwau Cymraeg ar drefi neu ar dai mewn rhannau eraill o'r byd. Ond, o ran y Gymraeg, yn sicr, mi rydym ni mewn sefyllfa gwbl unigryw yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i allu gwarchod enwau Cymreig Cymru. Mae cyfleoedd wedi cael eu colli yn y Cynulliad yn y gorffennol, i ddeddfu i warchod ac i atal newid enwau llefydd ac rwy'n gobeithio y gall Cynulliadau yn y dyfodol ddychwelyd at y mater hwn a chanfod consensws o'r newydd ar ffyrdd o weithredu. Ond, am heddiw, gadewch i ni o leiaf ymestyn y sgôp i lunio cofrestr sydd mor eang â phosib a all fod yn sail i ddeddfwriaeth yn y dyfodol i warchod ein treftadaeth.

I have taken pride, as many others in this Assembly have, I'm sure, in seeing Welsh names on towns or homes in other parts of the world. But, in terms of the Welsh language, certainly we are in a unique position here in the National Assembly for Wales to safeguard Welsh names in Wales. Opportunities have been missed in the Assembly in the past to legislate in order to safeguard and to prevent the changing of place names, and I hope that future Assemblies can return to this issue and find consensus anew on how to take this forward. But, for today, let us at least expand the scope in order to create a register that is as broad as possible that can be the basis for future legislation to protect our heritage.

17:38 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

During the scrutiny of the Bill, I was impressed by stakeholders and Members who spoke very eloquently and persuasively on the importance of our country's historic place names. Therefore, I accepted the committee's Stage 1 recommendation to include a specific reference to historic place names in the contents of Welsh historic environment records, and, indeed, I went further by placing a duty upon Welsh Ministers to compile and maintain a list of historic place names.

Yn ystod y craffu ar y Bil, roeddwn yn llawn edmygedd o randdeiliaid ac Aelodau a siaradodd yn huawdl ac yn argyhoeddedig am bwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol ein gwlad. Felly, derbyniais argymhelliad Cyfnod 1 y pwyllgor i gynnwys cyfeiriad penodol at enwau lleoedd hanesyddol yng nghynnwys cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru, ac, yn wir, rwy'n mynd ymhellach drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol.

Once fully developed, the list will provide an invaluable resource for unlocking the very rich legacy of our historic place names. It will be available to everyone via the historic environment records. However, the inclusion of commonly used current names would fundamentally alter the character of the list. Specialist input and some form of monitoring of names entering common usage would be required and both would be resource intensive. It would also divert the list from its original purpose of recording historic place names and raising their profile and value.

Ar ôl ei datblygu'n llawn, bydd y rhestr yn adnodd amhrisiadwy i ddatgloi etifeddiaeth gyfoethog iawn o'n henwau lleoedd hanesyddol. Bydd ar gael i bawb drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, byddai cynnwys enwau a ddefnyddir yn gyffredin ar hyn o bryd yn newid cymeriad y rhestr yn sylfaenol. Byddai angen mewnbwn arbenigol a rhyw fath o fonitro ar enwau sy'n dechrau cael eu defnyddio'n gyffredin a byddai'r rhain yn drwm ar adnoddau. Byddai hefyd yn gwyro'r rhestr oddi wrth ei phwrpas gwreiddiol o gofnodi enwau lleoedd hanesyddol a chodi eu proffil a'u gwerth.

Perhaps the primary concern that I have is that there is a peculiar—

Efallai mai'r prif bryder sydd gennyf yw bod—

17:39 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:39 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

17:39 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you explain what you mean by historic names in this context?

Allwch chi esbonio'r hyn yr ydych yn ei olygu wrth enwau hanesyddol yn y cyswllt hwn?

17:39 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, for example, let me just take Happy Donkey Hill and Sausage Island, which have often been used as examples of why we need to take action. My concern is that names like these, if they were to enter into common usage—and by the way, they are not names of places, but instead businesses that occupy those places—they would have to be added to the list without any reference to historic value. Indeed, it would just be a case of historic names being unintentionally, I believe, overcome by commonly used names, often business names. However, in turning to the contribution from Rhodri Glyn Thomas, I do recognise that the current form of Welsh place names is sometimes a subject of lively debate and can be a cause of genuine concern for communities and individuals. The Welsh Language Commissioner is responsible for advising on the standard forms of place names in Wales. She has convened a place names standardisation panel to provide recommendations and expert advice in this field.

Wel, er enghraifft, gadewch i mi gymryd Happy Donkey Hill a Sausage Island, sydd yn aml wedi cael eu defnyddio fel enghreifftiau dros yr angen i ni weithredu. Fy mhryder i yw y byddai enwau fel y rhain, os byddent yn cael eu defnyddio'n gyffredin—a gyda llaw, nid ydynt yn enwau lleoedd, ond yn hytrach yn fusnesau sy'n meddiannu'r lleoedd hynny—byddai'n rhaid iddynt gael eu hychwanegu at y rhestr heb unrhyw gyfeiriad at werth hanesyddol. Yn wir, byddai'n fater o enwau hanesyddol, yn anfwriadol yn fy marn i, yn cael eu goresgyn gan enwau a ddefnyddir yn gyffredin, enwau busnes yn aml. Fodd bynnag, wrth droi at y cyfraniad gan Rhodri Glyn Thomas, rwy'n cydnabod bod ffurf bresennol enwau lleoedd Cymru weithiau yn destun trafodaeth fywiog a gall fod yn destun pryder gwirioneddol i gymunedau ac unigolion. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am roi cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Mae hi wedi cynnull panel safoni enwau lleoedd er mwyn darparu argymhellion a chyngor arbenigol yn y maes hwn.

Whilst I would urge Members to vote against amendment 62, I would ask Members to vote for amendments 19 and 17, which are needed to update the Bill's overview and long title to reflect the duty to compile and maintain the list of historic place names.

Er y byddwn yn annog yr Aelodau i bleidleisio yn erbyn gwelliant 62, byddwn yn gofyn i'r Aelodau bleidleisio dros welliannau 19 a 17, sydd eu hangen i ddiweddaru trosolwg a theitl hir y Bil i adlewyrchu'r ddyletswydd i lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Bethan Jenkins to reply.

Bethan Jenkins i ateb.

17:40

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. I think this debate reflects what Peter Black was saying earlier about the definition of 'social' versus 'historic', because, for me, it's about—you know, current names will reflect, in the future, the history of the place as well. I think it's important that we record them for future generations and it's important, therefore, that you can see that—. For example, Mynyddoedd Pawb were saying mountains in north Wales have special features and that they have their own indigenous names, and that it's important for the tourism industry for people to understand the history of those particular mountains. It may not mean much to you and me, but it means quite a lot to those who live in that society.

Diolch. Rwy'n credu bod y ddadl hon yn adlewyrchu'r hyn yr oedd Peter Black yn ei ddweud yn gynharach am y diffiniad o 'cymdeithasol' yn erbyn 'hanesyddol', oherwydd, i mi, mae'n ymwneud—chi'n gwybod, bydd enwau presennol yn adlewyrchu, yn y dyfodol, hanes y lle hefyd. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn eu cofnodi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac mae'n bwysig, felly, eich bod yn gallu gweld bod—. Er enghraifft, roedd Mynyddoedd Pawb yn dweud fod mynyddoedd yn y gogledd yn meddu ar nodweddion arbennig a bod ganddynt eu henwau cynhenid eu hunain, a'i bod yn bwysig i'r diwydiant twristiaeth i bobl ddeall hanes y mynyddoedd penodol hynny. Efallai nad yw'n golygu llawer i chi a fi, ond mae'n golygu cryn dipyn i'r rhai sy'n byw yn y gymdeithas honno.

Your argument with regard to resource, and I've heard it previously today—well, I've argued resource against you with regard to the creation of an advisory panel. You can decide when you think a resource is too much or too little, but it seems that we can't decide when a resource is too much or too little. I think it's important, if we want to protect—well, it's not protection, as Peter Black said—if we want to record all that is important to us as Welsh people in any language of historic importance, then this is an amendment that would see fit to do that. I've listened to Rhodri Glyn's and Rhun's and Alun Davies's impassioned speeches, and I would have hoped that they would have led to some movement from the Welsh Government. It's not trying, again, to be contentious, it's trying to work in good faith, but, clearly, good faith is not good enough for you.

Eich dadl o ran adnoddau, ac rwyf wedi'i chlywed o'r blaen heddiw—wel, rwyf wedi dadlau adnoddau yn eich erbyn o ran creu'r panel cynghori. Gallwch benderfynu pryd mae adnodd yn ormod neu'n rhy ychydig yn eich tŷb chi, ond mae'n ymddangos na allwn ni benderfynu pryd mae adnodd yn ormod neu'n rhy ychydig. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, os ydym am warchod—wel, nid yw'n warchod, fel y dywedodd Peter Black—os ydym am gofnodi popeth sy'n bwysig i ni fel Cymry mewn unrhyw iaith o bwysigrwydd hanesyddol, yna dyma'r gwelliant fyddai'n ei gweld yn dda i wneud hynny. Rwyf wedi gwrando ar areithiau angerddol Rhodri Glyn a Rhun ac Alun Davies, a byddwn wedi gobeithio y byddent wedi arwain at rywfaint o symudiad gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n fater, unwaith eto, o fod yn ddadleuol, mae'n fater o weithio gydag ewyllys da, ond, yn amlwg, nid yw ewyllys da yn ddigon da i chi.

17:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 62 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 62 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 62: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 62 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 62.](#)

[Result of the vote on amendment 62.](#)

## Grŵp 13: Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol (Gwelliannau 24, 25, 26, 27, 28A, 28, 63, 64, 20, 18)

## Group 13: Historic Environment Records (Amendments 24, 25, 26, 27, 28A, 28, 63, 64, 20, 18)

17:42

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relate to historic environment records. The lead amendment in this group is amendment 24. I call on the Deputy Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â chofnodion amgylchedd hanesyddol. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 24. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 24 (Kenneth Skates).*

*Amendment 24 (Kenneth Skates) moved.*

17:43

### Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. The Government amendments relating to the historic environment records have largely been prompted by the Stage 2 committee discussion about how the list of historic place names could be used by public bodies. However, they also deal with an issue raised at Stage 1 about the potential complexity of the HER arrangements as currently drafted.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae gwelliannau'r Llywodraeth sy'n ymwneud â'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wedi eu hysgogi i raddau helaeth gan drafodaeth y pwyllgor Cyfnod 2 am sut y câi cyrff cyhoeddus ddefnyddio’r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Fodd bynnag, maent hefyd yn ymdrin â mater a godwyd yng Nghyfnod 1 ynghylch cymhlethdod posibl y trefniadau Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd.

Our amendments will move the duty to compile and keep up to date the HERs from local planning authorities to the Welsh Ministers. They will also introduce a new requirement for the Welsh Ministers to issue guidance on how the HERs should be used by certain public bodies. It’s worth spending a few minutes, I think, explaining my rationale here. At Stage 2, the Bill was amended to include a requirement on the Welsh Ministers to compile and keep up to date a list of historic place names that would be accessed through the HERs, and, during the Stage 2 proceedings, I was taken by the wide-ranging discussion on how the list could be used to inform decision making in the future. In the guidance proposed by these amendments, we will be able to set out clearly how specific public bodies will be expected to use the records in the exercise of their functions.

Bydd ein gwelliannau yn symud y ddyletswydd i lunio a diweddaru’r CAH oddi wrth awdurdodau cynllunio lleol i Weinidogion Cymru. Byddant hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar sut y dylai’r CAH gael eu defnyddio gan gyrff cyhoeddus penodol. Mae'n werth treulio ychydig funudau, rwy’n meddwl, yn esbonio fy rhesymeg yn hyn o beth. Yng Nghyfnod 2, diwygiwyd y Bil i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i lunio a diweddaru rhestr o enwau lleoedd hanesyddol y ceid mynediad ati drwy'r CAH, ac, yn ystod y trafodion Cyfnod 2, gwnaed argraff arnaf gan y drafodaeth eang ar sut y gellid defnyddio’r rhestr i lywio penderfyniadau yn y dyfodol. Yn y canllawiau a gynigiwyd gan y gwelliannau hyn, byddwn yn gallu nodi'n glir sut y bydd disgwyl i gyrff cyhoeddus penodol ddefnyddio'r cofnodion wrth arfer eu swyddogaethau.

At Stage 1, there were lengthy discussions about the proper location of the duty. It was a finely balanced argument. However, given the inclusion of access to information on historic place names in the HERs and the need for guidance on the use of HERs, I have concluded that the duty will be better placed on the Welsh Ministers. This decision has been taken following numerous discussions with key stakeholders. It would make it easier to continue the current arrangements under which the HERs are maintained by the archaeological trusts.

Yng Nghyfnod 1, cafwyd trafodaethau helaeth am leoliad priodol y ddyletswydd. Roedd yn ddadl gytbwys. Fodd bynnag, o ystyried cynnwys mynediad at wybodaeth ar enwau lleoedd hanesyddol yn y CAH a'r angen am ganllawiau ar y defnydd o CAH, rwyf wedi dod i'r casgliad y bydd yn well rhoi’r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru. Mae'r penderfyniad hwn wedi ei gymryd yn dilyn nifer o drafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol. Byddai'n ei gwneud yn haws i barhau â'r trefniadau presennol ar gyfer cadw’r CAH gan yr ymddiriedolaethau archeolegol.

Amendments 24 to 26 make a series of alterations to accommodate the shift of the duty, whilst carrying over the earlier provisions of the Bill. Amendment 27 deletes the provisions for the discharge of a local planning authority’s HER functions, which are no longer required.

Mae gwelliannau 24 i 26 yn gwneud cyfres o newidiadau i ddarparu ar gyfer symud y ddyletswydd, ac yn trosglwyddo darpariaethau cynharach y Bil. Mae gwelliant 27 yn dileu'r darpariaethau ar gyfer cyflawni swyddogaethau CAH awdurdod cynllunio lleol, nad ydynt yn ofynnol mwyach.

Amendment 28 requires the Welsh Ministers to issue guidance to certain public bodies on how they should use information contained in the HERs in the exercise of their functions: for example, their use in informing local authority decisions on proposals to change property names, or in planning determinations.

Mae gwelliant 28 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus penodol ar sut y dylent ddefnyddio gwybodaeth a geir yn y CAH wrth iddynt arfer eu swyddogaethau: er enghraifft, eu defnydd o ran llywio penderfyniadau awdurdodau lleol ar gynigion i newid enwau eiddo, neu mewn penderfyniadau cynllunio.

Natural Resources Wales could use the HERs to inform strategies relating to forestry management or flood alleviation. I'd like to stress that local authorities will still have an important role in the compilation and the enhancement of the HERs, and will continue to use them regularly in the exercise of their functions.

Gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio'r CAH i lywio strategaethau sy'n ymwneud â rheoli coedwigaeth neu liniaru llifogydd. Hoffwn bwysleisio y bydd awdurdodau lleol yn dal i fod â swyddogaeth bwysig wrth lunio a gwella'r CAH, a byddant yn parhau i'w defnyddio yn rheolaidd wrth arfer eu swyddogaethau.

Turning to the amendments tabled by Bethan Jenkins, amendment 28A, which would require consideration of the Welsh language in the compilation of HERs, is unnecessary since this is already required by other legislation and by Welsh language standards. With regard to amendment 63, I have already agreed that the HER guidance should be brought before the Assembly, and there is already a consultation requirement associated with the guidance. So this further amendment is unnecessary.

Gan droi at y gwelliannau a gyflwynwyd gan Bethan Jenkins, mae gwelliant 28A, a fyddai'n gofyn am ystyriaeth o'r iaith Gymraeg wrth lunio'r CAH, yn ddianghenraid gan fod hyn eisoes yn ofynnol gan ddeddfwriaeth arall a gan safonau'r Gymraeg. O ran gwelliant 63, rwyf eisoes wedi cytuno y dylai'r canllawiau CAH gael eu dwyn gerbron y Cynulliad, ac mae eisoes yn ofyniad ymgynghori sy'n gysylltiedig â'r canllawiau. Felly mae'r gwelliant pellach hwn yn ddiangen.

Finally, amendment 64, requiring a five-year audit of HERs, is also not needed. The records are already regularly assessed against appropriate standards and, if amendments 24 to 28 are accepted, it will be in the interests of the Welsh Ministers to review them regularly to determine if they are fit for purpose.

Yn olaf, mae gwelliant 64, sy'n gofyn am archwiliad pum mlynedd o CAH, hefyd yn ddiangen. Mae'r cofnodion eisoes yn cael eu hasesu'n rheolaidd yn erbyn safonau priodol ac, os bydd gwelliannau 24 i 28 yn cael eu derbyn, bydd er budd Gweinidogion Cymru i'w hadolygu yn rheolaidd i benderfynu a ydynt yn addas i'w diben.

17:46

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'd like to thank the Deputy Minister, in this case, for giving us prior warning of this post-Stage 2 change to the Bill. I still have to say, though, that my first instinct was to abstain on this change for, while I support the idea of a coherent historic environment list, I don't rush warmly to the idea of a centralised product, I must admit. The argument for a more localism approach to this is still strong.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog, yn yr achos hwn, am roi rhybudd ymlaen llaw i ni o'r newid ôl-Cyfnod 2 hwn i'r Bil. Mae'n rhaid i mi ddweud, fodd bynnag, mai fy ngreddf gyntaf oedd ymatal ar y newid hwn oherwydd, er fy mod yn cefnogi'r syniad o restr amgylchedd hanesyddol cydlynol, nid wyf yn rhuthro'n frwd at y syniad o gynnyrch canolog, mae'n rhaid i mi gyfaddef. Mae'r ddadl ar gyfer dull mwy lleol i hyn yn dal yn gryf.

However, I have given consideration to the Government amendments in this group and we will be supporting them. This is on the basis that other arguably national lists are also kept and maintained by central Government, and so it would be consistent for this list to be similarly kept. It also means that the weight of Bethan Jenkins's amendments for auditing and reporting would be less of a burden on local authorities, making that easier to support as well.

Fodd bynnag, rwyf wedi ystyried gwelliannau'r Llywodraeth yn y grŵp hwn a byddwn yn eu cefnogi. Mae hyn ar y sail bod rhestrau eraill y gellid dadlau sy'n genedlaethol hefyd yn cael eu cadw a'u cynnal gan y Llywodraeth ganolog, ac felly byddai'n gyson i'r rhestr hon gael ei chadw yn yr un modd. Mae hefyd yn golygu y byddai pwysau gwelliannau Bethan Jenkins ar gyfer archwilio ac adrodd yn llai o faich ar awdurdodau lleol, gan ei gwneud yn haws i gefnogi hynny hefyd.

By contrast, Peter Black's introduction of registers of special local interest are properly a matter of local responsibility. I think the distinction between those and the lists, which is the subject of this group, is apparent.

Ar y llaw arall, mae cyflwyniad Peter Black o gofrestri o ddiddordeb lleol arbennig yn briodol yn fater o gyfrifoldeb lleol. Rwy'n meddwl bod y gwahaniaeth rhwng hynny a'r rhestrau, sef testun y grŵp hwn, yn amlwg.

17:47

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, amendment 28A,

Ie, gwelliant 28A,

'the need to consider the Welsh language in creating and keeping up to date historic environment records'.

yr angen i ystyried y Gymraeg wrth greu a chadw cofnodion cyfredol am yr amgylchedd hanesyddol.

That would be specifically to think about how they're compiling the records in relation to the Welsh language. I hear what you say, Minister, in terms of the fact that there are laws in place, but I guess it's when we look back on when we've put in whether the equal rights commissioner or the children's commissioner should be written into specific pieces of human rights law—I think it's not an issue to reaffirm that point within any given new law, just in case there are some that may forget that it exists, although they shouldn't.

Byddai hynny yn benodol i feddwl am sut y maent yn casglu cofnodion ynglŷn â'r Gymraeg. Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch, Weinidog, o ran y ffaith bod deddfau ar waith, ond mae'n debyg ei fod yn ymwneud â phan fyddwn yn edrych yn ôl ar ba bryd yr ydym wedi nodi a ddylai'r comisiynydd hawliau cyfartal neu'r comisiynydd plant gael ei ysgrifennu i mewn i ddarnau penodol o gyfraith hawliau dynol—nid wyf yn credu ei bod yn broblem ailddatgan y pwynt hwnnw o fewn unrhyw gyfraith newydd benodol, rhag ofn bod rhai a allai anghofio ei fod yn bodoli, er na ddylent.

I take your point on the guidance, but I wanted to reaffirm that that would be happening. So, obviously, the historic environment records would allow Assembly Members to see what is being proposed and improve it where necessary.

Derbyniaf eich pwynt ar y canllawiau, ond roeddwn i eisiau ailddatgan y byddai hynny'n digwydd. Felly, yn amlwg, byddai'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad weld beth sy'n cael ei gynnig a'i wella lle bo angen.

'Page 47, after line 12, insert a new section—

Tudalen 47, ar ôl llinell 12, ychwanegu adran newydd—

'Auditing of historic environment records

Archwilio cofnodion amgylchedd hanesyddol

'(1) At least once every five years the Welsh Ministers must arrange for an independent person to audit the historic environment records and provide a written report to the Welsh Ministers.'

(1) O leiaf unwaith bob pum mlynedd mae'n rhaid i Weinidogion Cymru drefnu i berson annibynnol archwilio cofnodion yr amgylchedd hanesyddol a darparu adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

This amendment requires the Welsh Government to audit the historic environment records at least once every five years and at least once in every term of this Assembly. Ministers must report on that audit to the National Assembly, and I believe that this is actually necessary, as we have heard evidence in committee stage that some of the historic environment records are more patchy than others, can vary from area to area, and that there are sometimes capacity issues. I would wish for this to be scrutinised on an Assembly level, so that we can hold the Minister to account, we can track progress of the historic and environment records effectively, and assess how they could be improved upon.

Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru archwilio'r cofnodion amgylchedd hanesyddol o leiaf unwaith bob pum mlynedd ac o leiaf unwaith ym mhob tymor y Cynulliad hwn. Mae'n rhaid i Weinidogion adrodd ar yr archwiliad hwnnw i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac rwy'n credu bod hyn mewn gwirionedd yn angenrheidiol, gan ein bod wedi clywed tystiolaeth yn y cam pwyllgor bod rhai o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn fwy anghyson nag eraill, y gallant amrywio o un ardal i'r llall, a bod problemau capasiti weithiau. Hoffwn weld craffu ar hyn ar lefel y Cynulliad, fel y gallwn ddwyn y Gweinidog i gyfrif, y gallwn olrhain cynnydd y cofnodion hanesyddol a'r amgylchedd yn effeithiol, ac asesu sut y gellid eu gwella.

Again, as I said in the previous stage, I've read the draft guidance on managing the historic environment records in Wales, and it does say that Welsh Ministers will monitor the effective discharge of local planning authority duties in this regard, but, of course, if you're going to be in charge, then you won't need to monitor what they're doing, but to monitor what your own Government is doing in relation to the HERs. I believe that accountability should be on the face of the Bill, not only in the guidance, and I think that that reflects what I've said in previous discussions on this.

Unwaith eto, fel y dywedais yn y cam blaenorol, rwyf wedi darllen y canllawiau drafft ar reoli cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, ac mae yn dweud y bydd Gweinidogion Cymru yn monitro cyflawni dyletswyddau awdurdod cynllunio lleol yn effeithiol yn hyn o beth, ond, wrth gwrs, os mai chi sy'n mynd i fod yn gyfrifol, yna ni fydd angen i chi fonitro'r hyn y maen nhw yn ei wneud, ond monitro beth y mae eich Llywodraeth eich hun yn ei wneud o ran y CAH. Credaf y dylai atebolrwydd fod ar y wyneb y Bil, nid yn unig yn y canllawiau, a chredaf fod hynny'n adlewyrchu'r hyn yr wyf wedi'i ddweud mewn trafodaethau blaenorol ar hyn.

With regard to your amendment 24, as Suzy Davies has indicated, I welcome the fact that we were given prior knowledge of it, and you say it makes it easier to maintain the current arrangements with historic environment records within Government. I note that you said that you talked to stakeholders about that, and I wondered if you could tell us if you'd talked to the local authorities involved to see whether they thought that this was the best way forward in relation to you maintaining that, or were there some rumblings as to whether they actually wanted to take ownership of that process, given that that was what you were proposing earlier on in the Bill stages?

O ran eich gwelliant 24, fel y mae Suzy Davies wedi nodi, croesawaf y ffaith ein bod wedi cael gwybodaeth flaenorol ohono, ac rydych yn dweud ei fod yn ei gwneud yn haws i gynnal y trefniadau presennol gyda chofnodion amgylchedd hanesyddol o fewn y Llywodraeth. Sylwaf eich bod wedi dweud eich bod wedi siarad â rhanddeiliaid ynghylch hynny, ac rwy'n meddwl tybed a allech chi ddweud wrthym os ydych wedi siarad â'r awdurdodau lleol dan sylw i weld a oeddent yn meddwl mai hon oedd y ffordd orau ymlaen o ran mai chi fydd yn cynnal hynny, neu a oedd rhywfaint o gwyno ynghylch a oeddent mewn gwirionedd yn awyddus i gymryd perchnogaeth o'r broses honno, o ystyried mai dyna oedd yr hyn yr oeddech yn ei gynnig yn gynharach yng nghyfnodau Bil?

I think that's what I have for now on that, and I'm sure I'll have more to say later.

Rwy'n credu mai dyna sydd gennyf am y tro ar hynny, ac rwy'n siŵr y bydd gennyf fwy i'w ddweud yn nes ymlaen.

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

17:51

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I urge Members to support amendments 24 to 28 and associated amendments 18 and 20. In bringing forward these amendments, I think it's worth remembering the importance of the HERs as a critical source of information for those making decisions about the sustainable management of the historic environment, and, by placing them on a statutory footing, we will secure their future in Wales—an achievement that will be the envy of other nations of the United Kingdom.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Anogaf yr Aelodau i gefnogi gwelliannau 24 i 28 a'r gwelliannau cysylltiedig 18 a 20. Wrth gyflwyno'r gwelliannau hyn, rwy'n meddwl ei fod yn werth cofio pwysigrwydd y CAH fel ffynhonnell hanfodol o wybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am reolaeth gynaliadwy yr amgylchedd hanesyddol, a, thrwy eu rhoi ar sail statudol, byddwn yn sicrhau eu dyfodol yng Nghymru—cyflawniad a fydd yn destun eiddigedd gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.

The amendments will simplify the arrangements for the HERs and support the way in which both the records and the list of historic place names will be used, and I ask Members not to support amendments 28A, 63 and 64, which I consider unnecessary.

Bydd y gwelliannau yn symleiddio'r trefniadau ar gyfer CAH ac yn cefnogi'r ffordd y bydd y cofnodion a'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yn cael eu defnyddio, a gofynnaf i Aelodau beidio â chefnogi gwelliannau 28A, 63 a 64, yr wyf yn eu hystyried yn ddiangen.

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 24 is not agreed, amendments 20 and 18 fall. The question is that amendment 24 be agreed. Does any Member object? Then amendment 24 is agreed.

Os nad yw gwelliant 24 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 20 a 18 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 24 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 24 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 24 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 24 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 25.

Weinidog, gwelliant 25.

*Cynigiwyd gwelliant 25 (Kenneth Skates).*

*Amendment 25 (Kenneth Skates) moved.*

17:52

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Moved.

Cynigiaf.

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 25 be agreed. Does any Member object? Then amendment 25 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 25 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 25 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 25 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 25 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, amendment 26.

Weinidog, gwelliant 26.

*Cynigiwyd gwelliant 26 (Kenneth Skates).*

*Amendment 26 (Kenneth Skates) moved.*

17:52

## Kenneth Skates [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Moved.

Cynigiaf.

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 26 be agreed. Does any Member object? Then amendment 26 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 26 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 26 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 26 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 26 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, amendment 27.

Weinidog, gwelliant 27.

*Cynigiwyd gwelliant 27 (Kenneth Skates).*

*Amendment 27 (Kenneth Skates) moved.*

17:52

## Kenneth Skates [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Moved.

Cynigiaf.

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 27 be agreed. Does any Member object? Then amendment 27 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 27 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 27 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 27 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 27 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, amendment 28.

Weinidog, gwelliant 28.

*Cynigiwyd gwelliant 28 (Kenneth Skates).*

*Amendment 28 (Kenneth Skates) moved.*

17:52

## Kenneth Skates [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Moved.

Cynigiaf.

17:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Before dispensing with amendment 28, we will first dispose of the amendment to it. Bethan Jenkins, amendment 28A.

Cyn hepgor gwelliant 28, byddwn yn gyntaf yn cael gwared ar y gwelliant iddo. Bethan Jenkins, gwelliant 28A.

*Cynigiwyd gwelliant 28A (Bethan Jenkins).*

*Amendment 28A (Bethan Jenkins) moved.*

17:52 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, move.

Ie, cynnig.

17:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 28A be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 28A yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 28A: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 28A not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 28A.

Result of the vote on amendment 28A.

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 28 be agreed. Does any Member object? Then amendment 28 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 28 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 28 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 28 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 28 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bethan Jenkins, amendment 63.

Bethan Jenkins, gwelliant 63.

*Cynigiwyd gwelliant 63 (Bethan Jenkins).*

*Amendment 63 (Bethan Jenkins) moved.*

17:53 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, move.

Ie, cynnig.

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 63 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 63 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 63: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 63 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 63.

Result of the vote on amendment 63.

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bethan Jenkins, amendment 64.

Bethan Jenkins, gwelliant 64.

*Cynigiwyd gwelliant 64 (Bethan Jenkins).*

*Amendment 64 (Bethan Jenkins) moved.*

17:53

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

17:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 64 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23, voted against 31. Therefore, the amendment is lost.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 64 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid, pleidleisiodd 31 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant wedi methu.

*Gwrthodwyd gwelliant 64: O blaid 23, Yn erbyn 31, Ymatal 0.*

*Amendment 64 not agreed: For 23, Against 31, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 64.

Result of the vote on amendment 64.

### Grŵp 14: Y Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru (Gwelliannau 65, 15, 66, 67, 43, 44, 56)

### Group 14: Advisory Panel for the Welsh Historic Environment (Amendments 65, 15, 66, 67, 43, 44, 56)

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next group of amendments relates to the advisory panel for the Welsh historic environment records. The lead amendment is amendment 65, and I call on Bethan Jenkins to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â'r panel ymgynghorol ar gyfer cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru. Y prif welliant yw gwelliant 65, a galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 65 (Bethan Jenkins).*

*Amendment 65 (Bethan Jenkins) moved.*

17:54

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we have rehearsed this argument with regard to setting up a new advisory body, and I will maintain that I do not see that this is the right time to be setting up a body of this nature. Currently, it's not clear to me what additional value will be gained from creating this body, given that we already have a group in existence at the moment and given the fact that Cadw and various bodies such as the royal commission can effectively advise the Minister.

Wel, rydym wedi ymarfer y ddadl hon ynglŷn â sefydlu corff cynghori newydd, a byddaf yn mynnu nad wyf yn gweld mai dyma'r amser iawn i fod yn sefydlu corff o'r math hwn. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir i mi pa werth ychwanegol a geir o greu'r corff hwn, o gofio bod gennym eisoes grŵp yn bodoli ar hyn o bryd ac o ystyried y ffaith bod Cadw a gwahanol gyrff fel y comisiwn brenhinol yn gallu cynghori'r Gweinidog yn effeithiol.

It will also have financial implications, as I've said in a previous debate here today, which, to put bluntly, I would rather spend on updating buildings of historic importance that are falling into disrepair. The historic environment group, which is effective, already exists, and my amendment 67 proposes to put this on a statutory footing. What I don't understand is why a new panel is being insisted upon by the Welsh Government at a time when a review of heritage chaired by Baroness Randerson is about to go ahead. To me, this panel is pre-empting its findings, and I'd like to know what the Deputy Minister will do if this review comes back and finds that there is no need for something written on the face of the Bill, that such a panel has different views, and how then it will reflect on this review group considering that this Bill is nearing its end. I do find it baffling that that was announced recently, but perhaps the Minister, obviously, knows something I don't.

Bydd hefyd yn arwain at oblygiadau ariannol, fel yr wyf wedi dweud mewn dadl flaenorol yma heddiw, y byddai, i siarad yn blaen, yn well gennyf ei wario ar ddiweddaru adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol sy'n dadfeilio. Mae'r grŵp amgylchedd hanesyddol, sy'n effeithiol, yn bodoli eisoes, ac mae fy ngwelliant 67 i yn cynnig rhoi hyn ar sail statudol. Yr hyn nad wyf yn ei ddeall yw pam mae Llywodraeth Cymru yn mynnu cael panel newydd ar adeg pan mae adolygiad o dreftadaeth dan gadeiryddiaeth y Farwnes Randerson ar fin mynd yn ei flaen. I mi, mae'r panel hwn yn achub y blaen ar ei ganfyddiadau, a hoffwn i wybod beth fydd y Dirprwy Weinidog yn ei wneud os bydd yr adolygiad hwn yn dod yn ôl ac yn canfod nad oes angen am rywbeth ysgrifenedig ar wyneb y Bil, bod gan banel o'r fath safbwyntiau gwahanol, a sut wedyn y bydd yn adlewyrchu ar y grŵp adolygu hwn o ystyried bod y Bil hwn yn agosáu at ei derfyn. Rwy'n ei chael yn ddryslyd fod hynny wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, ond efallai fod y Gweinidog, yn amlwg, yn gwybod rhywbeth nad wyf i.

I also propose giving the Minister power to add or remove a body to or from that list, and that the power should be subject to affirmative procedure in this Assembly. I know that I have asked you previously if other groups who are not currently on this particular group could be added to the list. These bodies work in the field day in, day out, and are no less expert than an appointed panel, I would argue. Amendments 66 and 67 deal with tidying up and then proposing how the group should look, and increasing Assembly scrutiny of any ministerial decision making in this area. If this amendment falls—and I'm going to take a bet, thinking that it might—Plaid Cymru will be backing amendment 15, tabled by Peter Black, which will scrutinise the work programme and make available to this Assembly the work of that panel. It's not to try and undermine, again, the work that's done in this sector. If anything, I'm saying that there are experts already there. We don't need to create panels in Wales for the sake of having panels, quite frankly—although they are nice jobs for some people in this room, as well. But I think that, when money is tight, when the Minister has said to me previously that he can't extend the scope of certain aspects of this Bill due to resources, then I think that we need to think about where we spend our money prudently here in Wales.

Rwyf hefyd yn bwriadu rhoi'r pŵer i'r Gweinidog i ychwanegu corff at y rhestr honno, neu ei ddileu oddi arni ac y dylai'r pŵer fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad hwn. Rwy'n gwybod fy mod wedi gofyn i chi o'r blaen pe gellid ychwanegu grwpiau eraill nad ydynt ar hyn o bryd ar y grŵp penodol hwn at y rhestr. Mae'r cyrff hyn yn gweithio yn y maes ddydd ar ôl dydd, ac nid ydynt yn llai o arbenigwyr na'r panel a benodwyd, byddwn yn dadlau. Mae gwelliannau 66 a 67 yn ymdrin â thacluso ac yna'n cynnig sut y dylai'r grŵp edrych, a chynyddu craffu'r Cynulliad ar unrhyw benderfyniadau gweinidogol yn y maes hwn. Os yw'r gwelliant hwn yn methu—ac rwy'n mynd i roi bet ar hynny, gan feddwl y gallai—bydd Plaid Cymru yn cefnogi gwelliant 15, a gyflwynwyd gan Peter Black, a fydd yn craffu ar y rhaglen waith ac yn sicrhau bod gwaith y panel ar gael i'r Cynulliad hwn. Nid yw hyn yn ymwneud a cheisio tanseilio, unwaith eto, y gwaith sy'n cael ei wneud yn y sector hwn. Os rhywbeth, rwy'n dweud bod arbenigwyr yno eisoes. Nid oes angen i ni greu paneli yng Nghymru dim ond er mwyn cael paneli, a dweud y gwir—er eu bod yn swyddi braf i rai pobl yn yr ystafell hon, yn ogystal. Ond rwy'n credu, pan fo arian yn dynn, pan fo'r Gweinidog wedi dweud wrthyf o'r blaen na all ehangu cwmpas rhai agweddau ar y Bil hwn oherwydd adnoddau, yna rwy'n meddwl bod angen i ni feddwl am ble yr ydym yn gwario ein harian yn ddoeth yma yng Nghymru.

17:57

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We are getting into the habit of putting advisers and panels onto the statute book, and I do actually agree with Bethan Jenkins—that in this particular case, there is plenty of advice already available, and by putting the other group as a statutory body, that will cover what is needed without creating another body.

Rydym yn mynd i'r arfer o roi cynghorwyr a phaneli ar y llyfr statud, ac rwy'n cytuno mewn gwirionedd â Bethan Jenkins—yn yr achos penodol hwn, bod digon o gyngor eisoes ar gael, a thrwy roi'r grŵp arall fel corff statudol, bydd hynny'n cwmpasu'r hyn sydd ei angen heb greu corff arall.

However, if amendment 65 is not agreed, then my amendments will hopefully come into force. In that regard, amendment 15, which relates particularly to communities committee recommendation 14, is about making sure that there is an annual regular report back on the advisory panel. This amendment requires the advisory panel to publish the advice it has provided to the Minister on their work programme on a yearly basis.

Fodd bynnag, os nad yw gwelliant 65 yn cael ei dderbyn, yna bydd fy ngwelliannau i, gobeithio, yn dod i rym. Yn hynny o beth, mae gwelliant 15, sy'n ymwneud yn benodol ag argymhelliad 14 y pwyllgor cymunedau, yn ymwneud â sicrhau bod adrodd yn ôl rheolaidd blynyddol ar y panel cynghori. Mae'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r panel cynghori gyhoeddi'r cyngor y mae wedi'i ddarparu i'r Gweinidog ar ei raglen waith yn flynyddol.

Amendments 43 and 44 incorporate the changes my amendment requested at Stage 2, after further discussion with the Deputy Minister. These amendments implement the Constitutional and Legislative Affairs Committee recommendation 4: that the Deputy Minister should table an amendment to the Bill requiring regulations made under section 38(7)(h) to be subject to the affirmative procedure. Amendment 43 will require a draft of any regulations that the Welsh Ministers wish to make to disqualify staff of specified organisations from membership on the advisory panel for the Welsh historic environment to be laid before and approved by the National Assembly for Wales. Amendment 44 is linked to amendment 43, and removes the provision that regulations regarding the disqualification of staff of specified organisations from membership on the advisory panel for the Welsh historic environment should be subject to annulment by resolution of the National Assembly for Wales.

Mae gwelliannau 43 a 44 yn ymgorffori'r newidiadau y gofynnodd fy ngwelliant amdanynt yng Nghyfnod 2, ar ôl trafodaeth bellach gyda'r Dirprwy Weinidog. Mae'r gwelliannau hyn yn gweithredu argymhelliad 4 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: y dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau a wnaed dan adran 38 (7) (h) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd gwelliant 43 yn gofyn am i ddrafft o unrhyw reoliadau y mae Gweinidogion Cymru yn dymuno eu gwneud i anghymwyso staff sefydliadau penodol rhag bod yn aelodau o'r panel ymgynghorol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru gael ei roi gerbron a'i gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gwelliant 44 yn gysylltiedig â gwelliant 43, ac yn dileu'r ddarpariaeth y dylai rheoliadau ynghylch anghymwyso staff o sefydliadau penodol rhag bod yn aelodau o'r panel ymgynghorol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru fod yn ddarostyngedig i gael eu diddymu drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Although these are technical amendments, they are very important in terms of accountability, and I hope that the Assembly can support them.

Er mai gwelliannau technegol yw'r rhain, maent yn bwysig iawn o ran atebolrwydd, ac rwy’n gobeithio y gall y Cynulliad eu cefnogi.

17:59

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I cannot support the amendments to remove the provisions for the advisory panel for the Welsh historic environment and replace them with a duty to consult with and take account of the advice from the historic environment group. The Welsh Ministers need a source of independent expert specialist advice and perspectives on a range of statutory and policy responsibilities. By its very nature as a body composed of representatives of various stakeholder organisations, the historic environment group cannot provide such independent advice. However, I support Peter Black’s amendment for annual reporting, which I accepted in principle at Stage 2, and I’m also supporting his amendments 43 and 44, requiring regulations on membership of the panel to be subject to the affirmative procedure.

Ni allaf gefnogi'r gwelliannau i gael gwared ar y darpariaethau ar gyfer y panel ymgynghorol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru a’u disodli â dyletswydd i ymgynghori â'r grŵp amgylchedd hanesyddol ac ystyried ei gyngor. Mae Gweinidogion Cymru angen ffynhonnell o gyngor a safbwyntiau arbenigol arbenigwyr annibynnol ar ystod o gyfrifoldebau statudol a pholisi. Oherwydd ei natur fel corff sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau rhanddeiliaid, ni all y grŵp amgylchedd hanesyddol roi cyngor annibynnol o'r fath. Fodd bynnag, rwy’n cefnogi gwelliant Peter Black ar gyfer adroddiadau blynyddol, a dderbyniais mewn egwyddor yng Nghyfnod 2, ac rwyf hefyd yn cefnogi ei welliannau 43 a 44, sy'n gofyn am reoliadau ar aelodaeth o'r panel i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bethan Jenkins to reply.

Bethan Jenkins i ateb.

18:00

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I’m all right, thanks.

Rwy’n iawn, diolch.

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 65 is agreed, amendment 15 falls. The question is that amendment 65 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Os caiff gwelliant 65 ei dderbyn, bydd gwelliant 15 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 65 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy’n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy’n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 65: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 65 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 65.

Result of the vote on amendment 65.

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 15.

Peter Black, gwelliant 15.

*Cynigiwyd gwelliant 15 (Peter Black[R]).*

*Amendment 15 (Peter Black[R]) moved.*

18:00

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 15 be agreed. Does any Member object? Then amendment 15 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 15 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 15 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 15 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 15 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bethan Jenkins, amendment 66.

Bethan Jenkins, gwelliant 66.

*Cynigiwyd gwelliant 66 (Bethan Jenkins).*

*Amendment 66 (Bethan Jenkins) moved.*

18:00

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ie.

18:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 66 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 66 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 66: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 66 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 66.

Result of the vote on amendment 66.

18:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bethan Jenkins, amendment 67.

Bethan Jenkins, gwelliant 67.

*Cynigiwyd gwelliant 67 (Bethan Jenkins).*

*Amendment 67 (Bethan Jenkins) moved.*

18:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ie.

If amendment 67 is not agreed, amendment 56 falls. The question is that amendment 67 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Os nad yw gwelliant 67 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 56 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 67 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 67: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 67 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 67.

Result of the vote on amendment 67.

*Methodd gwelliant 56.*

*Amendment 56 fell.*

### Grŵp 15: Adeiladau Eglwysig (Gwelliannau 68, 69, 70, 57, 55)

### Group 15: Ecclesiastical Buildings (Amendments 68, 69, 70, 57, 55)

18:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Group 15 relates to ecclesiastical buildings. The lead amendment in this group is amendment 68. I call on Bethan Jenkins to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae grŵp 15 yn ymwneud ag adeiladau eglwysig. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 68. Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 68 (Bethan Jenkins, gyda chefnogaeth Darren Millar).*

*Amendment 68 (Bethan Jenkins, supported by Darren Millar) moved.*

18:01

## Bethan Jenkins

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. Following on from Stage 2, when I proposed removing the exemptions as I felt they could be unfair to other denominations and faiths, I've had substantial contact with organisations such as Cytûn who benefit from the exemption. While I can see their arguments, I do believe there is room for improving the current arrangement, and I've had an e-mail from them stating that they're happy with these amendments here today. For example, I was told that reviews of the exemptions were carried out, but they are irregular, and one hasn't happened for years. Although the groups conceded that there was room for improvement, what that improvement was wasn't specified by them in the note that was sent to interested AMs.

Diolch. Yn dilyn ymlaen o Gyfnod 2, pan gynigiais dynnu'r eithriadau yn ôl gan fy mod yn teimlo y gallent fod yn annheg i enwadau a chrefyddau eraill, rwyf wedi cael cyswllt sylweddol â sefydliadau fel Cytûn sy'n elwa ar yr eithriad. Er y gallaf weld eu dadleuon, nid wyf yn credu bod lle i wella'r trefniadau presennol, ac rwyf wedi cael e-bost ganddynt yn dweud eu bod yn hapus gyda'r gwelliannau hyn yma heddiw. Er enghraifft, dywedwyd wrthyf fod adolygiadau o'r eithriadau yn cael eu cynnal, ond maent yn afreolaidd, ac nid oes yr un wedi digwydd ers blynyddoedd. Er bod y grwpiau yn derbyn bod lle i wella, ni nodwyd ganddynt beth oedd y gwelliant hwnnw yn y nodyn a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad sydd â diddordeb.

This, and amendments 69 and 70, seeks to formalise that review process and make it subject to Assembly scrutiny. I think this is important, because I received advice that the present arrangements might actually amount to discrimination, and if we were making them as new law today, they may fall foul of our equalities and human rights obligations. So, I see my amendments as a sensible solution, requiring Ministers periodically to justify the continued existence of the exemptions. That is, the Ministers could work with those bodies to see what works they are carrying out, how they are consulting, and how they are updating their specific churches and Church in Wales schools, for example. I met with schools from Powys here recently, who were saying that the Church in Wales had closed their school but had left the school in disrepair also. Because they're exempt, I worry about the fact that they're not as urgently repaired as they might need to be, and that some of these ecclesiastical denominations may sit on resource, which may be for various reasons. It may be that they don't have the financial capacity to do that, but they may have other reasons as regards what they want to use that building for in the future, which isn't immediately urgent to them. So, that's why I think it's important for this review process to happen, because as long as the exemption exists, it would allow for Assembly scrutiny.

Mae hwn, a gwelliannau 69 a 70, yn ceisio ffurfioli'r broses adolygu honno a'i gwneud yn destun craffu gan y Cynulliad. Rwy'n credu bod hyn yn bwysig, oherwydd cefais gyngor y gallai'r trefniadau presennol mewn gwirionedd fod yn gyfystyr â gwahaniaethu, a phe byddem yn eu gwneud yn gyfraith newydd heddiw, efallai y byddent yn torri ein rhwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol. Felly, rwy'n gweld fy ngwelliannau fel ateb synhwyrol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyfiawnhau bodolaeth barhaus yr eithriadau o bryd i'w gilydd. Hynny yw, gallai Gweinidogion weithio gyda'r cyrff hynny i weld beth sy'n gweithio y maent yn ei gyflawni, sut y maent yn ymgynghori, a sut y maent yn diweddaru eu heglwysi penodol ac ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, er enghraifft. Cwrddais ag ysgolion o Bowys yma yn ddiweddar, a oedd yn dweud bod yr Eglwys yng Nghymru wedi cau eu hysgol, ond wedi gadael yr ysgol mewn cyflwr gwael hefyd. Oherwydd eu bod wedi'u heithrio, rwy'n poeni am y ffaith nad ydynt yn trwsio ar gymaint o frys ag y gallai fod angen iddynt, ac y gall rhai o'r enwadau eglwysig hyn eistedd ar adnodd, a allai fod am wahanol resymau. Gall fod nad oes ganddynt y gallu ariannol i wneud hynny, ond gall fod ganddynt resymau eraill o ran beth y maent am ddefnyddio'r adeilad hwnnw ar ei gyfer yn y dyfodol, nad yw'n fater o frys uniongyrchol iddynt. Felly, dyna pam yr wyf yn credu ei fod yn bwysig bod y broses adolygu hon yn digwydd, oherwydd cyn belled â bod yr eithriad yn bodoli, byddai'n caniatáu ar gyfer craffu gan y Cynulliad.

This amendment provides an opportunity for ecclesiastical buildings to be seen also on a publicly available list, for the same reasons as we said for parks and historic gardens. This also has support from that community. This will allow for them to be publicly known and would provide the opportunity for further protection. So, I urge Assembly Members to consider supporting these particular amendments.

Mae'r gwelliant hwn yn rhoi cyfle i adeiladau eglwysig i gael eu gweld hefyd ar restr sydd ar gael i'r cyhoedd, am yr un rhesymau ag y dywedasom ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol. Mae hyn hefyd yn cael cefnogaeth gan y gymuned honno. Bydd hyn yn caniatáu iddynt fod yn hysbys yn gyhoeddus a byddai'n rhoi cyfle ar gyfer gwarchodaeth bellach. Felly, rwy'n annog Aelodau'r Cynulliad i ystyried cefnogi'r gwelliannau penodol hyn.

18:04

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to rise in support of the amendments that have been tabled in the name of Bethan Jenkins. Like her, I've had significant engagement with different denominational groups, and I know that they do endorse amendment 68, which would require a list to be created of the most important—nationally important and internationally important—ecclesiastical buildings in Wales. I think that the fact of the matter is that we have, probably, too many buildings currently listed of an ecclesiastical nature, and it's important to try and identify the very best examples of those buildings which need protection. This is something that Mike Hedges has referred to very often in the past in this Chamber, and I fully supported him then; I hope he will be supporting these amendments now in order to see that list established and required by law.

Rwyf eisiau codi i gefnogi'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno yn enw Bethan Jenkins. Fel hithau, rwyf wedi cael ymgysylltiad sylweddol gyda gwahanol grwpiau enwadol, ac rwy'n gwybod eu bod yn cymeradwyo gwelliant 68, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i restr gael ei chreu o'r adeiladau eglwysig pwysicaf—pwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol—yng Nghymru. Credaf mai'r ffaith amdani yw bod gennym, yn ôl pob tebyg, ormod o adeiladau rhestredig ar hyn o bryd o natur eglwysig, ac mae'n bwysig i geisio nodi'r enghreifftiau gorau un o'r adeiladau hynny sydd angen eu gwarchod. Mae hyn yn rhywbeth y mae Mike Hedges wedi cyfeirio ato yn aml iawn yn y gorffennol yn y Siambr hon, ac roeddwn yn ei gefnogi'n llwyr bryd hynny; rwy'n gobeithio y bydd yn cefnogi'r gwelliannau hyn yn awr er mwyn gweld y rhestr honno yn cael ei sefydlu ac yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

We also know, of course, that there are many ecclesiastical buildings which are not currently listed, but which are very, very important to people around the world. There's Pisgah chapel, for example, in Loughor in Edwina Hart's constituency, which has no protection whatsoever afforded to it from the current listing process. This amendment 68 would allow for some protection to be afforded in law to that particular building in the future. We could list many examples, I'm sure, from across different parts of Wales.

Rydym hefyd yn gwybod, wrth gwrs, bod llawer o adeiladau eglwysig nad ydynt wedi'u rhestru ar hyn o bryd, ond sydd yn bwysig iawn, iawn i bobl ledled y byd. Mae capel Pisgah, er enghraifft, yng Nghasllwchwr yn etholaeth Edwina Hart, nad oes unrhyw warchodaeth o gwbl wedi'i rhoi iddo o'r broses restru gyfredol. Byddai'r gwelliant 68 hwn yn caniatáu rhoi rhywfaint o warchodaeth yn y gyfraith i'r adeilad penodol hwnnw yn y dyfodol. Gallem restru nifer o enghreifftiau, rwy'n siŵr, o wahanol rannau o Gymru.

Amendment 70 seeks to define what an ecclesiastical building is and, of course, that extends that definition not just to buildings themselves, but also to monuments and other sites which are primarily being used for some form of worship or spiritual activity.

Mae gwelliant 70 yn ceisio diffinio beth yw adeilad eglwysig ac, wrth gwrs, mae hynny'n ymestyn y diffiniad hwnnw nid yn unig i'r adeiladau eu hunain, ond hefyd i henebion a safleoedd eraill sy'n cael eu defnyddio yn bennaf ar gyfer rhyw fath o addoliad neu weithgaredd ysbrydol.

In terms of amendment 69 and the need for a review of the ecclesiastical exemptions, this is very, very important, particularly with the current context of decline in some of the denominations. The capacity of those denominations to meet their obligations under those exemptions is, in some cases, becoming more and more difficult, and whilst I appreciate that some of the long-standing more traditional denominations have significant capacity and a significant resource in terms of their assets, I think it is important that this is kept under review, and I do support the need for a periodic review of those exemptions. I think five years—once every Assembly term—is entirely appropriate for a Minister to be able to do that. You know, this isn't an onerous review; it simply needs to ensure that the checks and balances are in place so that those exemptions are operating effectively, and that they are not riding roughshod over the intentions of this legislature and the listing process, to ensure that those buildings are afforded the appropriate protections that they deserve. So, I support fully the amendments which have been tabled.

O ran gwelliant 69, a'r angen am adolygiad o'r eithriadau eglwysig, mae hyn yn bwysig iawn, iawn, yn enwedig gyda'r cyd-destun presennol o ddirywiad yn rhai o'r enwadau. Mae gallu'r enwadau hynny i fodloni eu rhwymedigaethau o dan yr eithriadau hynny, mewn rhai achosion, yn dod yn fwy a mwy anodd, ac er fy mod yn sylweddoli bod gan rai o'r enwadau mwy traddodiadol hirsefydlog allu sylweddol ac adnodd sylweddol o ran eu hasedau, rwy'n credu ei bod yn bwysig bod hyn yn cael ei gadw dan adolygiad, ac rwy'n cefnogi'r angen am adolygiad cyfnodol o'r eithriadau hynny. Rwy'n meddwl bod pum mlynedd—unwaith bob tymor Cynulliad—yn gwbl briodol i Weinidog fod yn gallu gwneud hynny. Wyddoch chi, nid yw hwn yn adolygiad beichus; yr unig beth y mae angen iddo wneud yw sicrhau bod y rhwystrau a'r gwrthbwysau wedi'u sefydlu fel bod yr eithriadau hynny'n gweithredu'n effeithiol, ac nad ydynt yn sathru ar fwriadau'r ddeddfwrfa hon a'r broses restru, er mwyn sicrhau bod yr adeiladau hynny yn cael y warchodaeth briodol y maent yn ei haeddu. Felly, rwy'n cefnogi'n llawn y gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno.

18:07

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ddatgan diddordeb fel un sydd yn bwrw gofal gweinidogaethol dros bedair o eglwysi'r annibynwyr yng nghylch Sanclêr? Mae'n amlwg, Ddirprwy Lywydd, ei bod hi'n bryd i mi ymddeol o'r lle yma i fwrw mwy o ofal drostyn nhw, oherwydd rwy'n cael fy hun yn cytuno â phob gair mae Darren Millar newydd ei ddweud, ac mae hynny yn codi rhywfaint o ofn arnaf fi. [Chwerthin.]

May I declare an interest as one who has ministerial care over four independent churches in the St Clears area? It's clear, Deputy Presiding Officer, that it's time for me to retire from this place to spend more time with them, because I find myself agreeing with every word that Darren Millar has said, and that is a cause of concern for me. [Laughter.]

Ond yng nghyd-destun gwelliannau 68 a 69, mae e yn llygad ei le, oherwydd mae angen y rhestr yma arnom ni, oherwydd rydym mewn perygl o golli rhai adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol, o bwysigrwydd treftadaeth ac o bwysigrwydd pensaernïol. Mae'r enghraifft o Pisgah yn Llwchwr, sydd heb unrhyw fath o warchodaeth yn y sefyllfa bresennol, yn un bwysig iawn. Ond fe ddylai'r rhestr yma fod yn rhestr gyfyngedig, oherwydd y gwir amdani ydy ein bod ni yn wynebu argyfwng yng nghyd-destun adeiladau crefyddol yng Nghymru—mae yna lawer iawn gormod ohonyn nhw. Nid oes galw amdanyn nhw bellach, ac y mae'n bwysig i ni sicrhau y dyddiau yma ein bod ni yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gyda ni, yn ogystal â'r ffaith ein bod ni yn wynebu sefyllfa lle mae yna gynulleidfaoedd bychain iawn yn ymgynnull mewn capeli ledled Cymru. Meddyliwch am y modd rydym ni yn gwastraffu ynni yn y capeli yma o ran goleuo a chynhesu y capeli yma dros y gaeaf yn gwbl ddiangen. Rydym yn sôn am argyfwng yng nghyd-destun creu ynni, ac rydym yn caniatáu y gwastraff yma i fodoli.

But in the context of amendments 68 and 69, he is entirely right, because we do need this list, because we are at risk of losing some buildings which are of historic importance, importance in terms of heritage and architectural importance. The example of Pisgah in Loughor, which has no kind of protection in the current scenario, is very important indeed. But this list should be limited, because the truth is that we are facing a crisis in the context of ecclesiastical and religious buildings in Wales—there are far too many of them. There is no demand for them now and it's important that we ensure, these days, that we make the best use of the resources that we have, in addition to the fact that we are facing a situation where there are very small congregations gathering in chapels across Wales. Just think of the way that we're wasting energy in these chapels in terms of heating and lighting the chapels over the winter months. We are talking of a crisis in terms of energy generation, and we're allowing this waste to happen.

Felly, er bod yna gapeli fel Pisgah sydd heb unrhyw fath o amddiffynfa, mae yna rai adeiladau sydd o ddim gwerth hanesyddol mawr, ac sydd ddim yn unigryw mewn unrhyw ffordd, sydd yn cael eu gwarchod ym mhob math o ffyrdd. Maen nhw wedi eu rhestru, ac weithiau wedi eu rhestru'n fanwl iawn, i'r graddau ei bod hi bron yn amhosibl i wneud unrhyw ddefnydd amgen ohonyn nhw. Ac felly, mae'n bwysig iawn, yn ogystal â'r elfen o warchod, Weinidog, eich bod chi yn sicrhau bod yna fodd i ddefnyddio yr adeiladau yma mewn ffordd llawer iawn mwy buddiol yn y gymdeithas sydd ohoni.

So, although there are chapels like Pisgah that have no protection at all, there are some buildings that are of no historic value, or no great historic value, which are not unique in any way, which are protected in all sorts of ways. They are listed, and often listed in very great detail, to the extent that it's virtually impossible to make any alternative use of them whatsoever. And therefore it's very important, in addition to the element of protection, Minister, that you also ensure that there is a means of using these buildings in a way which is far more beneficial to our communities.

Gadewch inni gofio bod yr adeiladau hyn yn rhai cymunedol. Yn aml iawn, maen nhw wedi cael eu rhoi i'r gymuned grefyddol i addoli fel mae'n digwydd bod, ond asedau cymunedol ydyn nhw. Felly, fe fyddai'n dda o beth i Lywodraeth Cymru ofyn, 'Sut y gallwn ni wneud defnydd cymunedol o'r adeiladau hyn a hwyluso eu defnydd cymunedol nhw?' Mae yna lawer iawn o enwadau ac yn sicr llawer iawn o gapeli unigol, os ŷch chi'n sôn am enwad fel enwad yr annibynwyr yng Nghymru, sydd â sofraniaeth yr eglwys leol. Rŷch chi'n mynd i wynebu sefyllfa, yn fuan iawn, lle mae yna ddau neu dri o ymddiriedolwyr yn eu 70au ac yn eu 80au yn trio dygymod â beth i'w wneud â chapel sydd ddim yn cael ei ddefnyddio bellach. Mae'n bwysig bod yna hwylustod i'r ased hwnnw gael ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol iawn ar gyfer y gymuned.

Let's remember that these are community buildings. Very often, they have been given to the religious community for worship, but they are community assets. So, it would be very positive if the Welsh Government were to ask, 'How can we make community use of these buildings and facilitate their community use?' There are very many denominations, and certainly very many individual chapels if you are talking about denominations such as the union of Welsh independents, which safeguards the sovereignty of the local church and chapel. You're going to face a situation very soon, where, two or three trustees in their 70s and 80s are trying to cope and decide what to do with a disused chapel. It is important that asset can be used in an alternative, different way for the community.

Felly, gadewch inni ofyn y cwestiwn: a oes yna fodd inni ryddhau'r capeli hyn i gael eu defnyddio fel tai cymdeithasol, neu dai ar gyfer yr henoed, neu adeiladau ar gyfer gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol o wahanol fathau? Rwy'n derbyn, Weinidog, nad oes modd cynnwys hyn i gyd o fewn y Bil yma, ond fe fyddwn ni'n falch iawn i glywed beth rydych chi'n bwriadu ei wneud y tu allan i'r Bil yma i sicrhau ein bod ni'n gallu wynebu'r argyfwng yma, ac o leiaf eich bod chi'n rhyddhau dwylo pobl i wneud penderfyniadau ac i'w galluogi nhw i sicrhau nad yw'r adeiladau hyn yn cael eu gadael i fynd, heb eu defnyddio ac i fynd i gyflwr peryglus a neb yn gallu gwneud dim amdanyn nhw.

So, let's ask the question: is there a means for us to release these chapels to be used for social housing, or for homes for older people, or buildings for community and social activities of different kinds? Now, I accept, Minister, that we can't include all of this within this particular Bill, but I'd be very pleased to hear what exactly you intend to do outwith the scope of this Bill to ensure that we can face this crisis and that you at least free people up to make decisions and to enable them to ensure that these buildings aren't allowed to fall into disrepair, not used and falling into a condition that is often dangerous where nobody can do anything about that.

Felly, rwyf i'n eich annog chi i gefnogi gwelliant 68 er mwyn sicrhau bod y rhestr yma gyda ni, ond rwy'n eich annog chi hefyd i sicrhau, yng nghyd-destun llawer iawn o adeiladau eraill, fod yna ryddhad iddyn nhw gael eu defnyddio mewn ffordd wahanol ac ein ni'n gweld yr asedau cymunedol pwysig yma yn cael eu defnyddio o'r newydd yn ein cymdeithas ni.

So, I do encourage you to support amendment 68 in order to ensure that this list is in place, but I would also encourage you to ensure, in the context of very many other buildings, that they can be released for use in alternative ways, and that we do see these important community assets being used anew in our communities.

18:12

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, this group of amendments relates very much to the contemporary use of historic and, in this case, religious buildings. Members may be aware of the recently published strategic action plan for historic places of worship in Wales, which demonstrates our determination to work with the sector to find sustainable futures for our religious buildings, whether they be for individual use as homes, or for collective use for communities as community centres or libraries or even gyms or pubs.

Wel, mae'r grŵp hwn o welliannau yn ymwneud yn fawr iawn â'r defnydd cyfoes o adeiladau hanesyddol ac, yn yr achos hwn, crefyddol. Efallai fod Aelodau yn ymwybodol o'r cynllun gweithredu strategol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer mannau addoli hanesyddol yng Nghymru, sy'n dangos ein bod yn benderfynol o weithio gyda'r sector i ganfod dyfodol cynaliadwy ar gyfer ein hadeiladau crefyddol, boed hynny ar gyfer defnydd unigol fel cartrefi, neu i'w defnyddio ar y cyd ar gyfer cymunedau fel canolfannau cymunedol neu lyfrgelloedd neu hyd yn oed gampfeydd neu dafarndai.

Last week, I attended the first meeting of the forum convened to support the strategic action plan for historic places of worship, which, of course, brought together those responsible for caring for our religious buildings and I was impressed by their determination and enthusiasm for sharing information and finding solutions to the challenges faced by our religious buildings that Rhodri Glyn Thomas has outlined. The Members recognise the need for a more detailed picture of risks and pressures, which might eventually result in a list of religious buildings at risk that would be helpful in identifying conservation priorities. However, the forum did not regard a list as an end in itself. They were also aware that it would be all too easy to overlook the local value of the buildings—a definite risk with a top-down list.

Yr wythnos diwethaf, es i i gyfarfod cyntaf y fforwm a alwyd at ei gilydd i gefnogi'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer mannau addoli hanesyddol, a wnaeth, wrth gwrs, ddwyn ynghyd y rhai sy'n gyfrifol am ofalu am ein hadeiladau crefyddol a gwnaed argraff arnaf gan eu penderfyniad a'u brwdfrydedd ar gyfer rhannu gwybodaeth a chanfod atebion i'r heriau a wynebir gan ein hadeiladau crefyddol y mae Rhodri Glyn Thomas wedi'u hamlinellu. Mae'r Aelodau yn cydnabod yr angen am ddarlun mwy manwl o risgiau a phwysau, a allai yn y pen draw arwain at restr o adeiladau crefyddol mewn perygl a fyddai'n ddefnyddiol wrth nodi blaenoriaethau cadwraeth. Fodd bynnag, nid oedd y fforwm yn ystyried rhestr fel diben ynddo'i hun. Roeddent hefyd yn ymwybodol y byddai'n rhy hawdd anghofio gwerth lleol yr adeiladau—risg bendant gyda rhestr o'r brig i lawr.

Deputy Presiding Officer, I am therefore aware of the concern about the future of Wales's historic places of worship, but I cannot support these amendments. The proposed list of ecclesiastical buildings is unnecessary, since the Welsh Ministers already designate religious buildings and monuments of national importance. More significant is how religious buildings, like other historic buildings, are put to use in the twenty-first century.

Ddirprwy Lywydd, rwyf, felly, yn ymwybodol o'r pryder am ddyfodol mannau addoli hanesyddol Cymru, ond ni allaf gefnogi'r gwelliannau hyn. Mae'r rhestr arfaethedig o adeiladau eglwysig yn ddiangen, gan fod Gweinidogion Cymru eisoes yn dynodi adeiladau crefyddol a henebion o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae sut y mae adeiladau crefyddol, fel adeiladau hanesyddol eraill, yn cael eu defnyddio yn yr unfed ganrif ar hugain yn bwysicach.

The amendment relating to ecclesiastical exemption is also not needed, since the Welsh Ministers already regularly review the operation of the order and have made a commitment to the sector to update the guidance for exempt denominations.

Hefyd, nid oes angen y gwelliant yn ymwneud ag eithriad eglwysig, gan fod Gweinidogion Cymru eisoes yn adolygu gweithrediad y gorchymyn yn rheolaidd ac wedi gwneud ymrwymiad i'r sector i ddiweddaru'r canllawiau ar gyfer enwadau eithriedig.

18:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bethan Jenkins to reply.

Bethan Jenkins i ateb.

18:14

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you to all who have contributed. I just want to say on the Minister's final point with regard to 'regularly review', the last review that happened was in 2004 and the previous one before that was some time away. That was in a briefing that we had from Cytûn, so I don't actually agree with you when you say that it's regular. And it's at the whim of an individual Minister to decide as to when he or she carries out that review under the current process. So, all this amendment would mean is that there would be a regular process within the system. It's not trying to take them out of that exemption; it's trying to say, 'Look, you have that exemption'—although I believe it's out of date—'and you then need to tell us exactly what you are doing with your stock, with your buildings, in relation to having that exemption. So, I would have liked to have had a firm commitment from you because your definition of 'regular' and my definition of 'regular' are very different.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Rwyf eisiau dweud ar bwynt olaf y Gweinidog ynglŷn ag 'adolygu'n rheolaidd', yr adolygiad diwethaf a ddigwyddodd oedd yn 2004 ac roedd yr un blaenorol cyn hynny gryn amser i ffwrdd. Roedd hynny mewn briffio a gawsom gan Cytûn, felly nid wyf yn cytuno mewn gwirionedd gyda chi pan eich bod yn dweud ei fod yn rheolaidd. Ac mae'n dibynnu ar fympwy Gweinidog unigol i benderfynu ynglŷn â phryd y mae ef neu hi yn gwneud yr adolygiad hwnnw o dan y broses bresennol. Felly, y cyfan y mae'r gwelliant hwn yn ei olygu yw y byddai proses reolaidd o fewn y system. Nid yw'n ceisio eu tynnu nhw allan o'r eithriad hwnnw; mae'n ceisio dweud, 'Edrychwch, mae gennych yr eithriad hwnnw'—er fy mod yn credu ei fod wedi dyddio—'ac mae angen wedyn i chi ddweud wrthym yn union beth yr ydych chi'n ei wneud gyda'ch stoc, gyda'ch adeiladau, o ran bod gennych yr eithriad hwnnw. Felly, byddwn wedi hoffi cael ymrwymiad cadarn oddi wrthych oherwydd bod eich diffiniad o 'rheolaidd' a fy niffiniad i o 'rheolaidd' yn wahanol iawn.

I liked Rhodri Glyn Thomas's impassioned speech about why these amendments are so vital and why the listing is important—as, too, did Darren Millar, and I don't usually agree very much with Darren either. But, on this, we do agree, because I believe that it's of historic importance and I think it's something that the Government could have moved on, especially with regard to the review process.

Hoffais araith angerddol Rhodri Glyn Thomas am pam mae'r gwelliannau hyn mor hanfodol a pham mae'r rhestru yn bwysig—fel, hefyd, y gwnaeth Darren Millar, ac nid wyf fel arfer yn cytuno llawer â Darren ychwaith. Ond, ar hyn, rydym yn cytuno, oherwydd credaf ei fod o bwys hanesyddol ac rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y gallai'r Llywodraeth fod wedi ei symud ymlaen, yn enwedig o ran y broses adolygu.

I'm not going to be speaking again today, so I will take the opportunity to say that I don't think that any of the amendments that we've put forward—. In fact, we've had people like Alun Davies stand up twice now supporting the aims of some of my amendments while voting against them. So, we've had support from wider society and we've had support from the public at large, and it's actually been quite demoralising that the passion has been sucked out of this debate by virtue of the fact that the Government have been so hesitant to at least come halfway on many of these amendments. Reporting to the Assembly every five years, guidance on certain issues, reviews of certain processes—these are not things that are revolutionary by any stretch of the imagination. We would have liked to have seen a consolidation Bill. We worked positively within this particular structure because of the constraints that you put on yourself, Minister, by saying that you didn't have the time or the legislative resources that come forward with a consolidation Bill. So, at least give us the credit for coming up with amendments that we wanted to see for better policy and more for Wales—not for me as an individual Assembly Member, because I don't get credit from that, but for Wales and the future of our society and the protection of our heritage. I think that's something that, potentially, you can think about before we vote on this Bill next week.

Ni fyddaf yn siarad eto heddiw, felly byddaf yn achub ar y cyfle i ddweud nad wyf yn credu bod unrhyw un o'r gwelliannau yr ydym wedi eu cyflwyno—.Mewn gwirionedd, rydym wedi cael pobl fel Alun Davies yn sefyll i fyny ddwywaith yn awr yn cefnogi amcanion rhai o fy ngwelliannau ond yn pleidleisio yn eu herbyn. Felly, rydym wedi cael cefnogaeth gan gymdeithas ehangach ac rydym wedi cael cefnogaeth gan y cyhoedd yn gyffredinol, ac mae wedi bod yn eithaf digalon bod yr angerdd wedi ei sugno allan o'r ddadl hon yn rhinwedd y ffaith bod y Llywodraeth wedi bod mor betrusgar mewn gwirionedd i ddod o leiaf hanner ffordd ar lawer o'r gwelliannau hyn. Adrodd i'r Cynulliad bob pum mlynedd, arweiniad ar faterion penodol, adolygiadau o rai prosesau—nid yw'r rhain yn bethau sy'n chwyldroadol o bell ffordd. Byddem wedi hoffi gweld Bil cydgrynhoi. Gwnaethom weithio'n gadarnhaol o fewn y strwythur penodol hwn oherwydd y cyfyngiadau a roesoch arnoch chi eich hun, Weinidog, drwy ddweud nad oedd gennych yr amser na'r adnoddau deddfwriaethol sy'n dod gyda Bil cydgrynhoi. Felly, o leiaf rhowch y clod i ni am feddwl am welliannau yr oeddem yn dymuno eu gweld ar gyfer gwell polisi a mwy ar gyfer Cymru—nid i mi fel Aelod Cynulliad unigol, gan nad wyf yn cael clod am hynny, ond ar gyfer Cymru a dyfodol ein cymdeithas a diogelu ein treftadaeth. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y gallwch, o bosibl, feddwl amdano cyn i ni bleidleisio ar y Bil hwn yr wythnos nesaf.

18:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 68 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27, and I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 68 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn, ac rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 68: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 68 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 68.

Result of the vote on amendment 68.

18:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bethan Jenkins, amendment 69.

Bethan Jenkins, gwelliant 69.

*Cynigiwyd gwelliant 69 (Bethan Jenkins, gyda chefnogaeth Darren Millar).*

*Amendment 69 (Bethan Jenkins, supported by Darren Millar) moved.*

18:18

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Moved.

Ie. Cynigiaf.

18:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 69 is not agreed, amendments 70, 57 and 55 fall. The question is that amendment 69 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27, and I cast my vote against the amendment, which falls.

Os nad yw gwelliant 69 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 70, 57 a 55 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 69 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn, ac rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 69: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 69 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 69.

Result of the vote on amendment 69.

*Methodd gwelliannau 70, 57 a 55.*

*Amendments 70, 57 and 55 fell.*

### Grŵp 16: Rheoliadau a Gorchmynion, Dod i Rym (Gwelliannau 91, 92, 31, 93)

### Group 16: Regulations, Orders and Coming into Force (Amendments 91, 92, 31, 93)

18:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The final group of amendments relates to regulations, Orders and the coming-into-force provisions. The lead amendment in this group is amendment 91, and I call on Suzy Davies to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp olaf o welliannau yn ymwneud â rheoliadau, Gorchmynion a darpariaethau yn dod i rym. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 91, a galwaf ar Suzy Davies i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

*Cynigiwyd gwelliant 91 (Suzy Davies).*

*Amendment 91 (Suzy Davies) moved.*

18:18 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. The last group. I move amendments 91 and, in speaking to all the amendments in this group, come back to what should be a core principle of our legislation. It is a legislature that passes primary legislation, and if the Government of the day wishes to amend that legislation, then it needs the permission of a legislature to do that. It matters not whether the Government considers it trivial, technical or minor. It is for the legislature to decide whether a change deserves a minute of its time or more. Often, of course, it will be just a minute and there will be no delay to the Government's plans to progress with its intention. What it might do is sharpen up that Government's horizon-scanning and attention to detail.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Y grŵp olaf. Rwy'n cynnig gwelliannau 91 ac, wrth siarad am yr holl welliannau yn y grŵp hwn, rwy'n dod yn ôl at yr hyn a ddylai fod yn egwyddor graidd ein deddfwriaeth. Deddfwrfa sy'n pasio deddfwriaeth sylfaenol yw hod, ac os yw Llywodraeth y dydd yn dymuno diwygio'r ddeddfwriaeth honno, yna mae angen caniatâd deddfwrfa i wneud hynny. Nid yw o bwys pa un a yw'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn ddibwys, yn dechnegol neu'n fân. Mater i'r ddeddfwrfa yw penderfynu a yw newid yn haeddu munud o'i hamser neu fwy. Yn aml, wrth gwrs, dim ond munud fydd hynny ac ni fydd unrhyw oedi i gynlluniau'r Llywodraeth i symud ymlaen â'i bwriad. Yr hyn y gallai ei wneud yw hogi'r broses o sganio'r gorwel gan y Llywodraeth honno a'i sylw i fanylion.

Section 40 of the Bill introduces a new provision into the 1979 Act. It is our old friend the power for Welsh Ministers to make any supplemental, consequential, transitory, transitional or saving provision as they think appropriate. The Deputy Minister, before the Constitutional and Legislative Affairs Committee, explained that Welsh Ministers needed this section because the Government couldn't realistically be expected to spot every loophole created or even every tiny drafting change that this Bill would require to the two main pieces of the UK legislation on which this Bill is based. Members, I don't think we should be rewarding the Welsh Government for failing to consolidate that legislation in this Bill by giving it an unfettered power now to do what it likes. Drafting this Bill must have been a nightmare, and trying to amend it has been even worse. I would like to take this opportunity to thank the Commission's policy and legislative team for helping opposition parties with this.

Mae Adran 40 y Bil yn cyflwyno darpariaeth newydd i Ddeddf 1979. Ein hen gyfaill ydyw, y pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, ganlyniadol, dros dro, drosiannol neu arbed y maent yn ystyried yn briodol. Cyn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, eglurodd y Dirprwy Weinidog fod angen yr adran hon ar Weinidogion Cymru oherwydd na ellid disgwyl yn realistig i'r Llywodraeth weld pob bwlch a grëwyd neu hyd yn oed pob newid drafftio bach y byddai'r Bil hwn yn eu mynnu i ddau brif ddarn o ddeddfwriaeth y DU y mae'r Bil hwn yn seiliedig arnynt. Aelodau, nid wyf yn meddwl y dylem fod yn gwobrwyo Llywodraeth Cymru am fethu â chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth honno yn y Bil hwn drwy roi pŵer dilyffethair yn awr iddi wneud fel y mae'n dewis. Mae'n rhaid bod drafftio'r Bil hwn wedi bod yn hunllef, ac mae ceisio ei newid wedi bod hyd yn oed yn waeth. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i dîm polisi a deddfwriaethol y Comisiwn am helpu gwrthbleidiau gyda hyn.

Amendment 91 was merely a straight call to delete, Deputy Minister. This insertion offends on too many levels despite its innocuous words. However, I'd like to attach the affirmative procedure to it so that we can be sure that any amendments to primary legislation that the Government might want under this section are also innocuous and not as wide-ranging as this wording actually allows. Moreover, if the Government thinks that the affirmative procedure is good enough for new regulations about heritage partnership agreements, then it is equally appropriate for new regulations relating to reviews of scheduling and listing decisions, the latter being the subject of amendment 92. I don't see a distinction sufficient to justify the application of different procedures. So, perhaps you can explain that, Deputy Minister, in your response.

Galwad uniongyrchol i ddileu yn unig oedd gwelliant 91, Ddirprwy Weinidog. Mae'r mewnosodiad hwn yn tramgwyddo ar ormod o lefelau er gwaethaf ei eiriau diniwed. Fodd bynnag, hoffwn i atodi'r weithdrefn gadarnhaol iddo fel y gallwn fod yn sicr bod unrhyw welliannau i ddeddfwriaeth sylfaenol y gallai'r Llywodraeth fod eu heisiau o dan yr adran hon hefyd yn ddiniwed ac nad ydynt mor eang ag y mae'r geiriad hwn mewn gwirionedd yn ei ganiatáu. Hefyd, os yw'r Llywodraeth yn credu bod y weithdrefn gadarnhaol yn ddigon da ar gyfer rheoliadau newydd am gytundebau partneriaeth treftadaeth, yna mae yr un mor briodol ar gyfer rheoliadau newydd yn ymwneud ag adolygiadau o benderfyniadau cofrestru a rhestru, yr olaf yn destun gwelliant 92. Nid wyf yn gweld gwahaniaeth sy'n ddigon i gyfiawnhau defnyddio gwahanol weithdrefnau. Felly, efallai y gallwch esbonio hynny, Ddirprwy Weinidog, yn eich ymateb.

Finally, amendment 93 ensures that some procedure is attached to commencement orders to reassure the Assembly that any transitional powers contained within them do not exceed simple commencement. Thank you.

Yn olaf, mae gwelliant 93 yn sicrhau bod rhywfaint o weithdrefn ynghlwm wrth orchmynion cychwyn i roi sicrwydd i'r Cynulliad nad yw unrhyw bwerau trosiannol a geir ynddynt yn fwy na chychwyn syml. Diolch.

18:21 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's to the issue of consolidation that I would also like to turn. I'd like to take the opportunity to congratulate the Deputy Minister. This is the first piece of legislation, I think, he's taken through this place, and I'd like to congratulate him on the way in which he steered both the debate this afternoon and also the debate in committee at Stage 2. In doing so, I think—[Interruption.] I'm going to carry on whatever you say. [Laughter.] In doing so, I think we all recognise that the Bill, whilst much-needed and which will make a significant difference to the protection of the historic environment of this country, largely amends two Acts, as well as introducing two additional sets of standard and provision, by amending the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 and the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990. It does introduce a serious amount of difficulties in understanding and being able to read the statute book and where the legislation actually stands on this subject. This is something that, as a member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, we have referred to on a number of occasions, and the Welsh Government has, at different times, acknowledged the need for consolidation of legislation of this sort. I assume this is probably a matter for the First Minister rather than for the Deputy Minister this afternoon, but this is an area that cannot simply be allowed to continue in this way. Whatever decisions we take this afternoon, we do need to look both at this piece of legislation and how intelligent it will be to people in future who will need to use this legislation, but we also need to look at other pieces of legislation that go through this place to ensure that we do have a consolidated statute book that is open and accessible to people on whose behalf we pass this legislation.

Hoffwn innau hefyd droi at y mater o gydgrynhoi. Hoffwn achub ar y cyfle i longyfarch y Dirprwy Weinidog. Dyma'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth, rwy'n meddwl, y mae wedi mynd ag ef drwy'r lle hwn, a hoffwn ei longyfarch ar y ffordd y mae wedi llywio'r ddadl y prynhawn yma a hefyd y ddadl yn y pwyllgor yng Nghyfnod 2. Wrth wneud hynny, rwy'n meddwl— [Torri ar draws.] Rwyf i'n mynd i barhau beth bynnag yr ydych yn ei ddweud. [Chwerthin.] Wrth wneud hynny, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn cydnabod bod y Bil, er bod ei angen yn fawr ac y bydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddiogelu amgylchedd hanesyddol y wlad hon, yn bennaf yn diwygio dwy Ddeddf, yn ogystal â chyflwyno dwy gyfres ychwanegol o safon a darpariaeth, drwy ddiwygio Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae yn cyflwyno nifer fawr o anawsterau o ran deall a gallu darllen y llyfr statud a lle mae'r ddeddfwriaeth mewn gwirionedd yn sefyll ar y pwnc hwn. Mae hyn yn rhywbeth, fel aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yr ydym wedi cyfeirio ato ar sawl achlysur, ac mae Llywodraeth Cymru, ar wahanol adegau, wedi cydnabod yr angen i gyfuno deddfwriaeth o'r fath. Rwy'n cymryd yn ganiataol bod hwn yn ôl pob tebyg yn fater i'r Prif Weinidog yn hytrach nag i'r Dirprwy Weinidog y prynhawn yma, ond mae hwn yn faes yn syml na ellir caniatau iddo barhau yn y ffordd hon. Pa bynnag benderfyniadau a gymerwn y prynhawn yma, mae angen i ni edrych ar y darn hwn o ddeddfwriaeth a pha mor gall y bydd i bobl yn y dyfodol y bydd angen iddynt ddefnyddio'r ddeddfwriaeth hon, ond mae angen inni hefyd edrych ar ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy'r lle hwn er mwyn sicrhau bod gennym lyfr statud cyfunol sy'n agored ac yn hygyrch i bobl y byddwn yn pasio'r ddeddfwriaeth hon ar eu rhan.

So, I hope that the leadership of this National Assembly—because I don't think it's simply a matter for this Government; the National Assembly itself must look at this matter—needs to, at the beginning of the next Assembly, look at how existing legislation can be consolidated, and that this particular Bill, or this Act, will then perhaps be consolidated—

Felly, rwy'n gobeithio bod angen i arweinyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol hwn—oherwydd nid wyf yn credu ei fod yn fater dim ond i'r Llywodraeth hon; mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun edrych ar y mater hwn— ar ddechrau'r Cynulliad nesaf, edrych ar sut y gellir cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol, ac y bydd y Bil arbennig hwn, neu'r Ddeddf hon, efallai yn cael ei chydgrynhoi wedyn—

18:23 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel cyd-Aelod ar y pwyllgor cyfansoddiadol, rwy'n gofidio mewn ffordd nad yw Llywodraeth Cymru, yn fwy na Llywodraeth San Steffan, wedi cymryd mantais o'r cyngor cyfreithiol sydd i'w gael, er enghraifft, gan Gomisiwn y Gyfraith, a allai yn wir wneud y gwaith yma ac a fyddai'n barod i wneud y gwaith. Rwy'n meddwl ei bod hi'n hen bryd i ni fynd i ofyn am gyngor felly, fel y gallwn ni gael rhaglen o gadarnhau deddfau gwell a chrynhoi deddfau'n well ar gyfer Cymru.

As a fellow member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, I am a little concerned that the Welsh Government, more than the Westminster Government, has not taken advantage of the legal advice available, for example, from the Law Commission, which could indeed do this work and would be willing to do this work. I think it's about time that we sought such advice, so that we can have a programme for better legislation and better consolidate our legislation for Wales.

18:24 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n cytuno â'r pwynt y mae'r Aelod wedi'i wneud.

I agree with the point that the Member made.

The Law Commission is currently, I think, still consulting on these matters, and I think, when the Law Commission does report on this matter—I think around the time of our own election—that will be an opportunity for us to look at the Welsh statute book and ensure that the Welsh statute book is accessible to people on whose behalf it exists.

Mae Comisiwn y Gyfraith ar hyn o bryd, rwy'n credu, yn dal i ymgynghori ar y materion hyn, ac rwy'n credu, pan fydd Comisiwn y Gyfraith yn adrodd ar y mater hwn—rwy'n credu o gwmpas adeg ein hetholiad ni—bydd yn gyfle i ni edrych ar lyfr statud Cymru a sicrhau bod llyfr statud Cymru yn hygyrch i bobl y mae'n bodoli ar eu rhan.

18:24 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank Members for their generous words—some of them? [Laughter.] I will not be supporting amendments 91, 92 and 93, which I believe unreasonably subject certain secondary instruments to the affirmative procedure in the National Assembly for Wales. But Government amendment 31 requires an Order to commence the provisions relating to the recovery of costs for urgent works rather than having them come into effect two months after Royal Assent.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am eu geiriau caredig—rhai ohonynt? [Chwerthin.] Ni fyddaf yn cefnogi gwelliannau 91, 92 a 93, yr wyf yn credu sy'n gwneud rhai offerynnau eilaidd penodol yn ddarostyngedig, yn afresymol, i'r weithdrefn gadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Ond mae gwelliant 31 y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i gael Gorchymyn i gychwyn y darpariaethau sy'n ymwneud ag adennill costau ar gyfer gwaith brys yn hytrach na'u cael yn dod i rym ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

18:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Suzy Davies to reply.

A Suzy Davies i ateb.

18:25 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dirprwy Lywydd, I think my silence at this stage would be much appreciated. [Laughter.]

Ddirprwy Lywydd, rwy'n meddwl y byddai fy nhawelwch ar y cam hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr. [Chwerthin.]

18:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 91 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 91 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 91: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 91 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 91.

Result of the vote on amendment 91.

18:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 53.

Peter Black, gwelliant 53.

*Cynigiwyd gwelliant 53 (Peter Black [R]).*

*Amendment 53 (Peter Black [R]) moved.*

18:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

18:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 53 be agreed. Does any Member object? Then amendment 53 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 53 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 53 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 53 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 53 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:25

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Suzy Davies, amendment 92.

Suzy Davies, gwelliant 92.

*Cynigiwyd gwelliant 92 (Suzy Davies).*

*Amendment 92 (Suzy Davies) moved.*

18:26

### Suzy Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Move.

Cynnig.

18:26

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 92 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 92 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Gwrthodwyd gwelliant 92: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 92 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 92.]

[Result of the vote on amendment 92.]

18:26

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Peter Black, amendment 54.

Peter Black, gwelliant 54.

*Cynigiwyd gwelliant 54 (Peter Black [R]).*

*Amendment 54 (Peter Black [R]) moved.*

18:26

### Peter Black [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Move.

Cynnig.

18:26

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 54 be agreed. Does any Member object? Then amendment 54 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 54 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 54 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 54 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 54 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:26

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, amendment 29.

Weinidog, gwelliant 29.

*Cynigiwyd gwelliant 29 (Kenneth Skates).*

*Amendment 29 (Kenneth Skates) moved.*

18:26

### Kenneth Skates [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move.

Rwy'n cynnig.

18:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 29 is not agreed, amendment 30 falls. The question is that amendment 29 be agreed. Does any Member object? Then amendment 29 is agreed.

Os nad yw gwelliant 29 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 30 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 29 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 29 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 29 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 29 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 30.

Weinidog, gwelliant 30.

*Cynigiwyd gwelliant 30 (Kenneth Skates).*

*Amendment 30 (Kenneth Skates) moved.*

18:26 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

18:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 30 be agreed. Does any Member object? Then amendment 30 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 30 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 30 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 30 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 30 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 43.

Peter Black, gwelliant 43.

*Cynigiwyd gwelliant 43 (Peter Black [R]).*

*Amendment 43 (Peter Black [R]) moved.*

18:26 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

18:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 43 be agreed. Does any Member object? Then amendment 43 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 43 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 43 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 43 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 43 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black, amendment 44.

Peter Black, gwelliant 44.

*Cynigiwyd gwelliant 44 (Peter Black [R]).*

*Amendment 44 (Peter Black [R]) moved.*

18:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

18:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 44 be agreed. Does any Member object? Then amendment 44 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 44 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 44 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 44 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 44 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 31.

Weinidog, gwelliant 31.

*Cynigiwyd gwelliant 31 (Kenneth Skates).*

*Amendment 31 (Kenneth Skates) moved.*

18:26

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

18:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 31 be agreed. Does any Member object? Then amendment 31 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 31 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 31 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 31 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 31 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Suzy Davies, amendment 93.

Suzy Davies, gwelliant 93.

*Cynigiwyd gwelliant 93 (Suzy Davies).*

*Amendment 93 (Suzy Davies) moved.*

18:27

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Move.

Cynnig.

18:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 93 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27. I cast my vote against the amendment, which falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 93 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sy'n methu felly.

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

*Gwrthodwyd gwelliant 93: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 93 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 93.

Result of the vote on amendment 93.

18:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 19.

Weinidog, gwelliant 19.

*Cynigiwyd gwelliant 19 (Kenneth Skates).*

*Amendment 19 (Kenneth Skates) moved.*

18:27

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

18:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 19 be agreed. Does any Member object? Then amendment 19 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 19 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 19 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 19 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 20.

Weinidog, gwelliant 20.

*Cynigiwyd gwelliant 20 (Kenneth Skates).*

*Amendment 20 (Kenneth Skates) moved.*

18:27

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

18:27

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 20 be agreed. Does any Member object? Then amendment 20 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 20 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 20 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 20 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 17.

Weinidog, gwelliant 17.

*Cynigiwyd gwelliant 17 (Kenneth Skates).*

*Amendment 17 (Kenneth Skates) moved.*

18:28

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

18:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 17 be agreed. Does any Member object? Then amendment 17 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 17 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 17 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 17 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, amendment 18.

Weinidog, gwelliant 18.

*Cynigiwyd gwelliant 18 (Kenneth Skates).*

*Amendment 18 (Kenneth Skates) moved.*

18:28

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move.

Rwy'n cynnig.

18:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 18 be agreed. Does any Member object? Then amendment 18 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 18 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff gwelliant 18 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 18 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Historic Environment (Wales) Bill. I declare that all sections and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings, and that concludes today’s proceedings.

Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o Fil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Rwyf yn datgan yr ystyrir y cytunwyd ar yr holl adrannau ac Atodlenni i'r Bil. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3, ac mae hynny’n dod â thrafodion heddiw i ben.

*Barnwyd y cytunwyd ar bob adran o’r Bil.*

*All sections of the Bill deemed agreed.*

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:28.*

*The meeting ended at 18:28.*